DWY Daith i

GAERSALEM.

Yn Cynwys yn Gyntaf, Hanes cywir a rhyfeddol o Ymdaith Dau Bererin o *Loegr* er ys Blynyddoedd, a pha ddigwyddiadau a fu iddynt yn eu Hymdaith o *Gaersalem Grand Cairo, Alexandria* &c.

Yn Ail, Ymdaith pedwar Gwr ar ddeg o *Saeson*, yn y Flwyddyn 1669. o *Scanderoon* i *Dripoli, Joppa, Ramah, Caersalem, Bethlehem, Jericho*, Afon yr *Jorddonen*, Llynn *Sodom* a *Gomorah*, &c. Ynghyd a Hên bethau, tystiolaethau a Choffadwriaethau lleoedd a sonir am danynt yn yr Ysgrythyr gan T. B.

At ba un y Chwanegwyd.

Gwiwgof Amlygol ar Gyflwr yr Iddewon Genedl gynt ac yn ddiweddar, sef Deserifiad y Tir Sanctaidd, ei Gosgorddiad. Ffrwythlondeb &c. 2. Amryw Gaethgludiad yr Juddewon yn ôl iddynt feddianu'r lle. 3 Amcan a Thebygolion pa beth a ddaeth o'r Dêg Llwyth a Gaethgludodd yr *Assuriaid*, ag amryw Hanesion perthynasol i hynny. 4. Cyflwr yr Juddewon er pan aethant ar Alltudiaeth, o helynt bresenol *Palestine*.

Ynghyd ag Ymmadrodd ynghylch y Gynghorfa fawr a gynhaliodd yr Juddewon yngwastadedd *Adjady* yn *Hungaria*. yn y flwyddyn 1650 i chwilio yr Ysgrythyrau ynghylch Christ. gan S. B. Sa is oedd yn y mann ar lle.

Gyda Rhyfeddol Siomedigaeth yr Juddewon gan gau Ghrist yn *Smyrna* 1666.

Yn ddiweddaf y Dynghedfol a therfynol Ddestrywiad yr Juddewon ym *Mhersia* yn y flwyddyn 1666 ar Achosion o hynny.

O Gasgliad R. B. yn Saesneg a Chyfieithiad *William Lewes* yn ddiweddar or *Llwyn Derw* yn Sir *Gerfyrddin*, Wr Bonheddig.

Argraphwyd yn y *Mwythig* gan *John Rhydderch* ac ar Werth ganddo ef yno.

At y Darllenydd.

YR *Ymadroddion canlynol ſy 'n cynnwys matterion tra yſtyriol a bynod, ni allant lai, yn ddiau na rhyngu bodd pob rhyw Ddarllenydd bynaws; canys fe fydd yn rhyw byfrydwch i ddal ſulw pa Ryfeddodau a adroddir am y lleoedd enwog gynt, yn, ac o amgylch* Caerſalem, *a pha Chwedleu newydd a chwanegir a beunydd, megis ac y bydd eu plaid, (bynny yw er budd) yr Offeiriaid.*

Am y Gyngborfa fawr yn Hungaria *yn y Elwyddyn* 1650 *a'r rhyfeddol amryfuſſedd a oreſgynaſſai 'r Iddewon, trwy Feſſiab twyllodrus a gau Griſt, yn, ac o amgylch* Smyrna, *ac amryw Wledydd eraill, befyd eu llwgr ddeol bwynt o* Deyrnas *a llwodraeth Amberawdwr* Perſia *yn y ſl wyddyn* 1666. *ni a allwn medd ein Hawdwr, ddal ſulw, mor bynod yr oſtynſai yr boll alluog ei Law yn erbyn yr Juddewon, oni bnaſſai eu bod tan farnedigol galedrwydd Calon, yn ddiau, bnaſſai 'r gwaſtadol arwyddion yma o ddigoſaint yr Arglwydd yn peri iddynt wneuthur adgoſiad arnynt eu hunain, a thrwy ddifrifol edifeirwch derbyn Athrawiaeth Ein Harglwydd Jeſu Griſt, y gwir Feſſiah ac Achubwr y Byd i ymegnio o honynt i dynnu ymaith y felldith honno, a erfynaſau eu hên Deidiau i ſyrthio arnynt eu hunain au plant, pan y Croeſhoeliaſant Fab Duw, ag Arglwydd bywyd a gogoniant, tan ba rai dioddefaſſant flinder creulon tan bob canedl lle a gwaſcaraſſid bwynt, er ys dau gant ar bymtheg o Flynyddoedd.*

Ac am y gwirioncdd yr ymadroddion byrrion hyn, hwy a ſcrifennwyd i gyd gan amryw o Saeſon geirwir dibetrus, y rhai oeddent ar y lleoedd, pen ymaethpwyd y pethau hynod hyn, ac am hynny nid rhaid i mi ymbil, either yn hytrach eu gyrru i'ch myſg iw credu.

872 h 20

Hanes Cywir a

RHYFEDDOL:

Ymdaith diweddar *Dau Bererin* o Saeſon, a pha Ryfeddol Ddamweiniau a ddigwyddodd iddynt yn eu Hymdaith i *Gaerſalem*, *Grand Cairo*, *Alexandria* &c.

Mewn Llythyr oddiwrth *H. T.*

RHod yn ddihareb gyffredin a dichon Ymdeithyddion lefaru chwedlau anwir trwy Awdurdod, Etto 'n hyderus ſafaf ar Wirioneddfy Ymmadroddi, fyngharedig annerchiad attoch chwi a'm holl Geraint, o *Gaerſalem* yr ydwy y modd yma, yn dechreu cyfarch gwell i chwi hyſpyſſir i chwi Scrifennu o honof Lythyr attoch o *Rama*, yn ôl i'm ymadel a *Grand Cairo*: [*Ramah* hon oedd y tan lle clywyd llais *Rachel* yn wylofain am ei phlant,) yn hwnnw yr hyſpyſſais i chwi am holl helynt o *Grand Cairo* hyd at y lle hwnnw. Danfonais ef gyda ſaith o Lythyrau eraill i *Ddamaſcus* yn y Carafan neu 'r giûd: Eithr amheuo o honof na's daethai etto i'ch dwylaw, mi a welais i fod yn 'gymmwys i mi 'Scrifennu attoch eilwaith ynghylch fy holl helynt; A chyda hynny Ran arall o'm hynt i *Gaerſalem*. a'm Carchar a'm trailod yno, a pha hen iddrwydd Coffadwy a welais i yno a lleoedd eraill, hyd fy ymchweliad yn ôl i *Alexandria*.

Yn gyntaf hyſpyſſat i chwi, na ymadawais o *Grand Cairo* hyd y nawfed dydd o Fawrth, ar y diwrnod hwnnw daethum i'r lle [mal y dywedir] y trigodd Mair gyda ein Jachawdwr Criſt. Hyd ymma daeth *Anthony Thorps* gyda mi, a phedwar eraill, y rhai a ddaethant gyda mi i *Grand Cairo*, eithr yno ymadawſant a ni, gan ddychwelyd o honynt yn eu hol i'r Ddinas. eithr myfi a'm Cydymdeithydd, *Sion Rumnel* cin dauwedd mewn gwiſgad *Pererinion*, a ddaethom y Nos honno i Dref a elwir *Canko*, lle bu yn dda

gennym i gymmeryd ein llettŷ yn y Cyntedd hob un gwelŷ ond y ddaear noeth, y dydd neſſaf ni ymadawſon oddi yno ac a ddaethom i Dref yn hir *Goſan*, yn y lle hyn y cyfarfuom a lliaws o *Dwrciaid*, *Judaewon*, a *Chriſtnogion*, ac ynghylch 750 o Camelod, y rhain i gyd oeddynt yn myned i *Ddamaſcus* trwy 'r anialwch, etto i'r oedd yn eu plith hwyut ddau ar hugain o *Roegiaid* ac *Armeniaid*, ac amcan eu hymdaith oedd tu a *Chaêrſalem*, yr hyn a'n gwnaeth yn llawenach o'u Cyfeillach: yn y Dref ymma a elwir *Philbits* nyni aroſaſſom ddau ddiwrnod a noſwaith, yn y cyfamſer mi a aethum i Dŷ p'le gwelais ddirgelwch rhyfeddol i ddeor cywion trwy wrês celfyddol, mi a welſwn o'r blaen yn *Grand Cairo* y cyfryw, eithr nid yn fath gyfrif a hioſogrwydd ac ymma: y modd ar dull mi a fynegaf, fel y mae 'n canlyn. Pobl y Wlâd tu fewn i 4 neu 5 Milltir o amgylch y Dref ymma a ddaent au Hwyau mewn Clûd a ſo yn gymmwys i dwyn, a'r Aſſynod neu Gamalod i'r lle ymma: Ac yno y mae Ffwrn yn gadwedig o wrês cymhedrol at y peth hyn, A'r Crâſwr neu 'r Meiſtir yn ſefyll yn barod wrth Ddrws bychan yn derbyn yr Wyau oddiwrth bob un trwy eu cyfrif, oddieithr i'r cyfrif gyfodi mo'r uchel (megis llwyth deg Camel neu ragor, yno wrth Rifedi tefur y lleinw ef, ac yn y modd hynny y meſſura efe y cwbl eraill, Ac mi ddywedaf hyn mal gwirionedd; weled o honof dderbyn yno mewn un diwrnod o Wyau gan y Ffwrnydd, Cog neu 'r Potydd trwy rifedi a Meſur ynghylch pymtheg mil ar hugain neu ddeugain Mil: Ac y ddywedaſſant wrthyf, nas gwnai efe ddim tros yſpaid tri niwrnod onid derbyn Wyau; Ac ymhen deuddeg niwrnod, deuent dracheſn i dderbyn eu Cywion, ac weithiau ymhen deg neu faith [eithr bydd hynny yn anfynych.] o ddamwain byddai ddau cant o ddynion i fod yn berchenogol o un ffyrnaid, rhai ac iddynt ddwy fil, ac eraill ac un mil, naill a mwy ai llai, yn ôl y maint a rhifedi. Y Ffwrnydd a noda Eawau a rhannau pob un a ddel ac Wyau yno; ac os digwydd gael o hono gant a deg a deugain o filoedd, neu ddeugain can mil ar un ewymad (mal y digwydd yn fynych) etto efe au cymmyſg hwy i gyd

ynghyd,

ynghyd, heb ddal dim ſulw ar y Perchenogion, yno geſyd efe hwy bob yn un ar ei rês, mor agos ac y gallent gytwrdd au gilydd. Eithr gwneuthur o hono yn gyntaf glwth neu Welỽ iddynt o dail Camelod wedi ei loſgi yn lludw, A'r llawr lle bo'r lludw wedi oſod, a wnaed yn deneu jawn o bridd y ddaiar, yn gymmyſcedig a thail Camelod wrth ei wneuthur, ac ychydig o dail Clomenod ynghymmyſg; etto nid yw y dirgeledigaeth yn ſefyll yn hyn yn unic, canys y mae lle ceuol ynghylch tair troedfedd o lêd tani, ac ar hwn y tenir lloriaid arall o dail Camelod, a chan hynny y mae'r lle a byddo yr tân, Etto nis galler yn gymwys i alw ef yn dân, canys ni ymddengys dim yno ond Marwor, ac nis gallwn wybod dim gwahanieth rhyngddo a lludw, yn rhoddi gwrês cymhedrol i'r ceuedd neſaf, a chan fod y gwrês yn cael ei Attal a'i ragod gan y lloriaid tail neſaf atto (ar tail ymma yn i oſod ar ddarnau o Goed gwywedig, neu yn hyttrach Canghennau o hên Goedwydd) rhydd allan ſygdarth mawr jawn, a'r mygdarth hwnnw a ruthra i'r ceuedd neſaf tan yr Wyau, a mewn amſer fe a â trwy 'r pridd cymmyſcedig a ragddywedwyd, ac yn cyfwrdd ar Lludw llê mae'r Wyau wedi eu goſod, ac felly megis Yſtordy, Gyfreidiol i ddarbyn yr holl Wrês ac ſydd yn dyfod oddi tanodd. Ar gwrês Celfyddol hwn yn rhuthro trwy 'r lludw. lle mae'r Wyau yn gorwedd, ac yn eu gwreſſogi hwynt, bob ychydig trwy eu pliſgau ac felly yn tywallt bywyd yaddynt trwy 'r un cyfran o Wrês; yn y modd ynma, tu fewn i faith, wyth, naw, deng, neu weithieu ddaudeng niwrnod cantyn bywyd trwy 'r Celfyddol foddion hyn. Ynawr pan ddeall y Ffwrnydd bod bywyd yn ymddangos, a'r pliſgau yn torri, yno a dechreu ete ei talchu hwyne. Eithr o gan mil, pan y caſglodd ef driugain mil, weithiau ddeng mil a deugain, ac weithiau ond Ugain Mil os bydd y Dyddiau yn o gymmvlog: ac os digwyddi yn y cytamſer fellt a Tharanau, neu Wlaw, yno o fi! ni's caſgla ef mor un, canys erthylant i gyd ac a ſyddant leirw

Argoſter hyn hefyd bydded ir tywydd i fod mo'r dec-

ced

ced ac y mynno, yr Wybr yn bur ac yn loyw, a phob peth megis ac y dymunent, A bydded or Cywion gael eu deor, (hathed) yn y modd gorcu ac y ddichon fod, etto er hyn i gyd, bydd ganddynt naill ai gormod o Ewinedd, neu eisiau Ewinedd, canys weithiau bydd gan un bum Ewin, neu chwech, eraill ond dwy ymlaen ac un yn ol, ac antynych ac anaml y bydd rhai a chyllawn lun iddynt, Yn ol hynny pan ddelo 'r bobl i dderbyn eu cywion, y Ffwrnydd a rydd i bob un yn gyfrannol mal y caniattao y Ffwrn, gan gadw iddo ei hun y degfed am ei boen, Llymma i chwi dirgeledigaeth i ddeor Wyau trwy Wresogrwydd cehyddol yn Nhref *Philbitts* yngwlad *Gossan*, 'rhyn yr ydwyf o'r dyb mae oferwaith iw arferu yn y *Lloeger*, o herwydd prin yw 'r Wybr yno yn eglur ddeng Niwrnod ynghyd, ac nid oes heiyd Dail Camelod yno, er bod ganddynt Dail amfeiliaid eraill yn llwyr mo'r wressog: Ac am hynny pan fo yr Haul yn y Cranc, Llew, neu yr Forwyn, gellwch os mynnwch bron beth ellir i wneuthur. Ond odid, tebyg rhai mai chwedl yw hyn, i'r fath hynny attebaf, ni's gallat gymmell eu Cred hwynt, ddim ymhellach nac mae fy ffydd a'm Gwirionedd i'w perswadio hwynt. Ac os ar hynny nis credant, cymmerant y boen i wneuthur eu llygaid eu hun yn dystion, a phan y talont mo'r ddrutted ac y gwnaethum i, (canys golwg ar rhain a phethau eraill o gostiodd i mi gan Mork mewn deng niwrnod a deugain) cadarnhair eu barn hwynt yn well.

Fithr ynawr at ymdaith tu ar anialwch *Arabia*, yr hwn yr oedd yn rhaid i mi fyned trosto, cyn y gallwn, ddyfod i'r Tir bendigaid, ni aethom or dref *Philbitts*, gan ymdeithio o honom trwy 'r Nôs ynghynulleidfa 'r Caralan (neu 'r glud) O *Damascus*, ac ar pedwaredd dydd ar ddeg ar Naw or glôch ni wersyllasom yn *Baharo* yn nhir *Gozan*, Oddiyno ni aethom y nôs honno, ac ary 15 dydd y nôs honno ni Wersyllasom yn *Salbio* yr hon sydd tu ar Dwyrain oddiwrth Tir *Gozan*, ac yn sefyll Ynghyffiniau diffaerhwch *Arabia*, yno arosassom ddau ddiwrnod rhag ofn yr *Arabiaid* Gwylltion, ac ymadawson oddiyno ar y 17 dydd, ac a dramwyassom y Nôs honno dros Bont fawr, tan ba

un

an i'r oedd Dwfr hallt. Y Dwfr hwn a ddaethai o'r môr oddiwrth barthau *Dimieta*, a thrwy boen dwylo dynion y cloddiwyd lle ir ffrwd ymma ſaith ugain a deng milltir, oddifewn ir Tir gan *Ptolomy* Brenin yr *Aipht* yr hwn a amcanaſſai ddyfod a'r Môr coch a'r Môr Canol dir yn un: Eithr ac efe yn rhagweled, pan orpheuaſſai efe y gwaith foudaſai yn llwyr ei wlad ei hun, efe a attaliodd, ac a adeiladodd yno Bont i dramwy troſti. y lle ymmaſydd yn gwahanu rhwng Arabia a'r Aipht, er cynted ac y tramwyaſom y Bont yma, yr Arabiaid gwylltion a ymgodaſant yn ein herbyn, Ac er ein bod ni yn gynulleidfa fawr, canys yr oeddem yn rhagor na Mil o wyr] dugwyd oddiarnom Gamel yn llwythog o liain Calico a 4 o'n gwyr wedi eu harcholli ac un yn glwyfedig i farwolaeth.

Eithr yr Arabiaid a ffoeſant ymmaith au hyſpail ac nid allem eu canlyn hwynt o herwydd i bod hi yn dywyll Nos. Y dydd neſaf ni werſyllaſom wrth ffynnon o ddwfr hallt. Eithr anghoſiais hyſpyſſu i chwi ar i SION BUNNEL ſynghymdeithydd i ddyfod prin yn ddiangol o'r ymdrech nôs o'r blaen: Yno gorphwyſaſſom hyd 3 ar gloch yn ol hanner dydd, rhwn i maent yn galw *Laſara*, Canys yr Arabiaid a'r Aiphtiaid a ddoſparthant y dydd yn 4 rhan: yno ni a ymmadawſon, ar Boreu neſaf gwerſyllaſom wrth gaſtell yn y diffaethwch a elwir Carga, yr hwn ydyw un o'r tri Chaſtell a geidw y Twrciaid yn y diffaethwch er cynnorthwyo 'r ymdeithyddion rhag yr Arabiaid gwylltion: Ac o herwydd hynny talrſom yno ryw fath o deyrnged, ſef triugain darn o Arian o bris dwy geiniog bob darn, dros bob gwr neu fachgen, triugain darn ac un ar bymtheg am bob Camel llwythog a phedwar ar ddeg am bob Mul, yn ol talu o honom hyn o Deyrnged ni ymadawſon, ac gwerſyllaſom drachefn y 19, wrth ffynnon hallt arall.

A nyni yn myned rhagddom oddiyno, gwerſyllaſom yr 20fed o Fawrth wrth yr all Gaſtell 'rhwn a elwir *Arris*, yn gadwedig hefyd gan y Twrciaid yn y diffaethwch hynny, Ac ymma nid oedd ein Teyrnged ni ond

ugain darn o Arian am bob ymdeithydd, a deg darn ar hugain am Gamel, oddiyno bagad o filwyr a'n tywysent ac a'n gwilient i'r trydedd Castell, a elwir *Raphael*, gan wneuthur o honom ein hir Ymdaith o 24 o Orian; yn y lle hwn a dywedir ymladd o Freuhinoedd *Judea*, ar *Aipht* yn synych au gilydd mewn llawer brwydr, yr hyn sydd anhebygol jawn, o herwydd nad oes ymma ddim i ymgynnal Byddinoedd ond Tywod a Dwfr hallt.

Yno y talasom dri darn o Arian dros bob un o'r ffordd olion, ac ugain am bob Anifail, ac yn ol hynny gan ymadel o honom oddiyno, 22fed ar y boreu, ni ddaethom i *Gaza* ym *Mhalestin*, Gwlâd dda a ffrwythlon, ac ymma diogelwyd ni oddiwrth y diffaethwch, yn y Drêf hon gwelais y lle (mal y dywedant a tynnodd *Sampson* i lawr y ddwy Golofn ac a laddodd y Philistiaid; ac yn sicer, mae 'n edrych megis yr un rhyw Drêf, o herwydd cyfleadd y Wlâd, yno y talasom 22 darn o Arian tros bob Anifail, a deg tros bob un o'r ffordd olion.

Oddiyno ni a aethom i le a elwir yn ARABAEG, CANNE a BEERSHEBA gan y Crist'nogion, ar Gyffiniau *Judea*, yno ni thalsom ond dau ddarn o Arian tros bob un o honom a 4 tros bob anifail. Gan ymadel o honom oddiyno y 23 dydd yn y boreu, ni a wersyllasom ar Gae gwyrdd lâs tan Furiau *Ramoth* yn GILEAD: yno arhosais trwy 'r dydd ac a 'Scrifennais wyth o Lythyrau i Loegr, gyd a'r Carafan neu 'r glud a ddywedpwyd o'r blaen oedd yn myned i *Ddamascus* i gael i hebrwng oddiyno i Constantinopl, ac oddiyno i Loegr. y dydd nesai sef y 24 dydd o Fawrth, ar y boreuddydd, mysi gyda Christianogion eraill a gychwynasom tu a *Chaersalem*, a'r Carafan fawr neu 'r Glud a aethant y ffordd tua *Damsco*, eithr nyni a Wersyllasom yn tyrr y Nos honno mewn lle a elwir *Cudechelanib* yn Arabaeg 16 o filldiroedd oddiwrth *Hebron*, lle y mae Beddrod Y Tâd *Abraham*, a phum Milltir byehain oddiwrth *Gaersalem*. a ni yn ymadel oddiyno y boreau, ddydd Gwyl Fair y Cyhydau yn y Grawys, ac ar naw ar gloch y Boraus gwelais Ddinas *Gaersalem*, gan syrthio chonof ar yngliniau a dywedyd

Gweddi

Gweddi 'r Arglwydd, rhoddais glôd a moliant o lwyr ewyllys fy nghalon, am dywys o hono fi yno, i weled lle mo'r Sanctaidd ac Ardderchog am llygaid, am yr hwn darllenaſwn mo'r ſynych o'r blaen.

A ni yn dyfod tu ſewn i hyttir neu yſtâd o Dir at y Pyrth, myſi gyda Anghymdeithydd *Sion Bunnel* a aethom rhagddom dan ganu a moliannu Duw, hyd oni ddaethom at y Gorllewinol Borth y Ddinas, ac yno arholaſſom, canys nid yw yn gyfreithlon i Griſtion ſyned i mewn heb gennad, ſynghydymmaith a'm cynghorau i ddywedyd mae *Groegwr* oeddwn, yn unig er mwyn ymwrthod, a myned i wrando Maſs. Eithr a ſi yn anwybodus yn Jaith y *Groeg*, a naccaes wneuthur hynny, gan ddywedyd wrth ein mynediad i mewn i'r porth, nas gwadwn i na'm gwlâd, na'm Crefydd. Ar hynny a hwy yn goſyn. pwy oeddem, yna *Sion Bunnel* (gan atteb yn jaith y *Groegiaid*) a ddywedai mai *Groegiaid* oedd eſe, a Sais oeddwn innau; hyn a rodd gymeradwyad iddo ef at Batriarch y *Groegiaid*, eithr myſi a'm daliwyd, ac am carcharwyd, cyn i'm aros cyſlawn awr yn y Porth, canys y *Twrciaid* a ommeddaſant yn llwyr, nas clywſant erioed ddim hanes am ein Brenhines na'm gwlad, ac nad oedd hi yn talu dim Teyrnged iddynt hwy, y Pennadur y Gwſaint neu 'r Fynachlog, yr hwn ſydd yn noddi yr holl Bererinion Criſt'nogol (ar hwn oedd y prif annogwr i'm Carcharu; O herwydd nad oeddwn yn cynnyg ſy hunan tan ei nawdd ef, eithr yn hyderus ſefyll o honof i ſod yn hyttrach tan nawdd y *Twrc* na'r *Fâb*) a wnaeth y *Twrc* yn Elyn i mi yn gymmaint ac y tebygent mai Spiwr oeddwn ac felly trwy ſodd yn y Byd nis cawn ſy rhyddhau o'r Carchar.

Ynawr rhoddwch gennad i adrodd pa ſodd y rhyngodd bodd i Dduw, ie ar y dydd hwnnw ſy yngwaredu, a chaniattau i mi ſod yn rhydd megis Proteſtant, heb uſuddhau i un Ddefod, ond dwyn o honof ganwyll gwyr yn unic. ymhell tu hwynt i'm diſgwyliad, ymma y mae 'n rhaid i mi ddwyn ar goſ i chwi, pan oeddwn yn aros yn *Ramoth* yn *Gilead* yſcriſennais wyth o Lythyrau i Loegr gyda 'r Carafan *Damaſco*, a mi yno yn cael odis cymmwys

oni

oni a aethym i ffynnon i olchi fy llieiniau budr, a mi yno yn bryssur ynghylch fy ngwaith, yn ddissymmwth daeth Mŵr (neu un o'r Bobl dduon) attaf ac a gipiodd fy Nillad o'm dwylo, a chan fy ngalw i wrth fy enw, ebr ef, mi ach cymmorthaf chwi, yn ddiamau 'r oedd hyn yn fraw ac yn synnedigaeth i mi glywed y fath ddyn yn galw arnaf wrth fy enw, ac mewn lle mo'r belled oddiwrth fyngheraint, fy ngwlad, am cydnabyddiaeth: ac efe yn deall hyn a lefarodd wrthif yn Jaith y *Ffrancod, Pa fodd felly Gapten, yr ydwyf yn gobeithio nad ydych yn anghofio, nid aeth heibio etto ddeugain niwrnod, ar pryd a gosodassant fi ar Dir yn Alexandria, gyda eraill o dramwywyr a ddaethant gyda chwi o Argiers yn eich llong ai henw TROIAN: Ac y mae hefyd yn y Carafan (neu glŷd) un arall yr hwn a ddygasach chwi hefyd gyda ni yr hwn a fydd llawen jawn o'ch gweled.* Gofynnais iddo a oedd efe yn byw yno, attebai, nag ydwyf? dywedodd hefyd i fod efe ai Gydymaith yn myned yn y Carafan i *Ddamascus*, yr hon a'i maent yn ei galw *Sham*, Ac oddiyno i *Baget* yr hon yr ydym ni yn ei galw *Babilon*, ac oddiyno i *Meccha* i wneuthur Clawdd, canys felly a galwir hwynt wedi bod ym *Meccha* ac ymhellach, efe a ddywedodd i fod ef yn preswylio yn Ninas *Ffesse* yn *Barbary*,

Y Dŷn hwn i'm tyb i a ddanfonodd Duw i'm gwaredu yn fuan o Garchar canys yn ôl i mi ddal sulw arno yn graffus, mi atgofiais weled o honoi ef yn fy llong: er nis dichon un yn hawdd adnabod un Dyn ym mhlith 300, Canys y rhitedi hynny a ddugasswn o *Argiers* i'r fan honno, o amryw genedl, sef *Twrciaid*, Duon, Iddewon, Christnogion. Mi a ddymunais ar y Dyn ymma i mi gael golwg ar ei Gydymmaith; yr hwn a wnaeth ef yn ôl golchi o hono fy Llieiniau, adnabum hwnnw yn y man, y ddau hyn a gyttunasant, ar ymadel un o honynt oddiyno a myned gyda 'r Carafau, ar llall i fyned gyda'm fi i Gaersalem yr hwn oedd y Du a ragddywedpwyd a'r digred hwn a gymmerodd y fath ofal caredig am danaf, ac ni's gadawai yn ddi gydymmaith yn y Wlâd ddieithr hon; yr hyn ni's gallaf lai na'i gyfrif i neillduol ragddarbodaeth

Duw,

Duw, i'm rhyddhau o'r Carchar, oni buaſſai hyn, fe a'm gadawfai mewn cyflwr truenus.

Pan welodd y Dû ymma hyn, yn y modd hyn yn Garcharwr Ynghaerſalem a'm Carchar yn union gyferbyn a Bêdd Crift, er wylo o hono, etto gorchmynnodd i mi gymmeryd Cyſſur ac a aeth at *Bafha* y *Dolmas* ac at y *Sanjack*, ger bron pa rai a cymmerodd efe ei Lŵ mai Morwr a Phenaeth Llong oeddwn, yr hwn a ddygaſwn 250 neu 300 o *Dwrciaid a anon i'r Aipht o Argiers a Thunis*, a'u hymdaith oedd tua *Mecca*. Y Lu hwn o herwyddi fod yn Musſleman (neu wir Gredadyn) a ffynodd yn gymmaint gyda hwynt, hyd oni yrraiant gyd ac efe chwech o *Dwrciaid* yn ôl attaf i'r carchar, yno galwodd arnaf i'r Drws, ac y ddywedodd o dawn i Dy y Tad ymddyffynnydd neu Bennadur y Fynachlog, a gofiwng o honof tan ei nawdd ef, ni chymmellid un Creſtydd arnaf, ond or eiddo fy hun, oddieithr dwyn o honof ganwyll, a hyn mi a gydgordiais yn Ewyllyſgar.

Ac felly a mi yn taſu llog y carchar e'm gwaradwyd yn fuan, ac aethpwyd a mi i Fynachlog y Pennadur, yno daeth efe attaf ac a'm cymmerodd erbyn fy llaw, a bod i mi groeſaw, gan ryfeddu pa fodd y cyfeiliornais gymmaint yn erbyn Crift'nogaeth, a geflod fy hun tan nawdd y Twrciaid yn hyttrach na'i nawdd ef: mi ai hattebais ef, gan ddywedyd, peth a wnaethum oedd, mal nad elwn i'r maſs, eithr cadw o honof fynghydwybod i'm fy hun; yno gwrthattebodd efe gan ddywedyd ar i lawer o *Saeſon* fod yno, eithr (a chwi yn Catholiciaid, aent ir Maſs, gan ddywedyd wrth y Twrciaid yn ymyl y Pyrth mai Ffrancod oeddent, canys ni's gwyr y Twrciaid, beth ydis yn i feddwl wrth y gair *Saeſon*: A'm cynghori ymmhellach, pan ddelai neb o'ni cydwladwyr i fyned ar ymdaith, ar iddynt eu galw eu hunain wrth byrth Caerſalem yn Ffrancod neu yn Frutaniaid, canys adnabyddus jawn ydyw rheiny iddynt.

Hyn neu gyffelyb i hyn oedd yr ymddiddan rhyngom ymhellach gofynnodd i mi o ba oedran oedd mawrhydi 'n Brenhines, a pha reſwm oedd ganddi, na roddai ddim tu

ac

ac at gynhaliaeth y Bêdd sanctaidd, mal Brenhinoedd a Thywysogion eraill; a llaweroedd o goeg holiadau eraill; mi a hattebais et yn ôl yr holiadau.

Ar diwrnod ymma wedi dreulio hyd y cyfnos, *Sion Bunnel*, 'rhwn a gytrifwyd megis Groegiad heb aflonyddwch yn y byd, a ddaeth i mewn attom ni, er hynny cyfyngwyd ef i'r Mynachty hwn, os amgen nis cai aros yn y Ddinas, canys dwg y Papistiaid gymmaint o rwysg yno mal nas dichon Cristion dieithr gael i ollwng i mewn, oni bydd et tan eu nawdd hwy neu beidio a dyfod i'r Ddinas.

Mr. *Bunnel* a minneu yn sefyll ynghyntedd y Monach-Tŷ, deuddeg o Fonachod Pascedig a ddeuent allan attom, a chan bob un o honynt Ganwyll gŵyr yn llosgi, a dwy Canwyll dros ben hefyd, un i Mr. Bunnel ar llall i minneu; Monach arall a ddawai ac a ddug Gawg mawr yn llawn o ddwfr claear yn gymmyscedig a rhosynau a blodau aroglbêr eraill, a charpet yn dannedig ar y llawr a chlustogau mewn Cadeiriau gwedi gosod yn drefnus: eithr am danom ni Penceidwad y Fynachlog, fe a'n gossodau ni i lawr, gan roddi canwyll i ni 'n dauoedd, yno y daeth un o'r Mynachod a dynnai 'n hossanau, a chan ossod y cawg ar y carpet neu'r llennlliain a olchai 'n traed, er cynted ac y dechreuodd y Monach olchi, y dauddeg Monach a ddechreuent Ganu, gan barhau felly hyd oni olchwyd ein traed, pan ddarfu hynny, hwy a aethant rhagddynt dan ganu a ninneu 'n dau gyda'r Ymddistynnydd a ddaethom i gappel yn y Monachdy, yno dechreuodd un o honynt Araith mewn dull Pregeth yn tueddu tu a'r perwyl hyn: mo'r haeddedigol oedd i ni ymweled y Tir Sanctaidd, ac i olygu y lleoedd cysegredig hyny, a sathrassai traed ein Jachawdwr. yn ol tersynu o'r bregeth, tywysassant ni i Ystafell ymha le i'r oedd Swpper yn barod; yno ymborthassom yn dra ofnus, o herwydd bod gan fwydydd dieithr, gynneddfau dieithr; er hyn, a nyni, yn gossod ein hyder ar Dduw ac ar y cariad Crist'nogol o ymddangosid i ni oddiallan, a ymborthassom yn llawen, ac a Swppersom yn ddigonol, ac yn ol i ni Ogoneddu Duw, llettywyd

ywyd ni yn weddaidd, Hyd yn hyn ynghylch ein Croeſaw. cyntaf *Ynghaerſalem*, yr hyn a fu y 25 o Fawrth, dydd gwyl fair y cyhydeu yn y Grawys. yn ol hyn yn canlyn pa beth a ddanghoſodd y Monachod i ni, y rhai a neillnodd y Pater Guardian, (neu 'r Tâd ymddyffynnydd, Pennadur y Cwfaint neu 'r perwyl hynny. yn fore y dydd neſſaf, a cyfodaſſom, ac yn ôl cyfarchu o honom y Tâd ymddiffynnydd pennadur y Cwfaint, ele a bennododd faith o'r Monachod i fod yn Ddeonglwr i ni, ac yn y modd hynny allau yr aethom i weled yr holl Leoedd Sanctaidd yn y Ddinas, y rhai oedd gymwys i mi eu gweled, oddieithr y rhai oedd yn y Bedd bendigaid, canys hwnnw a ofynnai ddiwrnod cyfan ei hunan, Ac ymhob lle ſyrthiem i lawr ar ein gliniau, a dywedem Weddi 'n Arglwydd.

Y lleoedd hynod cyntaf a ddangoſodd y Monachod i ni oedd y Farnol Lê. y neſſaf at dŷ *Veronica Sancta*; A mi a ofynais pwy Sanct oedd honno. Attebant mai honno oedd hi, yr hon a ſychodd wyneb ein Jachawdwr, mal i'r oedd yn myned heibio yn ei ing. A ni yn myned i wared ymhellach yn yr un heol, dangoſaſſant y ffordd yr aeth ein jachawdwr Crift i'w groeſhoelio, a alwyd ganddynt hwy y ffordd Ddolurus. Yn ol hynny ar y llaw ddehau yn yr un heol, dangoſſwyd i mi Dŷ y Glŵth Cyfoethog, wrth ddrws pa un y gorweddai *Lazarus* dylawd, ditri. A nyni yn dal y ffordd i wared yn yr heol hon, ni ddaethom i yſtumiad, yn yr Heol ar y llaw aſſwy, yn y fan yma y dywedaſant, pan oedd *Simon o Cyrene* yn dyfod tu a'r ffordd ddolurus, ar i'r milwyr alw arno, ac ai cymhellaſant yn ebrwydd yn erbyn ei ewyllys, i gymmorth ein Jachawdwr i ddwyn ei Groes. yna dywedaſſant mai yn yr un fan honno yr wylodd y Bobl, a'n Jachawdwr gan atteb a ddywedodd wrthynt, Merched *Caerſalem*, na wylwch o'm plegid i &c. yn ôl hynny dangoſhaſſant yr Eglwys, ymha le a ſyrthiodd *Mair* forwyn mewn ing ac yſpryd, pan aeth Crift heibio yn dwyn ei Groes. yna daethant a mi i Lŷs *Pilat*, yr hwn er i fod yn adfeiliedig yn llwyr, etto y mae yno Fwa Maen yr hwn a gynhelir gan y Crift'nogion, a chan i fod ef yn ſefyll yn unjawn ar y ffordd, ni a aethom tano; yn ddigon tebyg i'r ffordd tan Dŷ Mr. *Hamond*

yn

yn y Caereu, ond bod bwa yma yn uwch, canys at y bwa yma y mae rhodfa yr hon ly 'n caniadhau tramwy, (tros ein pennau) o un yſtlys yr Heol i'r llall: canys Llŷs *Pilat* a ymyſtyn dros yr Heol o'r ddau yſtlys, Ac i'r oedd gan *Bilat* ddwy ffeneſtr fawr yn y Rhodfa hon, i olygu 'r Heol y ddwy ſordd, megis ac i mae gan Mr *Hammond*, y lleſiant hyn, ymmhob un oi ddwy ffeneſtr. I'r Rhodfa hon a dygpwyd ein Jachawdwr, pan ddangoſſŵyd efe i'r Judde won, rhai oeddent yn ſefyll iſlaw yn yr Heol, a glywſant y geiriau *Ecce homo*, Wele yr dŷn. Ychydig oddiwrth y lle ymma y mae troed y Griſiau, y tan y cymmerodd ein Jachawdr ei groes gyntaf. Yno dugaſſant ſi i'r lle a cenedlwyd ac ganwyd *Mair* Forwyn, yr hon yw Eglwys St *Anne*, ac nid Eglwys *Twrcaidd*. Neſſaf yn ôl hynny dangoſſant y Llynn ymha lo y glanhaſai Criſt y rhai gwahan glwyſus, ac yno i'm tywyſaſſant i Borth St *Stephan*, ychydig oddiſewn iddo ar y llaw aſſwy dangoſſwyd i mi rai o'r Cerrig, a'r rhai y llabuddiwyd St. *Stephan*. Oddiyna canlyn y griſiau oedd yn myned i fynu i Borth *Area*, yno y mae llaweroedd o Greiriau iw gweled: Porth Dwyreiniol y Deml oedd ef, rhwn a adeilaſſai *Salomon* ar fynydd *Moriah*, ym mha un i roedd *Sanctum Sanctorum* neu 'r Cyſſegr, eithr yn awr adeiladwyd Eglwys fawr jawn, yn perthyn i'r *Twrciaid*.

Llymma fel y treuliais yr ail ddiwrnod, yr hwn oedd 26 o Fawrth, yng *Nghaerſalem* i gyd oddieithr troi o honof i weled y garreg, a pha un llabyddiwyd St. *Stephan*. Y dydd neſſaf, ſef 27 o Fawrth yn olgwneuthur o honom ein dyledſwydd i'r Arglwydd a'r Tâd ymddyſfynnydd, pennadur y cwſent, cyſlogaſwn Aſſennod ir Monachod ar Deonglwyr, mal y marchogaent, a chan fynet o honom o byrth y Ddinas, nieſgynſom ar ein mulod, ac a farchogaſſom yn union tu ac at *Bythinia*. yn yſtlys fy ffordd a nyni yn marchogaeth, dangoſſwyd i ni y tan lle buaſſai y ffigyſbren ddiffrwyth, yr hon a felldithiodd Criſt. yn ôl hynny Caſtell *Lazarus* yr hwn yr oedd Chriſt yn ei garu cymmaint, canys ei Dŷ ef neu Gaſtell oedd ym *Mythinia*, eithr i'r oedd yn adfeiliedig yn llwyr, a dim o hono i weled onid y ddau Yſtlys y Mur, yn yr un Drêf dangoſaſant Dy Mair *Fagdalen* wedi amharu yn

gymmaint

gymmaint nad oedd Dim yn weledig ond darn o'i Fur, yno gwelais hefyd Dy *Fartha* yn cynnwys tri darn o'r Mur, oddiyno hwy a ddaethant a mi at y garreg, ym mhafan mynegodd y ddwy Chwaer wrth Grift, farw o *Lazarus*, oddiyno a nyni yn myned rhagddom, dangoſaſſant y lle y cyſododd *Criſt Lazarus* o farwolaeth, yn ol gorwedd o hono 3 niwrnod yn y Ddaiar, ar lle ei claddwyd ele yn ol hynny, pan fu efe farw drachefen.

Y lle hwn a gadwyd yn hynod er y dechreuad, ac a ddiwygiwyd yn waſtadol gan y Criſt'nogion: eithr mewn dull lom a thlawd jawn, A hyn yw'r cwbl oll ar y welais *i* ym *Mythinia*. oddiyma ni farchogaſſom i fynydd yr *Olewydd*, a chan fyned trwy *Bethphage*, hwy a'm dugaſſant i'r lle a cymmerodd ein Jachawdwr yr Aſſen a'i llwdn, pan y Marchogai efe i *Gaerſalem* ar ddydd Sul y Blodau. A nyni yn Marchogaeth o *Bethphage* yn union tua'r Gogledd, ni a ddaethom i droed y Mynydd yr *Olewydd*, yn y lle ymma, dangoſaſant *Benedicta*, neu'r lle a dug yr Angel gennadwri at y Fair forwyn: a chan ddringo o honom i grib y Mynydd, ni a welſom y lle yr Eſgynnodd ein Jachawdwr. Ar olygiad yr hwn nyni a ddywedſom ein Gweddi, ac a Orchmynnwyd i ni hefyd ddywedyd pum *Pater Noſter*, a phum *Ave Maria*, eithr nyni a ddywedaſom Weddi'r Arglwydd, ac y ddeliaſom ſulw ar y llêd, ac ymmadawſom. y lled hwn ydyw 'r fan uchaf ar y Mynydd, ac oddiyma y canfyddir llaweroedd o leoedd hynod, megis yn gyntaf tua 'r Gorllewin, y mae tremyn ar *Gaerſalem* newydd: Ar y Deheu-Orllewin a gwelid tremyn Mynydd Sion, yr hwn ſydd gyſſylltedig a *Chaerſalem* newydd: hefyd yn y Dyffryn rhwng Sion a'r Mynydd yr oeddwn yn ſefyll arno, gwelais y Nant Cedron, a llynn *Silo*, yr Ardd, ymba le a gweddiodd ein Jachawdwr, a'r lle y bradychwyd ef yn ol hynny, A bagad o bethau hynod eraill yn y Dyffryn hwn a elwir *Gethſemane*, megis Maenfedd *Abſalom* fab *Dafydd*, Maenfedd *Jehoſophat* ag eraill rhai a grybwyllaf am danynt pan ddelwyf attynt.

Yn union tu a'r Deheu oddiwrth Fynydd yr Olewydd, ni allem gaſod y lleoedd a daethom ddiweddaf o honynt, megis

megis holl *Bythinia Bethphage.* hefyd tu a'r dwyrain ogledd-ddwyrain, a gwelyd, yr afon *Jorddonen,* yr hon fydd 15 Miltir oddiyma, A Jericho 'r hon nid ydyw ymhell, o herwydd i bod hi tu a'r gorllewin oddiwrth yr *Jorddonen.*

O Fynydd yr Olewydd, tu a'r Dwyrain, a'r ddwyrain ddehau ddwyrain, canfyddir Llyn *Sodom* a *Gomorah,* yr hon fydd rhyw gan Miltir o hyd, a deunaw o lêd: mi oſodais yr holl leoedd hyn mewn 'Scrifen wrth gwmpas pan oeddwn ar fynydd yr *Olewydd,* canys yr arooſais ar grib y Mynydd ryw ddwy awr a hanner, a chyda mi gwmpas bychan. A nyni yn deſcyn oddiyno tua throed y mynydd tua 'r Gorllewin, ni a ddaethom i Le, ym mha fan a mynegodd y Monachôd, ar i fenyw a'i henw *Pelagia,* ddwyn ei phenyd mewn gwiſgad gwryw, a mi yn gwenu a'r hynny hwy a oſynaſant, pa ham yr oeddwn yn gwenu, mi a'u hattebais, nad oedd yn fy nghredo i feddwl fod *Pelagia'n* Santes, mynegaſſant i mi, pan y deuwn i'm lletty yn yr hwyr, y dangoſſent i mi awdwyr bodlonol am hynny. Eithr pan awn i'm lletty, 'roedd gymmaint i'w wneuthur gennyf fi yn 'Scrifennu nodau o'm Llyfr, hyd nad oedd mo'r odra gennyf i Edrych eu hawdwyr, ynghylch St. *Pelagia.* Yn y cyfamſer hyn hwy ddaethant a ni i fan, lle rhagddywedodd ein Jachawdwr y farn, yn ol hynny y lle gwnaeth eſe y *Pader,* neu 'r Weddi yr Arglwydd, ac yn ol hynny lle y gwnaeth yr Apoſtolion y Credo. oddiyno daethom i'r lle yr wylodd Criſt oblegid *Caerſalem,* ac oddiyno i'r fan y rhodd *Mair* forwyn wregys i St. Thomas; ac oddiyno i'r lle, y gweddiodd hi tros St *Stephan:* yr holl bethau diweddaf ymma a ddangoſwyd a nyni 'n dyfod i waered o Fynydd yr *Olewydd:* tua dyffryn *Gethſemane,* ac yno ar ein hynt, ni a ddaethom i Eglwys Fair forwyn, ymha le y mae ei Beddrod hi, a beddrod ei gwr hi *Joſeph,* gyda beddrod *Anna,* a bagad craill yn yr Eglwys honno, y mae 'r Eglwys hon yn feſyll wrth droed Mynydd yr Olewydd, ac ai hadeilaſſid gan *Elen* meddant hwy fam *Cyſtenyn Fawr.*

Ymma y Monachod a aethant at Fedd y Fair forwyn, ac yno darllenaſant naill a'i Maſh neu ryw Weddiau craill, tra buom ni yn ciniawa. Yn yr Eglwys hon y mae ffynnon o

ddwfr

ddwfr gloyw jawn, ac o herwydd i ni fyned i wared i Ogof tan y ddaiar, lle i clywir Diaſpaid neu Adſain anghyneſin, oddiymma ni a aethom i ogof, o ba un y daethai *Suddas* i ſradychu Criſt pan yr oedd ef yn gweddio, ac oddiyno i'r Ardd lle y gadawſai 'n Jachawdwr ei Ddiſgyblion, gan orchymmyn o hono ar iddynt wylo a gwedddio, eithr ar ei ymchweliad, efe a'i cafodd hwynt yn cyſcu: yn ôl hynny daethant a mi i'r Ardd ym mha le y daliwyd Criſt, y tri diweddaf hyn oeddent yn nyffryn *Gethſemania*. A mi yn marchodaeth i'r Drêſ o'r un enw a'r dyffryn, ſef, *Gethſemania*, ag y llaw aſſwy, gwelais y rhagddywededig Feddau *Abſolom* a *Jehoſephat*, ac ar Llaw ddeheu y Nant cedron, yn yr hon nid oedd dim Dwfr ar y cyfamſer hwnnw, canys yn wir, nid ydyw onid megis ffôs i droſglwyddo 'r dwfr i Fynydd yr Olewydd a mynydd Sion, pan y glawio hi'yn aml. A'r ffôs neu'r nant ym maeſydd yn y dyffryn rhwng y ddau fynydd yn agos at y nant Cedron, dangoſaſſant i mi Garreg yn noddedig a thraed a phen Eliniau Criſt wrth ei wthio ef i lawr pan y daliwyd, ac yn ôl hynny fyth y mae 'r lluniau ar arwyddion yn ſefyll arni.

Oddiyno marchogaſſon i'r lle yr ymguddiodd St *Jago* yn jeuaf, ac yn ôl hynny efe a gladdwyd yno: yno hefyd dangoſaſſant y lle y cladwyd *Zachariah*, mâb *Barachiah*, ac yn ôl hynny daethant a mi i le arall, yn yr hwn arferai *Mair* forwyn yn fynych weddio, yna daethom i Lynn *Silao*, ym mha un Mr. *Bunnel* a minnai a ymolchaſſom ein hunain, ac oddiyma dangoſſwyd y lle y llifiwyd y Prophwyd *Eſai* yn ddarnau: oddiyno tywyſaſſant ni i ffynnon ddofn jawn, yn mha fan (meddant) y cuddiodd yr Iddewon y tân cyſſygredig yn amſer *Nebuchadonozor*; ymma eſgynnaſſom o'r Dyffryn i yſtlus y Bryn, yr hwn ſydd yn ſefyll yn uniawn tua 'r Dehau oddiwrth fynydd *Sion*; eithr y mae Dyffryn helaeth rhyngddynt a elwir *Gehemian*, ac yno dangoſaſſant y lle yr ymguddiodd yr Apoſtolion eu hunain, ſef, Ogof mewn Craig. A chan eſgyn yn uwch oddiyno, daethant a mi i Faes, neu yn hyttrach a allid i alw yn Graig, lle mae 'r fan cyffredin i gladdu dieithriaid, a'r un lle ydyw (meddant hwy) ac y brynnwyd ar dêg darn a'r hugain o Arian, y

rhai a dderbynnaſai *Suddas*, megis gwerth ei Feiſtir, yr hwn le a elwir *Aceldama* a'i lun a'i oſgedd ydyw mal i mae 'n canlyn. Mae i'r lle hwn dri o dyllau oddiarno, ac ar yr yſtlys i mae agoriad i gael gwynt, yn y tyllau oddiarno a gollyngir i lawr y Cyrph meirw tua'r dyfnder ddeg troedfedd a deugain. Yn y lle ymma gwelais ddau Gorph a ollyngaſid i lawr yn ddiweddar jawn, a mi yn edrych tu ag i waered, (canys o herwydd oddiarno, y lle y gorweddai y Cyrph oedd yn oleu jawn) derbyniais fath ddrygſawr i'm pen yr hyn a'm gwnaeth yn glâf jawn, yn gymmaint ac bu yn dda gennyf i ddeilyf ar y Monachod, nad aent ymhellach, eithr ymchwelyd o honynt i'r Ddinas.

Yn ôl hynny ni a ddaethom trwy Ddyffryn *Gehemion*, ac wrth droed Mynydd Sion, (a chan fod gyd a'm fi Goſtrel a dwfr o Lynn *Silo*,) mi a'i hyfais, ac a orphwyſais yno tros ennyd awr gan fwyta ychydig o Raiſins a Crawn yr Oliwydden, y rhai a ddugaſſam gyda ni o *Gaerſalem* y bore hwnnw. Yn ôl gorphwys o honof a dadflino fy hun, ni ddechreuſom eſgyn i Fynydd *Sion*, ac ychydig i fynu i'r Bryn, dangoſſwyd y lle yr ymwadodd *Peder Grift*, a phan glywodd ete y Ceiliog yn canu, efe aeth allan ac a wylodd yn chwerw dôſt. A nyni yn eſgyn yn uwch dangoſſwyd tŷ, Annedd *Mair* forwyn, yr hwn oedd yn agos at y Deml: yno i'm dugaſſant i'r lle a dugwyd ymmaith y Fendigaid *Mair* forwyn trwy wrthiau pan oeddid yn ceiſio ei dal hi. Oddiyno ni a aethom i Dŷ *Caiaphas*, yr hwn oedd ychydig yn uwch ar fynydd *Sion*, ac yno gwelais y Carchar lle caethiwyd ein Jachawdwr. Gan fyned rhagddom yn uwch cyfarwyddwyd ſi i Gappel bychan, yr hwn a gedwir gan yr *Armeniaid*. A nyni yn myned i mewn, dangoſwyd i mi wrth yr Allor y Garreg a oſſodwyd ar Fedd ein Jachawdwr (fel y dywedant hwy) y mae hi yn agos at y lle yr ymwadodd Peder Criſt; canys yno dangoſaſant y Coloſn lle 'r oedd y Ceiliog yn ſefyll arno, pan y canodd. oddi yma fe a'm dygwyd i'r lle yr Arlwyodd ein Jachawdwr ei Swpper diweddaf. ac oddiyno daethom i'r lle, yr eſgynaſai yr Yſpryd glân ar yr Apoſtolion: a ni yn myned rhagddom oddiyno, dangoſaſant y lle yr ymddangoſodd Criſt i'w Ddiſgyblion ar

yr

yr wythfed dydd yn ôl ei adgyfodiad, ym mha le dymunodd St. *Thomas* weled ei archollion ef.

Yn agos at y lle hwn ar Fynydd *Sion*, y tu farw y *Fair* forwyn, a cher llaw dangoſant y lle a brynodd y *Pâb* gan y Twrciaid, er mwyn claddu Criſt'nogion *Europia*. o herwydd ni fynnai ſod i taflu hwynt i *Aceldania*: dywedaſant y flwyddyn o'r blaen gladdu pump o Saeſon yno, yr hyn oedd ryfedd jawn i ni oddigerth i'r Monachod hynny eu Gwenwyno, o herwydd iddynt feirw fyd yn yr un Wythnos.

Oddiyno daethom i Dŷ *Annas* yr Arch-offeiriad, yr hwn nid ydyw 'rwan ond dau hên bared, a dim arall i weled o hono, wrth yſtlys un o honynt y mae hên Olewydden, wrth ba un y rhwymwyd [meddant hwy Fin Jachawdwr.] A ni yn gofyn rheſwm oblegid hynny, dywedaſſant, fod *Annas* yn huno, pan ddygpwyd yr Jeſu iw Dŷ ef, ac nis dihunent ef, Ac yn y modd hynny yn y cyfamſer o'u hymaros i rhwymaſſant ef wrth yr Olewydden honno, A phan y dihunodd *Annas*, dygpwyd ef i mewn ac a holwyd: A ni yn ymadel oddiyno tu ac at y Porth Deheu i'r Ddinas, yr hwn ſydd hefyd yn ſefyll ar Fynydd *Sion*, ni a ddeſgynaſom oddi ar ein Haſennod, a chan fyned i mewn, mi a'i nodais yn fy Llyfr, canys gwelſom dair o'r Pedair porth', A mi yn chwennych gweled hefyd y Porth Gogledd ir Ddinas, hwynt hwy a ddaethant a mi i Eglwys St *Thomas*, yr hon ſydd tu ſewn i'r Mur, i gyd yn amharus oddiyno i Eglwys St. *Mark*, i ba le daeth St. *Pedr*, pan ryddhawyd ef o'r Garchar gan Angel, yr hwn a wthiodd y Porth yn agored. Yna dangoſaſant Dŷ *Zebedeus*, oddiyno daethom i le cadwedig gan yr *Abaſſines*, Ac yno gan eſgyn o honom ar y dechreu trwy ffordd dywyll, a'n harwain a llinyn ni gyrhaeddaſom lle uchel gerllaw. *Sepulhcra Sancta* neu 'r Bêdd bendigaid, yno talais ddau ddarn o Arian, er myned i mewn, a phan yr aethom i mewn, gofynnais pa le ydoedd, yr un rhyw le ydyw, (ebr hwy,) a mynnai *Abraham* Offrymmu ei Fâb *Iſaac*. Yna 'r aethom i'r carchar ym mha un y Carcharwyd St. *Pedr* a St. *Joan*, yr hwn oedd y Drws neſſaf i'r Carchar, y buaſſwn i ynddo o'r blaen

yr hyn a'm gwnaeth yn ſalwach, o herwydd nad oeddwn mo'r ddedwydd a myned iddo, a minau mo'r agos atto, oddiyno ni aethom at y Porth Gogleddol, yr hwn oedd ar yſtlys Mynydd *Calvary*, yn ol edrych o honom yn graffus ar y Porth, ai bod yn hwyrhau, ni aethom yn union i'n Llettŷ: A hyn oedd ein gwaith y trydydd Diwrnod oddiſewn ac o amgylch *Caerſalem*, nid ychydig flinderus o herwydd deſcyn o honom mo'r iſnych i weddio: canys ymhob lle a gryhwyllwyd o'r blaen, ni ddiſgynaſom ac a ddywedaſom Weddi yr Arglwydd ar ein gliniau.

Y Dydd neſaf ſef yr 28, ar y boreuddydd ni gymmeraſom ein Haſſennod, ac a archo aſom trwy 'r Gorllewinol Borth, trwy ba un yr aethom ar y eyntaf, a chan ſyned o honom tua'r Dehau, ni a ymadawſon Fynydd *Sion* ar y llaw Aſſwy wrth droed yr hwn dangoſaſant Dŷ *Uriah*, a'r Ffynnon lle yr ymolchai *Bethſheba* ei hunan, pan y canfyddai y Brenin *Dafydd* hi o'i Dyrrau. oddiyno yr aethom i'r lle y cymmerodd yr Angel *Habacai* erbyn gwallt ei ben, i ddwyn lluniaeth i *Ddaniel* yn ffau y llewod. neſaf yn ôl hynny ni ddaethom i'r lle a caſodd y gwyr Doethion y Seren, pan y collaſant eu golwg arni, ac yno, lle y gorphwyſodd *Mair* forwyn tan bren, mal ir oedd hi yn dyfod o *Fethlehem* i *Gaerſalem*, yr hwn eu maent yn waſtadol yn ei adnewyddu, gan blannu pren wrth yr hên wreiddiau, oddiyma Marchogaſom i Dŷ *Elias* y Prophwyd, yno dangoſſwyd y lle arferedig ganddo i gyſcu, ai By êf yn ſefyll ſelly ar y Bryn mal y gwelem oddiyno *Fethlehem* ym mhell oddiwrthym.

Oddiyno ni aethom at hên Dŷ amharus, yr hwn a ddywedaſant mai eiddo *Jacob* oedd ef: Yr hyn a ymddengys yn eglurach i ſod ſelly. canys yn y maes ſy yn gyffiniol a hwnnw y mae Bêdd *Rachel*, gwraig *Jacob*: ac ynghylch Dwy filldir oddiwrth y Bêdd hwn, yn yr un Maes y mae Tref ai henw *Bateſula* y Trigolion yno ydynt Griſt'nogion i gyd; yn y Maes helaeth hwn, [rhwng *Caerſalem* a *Bethlehem*) a bu gwerſyllfa *Senacherib* pan amgylchynaſſai *Gaerſalem*. Oddiyma Marchogaſlom i'r Maes. lle y dygaſai yr Angylion Newyddion da o lawenydd mawr i'r Bugeiliaid, yr hwn ſydd ddwy filldir oddiwrth *Fethlehem*, ac oddiyno

ni

ni a Farchogaſom i *Fethlehem* i'r Monachty yno, yn yr hwn i'r oedd deg o Fonachod, y rhai a'm Croethawſant yn fwyn jawn, ac a'm dygaſſant yn gyntaf i Eglwys fawr, ac oddiyno i gyntedd helaeth, ym mha fan y gwelais enw Mr. *Hugh Stapers* wedi oſod ddwy waith, un uwch ben y llall, a rhwng y ddau goſodais inneu fy enw. yno i'm tywyshaſant i wared i'r grifiau i ogof, ym mha le 'r adeiladwyd Cappel er Natalig ein Jachawdwr, yn cynnwys efe, yn gyfral a'r Preſeb a goſodwyd ein Jachawdwr ynddo, ac heiyd y lle yr Anrhegwyd ef a rhoddion gan y Doethion. goruwch y Capel hwn i mae Eglwys helaeth, a adeiladwyd gan y Frenhines *Helen* Fam Cyſtenyn fawr, (meddant hwy heb law hyn gwelais yno amryw Faenfeddau gwyr Sanctaidd, ac eraill yn ol i mi fyned i fyny i ben y Tŷ, mi a welais enw Mr. *Hugh Stapers* yn Yſgythredig eilchwaith ar y llen Blymmaidd yno, yr hyn a wnaeth i mi chwilio yn fanolach am enwau eraill o'r *Saeſon*, eithr pan ni chawſwn un, mi a gerfiais fy henw ac a ddaethum ymmaith: yna 'r aethom i mewn ac a Ginhiawſom gyda 'r Monachod. Yn ôl ciniawa o honom, hwy a'm dygaſſant i'r lle yr ymguddiodd *Mair* pan fynnid ei lladd ar Plant bychain.

Ac yn ôl hynny gan gymmeryd ein cennad o *Fethlehem*, a rhoddi i'r Monachod dri darn o Aur, am ein Ciniaw, a'm Cymdeithion, y rhai oeddynt wyth o rifedi, ni elgynaſom oddiar ein Aſſennau, ac a farchogaſom at y Ffynnon, lle y cyrchaſai tri Thywyſog *Jaafydd* ddwfr iddo trwy ganol lu y *Philiſtiaid*; yr hon fydd yn ſefyll ychydig oddiwrth *Fethlehem* tua *Chaerſalem*, ac y mae i hon dri o Leoedd i dynnu dwr. oddiyma yr aethom ar frys yn ôl i Gaerſalem, gan fyned o honom i'r Porth ar bedwar o'r Glôch yn ôl hanner dydd, ac ar bump gollyngodd y Twrciaid ni i mewn i'r *Sepulchra Sancta*, ſef y Bêdd bendigaid, gan dalu pob un o honom naw darn o Aur ar ein dyfodiad ni i mewn. cyn gynted yr aethom ni i mewn, hwy a gloeſant y Pyrth, felly yno ni a aroſaſom hyd 11 ar gloch trannoeth. ac yn ôl hynny ni ddaethom allan: yn awr y canlyn pa beth a welais yn *Sepulchra Sancta*, yn gyntaf mi ddaliais fulw ar gant (o leiaf) o linynau a thannau yn dibynnu oddiallan i'r

Porth, ac yn y Porth y mae twll helaeth mal y dichon Plentyn yn hawdd ymyſtyn i mewn, a ni yn gofyn rheſwm am hyn, attebaſant, nid 'r twll y wnaed er rheddi lluniaeth i mewn i'r rhai ſydd yn gorwedd oddiſewn yn yr Eglwys, y rhai ydynt oddiar 300 o Bobl, Gwyr a Gwragedd. Criſtnogion i gyd, ac yno maent yn Bucheddu yn waſtadol Nôs a dydd, ac ni's cant tynediad allan na dyfodiad i mewn, oddieithr agor or *Twrciaid* y Porth i ryw Berերin; yr hyn ni ddigwydd weithiau mewn 14 o ddyddiau: Ac oblegid hynny y llettywyr Criſt'nogol ymma yn yr Eglwys ydynt a'u holl deulu gyda hwynt, a'u Bythod llettyſon hwy a adeiladwyd o Ynyſlod, y llinynnau yn dibynnu wrth y Porth, oddyno wedi ſiccrhau wrth glychau y llettyſon; a phan ddel eu gweiſion, y rhai ydynt oddiallan a lluniaeth iddynt, pob un o honynt o'r naill du a ganant y glôch a fyddo yn perthyn iw Deulu ef, a hwynt hwy oddiſewn a adwaenant bob un ei Glôch ei hun, ac a ddeuent yn ôl hynny i dderbyn eu lluniaeth. Mi a hyſpyſiai bob rhyw o Criſt'nogion ar a welais yn yr Eglwys mewn trefn. Yn gyntaf y *Rhufeiniaid*, canys hwynt hwy a gynhaliant y Rheolaeth mwyaf ô honynt eu gyd, yn ail, y Groegiaid, canys hwynt hwy yw 'r neſſaf mewn rhiedi, er nad ydynt ſawr amgenach na chaethweiſion i'r *Tyrciaid*. Yn drydedd yr *Armiriaid*, rhai a ſuaſſent yn hir o amſer yn weiſion i'r Twrc, gan anghofio o honynt eu Hiaith eu hunain, arferant eu holl ddefodau yn Jaith *Arabaeg*, ac yn yr Jaith honno a clywais i hwynt. yn bedwaredd, y *Neſtoriaid*, rhai ydynt gaeth Weiſion i'r Twrc, ac nid oes un jaith arall ganddynt, ond yr *Arabaeg*, yn bummed, *Abaſſiniaid*, ſef Pobl o Wlâd *Preſter John*, yn chweched, *Jacobiniaid*, rhai ydynt Criſtnogion Enwaededig, yn gaeth Weiſion hefyd i'r *Twrc* yr holl rai hyn, [Criſt'nogion mewn enw) a brynnaſſant gan y *Twrc* eu hamryw Leoedd yn yr Eglwys, ac yſtafellodd eraill er mwyn, eu gorweddfa, gan nad ydyw y chwe rhyw lai na 250 neu dri chant yn waſtadol yn gorwedd yno, ac yn Gweddio yn ol eu harfer.

Y lleoedd i maent yn gyffredinol yn arfer i ſyned a dywedyd eu haddunedau ydynt llun ymma mal y mynegaf,

ac megis a dygodd y Monachod *Rhufeiniaidd* ni attynt (1) yn gyntaf y Goloſn wrth ba un y ſſangellwyd Ein Hiachawdwr. (2) Y lle y carcharwyd ef, tra buont yn paratoi neu wneuthur y Groes. (3) Lle yr rhannodd y Milwyr ei Ddillad ef. (4) y lle y cafodd y Frenhines *Helen* y Groes, yr hwn ſydd wrth droed Mynydd *Calfari*, ac yn agos at hwnnw i mae Cappel y Frenhines *Helen*. (5) y lle y coronwyd Chtiſt a Choron o Ddrain, yr hwn ni chawn weled hyd onis rhoddais i'r *Abiſſiniaid*, y rhai oeddent geidwaid ar y lle, ddau ddarn o Arian, (6) y lle y goſſodwyd y Groes o hyd ar y llawr, ac a hoelwyd Ein Jachawdwr wrthi. (7) y lle a'r ben brynn *Calfari* ym mha ſan goſodwyd y Groes pan ddioddefodd ef, (8) y Graig a rwygodd pan Groeſhoeliwyd ef, y peth nyn ſydd gymmwys i ddal ſulw arno yn Fanol, canys holltwyd hi, megis ped ſuaſſid yn ei hagor a Gyrdd a chynion oi phen ucha yn agos hyd y gwaelod, trwy ei chano', yr holit ſy cyn lletted mewn rhai mannau, fel y gallo gwr ymguddio ynddo, eithr y mae yn mynêd yn gulach tu ac i wared (9) y lle 'r Eneiniodd y tair *Mair* o Griſt yn ol iddo ſarw, (10) y lle yr ymddangoſodd eſe i Fair Fagdalen mewn dull Garddwr, ac yn ol hynny y Bedd, yr hwn ydyw 'r lle diweddaf yr arferent Weddio. oddiyno ni aethom i weled Bedd ſeini Baldwyn a Godffrey, o Bullen Brenhinoedd Caerſalem.

A mi yn dychwelyd at y Bêdd, meſurais y cyfrwng neu pellder rhwng lle a lle, gan dreulio fy amſer, o bump ar gloch, Brydnhawn y daethwn i mewn hyd 11 ar Gloch y Dydd neſaf, pryd y daethwn allan. gan yſcrifennu o honof bob peth ac y dybiwn i fod yn gymmwys i ddal ſulw arno. Mr. John Bunnel fy nghyfaill a minnau, yn cy'od yn y mold ymma o'r Eglwys, ni aethom at Bennadur y Cwfont i Giniawa, yno clywſom newyddion ddyfod o Bump, o Saeſon eraill at Byrth y Ddinas ar eu hymdaith i Aleppo, eu henwau oedd Cwilym Bedl yr hwn oedd Bregethwr i Farſiandwyr Lloegr, y rhai oeddynt yn byw yn Aleppo, Edward Abbot gwaſanaethydd i'r Arddercheg Sr Sion Spencer. *Jeffrey Cerby* gwas i'r Arddercheg, P.

Banning a goruchwylwyr trostynt yn Aleppo: y Gwyr jeuainge eraill o' 1, naill oedd Sion Elkins, a Jasper Timme: A'r pump ymma pan glywfant ein bod ni yno, a ddaethant i gyd i'r Tŷ: A rhai hŷn [er na welsant fi yn y Garchar, ac nad oeddent gyda mi yn gweled y pethau tu fewn ac o amgylch Caersalem, a allant dystiolaethu y pethau a hyspysais iddynt wrth y Pyrth, a thystio ŷ gwirioneddau eraill heb law hynny. y Gwyr ymma, ac hetyd tynghysaill Sion Bunnel a adawais i yn ol, yng-Haersalem. Gan ymadaw o honof oddiyno i weled lleôedd eraill yn Nhir Palestine. Eithr cenhadwch i mi yn gyntaf i fynegu i chwi, pa beth a ddaliais sulw arno yngosodiad y Ddinas o herwydd perwyl i mi gredu, cyn dyfod o honof i'w gweled, i bod hi yn gwbwl adfeiledig, neu syrthio o honi yn llŵch, er hynny, pan i gwelais hi, cefais hi mewn gwedd arall, a chan fod gennyf gwmpas bychan, mi a gyfleais y lleoedd mal y gallwn ddyfod yn agos atti.

Gwybyddoch yn gyntaf fod Sylfaeniad Canol yr hên Ddinas ar Fynydd Sion a Mynydd Mariah, ar y Gogledd ô honi i'r oedd Mynydd Calfari allan o Byrth yr hên Ddinas ynghylch ergyd carreg, a dim yn ychwaneg, eithr yn awr mi a gefais y Ddinas newydd yn gyfleuedig mo'r belled tua 'r Gogledd, hyd onid ŷw yn agos yn gwbl ymmaith o fynydd Sion, ac etto ni adawodd hi yn llwyr Fynydd Moriah, yr hwn oedd rhwng Mynydd Sion, a Mynydd Galfari, ac felly yn ddiammau, y cyfleir Muriau o'r Deheu 'r Ddinas ar droed Gogledd Mynydd Sion, Y Mur y dwyrain, yr hon sydd ar gyfair Mynydd yr Olewydd, y ddarn o'r hên Fur, ac felly o'r gongl Dehau ddwyrain. tua 'r Gogledd, pedwaredd rhan o fiilldir tua chefn Mynydd *Calvary*, ac yn y modd hynny, cefais Fynydd *Calvary*, yr hwn oedd gynt ergyd carreg allan o'r Ddinas, ar lle pennodedig i'r arferol ddihenydd, ynawr ynghenol y Ddinas, nid yw Mynydd *Calvary* mo'r uchel, mal y gallid ei galw hi yn Fynydd, eithr yn hyttrach Craig Bicca, canys daliais sulw yn fanol ar ei chyflead hi, yn gystal pan i'r oeddwn ar ei chribin hi, a phan ddaethum at y Bêdd, yr hwn oedd 173

troedfedd

troedfedd oddiwrth droed y Mynydd megis ac y Meſurais i ef, Ac oblegid hynny yr ydwyt yn cyfrif fod lle Claddedigaeth yr hwn a gloddiodd *Joſeph o Arimathea* iddo ei hun, yn 173 troedfedd oddiwrth Mynydd *Calvary* tua 'r Gorllewin, ym mhale i mae Bêdd ein Jachawdwr. Y Bêdd ei hun ydyw ddwy droedfedd a hanner o uchder oddiar y llawr, wyth droedfedd o hyd, a phedair troedfedd o lêd namyn tair Modfedd yn gauedig, a liêch neu Garreg wenn dêg ei lliw, mwch ben y Bêdd adeiladwyd Cappel a'i ſur tu a'r Gogledd yn gyſſylltiedig ac Yſtlys Gogleddol y Bêdd, a'r Cappel ſydd o'r cyffelyb Gerrig a'r Bêdd, ac yn cynnwys pymtheg troedfedd o lêd, pum troedfedd ar hugain o hyd, ac yn ychwaneg na deugain Troedfedd o uwchder. Yn y Cappel hwn y lloſgir yn waſtadol deg ar hugain neu ddeugain o Lampau; eithr ar ddyddiau gwylion ragor: rhain a gynhalir ar draul rhoddion a roddau Criſt'nogion ar eu Marwolaeth yn *Hiſpaen*, *Fflorens*, a lleodd Pabyddaidd eraill, a'i cynnal hwynt i loſgi yn waſtadol, ar gwyr hael ac ſydd yn rhoddi rhain; ſydd au henwau yn Gerfiedig o amgylch eu ymylon ucha mewn Llythyrenau o Aur yn ſefyll mewn Cylch o Aur neu Arian, cynhwyſir y Cappel ac Eglwys, ac etto nid hwnnw yn unig, eithr cynhwyſir gyda hwnnw yr holl Leoedd Sanctaidd a rhagenwyd, ſef, lle y Fflangellwyd Criſt, lle a Garcharwyd ef, lle rhannwyd ei Ddillad: lle cafwyd y Groes, lle coronwyd ef a Drain, lle a hoeliwyd wrth y Groes, lle 'r oedd y Groes yn ſefyll pan y dioddefodd, lle rhwygodd llen y Deml: lle yr Eneiniodd y Fair *Mair* ef, lle yr ymddangoſodd i *Fair Fagdalen*, Ac yn fyrr, yr holl bethau hynodaf, naill ac o amgylch Mynydd *Calvary*, neu o amgylch Maes *Joſeph o Arimathea* a gynhwyſwyd tu fewn i amgylchiad yr Eglwys yma, yr hon a adeiladwyd gan *Helen Fam Cyſtenyn fawr*, hi oedd (megis ac y darllenais mewn rhyw Awdwyr) *Frittwn* a Merch Brenin *Coel*, yr hwn a adeiladodd *Colcheſter*, y hyn pan honnais iddynt, hwy ai gwadaſant. Myfi a feſurais yr Eglwys hon oddifewn ac y cyfrifais hi yn 422 o Wrydau oi hamgylch, cefais un ochor iddi hefyd yn 130 o Wrydau, A hyn yma

yng-

ynghylch Mynydd *Calvary*, yr hwn ſydd yn awr ynghanol y *Ddinas*. o'r gongl ogledd-ddwyrain y Ddinas hyd at yr Ogledd-orllewin ydyw 'r hyd lleiaf o'r Ddinas, ac o'r Gongl-ogledd-Orllewin trwy 'r Deheu orllewin, ydyw cyn belled ac ydyw 'r Deheu ddwyrain i'r Ogledd ddwyrain. eithr o'r Dehau orllewin i'r Deheu-ddwyrain, ſef y Mur Deheu, yr hon ſydd yn ſefyll ar droed Mynydd *Sion*, myfi a'i Meſurais ac ai catais yn 3775 o droedfeddi, yr hyn ſydd dri chwarter Milltir.

Ar yr yſtlys deheu hon o'r Ddinas, i mae porth mawr o haiarn, ac o amgylch porth i mae 17 o fangnelau rhyfel, neu Ganonau o Efydd. y mae 'r Porth yma gymmaint o faint ar Porth Orllewin o Dŵr *Llundain*, ac yn gadarn ragorol, ar muriau yn dra tharwchus ac ar yr ochor ddehau 50 neu 60 troedfedd o uwchder hyd yn hyn ynghylch y Mur ar yſtlys ddehau y Ddinas. nid yw y Mur Gogleddol yn gwbl gymmaint uchder. Eithr yn gadarnach o lawer, canys goreſgynnwyd hi yn fynych. Du 'r ochor Gogledd, eithr ar yr ochor ddehau ni oreſgynnwyd erioed: ar yr ochor ddwyreiniol i mae hi yn anorchfygol, oblegid Serthrwydd llymder y bryhn y mae 'n ſefyll arno, yr hwn ſydd bumwaith yn uwch na'r Mur. Ar yr ochor Gogleddol i mae 35 o Ganons o Efydd yn agos i'r Porth, yr hwn ſydd o haiarn hefyd, eithr pa gyfrif ſydd mewn lleoedd eraill ſef yn y Cornelau yr Conglau, ni allwn weled, ac i ymofyn ni feiddiwn. Ar y mur Dwyreiniol, yn cynnwys y porth lle llabuddiwyd St *Stephan* ychydig oddiallan iddi ac a elwir hyd y dydd heddyw Porth St *Stephan*, ni welais ond pump o Ganons, Ac i'r oeddent rhwng y Porth a charneddau Porth *Aurea*, yr hwn ſydd tua 'r Dehau. Am y Gorllewinol ochor y Ddinas, trwy Borth pa un yr aethwn i mewn ar y cyntaf, y mae yn dra chadarn hefyd, ac i mae iddi 15 o Ganons yn agos at i gilydd o efydd i gyd, y porth hwn hefyd a wnaed o Haiarn, ac y mae 'r Mur yma yn y Gorllewin cyhyd yn llwyr a mur y Dwyrain, eithr y mae 'n ſefyll ar y tir uchaf; canys a chwychwi yn dyfod o'r Gorllewin i Fur y Gorllewin, ni ellwch weled dim oddifewn i'r Ddinas onid y Mur yn unig, eithr ar fynydd

yr

yr *Olewydd*, a chwi yn dyfod tua 'r Ddinas o'r Dwyrain, i mae gennych lawn olwg ar y ddinas, o herwydd bod y Ddinas yn ſefyll ar fin y brynn. I ddiweddu y Ddinas *Gaerſalem* yma, ydyw 'r cadarnat o'r holl Ddinaſoedd ar y weſtais etto yn fy Nhaith er pryd yr ymadawais a Grand Cairo: eithr y parthau eraill o'r Wlad, a orchfygir yn hawdd iawn, etto yn Ninas *Gaerſalem* y mae tri o Griſtnogion am un *Twrc*, a bagad yn y Wlad o amgylch, eithr y maent yn byw i gyd yn Dlawd tan Lywodraeth y Twrc.

Y pethau a ganlyn gan ein hymdeithydd, ydyw cymmaru o hono y Trefydd a lleoedd o amgylch. *Llundain* a'r trefydd a'r lleoedd ſydd o amgylch *Caerſalem*, gan bennodi o hono y Ddinas *Llundain* yn lle *Caerſalem*, a'r Trefydd, Lleoedd, a'r Afonydd cyn belled oddiwrth *Gaerſalem* ac y mae Trefydd, Lleoedd ac Afonydd, y rhai y mae ef yn eu henwi oddiwrth *Llundain*, megis *Bethlehem*, yr hon ſydd oddiwrth *Caerſalem*, cyn belled ac y mae *Wanſworth* o-ddiwrth *Lundain*. Hynny yw pum Milltir. Gwâſtadedd *Mamre* megis *Guilfford* oddiwrth *Lundain* 25 Milltir, yn agos at hynny y mae Dinas *Hebron*, lle y claddwyd y Tâd *Abraham*. *Beerſheba* ſy megis *Alton* o *Luudain* 39 Milltir. *Ramoth Gilead* o belldra *Reading* o *Lundain* 32 Milltir. *Gaza* yn y Deheu Orllewin i *Paleſtine* megis *Saliſbury* oddiwrth *Lundain* 70 Milltir, *Aſcalon* ſy o'r Dwyrain Ogledd i *Gaza*. *Joppa* megis *Aliſbury* oddiwrth *Lundain* 34 Milltir. *Samaria* megis *Royſton* oddiwrth *Lundain* 33 Milltir, Dinas *Nazareth* megis *Norwich* o *Lundain* 91 Milltir. o *Nazareth* i Fynydd *Tabor* a *Hermon* y mae 5 Milltir i'r Gogledd-Ddwyrain. Mynydd *Sinai* ſy yngogledd Ddwyrain daith deng Niwrnod oddiwrth *Gaerſalem*, ni welais i mo rai o'r mannau yma, eithr y Pum Sais rhagddywedig a rodd i mi y cyfri hyn, i ba rai mi a roddais finai gyfri o'm holl daith drwy *Paleſtine*, y lle yr ymprydiodd ein Harglwydd 40 Niwrnod a 40 Nos, a elwid *Quaranto*, ſy oddiwrth *Caerſalem* megis *Chelmsfford* oddiwrth *Lundain* 25 Milltir. Yr *Jorddonen* megis *Epping*, 12 Milltir Llynn *Sodom* a *Gommorah* megis *Graves End* oddiwrth *Lundain* 20 Milltir. Afon yn yr *Jorddonen* ſy 'n ei thywallt

ei

ei hunan i'r Llynn hallt hwn, a rhyfeddol y llwngc y Llynn yr Afon oni chollir hi yn ddiyngwrth Dwfr, y Llynn fy mo'r hallt ac ireiddlyd, os a nâ Chorph Dŷn nac Anifail wedi marw iddo, fe a ddeil hebfuddo ar Wyneb y Llynn, yr holl fudreddi a ddug yr Jorddonen fy 'n nofio ar Wyneb y Dwfr, a thrwy gynhyrfiad y Gwynt yn gyfan Gyfannedd, mae mewn amfer yn ceulo 'n ewyn, a phan ddelo i'r lann, a grefir trwy fawr Frydaniaeth yr Haul, mae myned yn ddu megis Pŷg, ac a elwir gan y Bobl *Bitumen*; mi a ddaethum a rhyw fefur o hono adre! Mae 'r Llynn yn agos i 19 Milltir o hêd, ac i Gant o hyd, o'r Gogledd lle y mae Afon yr Jorddonen yn fyrthio iddo.

Y Maefydd lle daeth yr Angylion a newyddion da i'r Bugeiliaid fy oddiwrth *Gaerfalem* megis *Greenwich* oddiwrth *Lundain* 4 Milltir, Mynydd yr *Olewydd* megis *Bow* oddiwrth *Lundain*. *Bethany* megis y *Black wall*. *Bethphage* megis *Mile-End*. Dyffryn *Gethfemane* megis Maefydd *Ratcliff*, Nant *Cedron* megis *Houndsditch*, y rhai fydd oll bur agos i *Luondain*. Mynydd *Sion* ar Gyffiniau 'r Ddinas megis *Suthwark* wrth *Lundain*.

Llymma Defcrifiad y Ddinas *Caerfalem*, megis ac y mae wedi ei hadeiladu yn awr gyda'r holl leoedd hynod oddifewn iddi ar Wlâd o'i hamgylch; trwy 'r gymhariaeth uchod y gallwch ddeall cyflead y rhan fwyaf o'r lleoedd yn agos atti; a thrwy hyn gallwch wybod, nad oedd hi ond gwlâd fechan, a gronyn o dir a feddiannodd Plant Ifrael yngwlad *Canaan*, yr hon fydd yn awr yn Wlâd anffrwythlawn jawn, canys tu fewn i bymtheg Milltir oddiwrth *Gaerfalem*, Y mae 'r Tir yn llwyr anffrwythlawn, yn llawn o Greigiau a Cherrig. Ni wn i am un parth o honi y dydd heddyw ac fydd ffrwythlawn, onid yw yng-hylch gwaftadedd *Jericho*, pa beth a fu hi yn yr amferoedd gynt, mi a'ch gorchmynnaf at yr yfpyfiad y mae 'n 'Scrythur lân yn i roddi am dani, fy nhŷb i ydyw, pan i'r oedd hi yn ffrwythlawn, ar Tir yn lliteirio o Laeth a Mêl, yn yr amfer hwnnw bendithiodd Duw hi, ac yr oedd ei thrigolion y pryd hynny yn cadw Gorchymynion yr Arglwydd, eithr yn awr gan ei phrefwylio gan ddigre-

fyddion,

ſyddion, y rhai a halogant enw Criſt ac yn Bucheddu buchedd affan ac Anifeiliaidd) Melltithiodd yr Arglwydd hi ac y wnaed mo'r diffrwyth, mal nad aliwn gael Bara, pan ddaethym yn agos atti: canys un Noſwaith a mi yn llettya yn tyrr ac yn ffaelu cyrhaeddyd *Caerſalem*, mewn lle a elwir yn *Arabaeg*, *Cuda Chenaleb*, gyrrais ſy Moor neu 'r Dŷn du, [nid ymhell oddiwrth y fan a gwerſyllaſom ynddo) i gyrchu Bara, Ac ele a ddugodd air yn ei ol attaf, nad oedd dim *Bara* yno iw gael, ac na fwytaſai Gŵr y Ty hwnnw Fara yn holl amſer ei Fywyd, na neb o'i dylwyth eithr eu llunaeth oedd datau ſychion yn unig: trwy hyn a gellwch wybod anffrwythlonder y Wlâd y dŷdd heddyw, yn unig, (mal yr ydwyf yn rueddwſ) o herwydd y ſelldith a ôſododd Duw arni: canys arferant bechod *Sodom* a *Gomorah* yn y Wlâd honno: mal y byddo yn dda jawn gan y Criſt'nogion anghenus yno, briodi o honynt eu Merched ar 12 oed a Chriſt'nogion, rhag i'r *Twrciaid* i treiſio hwynt ac i ddibennu, nid oes un fath ar Bechod yn y Byd, nas harferent ymmyſc y Bobl anghredadwy hyn y rhai a gyſaneddant y Wlâd honno, Ac etto er hyn gelwir hi yn *Terra Sancta*, ac yn *Arabaeg Cuſhe* a hynny yw Tir Bendigaid, gan gymmeryd o honi yr Enw yn uniga dim ychwaneg, canys deolwyd Sancteiddrwydd oddiyno gan y lladron hynny y Twrciaid bryntion anghredadwy y rhai a drigaſant yno.

Yn ol cael o honof ſy Sertificate, yn ſelledig gan y *Quadrian*, a Llythyr, i ddangos ymolchi o honoi yn yr Afon *Jorddonen*, mi a ymmadawais a *Chaerſalem*, ynghymdeithas y dû yn unic, yr hwn a'm Cymhorthodd allan o'r Carchar gan adel *Edward Abbot*, *Sheffrey Kerbie*, *Sion Elkins*, *Siaſper Timme*, a Mr *Bodl* y Pregethwr, rhai a gyfarfuom o ddamwain yno, heb wybod o'u dyfodiad, ar ſy ol yng *Nhaerſalem*, a pheth a'm blinodd fwyaf, y gwr Bonheddig o *Midleborough*, Mr. *Sion Bunnel*, wrth ei enw, yr hwn a gyfarfum yn *Grand Cairo*, a'r hwn y Gydymdeithodd a mi oddiyno i *Gaerſalem*, ymmadawodd a mi yno, ac a aroſſodd *Yngbaerſalem*, gyda'r pum Sais arall, ac yn y modd yma a'm gadawyd ſi yn unig gyda 'r Dŷn du yr hwn a gad-

wodd

wodd gymdeithas gyda mi, a nis ymadawodd oll, hyd onis daethom i *Gairo fawr*. Ynawr pa beth a ddigwyddodd i mi yn fy Ymdaith o *Gaerſalem* i *Gairo*, ac oddiyno i *Alexandria*, ym mha le ſafai fy Llong, mynegaf o hyn allan.

Yn ol i ni fyned o *Gaerſalem*, ni a ddaethom yn ddifraw i *Rama*, ac oddiyno ni aethom i *Aſcalon*, ac oddiyno i *Gaza* yr hon fydd yn ymmyl diffaethwch *Arabia*, yn un o'r ddau le ymma gobeithiais i gael fy nhroſglwyddo ar y Môr naill ai i *Alexandria* neu i *Damicta*, gan ddarfod o'r gobaith o hynny, ſynnodd arnaf ac mi gwyddwn pa beth a wnawn, pa un ai dychwelyd o honoi i *Gaerſalem*, neu fwrw fy hun yn enbydus ar dwylo 'r *Arabiaid* gwylltion, fal yr i'm hebryngwyd ganddynt hwy i Gairo fawr: i'r oedd yn anghenrhaid i ni gymmeryd un o'r ddau ymma: nid oedd dim gobaith am droſglwyddiad, Ac etto i'r oedd gennif obaith arall, y gallwn gael troſglwyddiad yn *Joppa*. Ac o achos hynny, gan ddanfon fy Nŷn Du i *Joppa*, i ymofyn am droſglwyddiad, mi ai haroſais ef yn *Gaza*, eithr nid oedd yno un i'w gael, o'r diwedd gan yſtyried, ſod yn anghenrhaid i mi fyned ar frys i'r *Aipht*, canys gadawſwn fy ngwâs *Waldred Yngbairo* gyda'm cyfoeth, o ſil a dau cant o Bunnau, a'm Llong a aroſafai yn Angorfa *Alexandria*, a thriugain Gwŷr ynddi, heb wybod pa un y wnaent a'i aros am danai ai Peidio, canys pan ymmadawſwn a hwynt i fyned ar hyd *Nilus i Gairo*, nid oedd twriad gennyt i fyned i *Gaerſalem*: A'm helynt yn ſefyll yn y modd ymma. ſe a'm gyrrwyd i'r eithaf ymma, ſef i fwrw ymmaith fy holl dda bathol ac oedd o'm hamgylch, a goſod fy hun yn nwylo dau o *Arabiaid* gwylltion, y rhai a gymeraſant arnynt fy nwyn i ar du, (heb pa un ni feiddiwn fyned) i Ddinas *Cairo*, mewn pedwar niwrnod, ac myfi a dalwn iddynt bedwar *Sulton* ar hugain o Aur, pan y delwn i *Materia* yn agos i Cairo, Ac ar yr Ammod ymma hwy a'n dodent yn ddifraw yno, os Amgen, dywedaſant hwy a'm dugent yn Garcharwr gyda hwynt, neu torrent fy ngwddf.

Ac yn y modd hynny gan gyttuno a hwynt; trwy fy Moor yr hwn a ddywedaſai troſof, ac a ſicrhaodd troſtynt ar i mi

mi fyned yn ddiogel, gan dyngu na ymadawai a mi er dim ac a ddigwyddai, y ddau *Arabiaid* wylition, a ddarbodaſant ddau o *Ddromedariaid* i ni farchogaeth arnynt, y *Moor* a minnau a Farchogaſom o'r blaen, a'r *Arabiaid* ar yn ol ni, dau ar bob *Dromedari*, ac yn y modd ymma, yr ymadawſon o *Gaza*, ynghylch dau ar gloch yn ôl hanner dydd, ac y Farchogaſom yn galed jawn: Canys yr Aniteiliaid hynny a ânt mo'r fuan ac mo'r arw, hyd onid oeddwn mewn peder awr mo'r flinderog, a dymuno o honof arnynt i adel im ddeſcyn a gorphwys ychydig yr hyn a wnaethom ynghylch chwech ar gloch yn ol hanner dydd, yn ol i ni ddeſcyn, yr *Arabiaid* a glymaſant ddau droed flaen ir *Dromedariaid* ynghyd, mal i'r oedd eu harfer hwynt, gan beri iddynt benlînio ar y Ddaiar, yn ôl gwneuthur o honynt hynny, nyni a eiſteddſom i lawr, i fwyta ychydig o Reſinau a Biſcedau, y rhai a ddugaſom gyda ni yn ein Codau; yn y cyfamſer un o'n Dromedariaid a derrodd ei gebyſtr ac a ddiangodd yn ôl tua *Gaza*, yno un o'r Lladron (ſef 'r Arabiaid) a gymmerodd y *Dromedari* arall, ac a yrrodd yn ei ôl ef, hyd onid oeddent cill dau allan o'n golwg ni: yno 'r *Arabiad* arall, yr hwn a arhoſodd yn ôl gyda ni, ar redodd yn eu hôl hwynt, mal a gadawyd ni yn unic yn Niffaethwch gwyllt *Arabia*, o'r diwedd a hi yn nôſhau ein dau dywyfyddion a'n Dromedariaid wedi mynod ymaith, i roeddem yn dau mewn dychryn nid bychan, pa beth a ddawai o honom; yn y cyflwr yma, gan adel o honof fy *Moor* gyda 'n Codau (ymha rai dugem ein hymborth) mi a aethum i ben Brynn tywodlyd, nid ymhell oddiyno i ddiſgwyl a allwn gantod ein dau Leidr, cyn gynted ac yr aethum i ben y Brynn, mi welwn bedwar o *Arabiaid* gwylltion yn rhedeg tu ac attaf o'r ochor arall i'r Bryn tywodlyd, yr hyn a mi yn deall, rhedais yn dra buan at fy *Moor*, etto ni allwn redeg mo'r gynted, onid oedd un o'r lladron wrth fy Sodlau, a chan dynnu allan ei Gleddyf, fe a orchymynodd i'r *Moor* fy nhraddodi iddo ef: Eithr y *Moor* a berodd iddo fy chwilio, (canys gwyddai yn dda, nad oedd dim o'm hamgylch a dalai ddim ond fy hugan Gamlet) ac a ddywedodd yn ebrellach wrtho, y *gwar* hwn, (hynny yw, yr Anghredadwy hwn) fydd i gael ei hebrwng i Gairo mewn

pedwar

pedwar niwrnod, gan ddau o'ch cyfeillion, ac yno efe au henwodd hwynt, i'r hyn attebafant i gyd, pd oedd hynny yn wir, ni wnaent ddim niwed i mi, eithr os eu cyfeillion na ddawent yn ôl, yno dugent ni ymmaith gyda hwynt; eithr o fewn i ddwy awr yn ol hynny liw nos, ty nau *Arabiaid* a ddawent yn ol a'u dau *Dromedari* gyda hwynt, Ac yno 'r oeddent yn Gyfeillion Lladron. Nyni a roddafom iddynt ychydig o Raifiniau a Dwfr, ac yn ol hynny ni a ymmadawfom, ac ar y pedwaredd Nos, daethom i le yr oedd Pabellau gan yr Arabiaid, ac yno rhoddafant i mi Laeth Camelod, ac edrychafant arnaf mo'r fanwl, megis ped fuafent heb weled Dŷn gwyn erioed o'r blaen: Oddiyno ni ymmadawfom, a'r ail Nos ni ddaethom i *Salhia*, yno, gan ty mod wedi fy yfgwyd yn doft yn fynghorph, er fyngwregyfu yn ddwys a rhwymynau) er hynny fe orfu arnai ddymuned ar fy llwybreiddwyr roi heibio 'r Dromedariau, a cheifio i ni Geffylau, y rhai a gawfant oddiwrth rai o'u cyfeillion, y Dromedari ydyw fath ar Anifail, yn debyg i Gamel, ond bod ei ben yn llai, a'i Wdd yn fain jawn, eithr i mae ei Goefau cyhyd, ac nid oes dim rhagor o wahaniaeth rhwng Camel a Dromedari, nac fydd rhwng Ceffowci a Milgi: ni fwytu 'r Anifeiliaid ymma ond ychydig, a llai a yfant, canys ni yfafant tra bum gyda hwynt; a dywedant hefyd na's yfant mewn wyth neu ddeng niwrnod ynghyd, eithr nis gallant ymattal cyhyd heb fwyd, Wrth hyn gallwch wybod i mi ymdeithio mewn pedwar Niwrnod cyn belled, ac i roeddwn yn myned mewn dauddeng niwrnod o'r blaen. yr ydwyf yn medawl a cerdd Cephyl dr mo'r fuan, ond ni pharhau ef, eu cerddediad ydyw garwduth yftynol, ond yn erwin ac yn fuan. O ymyl *Salhia* yr hon fydd o'r Dwyrain i *Gozan*, cymmerais Geffyl: eithr yr achos pa ham y Caniattaodd yr *Arabiaid* Geffylau i ni, nid o herwydd toftur[illegible] o honynt arnaf, oblegid fy mlinder, eithr o herwydd nas meiddient ddyfod yn agos i Wlâd Cyfaneddol a'u *Dromedariaid*: Ac yno arhofoddd un o honynt, ar llall a ddaeth gyda mi i *Fatteria*, o ba le mi a yrrais fy *Moor* i *Gairo*, i gyrchu eu cyflog hwynt, ac yno y telais chwe darn o Aur rhai a gyflogafant eu Ceffylau, a thelais hefyd i'r ddau *Arabiaid* gwyllt, pedwar darn ar hugain o Aur, ac yno i'm rhoddaf-

fant

ſant yn ddiogel i Gadwraeth ſy Moor, tu fewn i dair Milldir i Ddinas *Cairo*, ym mha le im Croeſhawyd gan yr Uchelſaer (conſul) ac eraill yno yn ymaros. Ac yno y talais i'm *Moor* ſtyddlon chwe darn o Aur, ac y brynnais amryw gyfreidiau iddo iw gynnorthwyo ef yn ei ymdaith i *Feiba*, ym mha Daith, bu efe farw ſel yr oedd yn dyfod yn ôl drachefn.

Tnghairo arhoſais ddau ddiwrnod, ar fairhfed nos yn ôl hynny mi ddaethum i *Ballac*, ac yno cymmerais Leſtr, ac mewn tri diwrnod, mi ddaethum i wared ar hyd yr Afon *Nilus* i *Roſeta*, ac yno a mi yn cymmeryd Ceffyl a *Janiſary* gyda mi, mi a fyrthiais i fwy o Berygl nac un a gawſwn yn fy holl Daith, canys rhwng y Drêf honno ac *Alexandria* yr oedd llaweroedd o *Janizariaid* cawog yr rhai a ddaethant o *Gonſtantinopl*, ac a diriafant yn ddiweddar yn *Alexandria*, a hwy wedi blino eu Ceffylau, a fynnent gymmeryd ein dau Fûl ni oddiarnom, yr hyn a ommeddwyd gan fy *Janiſary*, a chyda hynny tynnodd allan ei gleddyf, a hwy yn chwennych ymddial a ddaethant tan redeg i'm dal i, a chan ofod eu dwylo arnaf, pedwar o honynt a'm pwyafant yn dôft greulon, ac a'm gyrrafant i o'r ffordd o'r naill du, ac yno mynnent fy llâdd; a'm *Janiſary* yn deall hynny, a gweled nad oedd dim a'u llonyddai nwynt ond y ddau Fûl, yn ôl iddynt ei Archoili ynteu yn doſt, efe a roddes y ddau Fulod i'r *Janiſariaid*, eraill, ac oni fuaſai hynny fe a'n Lladdaſid yno, yn ôl fy ymdaith hir a blinderus, a minnai o fewn i bum Milltir at fy Llong, yr hon oedd yn ſefyll yn Anghorfa *Alexandria*: Ac efe yn dôft friwiedig, a minnau wedi fy mhwyo yn doft, o'r diwedd daethom at Byrth *Alexandria*, eithr, yr oedd hi mo'r hwyr, mal na's gallwn gael myned i mewn, eithr gorfu ar nom ni aros trwy'r Nôs honno hyd y Borau ar y Cerrig noethion, ar y Boreuddydd mi a aethum i'm Llong, wedi bod oddwrthi ddeng niwrnod a deugain: ac felly terfynais fy Mherindod boenus i *Gaerſalem*.

TAITH
I
GAERSALEM:
NEU
Ymdaith 14 o Saefon i *Gaerſalem*, yn y Flwyddyn 1669.

Aleppo

Anrhydeddus Sir,

FE Waſanaethu y rhain i hebrwng cyfrif o'm Hymdaith i'r Tir Bendigaid, ar ba rai gallaſwn ei'ch bwrw chwi at eraill, rhai a reddaſant cywreiniach Tmadrodd ynghylch y Pererindod honno, er hynny yn ol eich Dymuniad Anerchaf chwi a'r Deſcrifiad ymma.

DYDD Mawrth y trydydd o Fai 1669 ni godaſwn hwyliau o *Scanderoon* gyda Gwynt Ogledd-ddwyreiniol yn y *Margaret, Thomas Middleton*, yn Bennadur neu Benſwyddwr, ac oeddem bedwar ar ddêg o Saeſon, o gydſaſnach *Aleppo* ynghyd, eithr, A ni yn cael ein gwthio i droi yn ôl dairgwaith, trwy wynt gwrthwynebol, erbyn y Degfed o Fai ni gyrhaeddaſom *Dripoli:* Porthlâdd pa un a ymddiffynnir a chwech o Geſtill bychain, gerllaw 'r Môr, ac un Caſtell mawr ar y Tîr, ac ymddyffynnir rhag Tymheſtloedd tu a'r Gorllewin, ac Ynyſoedd, a thua 'r Dwyrain a phen Tîr, ac yn y modd ymma nid oes dim ond Gwynt y Gogledd a ddichon ddrygu Llongau yn y Porthlâdd hwn: y mae 'r gwaelod yn gerrigog, yr hyn a yrrodd y Capteiniaid i wthio i fynu eu Cyrt, a'r Llongau yn Angori mewn chwech neu ſaith Wrŷd o Fôr, Y Drêt ſydd ynghylch Milltir oddiwrth y Môr, wedi eu go-

ſod

ſod ar lether Bryn, ac i mae iddi un Caſtell cadarn iw hamddiffyn, y mae 'r Drêf yn amharus, ac nid oedd nemor o Bobl i'w gweled, ar y cyfamſer hwnnw, o herwydd i bod hi yn amſer Gwau ſidan Gwyn, a'r holl bobl yn eu Gerddi.

Mai y 13 yn ôl tri diwrnod Croeſawiad gan y Conſul (tros y *Saeſon, Ffrancod ar Dutch*) ynghyd a Mwyeidd-dra rhagorol, ynghylch pedwar ar Glôch yn ôl Brydnhawn, ni a oſodaſom tua Mynydd *Lebanon*, a Marchogſa dwy Awr o *Dripoli*, ni a werſyllaſom yn y Pentre *Coffer ffinno*: Y Trigolion ydynt Grift'nogion ac yn byw mewn Tai a adeiladwyd a Chyrs ac o dywod, a Gwryſg ar ffordd i'r Pentre yma ſydd dda a hyfryd, gan fyned iddi trwy Goedwig o Oliwydd, ac yn y Dyffrynnoedd y mae Gerddi Morwydd, a pha rai porthant y Sidan bryfed, Dydd Gwener *Mai* y 14 ni ymmadawſom a *Coffer ſinno* ynghylch 4 ar Glôch y Borau, ni gawſom ffordd dda, a thrwy Waſtadeddau yn hauedig o Wenith: ynghylch 6 ar Glôch aethom tros Fynyddau yn gyffelyb i Fein Mynor, onid oeddent y rhei'ny, or lle ymma cawſom olwg êglur, ar ffrwythlonder y Dyffrynnoedd. rhwng y mynyddoedd hyn ar eſgyniad Bryn cawſom Ffynnon, yno bwytawſom ein Boreu-fwyd, ar ſaith ar y Glôch codaſom oddiwrth y Ffynnon, a chwedi myned o honom tros Fynydd tra êmbydus a garw, ynghylch naw a'r Gloch, ni ddaethom i *Eden* Pentre bychan a gyflewyd yn hyfryd ragorol, gan i fod yn amgylchedig a Morwydd neu (Mulberies) Cyll ffrengig, ac amryw êraill o Goed: yn enwedig. Cnau Ffreinig a gawſom yn aml ar y Mynydd yma: ni aethom i Dŷ 'r Eſgob, bwthyn amharus a thlawd jawn, yno a'r Eſcob yn dyfod i'n Croeſawi; ymddangoſai yn debyccach i Garthwr tommen nac i Eſcob. Ymolynaſom iddo o ba beth y cafodd y Dyffryn yma ei Enw, y *Maronitiaid*, (rhai a breſwyliant y Mynyddoedd y rhan fwyaf,) a ddywedant yn y lle hwn y troſeddodd *Adda*, gan fwyta y gwaharddedig ffrwyth. Eithr yr Eſgob a ddywedodd, mai yny Neſoedd, ir oedd tri Phren y gwaharddwyd *Adda* i fwyta o un o honynt, yr hwn oedd Ffigusbren, eithr ac ese yn ei Fwyta, ese a ſyrthiodd o'r Nêf ac a gwympodd ym myſc y Cederwydd, y rhai ydynt oddiſewn i Daith 2 awr ar Geffylau oddiwrth Dŷ 'r Eſcob) ac yno dechreuodd wrthithio a

thrin y Ddaiar. Eithr gan fod yr Eſcob yn anwybodus yn y pethau hyn, ni arbedſom ymofyn ym mhellach. Yr ydys yn dangos anrhydedd mawr, i'r Eſcob, pob un yn Cuſanu ei law et ar eu Gliniau ac yn benoeth: y mae ganddo yn ei Dŷ Eglwys amharus, ac Allor ynddi; ac ychydig tu hwynt ei Dŷ ef, i mae Cappel bychan, ger llaw blaen Nant, yr hwn ſydd yn Porthi i Dŷ ef a Dwfr, yno gwelſom fagad o Bobl ac enwau *Ffrangaidd*, y rhai a arhoſaſant yno er y Flwyddyn 1611.

A Hanner Dydd yn pwyſo, yr Eſcob a ddarbododdd, y peth a allai ei Dŷ ef, i roddi tu ac at ein Cinio, gan lâdd dau Fynn a Gair, a chan roddi i ni yr Gwîn gorau a ddygai 'r Mynydd Gwyn a chôch pur archwaethus. A'r Nôs yn dyfod yn ôl Swpper, ni a gufanaſom ei Law; ar Foreu neſaf a ni ynawr ond 12 ynghyd. (canys arhoſodd dau o honom i ddiſgwyl ein ymchweliad yn ôl *Dripoli*) a aethom i gymmeryd ein Cennad oddiwrtho ef, ac a cyflwynaſom ef ac anrheg Oliver, heblaw a roeſom i'r Gwalanaeth-ddynion, mal i mae 'n arferol i Bererinion y rhai a gymmerant yr hynt hon. Dydd Sadwrn Mai 15, ynghylch pump ar Glôch y Boreu, ni gychwynaſom oddiyno ac ynghylch wyth ar Glôch ni ddaethom at y Cedrwydd cymmaint ac ſydd yn ôl e honynt, ydynt tu fewn i amgylchiad bychan jawn Ni dreuliaſom beth amſer yn torri Priciau, yn cerfio ein Henwau ar y coed mawr, yn y lle ymma Tywyſog pentref, ai henw hi *Upſhara*, awr o Farchogaeth o'r Cedrwydd.

Ar ein ffordd wrth fyned yn ôl a'n gwahaddodd i Giniawa yn ei Bentre ef, yr hyn a gymmeradwyſom, ac yn ol Ciniaw o honom ni wnaethom Anrheg iddo, *Maronydd* yw 'r Dŷn ymma, ac y mae fo yn codi Caffar neu Doll oddiar y *Twrciaid*, y rhai a ânt heibio y ffordd honno au Defaid ac Ychen: Y mae ganddo Gant o Filwyr tan ei Arglwyddiaeth, y rhai ynt i gyd yn Criſt'nogion. Ynghylch tri a'r Glôch ni gymmerſom ein Ceffylau, ac yn ôl tair Awr o Farchogaeth ni ddaethom i oriwared dwfn jawn, troedig mewn ac allan yr hon yw 'r ffordd i Dŷ Patriarch y *Maronyddion*, ai Enw yw *Cannibend*, Monachlog dda bur ydyw, ac yn gorwedd iſaw Craig, y mae ganddynt Glôch yn ei Heglwys megis ac yn

Europe,

Europe, ac ânt at eu gweddiau Forau a phrydnhawn: yn ôl Cuſanu o honom law 'r Patriarch, ni ofynaſom iddo pa beth hynod oedd i'w weled yno, A'r *Dryggerman* neu 'r Cyfeithydd a'n dug ni i weled Croes St. *Marrenna* am ba un a datcanent y chwedl hwn

'Yn yr amſer ac i'r oedd y *Ffrancod* yn meddiannu 'r Wlâd, 'Gwr o *Venice* a ddaeth a'i Wraig ac un Ferch i fucheddu 'yno, ac yn ôl rhai o Flynyddau bu i'r Wraig farw, yno ese 'a fwriadodd fyned i Fonachlog i fucheddu Buchedd Greſy-'ddol, ac o herwydd hynny gofynnai i'w Merch ymadel ac 'ef, eithr nis gallai ei holl ymbil a'i eiroldeb ef, droi dim ar-'ni, eithr yn hytrach nac ymadel o honi ai Thâd, hi wiſ-'cai ddillad gwryw, a bucheddu bywyd Defoſionol gydag ef, 'yr hyn a gyttunodd ef o'r diwedd, (nid o'i wirfodd) canys 'teg ei phryd ac jeuainge oedd hi: yno buant fyw yn ddefo-'ſionol jawn ſtros amryw o Flynyddoedd, yn ôl hynny bu ei 'Thâd farw: Ar Brodyr llygol a'r Henaduriaid yn myned i'r 'Maes [mal yr arferant) i ddiwyllio neu lafurio yr Tir, nid 'ai hi ond anfynych gyda hwynt o herwydd blaenor y Fyn-'achlog neu 'r Abbad a'i cadwai hi gartref (gan ei fod ef yn 'caru 'r fâth Lengcyn jeuainge têg mal i'r oedd ef yn tebygu 'Ar hyn dechreuaſant wrwgnach am na ddaethai St. *Mar-'rana* gyda hwynt; Acfelly o'r diwedd i fodloni yr Brodyr, 'ese a yrrwyd i'r Maes i weithio yn ei plith hwynt gerllaw y 'Pentref *Twrſa*, ychydig yn ôl hynny bu 'i un o'r gwyryſon 'y Pentref hynny feichiogi, ac y ddaeth i'r Fonachlog, ac a 'fwriodd y Weithred ar St *Marrenna*, Ar hyn hi a eſcymun-'wyd yn ddiat treg, yn ôl hynny hi a fu byw yn o Greſydd-'ol, mewn Ogof gerllaw 'r Fynachlog, tros yſpaid faith Mly-'nedd, Ac ef yn cael ei ollwng yn ol dracheſn i'r Fynachlog, 'ac yn waſtadol yn byw buchedd dôſt a chaled, ef a fu ym 'mhen ennyd farw, a'r Henaduriaid yn dyfod mal yr arfer-'ent i eneinio yr Corph, hwy a'i cawſant ef yn Fenyw: yno, 'dechreuſant ymgroeſi a gofyn maddeuant am ei Heſcymuno 'hi, ac Adeilaſant Allor yn yr Ogof ac y galwent ef wrth enw 'St. *Marrena*, megis acy mae ganddynt mewn bagado Ogo-'fau o amgylch yno, er coffadwriaeth o'r Creiriau Crefydd-'ol, y rhai a ſuaſent yn byw ynddynt, a phan ddygant rai i'w

gweled hwynt, ſyrthiant i lawr yn y man i Weddio.

Ynghylch Lêg oddiwrth y Monachdŷ, y mae dau Wr o Wlâd *Effraingc*, y rhai ſydd 'n byw buchedd meudwy yn cael dogn o Fara a Gwin gan y Patriarch: A hi yn noſhau, ni a aethom i Swpperu gyda'r Patriarch, ac Eſgob *Aleppo*, a dau Eſgob arall, gan Arlwyo o honynt y peth a ganiatta y lle: A nyni yn Swpperu hwy a ddugaſant allan Gwppan mawr o Wydr gloyw, yr hwn a gynhaliai ddau Gwart, a pha un y gwnaeth yr hên Ddŷn ei hun yn llawen, gan ddywedyd wrthym tod y Lleſtr Gwydr hwnw yn perthyn i'r Fonachlog er ys mwy nachant o ſynyddoedd, ac i'r *Twrciaid* ddyſod un waith i anrheithio y Gwſent neu 'r Fonachlog.

Ac yn canſod y Cwppan Gwydr, a ddywedodd wrth un o'r Monachod, os efe a allai yted i lonaid ef i gyd o Win pur, yno 'r arbedais et y Cwſent, Ac un o honynt yn gwneuthur hynny y *Twrciaid* a aethant ymmaith, gan ryſeddu fath Bobl oeddynt. Mai yr 16 ni gymeraſom ein Cennad oddiwrth y Patriarch, ac a anrhegiom et a rhai *Livers*, ac hefyd ir Brodyr Anghenus, a'r Bobl a berthynant i'r Cwſent, ac yn ôl hynny cymmerſom ein hynt tua *Thrippoli*, yn ôl i mi gael golwg eglur ar y Mynyddoedd, ar Wlâd gyfagos, lle y mae llawerpedd o Bentrefydd têg, a llaweroedd o Ddyffrynoedd ffrwyth lawn, hauedig, ac ŷd, ac amlder o Erddi Morwydd; canys cwbl gwaith y trigolion ydyw gwneuthur ſidan.

Ni a ddychwelaſom i *Dripoli*, i Dŷ y Conſul y Nôs honno, yno yn ol gorphwys o honom ddau ddiwrnod, a chael croeſo da dros ben, ni gymmeraſom ein Cennad oddiwrth y Conſul *Mai* 18, ynghylch hanner Nôs ni hwyliaſom tua *Joppa* gyda Gwynt llwyddianus, ar y Borau daethom i olwg y Penrhyn *Blanco*, yno a'r gwynt yn wrthwynebol ſe'n gyrrwyd ni i Forio yma a thraw ddau niwrnod, cyn y gallem Forio heibio 'r Penrhyn; A'r Gwynt yn llwyddo gyda ni, ni a foriaſom heibio 'r Penrhyn, ac a ddaethom mewn golwg i Benrhyn *Carmel*, a'r ddau Benrhyn hyn a wnant y Rhodfa, ar yr hwn y mae Cwſent o Fonachod gwyn ion, ac yno dangoſaſant Fedd-faen *Eliſha*. A thair awr neu beder o hwylio ymlaen, ni ddaethom mewn golwg i *Cæſarea* y 'nawr yn amharus ac yn gyſaneddol gan fintai o *Arabiaid* gwyllion,

gwylltion y 23 o Fai, ni gyrhaeddaſom *Joppa*, ir hon nid oes un ymddiffynfa i gadw Llongau rhag Temeſtl, eithr y mae Anghorfa dda iddi, ynghylch deng Gwrhyd o Ddwfr, Tref Dylawd ydyw hi, ac y mae un Caſtell iddi i ymddiffyn y Llongau a ddont yn agos i'r Tîr, au Marchnadyddiaeth pennat ydyw hudw i wneuthur ſebon, a ychydig o Wlân coch *Cottens* ac Edafedd o'r gwlan Coch, y rhai y mae y *Ffrancod* yn eu dwyn oddiyno. 24 o Fai cyrhaeddaſom *Ramah*, Trêf hyfryd, a Marſiandaeth fawr. Y Trigolion ſy'n gwerthu Filladoes, Y Bobl ynt yn *Dlawd*, a chynheiliaeth y Gwraggedd yw nyddu i'r Farſiandaeth. Croeſhawyd ni yno yn y Cwfent, hyd oni phryſyrid cennad i'r Cwfent *Yngbaerſalem* er cael caniattâad i fyned yno, o herwydd ffygiol chwedlau a ae rhai allan, ar fod haint y Nodau yn terfyſcu yn y lle a daethom o hono y Cennad a ddaeth yn ol y Nôs honno.

Y 25 o *Fai* ar y Boreu ddydd cymmeraſom ein Ceffylau er ymdeithio tua *Chaerſalem*, ac y twytaſom wrth Eglwys St *Jerom* ynghylch dauddeg ar Glôch, ychydig luniaeth ar oedd gyda ni: a gwrês y dydd yn myned heibio, ni aethom ymlaen ar ein hynt; ac ynghylch pedwar ar Glôch Brydhawn ni gyrhaeddſom *Gaerſalem*, ac aethom i mewn i Borth *Joppa*, yno aroſaſſom hyd onid aeth y Dryggerman, y Cwfent at y *Caddy* am Gennad i ni fyned i mewn i'r Ddinas; pan y cawſom hynny, ni ymmadawſom a'n Cleddyfau ac arfau eraill ar oedd gyda ni, mal y dugid hwynt i'r Cwfent, ni aethom i mewn i'r Ddinas ar ein Traed, ac a hebryngid ni gan y Cyfarwyddwr i Gwfent y *Latingiaid*, a dau neu dri o'r Henduriaid yn dyfod gyda ni. ni au cafaſom hwynt ar eu Gweddi ac yn ol hynny ni aethom i Yſtafell pennadur y Cwfent, yr hwn a'n cofleidiodd ni, ac a'n Croeſhawodd ni, fe 'n dygwyd ni i'n Llettŷ, a'r Henadur, yr Arglwydd a ddaeth attom ac a roddes i ni weneithus Eiriau gan ddwyn Dwy neu dair o Goſtrelau o'r Gwîn goreu, a ddymuno o honof arnom i alw am y peth a fyddai eiſiau arnom, Dymma 'n Croeſaw cyntaf. Eithr mi ddylaſwn roddi hyſpyſiad i chwi, ynghylch ein Cyfarwyddwr, *Malliniais Salley* wrth ei Enw, yr hwn a'n hebryngodd ni o *Joppa*, trwy 'r Mynyddoedd i fynu i *Gaerſalem*. buaſai hwn yn yſpeiliwr ei hun, ac oblegid hynny

gallaſa'i efe 'n dwyn ni trwy 'r Arabiaid yn well y rhai ſydd yn gòrmeſu y Mynyddoedd hynny ac yn byw ar eu hanrhaith *Groegaw*r oedd ei o herwydd ei Genedl a'i Grefydd. Yn awr i'n Croeſawi ni ymhellach *Yngbaer Jalem*, y Boreu neſaf y Penadur *Tomaſò* llygol Frawd, un yn ddwys ddifrifol a chreſyddol yn eu ffordd hwy, a ddaeth i'n Yſtafell ni a Llaeth a Gwin, a Ffrwythau coed, [a bendith yn ei enau) A'r tymmor yn Frŵd jaw: ac ynghylch dauddeg ar Gloch ni aethom i Giniawa, a dau neu dri o'r Llŷg-frodyr yn gweinyddu wrth ddrws y Nauadd a Chawg o Ddwfr glân i ni ymolchi ynddo, A ni yn myned i mewn i'r Neuadd yr Henaduriaid a fatent o'r naill ochor i gyd yn agos at eu gilydd, ac a ddywedent râs yn Lladin, ac yn ôl hynny canent weddi 'r Arglwydd ynghyd; ac yn ôl hynny ymgryment tu ac at lun ein Jachawdwr ar Swpper gyd au Apoſtolion, yr hon a gyflewyd uwch ben Pennadur y cwſont, yn harddediga chroeſau oddi amgylch &c. Y mae Bwrdd y Penadur ynghanol yr Yſtafell yn unig, a dau o Fyrddau hirion ar bob Yſtlys i'w Yſtafell, un i'r Pererinion a'r llall i'r Henaduriaid; yn ôl iddynt Gufanu 'r llawr, ni a eiſteddaſom i gyd, ac y gawſom bob un ei ddogn mewn diſcyl fechan, o ba rai nid oedd eiſiau arnom, tair neu bedair cyfnewydiad o amrywſwyd, ein Gwin, Dwfr, a ffrwythau coed a oſodaſid yn barod i ni. Y Gwin oedd ynghylch Quart, a'r Dwfr ychydig lai, hyn oedd rhan i ddau ddŷn, ac i'r oedd dwy Phiol o Wydr yn perthyn iddo. Ynghylch canol Cinio daeth un o'r Brodyr, ac y newidiodd ein Dwfr mal y gallai yſed yn groywach. A'n Ciniaw yn darfod, y Pennadur a gurodd, a'r Monachod a gyfodant ac a benliniant, au hwynebau tu ac at lun ein Jachawdwr gyda ei Ddiſcyblion ar Swpper, a chan ſibrwdu rhyw beth wrthynt eu hunain, cuſanant y llawr, ac yn ôl hynny dechreuant ddwyn ymmaith y gweddillion, y naill yn cymmeryd y Dyſclau ymmaith, a'r llall y Cyllill, pob un o honynt yn cael ei orchwyl, ac yno rhoddant ddiolch yn yr un modd, ac y gwnaethant o flaen Cinio, ymolchent wrth y Drŵs, ac yn ôl hynny aent i'r Eglwys i Weddio, tros bedwaredd ran o Awr, yr hyn a wnaent beunydd, gan godi o honynt yn forau yn waſtadol, ac yn y Nôs hefyd i fyned i'r Maſs.

Ar

Ar y cyſamſer ymma daethai dau neu dri o Griſt'nogion o *Fethlehem*, a'u ceiſyddyd oedd, gwneuthur llun Bedd ein Jachawdwr, neu ryw haneſion Sanctaidd eraill, mal ac y mynech, ar eich braich: gwnant ei o liw glâs, ac y ddibennid trwy hîr bigo 'ch braich a dwy Nodwydd; aethant yn y man i weithio ar rai o honom, gan ddangos i ni gynlluniau o amryw o brintiadau, mal y gallai pob un o honom ddewis yn ôl ei feddwl ei hun.

Y Dydd neſat y 27 o *Fai*, cytunaſom i gyd i fyned i'r Deml, ac ynghylch pedwar ar y Glôch Brydnhawn, yr aethom yno y mae yno yn byw ynghylch Dêg neu ddauddeg o Henaduriaid yn oeſtadol, ac y mae ganddynt Eglwys yno. Y Drŵs a Seliir a *Sêl y Caddy*, ac pan eloneb i mewn ete a dâl bedwar Liver ar ddêg; a nyni yn myned i mewn i'r Deml, yr Henaduriaid a ddaethant ac a gyſarchaſant well i ni, ac a'n cyd ddugaſant i'w lletyoedd hwynt; yno 'n ôl i ni aros ynghylch Awr, paratoiſant i fyned mewn Proceſſiwn i'r holl Leoedd Sanctaidd, gan roddi i ni bob un o honom, Lyfr o Ganiadau Sanctaidd, ar bob lle yn Llading.

Ac yn y modd hynny goſodaſom allan, yr Henaduriaid a ymwiſgid mewn Gwenwiſgoedd, a'r pennat o honynt a Brethyn Arian oddi ar ei Wenwiſg, gyda dau arall wedi eu trwſio mewn cyffelyb wiſgad iw dywys ef: dugid hefyd o'i flaen ef Groes fawr o Arian a llun ein Jachawdwr yn groeſhoeliedig ar y Groes, a dau Wr yn myned o bob Yſtlys iddi, yn dwyn Lleſtri o Arogldarth, mal y pêr aroglent bob lle Sanctaidd a ddaem iddo. Ac yn y modd ymma 'r aethom i'r Lleoedd hyn ſy 'n canlyn.

(1) Y Colofn wrth yr hwn y rhwymwyd ein Jachawdwr pan ei fflangellwyd ef, (2) y lle a Carcharwyd ef, [3] y lle a rhanwyd ei Ddillad ef. (4) y lle y cafodd St. *Helen* Groes ein Jachawdwr. (5) Y Golofn wrth yr hwn y rhwymwyd ef pan Coronwyd ef a Drain. (6) Y Mynydd *Calvary* lle y croeſhoeliwyd ef. (7) y lle yr hoeliwyd ein Jachawdwr wrth y Groes. (8) Y lle yr eneiniwyd ef. (9) Bêdd Criſt. (10) Y lle yr ymddangoſodd êin Jachawdwr ei hun i *Fary Magdalon*, mewn dull Garddwr, (11) Cappel *Mair* forwyn lle yr ymddangoſodd efe ei hun gyntaf iddi yn ôl ei Adgyſodiad, mi allwn

allwn roddi i chwi Ddeſgrifiad pennodol o harddwch y lleoedd yma; Eithr i fod yn fyr, i mae Lampau wrth bob un yn lloſgi, rhai a balmantid a Meini mynor neu *Farbl*, eraill a harddid a phaentiadau; y lle y goſodwyd ein Jachawdwr i lawr iw hoelio ef wrth y Groes, a balmantid a Meini mynor hefyd. Eithr y lle pennodol a ſafai y Croes arno. A orchguddyd y Meini mynor yno ac Arian, gyda Lampau Arian, a chanhwyllau Cŵyr yn lloſgi yn oeſtadol; a'n Jachawdwr yn Groeſhoeliedig yn ſefyll arno: Y Bêdd hefyd a orchuddiwyd a Meini mynor, a Lampau Arian yn lloſgi yn oeſtadol arno; Ac felly y mae ar y gatreg Eneiniedig: y mae yn rhaid myned i'r Bêdd yn droednoeth, ac felly i fynydd *Calvary*.

Y mae gan bob rhyw o *Griſtnogion* Eglwyſydd: y *Groegiaid*, ſydd ar rhai goreu, *y Ladiniaid*, yr *Arminiaid*, y *Coptyiaid*, a'r *Syriaid*, ſydd bob un o honynt ac Eglwyſydd ymma: y *Groegiaid* a'r *Ladingiaid* ydyw ddwy grefydd gadarnaf yn y Deml. i mae rhain yn oeſtadol er ſwm fawr o *Arian*, a'r ymddiried ſydd ganddynt *Yng Honſtantinopl*, yn prynu y lleoedd Sanctaidd yma o ddwylo eu gilydd; y pleidiau eraill ydynt anghenus; ac oblegid hynny, gwthid hwynt i ran ſechan o'r Deml; cyningodd y *Ladingiaid* unwaith ddêng Mîl o Livers am ddernyn o'r groes, yr hwn a brynodd y *Groegiad* ou dwylo hwynt; Ni chynnal y Bobl grefyddol ymma ond ychydig o barch i'w gilydd, y naill yn dywedyd yn wael ac yn ddibris jawn am y llall. Yn ôl y Proceſſiwn, ni a aethom i weled yr holl leoedd a'r Eglwyſydd eilwaith: Y mae gan y *Groegiaid* le ynghanol eu Heglwys, yr hwn a ddywedant i fod, ynghanol yr Bŷd; y mae ganddynt le arall gerllaw Carchar Criſt, a dau dwll i oſod Traed ynddo: y mae hefyd lwybr cyfyng rhwng dau golofn, yr hyn ſydd mewn Cyffelybiaeth i gyfyngdra y Llwybr i'r Nêf, trwy'r hwn yr ymluſca yr *Groegiaid*. yn Eglwys y *Syriaid*, y mae Bêdd a amcanwyd i *Joſeph* o *Arimathea* a *Nicodemus*, Ac yn agos i'r Garreg eneiniedig y mae Bedd faen, lle y cladd wyd *Jeffrey a Baldwyn* Brenhinoedd *Caerſalem*. Ac yn yr un lle y mae Rhwygiad y Graig, yr hwn ſydd yn dechreu oddiarno yn agos at y lle a Croeſhoeliwyd ein Jachawdwr, ac yn y rhwygiad hwnnw y caſwyd pen *Adda*, pan rodd ein Jachawdwr i fynu yr Yſpryd, yn ôl

i

i ni yn y modd ymweled y Deml: ni ddychwelaſom i'r Cwfent.

Yr 28 o Fai ni aethom allan o'r Ddinas trwy Borth *Ddamaſcus*, a chan droi o honom ar y llaw Ddehau, ni ddaethom at un o'r Pyſcod lynnoedd, a berthynaſai i'r hen Ddinas, a chwarter Milldir ymhellach, ni ddaethom i'r Ogof, lle 'Scrifennodd *Jeremiah* ei Alarnad, ar y Llaw Aſſwy ar y mynediad y mewn i mae gorweddfa yn y Graig ynghylch un uchder lle, meddant hwy, y cyſcai *Jeremiah*; ac odditani gyferbyn a'r Drŵs y mae twll a amcanwyd i wneud ei Fedd ef: a chan fyned o honom trwy Ddrŵs amharus, ni ddaethom i gynteddfa, yn y lle yr oedd ei Ffynnon ef, tarddiant o ddwfr gloywlàs melus; yno telir un *Liver* yn ôl hynny gan dramwy ar hyd llether bryn Mynydd yr hwn ſydd o'r un uchder ar Ddinas, ychydig tu hwynt i Fêdd *Jeremiah*, ni ddaethom at Fêddfeini y Brenhinoedd, y mynediad i mewn i'r Yſtafell gyntaf oedd mo'r gyfyng ac iſel, hyd onid oedd yn rhaid i ni ymluſgo iddi, yno i'r oedd faith o Fêddfeini, wedi eu torri o'r Graig: yn yr ail Yſtafell i'r oedd wyth o Fêdd feini yn rhagor; yn y trydydd i'r oêdd chwêch ar hugain a llaweroedd rhagor mewn amryw Yſtafelloedd eraill. Y mae Drws o garreg ar un o'r 'Stafelloedd wedi ei naddu or Graig, ac yn agor ac yn cau megis Drws a cholynnau neu fachau wrtho; y Drws hyn a berthyn i'r Yſtafell lle claddwyd *Jeboſophat*. ei Arch ef oedd o Garreg, a chaead iddi, ai ochreu a weithiwyd yn harddwych jawn a blodau megis ac y mae bagad o honynt yn yr Yſtafell gyntaf. Eithr nis gwyddant pwy Frenhinoedd ydynt; y mae yno un yſtafell arall, i hon yr ymluſgaſom, Ac felly y mae yno i gyd 42 o Feddfaodd tan y Ddaear ac nid oes onid un Drws i fyned i mewn attynt, y maent i gyd yn addurnedig a chywrainrwydd rhyfeddol; eithr am fi yn anhyddyſg ac yn anneallus iw datcan hwynt mewn priodol Eiriau: ni yn ôl hynny a ddychwelſom i'n Cwfent. gan fyned i mewn trwy 'r un Porth ac y daethom. Y 29 o Fai ni orphwyſaſom, a rhai o'n mintai oeddent yn cael eu nodi, y 30 o Fai ni gymmeraſom ein Ceffylau i fyned i *Fethlehem*, ac aethom allan trwy Borth y Gorllewin ac enw Porth *Joppa*, a chan droi ar y Llaw Aſſwy, a chymmeryd y llwybr iſa', ni

aethom

aethom ar hyd y Ffordd fawr, a gymmerodd *Mair* Forwyn pan ddaethai hi a'n Jachawdwr i'r Deml iw gyflwyno ef i'r Arglwydd; a hanner Milltir o'r Ddinas y mae 'r lle a tyfaſai y pren *Tirabinſha*, tan yr hwn eiſteddaſai *Mair* forwyn i roddi bron iddo: eithr pan dorrwyd y Pren i lawr, amgylchynwyd y lle a Mur. Ar y llaw aſſwy gwelid Tŷ *Dafydd* lle 'r oedd ef, pan y canfu ef *Bethſheba* yn ymolchi, ar y llaw ddehau ychydig allan o'r ffordd y mae Tŷ *Simeon* niroeſog a thŷ *Elias*; a'r pedwaredd ran o filltir ymmhellach ni ddaethom at Ffynnon, ym mha le gwelodd y Gwyr Doethion y Seren gyntaf; ychydig ymlaen y mae 'r Maes lle 'r oedd y Medelwyr yn gweithio pan ddaethai *Habakek* a Bwyd iddynt. A'r Angel a'i cariodd ef erbyn Gwallt ei ben, ac a'i dugodd i *Babilon* at *Ddaniel* i ffau y Llewod, yn ôl hynny ni a welſom Dŷ *Jacob* a Bryn yn gyffelyb i Dorth Sugar, lle arhoſodd y *Ffrancod* ddeuga in Mhlynedd, yn ôl ei gyrru hwynt allan o *Gaerſalem* Monachdy o Fonachod o dreſn St. *Tavola Pawla Romana*, ſydd neſaf y rhai'n pan fe'nt Feirw a Gleddir ym Monachtŷ *Bethlehem*.

Milltir y mhellach y mae'r lle yr ymddangoſodd yr Angyllion i'r Bugeiliaid, ac a gyhoeddaſant *Gloria in Excelſis* &c. Pan Enid ein Jachawdwr, yno y bu y Monachtŷ, eithr yn awr nid oes yno ond ceudwll o fwa Maen. yno tallom Arian i'r *Arabiaid*: pan ganfyddent neb ryw *Ffrancod* yn myned yno marchogent ar frŷs ymlaen i feddiannu yr lle, i ynnill rhyw taint oddiwrthynt, pedwaredd rhan o filldir oddiyno ar y ffordd i Ffynnon *Solomon*, y mae Dyffryn y Bugeiliaid, o'r tu cefn i hynny y mae Ffynnon, a'r hon a deiſyfai *Mair* forwyn yfed, eithr a'r Trigolion yn naccau o roddi Dwfr iddi, hi liſodd ar frŷs mal y gallai hi yfed: ychydig oddiwrth y Dyffryn yma, mae Ty *Joſeph*, ac yn ôl hynny ni ddaethom i Ardd *Solomon* yn gorwedd ar lethr, wrth waelod hon y mae 'r ffordd fawr *Grand Cairo*, ac o amgylch ei ben et, y ffrydia'r Dyfffôs, yr hon ſydd yn porthi *Caerſalem* a dwfr (oddiyno cawſom olwg ar *Tecoah* yn ſeſyll ar frynn uchel) ar Dwfr ſy 'n dyfod o'r ffynnunau â lanwant Ddwfr Leſtri *Solomon*, a ni yn myned Filltir o hyd yſtlys y Dwfr-ffôs, ni ddaethom at Ffynnonau *Solomon*

mon y rhai ydynt dair, nid oedd dim Dwfr yn y gyntaf, ac allai fod ynghylch dau gant llâth a dêg a deugain o hyd, a thriugain llâth o lêd, ac o ddyfnder mawr Yr oedd yn yr all ychydig o Ddwfr, ac yr oedd yn llai o faint; y trydydd oedd yn llawn o ddwfr, a chymmaint ei maint a'r gyntaf; Y maent yn rhedeg o un i'r llall, ac y lenwid a'r Pfynnon fydd yn porthi y Ddinas. Yr Henaduriaid a ddywedant mai er nofio ynddynt a gwnaed hwynt, o herwydd adeiladu hwy a grifiau i fyned i wared iddynt: eithr tebygid eu hamcan hwynt yn hyttrach, oedd er cadwraeth Dwfr i'r Ddinas neu 'r Gerddi, gan fod iddynt rediad i'r ddau: yn agos i'r Gerddi i mae Caſtell hagar dilun yn yr hwn yr annedda rhai tacogion, y rhai a tallom un Liver i bob un o honom am Gennad i fyned i'r Ogof, lle mae 'r Ffynnonau fydd yn porthi 'r Ddinas ar dwfr ffoſydd. y mae 'r Ogofyn helaeth ac i mae yno dair ffynnon, a chloddfa helaeth wedi ei thorri trwy 'r Graig tu ac at y Dwfr ffoſydd, yn dramwyadwy i ddŷn eithr nid aethom ni i'r eithaf o honi.

Ni gymmeraſom ein Ceffylau ac aethom rhagddom ar ein hynt, gan adel y Caſtell ar y llaw ddehau, ac ennyd oddiwrthym, ni welſom Eglwys St. *Siors*, yno medd yr Henaduriaid, y mae ettoy Cadwynau, a pha rai y rhwymwyd *St. Siors*, yr rhai'n a jachâant Ddyn ynfyd ar frys, os rhwymid ef a hwynt ac yn ôlawr a hanner o Farchogaeth, daethom yn agos i *Fethlehem* yno, a ni yn myned trwy hoel gyfyng, yr amddiffynnwyr o bedwar neu bump o Fwſcedyddion a dderbyniaſant gan bob un o honom bum Liver, a'n cyfeithydd a gafodd dri Liver gan bob un o honom: ac yn ol i ni ddyfod i'r Monachdŷ, ni dalaſom un Liver ar ein mynediad i mewn, a chwedi i ni gael ein Croeſawi gan yr Henaduriaid, ni a orphwyſaſom hyd bump ar y Glôch yn yr hwyr; ac yn ôl hynny ni barotaſom i fyned mewn Proceſſiwn at y lleoedd bendigaid yn yr an wedd, ac y gwnaethom yn y Deml *Yngbaerſalem*, y lleoedd a ymwelſom oeddynt y rhai hyn.

(1) Y lle a ganwyd ein Jachawdwr, (2) Beddrod St. *Joſeph* yr hwn a ddyweddiwyd i *Fair* forwyn. (3) Beddau y Gwirioniaid. (4) Lle a anneddodd St *Jerom* ynddo pan y cyfeithiodd ef yr 'Scrythur lân i'r Llading. (5) Beddle St. *Jerom*.

(6)

(6) Beddfaen St. *Jerom* (7) Beddfaen St. *Paul.* [8] Merch St *Euſtabbia.* (9) Bêdd St. *Euſebius*, Abbad *Bethlehem* (10) dychwelaſom i Gappel St *Catherine*, yr hwn mal y dywedant o Adeiladodd St. *Paul.* Neſat at hynnŷ y mae 'r Eglwys fawr allan o'r Monachdy, yr honſydd ac wyth a deugain o Golofnau o feini Mynor ynghylch tair llath o hyd, i gyd mewn cyfan waith. yn yr hwyr ni aethom i weled lle Genedigaeth ein Jachawdwr, yr hwn a berthynaſai gynt i'r *Ladingiaid*, hyd onis prynodd y *Groegiaid* o'u dwylo hwynt; ac yn y modd hynny y mae 'r *Ladingiaid*, pan elont i Broſſeſſiwn yn gweddio wrth y Drws, trwy 'r hwn yr aent i mewn o'r blaen. Y mae i'r *Precipio* ddau Ddrws, un yn gymmwys gyferbyn a'r llall, y rhain a wnebwyd yn ddwys a haiarn corfiedig, ac a ddiogelwyd a Phiccellau Haiarn, ni aethom i mewn yn droed noeth, ac ar y llaw ddehau ar ein mynediad i mewn, yr oedd y lle meddant hwy a ganwyd ein Jachawdwr ynddo, yr hwn a wnebwyd a meini clais, ac ynghanol yr 'Stafell y mae lle bychan yn lloriedig ac Arian, yno rho'nt Ddyfcl i dderbyn Eluſeni, ar y llaw Aſſwy y mae 'r Preſeb, yn yr hwn a goſododd *Mair* Forwyn Ein Jachawdwr; wynebwyd hwn hefyd a Meini clais, ar naill ben i'r Preſeb ar y llaw ddehau, y mae llun *St Jerom* yn naturiol yn y Maen clais, yr hyn y mae 'r Honaduriaid yn ei gyfrif yn wrthiau mawr, gyferbyn a'r Preſeb, y mae'r lle a ſafaſai y tri Doethion, pan ddaethant i Addoli ein Jachawdwr: ac ar y fan eithaf o hono mewn congl, y mae twll a wnaed o Faenmynor, yn yr hwn (meddant) a goſododd *Mair* Forwyn y Dwfr yn ôl golchi ei dwylaw ynddo; uwch ben yr hwn y mae Lufern yn Lloſgi yn waſtadol: ac y mae llaweroedd o Lufernau yn lloſgi yn waſtadol mewn lleoedd eraill yno, uwch ben y *Precipio* hwn yn yr Eglwys fawr, y mae Allor yr Enwaediad, ar yr hon yr Enwaediwyd ein Jachawdwr.

Yn ôl gweled y pethau Godidoccaf *Ymethlehem*, mai 31 ar y Boreuddydd, cyfodaſôm i fyned ymlaen ar ein hynt, yn yr hon gwelſom y lleoedd hyn fydd yn canlyn, (1) yr Ogof lle ymguddiodd *Mair* forwyn pan rybuddiwyd i ffoi i'r *Aipht*, a'i llaeth yn rhedeg o'i Bronnau, a wnaeth i'r Ddaiar droi yn Wynn, yr hwn y mae 'r Catholiciaid yn ei briſio yn fawr

jawn.

lawn. [2] Y ffôs ddyfrodd *Dafydd*. (3) Yr Ogof yn yr hon trigafant *Joſeph* a *Mair*, cyn cael o honynt Dy Annedd. (4) Bêdd-faen *Rachel* Gwraig *Jacob*, yr hon i mae 'r *Twrciaid* yn ei briſio yn fawr. (5) Y Maes Senacherib, yn yr hon lladdodd yr Angel mewn un Nôs gant a phedwar ugain, a phum o'r *Syriaid*, yn y lle yma y mae Pentref ai enw yw *Botochelle*, yn yr hwn, medd yr Henaduriaid ni ddichon un Twrc fyw. (6) Y lle yr adeilaſid Coloſnau Monachdy *Rama*. (7) Y Wiallan o'r hon y cymmeraſni 'r Spiwyr y Wlâd *Canaan* Swp a rawnwîn i ddangos ſtrwythlonder y Wlâd; yno hefyd y mae'r ffynnon yn yr hon bedyddiodd *Philip Eunuch* y Frenhines *Sheba*. (8) Anialwch *Joan fedyddiwr*, ac yn ôl awr o tarchogaeth ni ddaethom i Ffynnon *Joan fedyddiwr*, yno i'r oedd ei Yſtafell ef, a Chraig yn yr ſion i'r oedd lle wedi ei naddu megis Maingc i ſod yn Welŷ iddô; os torrai neb ddim o'r Graig hon, euog a fyddai hwnnw o Eigymmundod. [9] Tŷ *Zacharias*, yr hwn daeth *Mair* Forwyn i gyfarch gwell i'w chares *Elizabeth*, canys yr Angel a leſarafai wrthi y byddai iddi hi feichiogi, a lleſarodd hefyd fod e'i chares yn feichiog; ac ar ei hannerchiad, llammodd ŷ Plentyn yn ei chrôth hi; yn agos at y tŷ hwn y mae ffynnon a dwy ffôs ddwfr iddi au henwau ynt Ffynonnau *Elizabeth*. (10) Y mae carreg ar yr hon y Pregethai *Joan fedyddiwr*, a rhai (meddai yr Henaduriaid) ymorcheſtai y *Twrciaid* i thorri yn ddarniau, ac ni's gallent. (11) y lle a ganwyd *Joan fedyddiwr*, yn awr yn Farchdy, gynt yn Eglwys, yn yr hon ar ddydd Gwyl *Joan fedyddiwr* dygai 'r Henaduriaid eu Horgan yno, ac addurnent y lle ar hyder Gweddio ynddi, (12) Beddau y *Maccabeaid*, y rhai a welſom o hirbell, a chan ei bod hwynt wedi amharu, ymddangoſent megis yr un nifer o ſwae meini. (13) ni aethom heibio i Bentref, yn hwn i'r oedd y gwyr i gyd yn *Dwrciaid* a'r Benywod yn Grift'nogion, canys ar bobl yn dlawd ac yn anghenus, y *Twrciaid* oeddynt ffyrnig wrthynt am eu Harach; (rhyw fath o Dręth (a hwy yn anabl i'w thalu ar unwaith a droeſant yn Dwrciaid &c. (14) ni ddaethom i'r Mynydd *Erapil*; o rai o'r Coed a dyfaſant yno gwnaed Croes ein Jachawdwr, ac yn y lle y tyfodd y pren adeiladwyd Eglwys deg fawr, yr hon ſydd yn meddiannau y *Groegiaid* a'r

lle

lle pennodol a tyfaſai y Pren ynddo, a orchguddiwyd ac Arian, ac ymma goſodaut ddiſcl i dderbyn eich Eluſen. Llawr yr Eglwys hon a weithiwyd yn gywraint a gwaith Moſaic, ac yn baintiedig a hanesion o'r 'Scrythur; ac yn lle Cloch curant Ystyllen ynghrôg, a'r hon a roddai ſŵn yn o debyg i Gloch.

Ac ynawr ni awn ymlaen tua ac at y Gwſtent *Ynghaerſalem* gan fyned heibio y Bryn *Gihon*, lle 'r Eneiniwyd *Solomon* yn Frenhin, a hi yn Nôshau ni ddaethom i'n llettŷau, gan wneuthur o honom hynt ddau ddiwrnod i weled lleoedd Bendigaid, a thramwyo Mynyddoedd *Judea*, ni hunaſom yn ddiogel y Nos honno, eithr er hyn y mae gennym ragor o Bererindodau. Mehefin y cyntaf, ni orphwyſaſom yn llonydd, i ddadflino 'n hunain, yn ol yr hynt i *Fethlehem*, eithr yr Henadwr *Tomaſo*, o'i ſerch tu ac atſom, oedd yn fliniedig jawn am i ni fyned i weled lleoedd eraill, yr hyn lydd yn dra obrwyol yn Eglwys *Rhufain*, ped fuaſem ni ou Creſydd hwynt, buaſai yn amhoſibl i ſethu cael o honom y Nêf; canys cawſem faddeuant tros ein holl fuchedd; yr ydwyf yn deiſyf na's twylla y coeg feddwl yma ormodd o ddynion. *Mehefin* yr 2 ni ddechreuſom chwilio am y lleoedd Bendigaid, y rhai ydynt mal y canlyn, [1] Aberthiad *Iſaac* gerllaw y Deml wrth enw Mynydd *Mariah*, y lle hwn a wynebwyd ac Arian, a Diſcyl a oſodir yma i dderbyn eich Offrwm. 2 Carchar *Pedr* yn Garchar etto gan y *Twrciaid*, ar y cwrr eithaf o hono; y mae twll yn y Wal, yn yr hwn meddant hwy, a cethrwyd y gadwyn, yr hon oed d yn rhwymo *Pedr*, gan anghofio o honynt pa ſawl gwaith y deſtrywiwyd *Caerſalem* a bod Cerrig yr hên Wal mewn teby golrwydd mo'r ddyfned tan y Ddaear, ac mae 'r rhain uwch law 'r Ddaear. 3 Monachlog Marchogion *Malta* adeildŷ tĕg jawn, mewn un Yſtafell o hono i'r oedd amryw wahan leodd i oſod Gwelau, a thwll yn y canol, o herwydd os byddai i neb o honynt i fod yn glâf neu yn rhŵth, goſodir hwynt yno, ar dwfr yn ddrwg ar awyr yn afiachus a gogwydda hwŷnt i'r fath gleſydion (4) Teml *Solomon*, i'r hwn od a un Criſtion, neu ſegyn o hono y gweiſion, i mae 'n rhaid i hwnnw droi yn *Dwrc*, ni oddef ei loſgi, mi a roddaf hanes o gywreinrwydd hwn pan ddelwyf i dre mynt o hono. (5) Yſpytty St. *Helen*; yno i mae laith o geiriau yn yr rhain arferai hi drin bwyd i'r tylodion beunydd, talſom un Liver am

gennad

gennad i fyned i mewn. 6 Porth y Farn, trwy 'r hon daethpwyd a'n Jachawdwr i mewn: ychydig oddiwrth y Porth y mae 'r lle yr euog farnwyd ef. (7) Y llwybr dolurus. yr hon yw i'r ffordd yr aeth ein Jachawdwr i gael i Groethoelio, ac ar y ffordd y mae Tŷ St *Veronica*, yr hon a rodd i'n Jachawdwr Napcyn i fychu ei Wyneb, wrth fyned o hono heibio: yno hefyd y mae Tŷ *Lazarus*, a thŷ 'r Glŵth cytoethog, a'r lle y llewygodd ein Jachawdwr, (meddant hwy) ac y cymerodd *Simon* y Groes i fynu; ac yn agos at hyn y mae 'r Eglwys, lle fafodd *Mair* forwyn iw weled ef yn myned heibio, ac a lefmeiriodd o herwydd trifwch; Yn awr a gelwir yn Eglwys *Fair*. (8) Neuadd dŷ *Herod*, ynawr yn adfeiliedig ac yn Seraglio i'r *Baſha*; mewn un 'Stafell amwilgwyd ein Jachawdwr a Phorphor. (9) Tŷ Pilat, yno dangofafant y lle y Coronwyd ein Jachawdwr a Drain, a'r golofn wrth yr hon y cadwynwyd ef, yr hon a ddugwyd oddiyno ac ofodwyd yn y Deml: yn ôl hynny, ni aethom i mewn i'r Neuadd, lle golchodd *Pilat* ei ddwylo, ac a lefarodd ei hunan yn ddieuog o Waed ein Jachawdwr, o'r lle hwn cawfom dremynt amlwg ar Dêml *Solomon*, yr hon a adeiladwyd yngha nol llanerch helaeth, yn balmantedig ac yn dêg, Y mae bagad o Fwae meini, Rhodfeydd hytryd, ac adeiladoedd oi amgylch, y Deml a weithiwyd, a gwaith Mofaic, ac yn ôl Geiriau y *Twrciaid* yn Gytoethog jawn oddifewn o herwydd i fodyn un o'r Mofcaid, ac er bod hanner Lloer ar bob un o'u Temleu hwynt neu Mofciaid, etto hon yn unic fydd a Chroes trwy ei chanol: yr Henaduriaid a ddywedant na fafai hi hyd onis gwnaed y Groes (10) Y lle y fflangellwyd Crift yr hwn ydyw 'nawr yn Siop Lliain; eithr y Golofn, wrth yr hon y rhwymyd ein Jachawdwr, a ddugwyd oddiyno ac ofodwyd yn y Deml. (11) Tŷ *Annas*, yno Ein Jachawdwr yn cael i wthio o hyd gyda rhuthr fawr ar goriwared, ac efe yn ymattal ei hun, rhag fyrthio a afeiliodd ar Gongol Gwal, lle y mae yn awr afeiliad yn un o'r Cerrig yn gymmwys i law Dŷn, yr hyn y mae 'r Henaduriaid yn ei gymmeryd yn wrthiau mawr; (12) Tŷ *Simon* y Phariſeaid lle y mae Carreg a llun troed ynddi, yr hyn; meddant, a wnaeth Ein Jachawdwr pan y fafodd efe i wneuthur maddeuant i *Fary* Fagdalen am ei Phechodau: yr Henaduriaid a ddywedant, ar i'r *Twrciaid* amcanu yn fynych i fymud

y Garreg, eithr o amſer i amſer dawai yn ôl i'r un lle dra-chefn. (13) Tŷ *Joachim* ac *Anna*, adeiladaeth uchel a thêg-ac i wared mewn Sta ell ar lawr, a naddwyd o'r Graig, yd-yw'r lle a ganwyd *Mair* forwyn.

(14) Y Llynn *Bethesda*, lle y gorweddau y cleiſon mal y jachaid hwynt, yr Angel yn dyfod o Flwyddyn i flwyddyn i derfyſcu y Dwfr, a'r neb a elai yno yn gyntaf a jachaid, ond yn awr yn fych ac yn hanner llawn o lŵch. (15) Porth St. *Stephan*, ac ychydig allan o'r Ddinas mae'r lle a llabuddiwyd St. *Stephan*: a'r Henaduriaid a fynnent i ni goelio, fod llun ei Ddwylo, ei Wyneb ai Luniau yno; pan fyrthiodd ef i lawr, (16) Dyffryn *Jehoſophat* yr hwn ſydd wrth Waelod y Bryn, rhwng y Bryn ar yr hwn y mae *Caerſalem* yn ſefyll, a Mynydd yr Olewydd. (17) lle y claddwyd *Mair* forwyn; yno, a chwi yn myned i wared laweroedd o Riſiau carregog, chwi ddowch i Ogof helaeth, lle y mae gan Griſt'nogion Allorau or naill du, o herwydd i bod hwy o neillduol Opiniwnau, eithr y *Twrciaid* a *Chriſt'nogion* ynghyd a loſgant Lampau uwch ei Bêdd hi, yma talwn un Liver am fyned i mewn; a deuga in ac Wyth o Riſiau i fynu y mae Bêdd *Joſeph*, a chyferbyn a hwn y mae Beddau *Joachim* ac *Anna*. (18) lle a chwyſodd Griſt Waed, a'r Angel yn ymddangos i'w gyſſuro ef, ydyw ger-llaw gweled Mynydd yr Olewydd. (19) Lle a gweddiodd ein Jachawdwr, ar i'r Cwppan hwnnw fyned heibio oddiwrtho ef, ac yn agos at y lle hwnnw y mae 'r Graig ar yr hon yr eiſteddaſai ei Ddiſgyblion, pan yr aeth efe i Weddio, rhwng y ddau le hwn y daliwyd ef; y mae 'n awr yn ymyl Gardd *Gethſemane*, eithr fe allai gynt i fod yn rhan o'r Ardd, ac ar eſgyniad i Fynydd yr Olewydd; yno a'r Werin yn Chwennych dwyn ein Jachawdwr ymmaith, torrodd *Pedr* Glûſt *Malcus*, yn y ffordd tu ac at y Ddinas. (20) Y lle, mal y dywedant, a Gweddiodd *Mair* Forwyn tros *Stephan* pan Labuddiwyd ef. (21) Y lle yr wylodd ein Jachawdwr tros *Gaerſalem*, ſydd yn agos i ben uchaf y Mynydd yr *Olewydd*. (22) Y lle y eſcynnodd ein Jachawdwr i'r Nêf, gan adel, meddant hwy lun ei Droed ar Garreg; y mae yno 'nawr Gappel wedi ei adeil-troſto, a phedwar ar ddeg o Golofnau meini Mynor oi amgylch y mae hwn a'r ben uchaf Mynydd yr *Olewydd*, ac ychydig

o ffordd oddiwrtho y mae 'r lle a ſafaſai Gwŷr *Galilee*, pan ofynnodd yr Angel iddynt pa ham y ſefwch yn edrych tu a'r Nêt, (23) E ddangoſwyd y lle y dywedodd yr Angel wrth *Fair*, a cyfodai mewn tri diwrnod; (24) Sef *Pelagius* oddiyno *Bethphagè*, lle y clymmwyd llwydn yr Aſſyn. (25) Y Pren tan yr hwn ſafodd ein Jachawdwr, pan Bregethodd ef Bregeth y Farn. (26) Yr lle y gwnaeth efe Weddi 'r Arglwydd. (27) Yr lle y gwpaeth yr Apoſtolion y Credo, Ogof ydyw o ddauddeg bwa. (28) Beddau y Prophwydi y rhai ydynt Saith a deugain o gyfrif, a naddwyd o'r Graig, a chan fyned i mewn trwy Ddrws, ni a ddaethom; Ogof helaeth, yno yr oedd amryw leoedd naddedig o'r Graig ynghymeſur i gymmwys Arch Corph yma taſſom un Liver. (29) Y Pren a yr ymgrogodd *Siddas* ei hun arno, (30) Y Bêdd yr amcanodd *Jehoſophat* iddo ei hun, eithr o herwydd i fod efe yn Frenin, claddwyd ê ym Mêdd y Brenhinoedd. (31) Colofn *Abſolom* neu Fêdd ef, yr hwn a naddwyd o'r Graig, ac ynghylch maint Yſtafell fechan, a cholofnau naddedig o'u hamgylch: yn y wedd hynny y mae 'r Stafell megis ped Adeiladid hi i ryw ddyn unig, Y mae uchdec têg ynddi, ac y mae rhyw faint o yſgythrau o'u hamgylch. (32) meddant hwy, y mae 'n agos yma Lun Traed ein Jachwdwr Criſt; canys pan y dugid efe i *Gaerſalem*, ymattaliodd wrth y Nant Cedron, ac y ddymunodd yfed o honi. Nid yw y Nant hon onid o waelod cûl, ac nid oedd dim Dwfr ynddi pan oeddem yno; eithr yn y *Gaiaf*, y Dwfr a ddaw i wared o'r Mynyddoedd ac y wna ffrŵd fechan. (33) Neſaf at hyn ydyw 'r lle yr ymguddiodd St, *Jaco* dri diwrnod a thair Nôs, lle ydyw cloddiedig o'r Graig, yr hwn a wnaed yn ddiau i wneud trigfa ynddo: yn agos yma y mae Bêdd *Zacharias* tad *Barachias* yn gloddiedig o'r Graig (34) ar lechwedd y Bryn lle yr Addolodd *Solomon Moloch*, y mae Stafelloedd cloddiedig o'r Graig, yn y rhai (meddant) a cadwai *Solomon* dri chant o Wragedd, a Mil o Ordderchiadon (35) Ffynnon *Fair* forwyn, yr hon yr ewch i wared iddi ar hyd griſiau Cerrigog; ei dwfr hi ſydd mo'r felus, hyd onis gallai Dŷn coeſddail Jai na thebygu mai Dŵr a llaeth ydyw. (36) y lle y llifwyd y Prophwyd *Eſai* yn ddau ddarn: i mae ei Fêdd efe tan Graig yn agos at y man hwnnw. (37) Ffynnon *Siloah* wrth hon y mae

Pydew lle ymolchai Pererinion gynt, eithr yn awr yn adfeiliedig, ac yn llawn o Gerrig a Marian, etto cytrifir ei dwr hi yn dda ar lês y golwg; ac yn agos i'r lle hwn y mae *Golgotha*. [38] Yn agos at y lle hwn mewn Dyffryn y mae Ffynnon, lle y dywedir guddio o *Nehemiah* y Tân Bendigaid, pan gaethiwyd Plant *Iſrael*: a phan ddychwelafant ddeugain Mhlynedd yn ôl hynny, dywedir gael yr un Tân hwnnw yn y Ffynnon. (39) A ni yn myned i fynu i'r Bryn, ni ddaethom at Feddfeini *Annas* a *Chaiaphas*, rhai a fuaſant yn Arch offeiriaid. (40) Ac yn agos i mae 'r lle yr ymguddiodd yr Apoſtolion; ac yno a ni yn myned i mewn trwy le cyfyng, ni ddaethom i Yſtafell tan y Ddaiar, oddiwrth y rhain y mae bagad o dyllau, ym mha rai y gorweddau yr Apoſtolion. (41) yno ni ddaethom i *Aceldama*, Ogot ydyw, yr hon a geidw 'r *Arminiaid* yn lle Cladd-edigaeth, dywedir dreulio o'r Ddaear ymma gyrph Dynion mewn wyth Awr a deugain: Y mae bagad o wynt-dyllau ar y pen uchaf i ollwng allan y drygfawr, ni aethom i wared tan Graig, i le y gallem edrych oddifewn, ac yno gwelſom lûn Dŷn yn gyfan, gan eu bod hwy yn unig yn eu goſod hwynt i mewn, heb eu cuddio a Daiar, [40] ni ddaethom i Ffynnon *Beerſheba*, yr hon ſydd wrth droed Mynydd *Sion*, nid oes ynddi ynawr ond ychydig jawn o Ddwfr, cawſom aros pedwar-edd rhann o Awr cyn cael un llymmaid.

Yn ôl i ni weled yr holl bethau hynod yn y parthau hyn, ni aethom tu ac at y Monachdŷ, gan gael o honom lawer jawn o Glôd gan yr Henadwr *Tomaſo*; o herwydd ein bod ni mo'r Serchog a cherdded o honom o bump ar y Glôch y Bore hyd hanner dydd: eithr ele er ein cyſſuro ni, a tyddai ymlaenaf yn waſtadol; ac y ddywedai bob amſer fod rhyw le arall teilwng-ach i'w weled, nac un a welſom o'r blaen, ac er eifod ef yn ŵr oedranus a'r tywydd yn boeth, etto wrth fyned o honom i fynu i Frynn, rhedai ele, mal y gallai fod yn flaenaf, rhoddes yr holl Eiriau cyſſurus ac allai i'n cadarnhau ni Proteſtaniaid, rhai byth ni obeithiem nac y feddyliem ryglyddu o honom ddim oblegid hynny: eithr o'r diwedd ni ddaethom i'r Cwfent drachefn; a ni yn flinderog jawn, pob un o honom a neilldiem yn Llettŷodd.

Mehefin y 3 dydd ni orphwyſaſom yn y Cwfent; yn ôl cin-

io

ſo, un o'r Henaduriaid a ddaeth attom, ganddywedyd, y myai 'r Penadur y Cwſtent olchi ein Traed, ni ddeiſyfaſom gael ein heſguſodi o herwydd cytrit o honom i fod yn ormod o barch: eithr diriwyd ni i ufuddbau i Ddeddfau y Cwſtent, goſodid Gawg, yr hwn oedd gymmaint a phair wrth ochor Cadair, ſo oſodid dail Rhoſwydd a llyfieu yn y Dwfr, yr Henaduriaid a ſafant i gyd mewn Rhês yn canu caniadau Sanctaidd; n eiſteddaſom, a'r Henadur y Cwſtent a blethodd dywel o amgylch ein Gliniau, i gadw 'n Dillad rhac y Dwfr, yno dechreuſant rwbio 'n Coeſau a'n Traed, a hwy yn Feiſtri ar eu Crefft) i'r oedd dau o'r Monachod yn gweinyddu, naill ar un Goes, a'r llall ar y goes arall; yn ol ſychu o hono y Troed Aſſwy, y Monach ai cuſanai hi, ac y gwiſgai hi a Sleperd, ac yn ol hynny ſychu y Troed ddeheu; ac y blethai Dywel o amgylch Gwadn y Troed, a chan i goſod hi ar ei lin, efe a orchg'uddiodd y bodiau a'i Law, ac yno daeth yr holl Fonachod ac i cuſſanant hi, yn ôl gwneuthur hyn, rhoddes i ni ganwyll ſechan, a ni yn derbyn hi yn ein dwylo, cuſanaſom ei Law ef, ac felly cytodaſom a ſafaſom heibio, hyd onis golchwyd ein Cymdeithion i gyd yn yr un modd. yno 'r aethom mewn Proceſſiwn, o amgylch eu Cappel hwynt, a'n hwy yn dywedyd amryw Weddiau, wrth eu tair Allor, ac yn ol hynny dychwelaſom i'n 'Stafelloedd. *Mehefin* y 4 yn ol Cinio ni aethom i'r Gegin, yno gwelſom yr holl Henaduriaid, a Napcynau ou blaen, yn golchi 'r Dyſclau pob un yn cymmeryd ei waith, ie hyd yn ôed y Penadur ei hun, rhai a lanhaent, rhai eraill yn goſod hwy heibio; eithr trwy 'r amſer yn gyttunol dywedant ryw Weddi, gan fod yn debygol ymegnio o honynt i wneuthur pob peth i Ogoniant Duw.

Yn ôl hyn aent i gyd i'r Cappel i Weddio, ac ni's cewch weled un amſer y Cappel heb rai o honynt, wrth eu gweddiau cyſodent ddwy waith neu dair yn y Nôs at eu Gweddi. Ar ddydd *Sulgwyn* addurnwyd y Cappel, mewn gwêdd hardd ac anarferol, ac ſe oſodid Llenn Gyfoethog jawn ar y Llaw Ddehau i'r Allor uchel, i'r Penadur i eiſteld tani, pan ddechreuwyd y Weddi, yr Penadur a ddeuni i'r Cappel ac a eiſteddodd, tan y llen honno i'r oedd tri neu bedwar o'r Henaduriaid wedi eu trwſio mewn Brethyn Arian, yn agos i wêdd

Herald: dau o honynt a weinyddent o amgylch y Penadur, a dau a ſafent gyferbyn ac ei, ac yno yn ôl hynny dechreuent drwſio yr Penadur mewn gwiſgoedd gwylion, ac yn ôl darllain o honynt ddwy neu dair Lein, goſodant ddarn o Liain brethog o amgylch ei Wddf, ac yn ôl hynny ei Wenwiſg a darllain bob amſer rhwng dau o Wiſgoedd a oſodid am dano, yn ôl hynny gorchuddid ef a Mantell o Sattin cytoethog, a Brenyn Arian; ar ddau oedd yn ſefyll gyferbyn a blygent ar ryw Eiriau. Ai Gorph wedi drwſio yn y modd yma, y ddau Henadur a oſodant *Feitr* ar ei ben, gan wneud hynny gyda 'r parch mwyaf ac allid ddychymmyg, yn ôl Gweddi ferr, cymmerent y Penadur erfydd ei Law, ac ai hebryngent ef at yr Allor, gan ſefyll o hono yn y canol rhwng y pedwar Henaduriaid, yn ei wych drwſſiad nal y dywedpwyd uchod; yr Henaduriaid eraill a wiſgant eu Gwenwiſgoedd, a'r Organ a ganai; yno gan wneuthur o honynt Weddi ferr wrth yr Allor hebryngent y Penadur yn ôl iw le drachefn, ac yn ol darllain ychydig, cymmerent ymmaith ei Feiter, ac a eiſteddai yn ben noeth, hyd terfynu o'r Weddi: Yn ôl hynny goſodid ar ei ben Feitr arall; y cyntaf oedd o Frethyn Arian, yr ail oedd o Frethyn Aur, yn llawn o Rubies a Diamwnd, a Gemmau eraill; yn ôl hynny tynnaſant hwnnw ymmaith, ac amwiſgwyd ei ben et a Meitr arall o frethyn Aur, yn rhagori peth oddiwrth y rhai eraill; yn ôl tywys o'r Henadur at ac oddiwrth yr Allor tros en nyd, o'r diwedd pan ddaethant i ddarllain i'r fan y deſcynnodd yr Yſpryd glân ar yr Apoſtolion yn gynnulledig ynghyd, yr oedd Henadur ar y Griſiau, a bennodwyd i daflu i lawr Glommen wen yn drwſiedig ac Eddi neu Ribanau mewn cyfelybrwydd o'r Yſpryd glân, eithr efe a attaliwyd gan ryw rwyſtr, canys caewyd y Ffeneſtr mo'r galed, mal na's gallai ei hagor yn hir o amſer, hyd oni bu debygol fyned o honom ymmaith heb eu Hyſpryd glân hwynt, eithr yn ôl gorchfygu 'r anhawſder hwnnw, efe a wnaeth i'r Glommen ddeſcyn yn ein plith; yn ôl hyn, a Gweddio dioſgwyd y Penadur drachefn, gan ddarllain o honynt trwy 'r holl amſer a dioſgid ei wiſgoedd ef, ac felly terfyn y Gwaſanaeth y Dydd hwnnw.

Yn awr dechreuaſom amcanu fyned o honom at y Môr marw, ac Afon yr *Iorddonen*, o'r achos hynny gofynaſom pa beth

a fyddai 'n côſt ni, attebai 'r Henaduriaid, pum Liver ar hugain, eithr ni gyttunaſom ymhlith i gilydd naſ roem oddiar ugain. danſonodd yr Henaduriaid ein hamcan ni at y *Baſſa*, yr hwn a roddes i ni yr atteb ymma, oſ aem ni, gortyddai arnom dalu dau Liver ar hugain; ac os nid aem, caem dalu dêg Liver bob un o honom; A ni yn bwriadu ein bod ni tan ei orchymmyn ef, ni fynnem gynhyrfu y Cwſtent, canys byddai arnynt hwy i gynnal yr holl golledion, megis ac y gwnaethant tros laweroedd, eithr i Dduw mae 'r diolch ni ddigwyddodd dim yn ein hamſer ni. Nyni a ymroeſom i gyd i fyned, ond *Mr. T. H.* ac un Sais yn rhagor, ac un Dwitch, gan debygu o honynt nad oedd y *Baſſa* yn dywedyd o ddifri; eithr o herwydd nad aethont. gorfu arnynt dalu dêg Liver am ddim, yno daethom i *Bethannia* Pentre bychan y dydd heddyw, yno a ni yn myned i Ogottan y Ddaiar, gwelſom Fêdd o'r hwn cyfodaſai 'n Jachawdwr *Lazarus* yn ôl marw o hono cynniſer o ddyddiau. ymma cawſom Wylwyr y *Baſſa*, i fod yn Wiliadwriaeth i ni, rhac ofn yr *Arabiaid*, y rhai ydynt tu hwynt i'r *Jorddonen* yn Nhîr *Moab*, y rhai a wnaent ymgyrchiadau yn fynych ac ymdrechent wrth flaen gwayw ffyn, yn erbyn rhai fydd yn byw 'r Ochor hyn yngwlâd yr Addewyd; y *Baſſa* â gymmera i arno, a gorfyddai idde ddanfon deng Gwr a deugain gyda ni, ond ni chawſom ond pedwar ar ddeg neu un ar bymtheg: yn ôl gorphwys o honom ar y llawr, ynghylch naw o'r Glôch o Nôs ni gymmeraſom ein Ceffylau, a chan fyned o honom trwy 'n troeadau a Chylchiadau y Mynyddoedd, ni ddaethom ar y Boreu i droed y Mynydd ymprydiol, yno deſcynaſom oddiar ein Ceffylau; a chan wneuthur o honom y Ddaiar oer yn Welau i ni, ni hunaſom ddwy neu dair o Oriau, gwedi rhwymo 'r Ceffylau wrth ein dwylo o'r blaen; pan gododd yr Haul, nyni a gyfodaſom hefyd, ac a rodiaſom i Ffynnon *Eliſha*. oddiſewn ergyd Carreg oddiyno; a chyn bod yr Haul yn rhy wreſog, ni gymmeraſom ein Ceffylau wrth droed y Mynydd ac felly dechreuſom i ddringo, gan i bod hi yn ſoriwared mawr: yn ôl eſcyn o honom i uchder mawr, ni a ddaethom i'r lle y cyſgodd ein Jachawdwr, pan ymprydiodd ddeugain niwrnod; ac oddiyno cafodd y Mynydd ei Enw, y lle hwn fydd yn agos i eithaf uchder y Mynydd, eithr ni wyr neb y

ffordd i ben y mynydd ond yr *Arabiaid* yn unig, y mae ym Eglwys lle Anneddau gynt Henuriaid, hyd onis lladdwyd hwy gan yr *Arabiaid*. is law hyn o le i mae bagad o ddalfaoedd o ddwfr, ac amryw dal-wynebau Gappelau, eithr y llwybr astynt a dorrwyd ymmaith; mal i'r oeddem yn myned i fynu, meddyltryd o'r perygl i ddyfod i wared a ddawai i'n Pennau, a chanfod lladmerydd Amherodwr *Germania*, Deonglwr jeithodd y Wlâd ymma yn ofnus jawn, cyflogodd dau *Dwrc* iw hebrwng ef i wared o'r Mynydd, ac yn ôl i ni ddyfod yn y modd ymma i gyd yn ddifraw o'r Mynydd, ni tarchogaeſom yn ôl yn llawen jawn i Ffynnon *Eliſha*, yr hon a tuaſai gynt yn chwerw: eithr efe yn taflu dyrnaid o halen ynddi, ei dyfroedd a drowyd yn groyw. Yma gorphwyſaſom hyd bedwar a'r Glôch, ac yn ôl i Wrês yr Haul leihau, ni gychwynaſom tua *Jericho*, ac yno daethom ynghylch Pump ar Glôch, nid bes yno 'nawr ond ychydig fythod yn unig, ni a werſyllaſom wrth bren *Zaebeus*, y Trigolion ydynt o rhan fwyaf, *Arabiaid*, ac ychydig o *Roegiaid*, ymma daeth Tywyſog y Pentref i groeſawi 'r *Baſſa* au Wyr, marchogai Gaſeg o brîs Mîl o Livers' canys Ceffig fydd yn unig mewn bri yn eu plith hwynt; yma gorphwyſaſom, hyd onid oedd yn bedwar ar Clôch y Boreu tan Glawdd pwdr, nid oedd ond ychydig o hyfrydwch i ni yn ein Cyfeillion ſef Gwybed a Ghreaduriaid brathedig eraill.

Cychwynaſom tu a'r *Forddonen*, yno cyrhaeddaſom gyda chlais y dydd, ac aroſaſom i noſio yn yr Afon ynghylch awr; i mae 'r ffrŵd yn grêf ac yn gyflym; a ni ddichon cryfder gŵr nemor ond ei gwrthſefyll hi; y mae yn lliteirio tu a'r Môr marw, ein gwilwyr oeddent daer am i ni ymadel oddiyno, gan ofni honynt y cae eu Gelynion atel ynddynt; Am hynny paratoeſom ein hunain i fyned rhagddom tua 'r Môr marw, ynghylch dwy Awr yn ôl hynny ar ein ffordd tu a'r Môr marw, ni aethom trwy le Melltigedig, anhyfryd a diffrwyth, nid oedd yno gymmaint a Llyfiennyn glâs na glaſwellt yn tytu; ac wyneb y Ddaiar a orchguddid a halen, ac er eu fod yn ſych, etto 'n ceffylau a fyrthient ynddo hyd gymmalau eu cluniau. ni ddaethom o'r diwedd i'r Môr marw, yr hwn ſydd ynghylch deg a thriugain neu bedwar ugain Milldir o hyd ac ynghylch

dau

daunaw o lêd. nid yw yn weledig i ba le i mae 'r Dyfroedd ſydd yn dyfod iddi, yn myned allan: oddieithr fyned o honynt tan y Ddaiar; ac ni ymddengys hefyd i fod efyn mwyhau trwy ddyfroedd yr Aſon *Jorddonen*. a bagad o ddyfroedd craill yn llifeirio iddo, bu gynt yn ddyſtryn ffrwythlawn, ac a gyſtadlêd o herwydd ei hyſtrydwch i Baradwys, ac a alwyd yn Bentapolis (pum ceiriog) o herwydd ei phum Dinas, ac yn ol hynny deſtrywiwyd hi a thân o'r Nêf, ac a drowyd yn llynn budr, ddiffaethwch diffrwyth o'u hamgylch. Ac i wneuthur Prawf o rhinwedd a ddiwedyd i fod yn y Dwfr. lef, na's gallai Dŷn ſuddo ynddo, rhai o'n mintai aethant i'r Môr, ac y cawſant yn amhofibl i oſod eu Cyrph tan y Dwr, prin y cadwent eu Coeſau tan y Dwr. y mae 'r Dŵr yn frwmſtanog, ac ni's gallir leſaru eithaf ei halltrwydd ef: pan ddaethant allan o'r Dwfr: yr oedd Olew pur ar eu Cyrph, yn ôl bodloni o honom ein golwg a phethau hynod ac odidog, bryſiaſom gymmaint ac allem yn ôl tua *Chaerſalem*. mi ddylaſwn roddi cyfrif, ar fod carneddau un o'r Dinaſoedd a anrheithiwyd am Sodomaidd-dra yn ſefyll yn awr ennyd oddiwrth y Dwfr, ac a debygid mai *Zeboim* yw hi.

Yn awr cynydda 'r Haul mewn gwrês, ac yn boeth anarferol, a thrwy wrth-darddiad a'r y Ddaear; yn gwneuthur y gwrês mo'r nerthol, hyd onid oedd eu hwynebau yn edrych, megis ped ſuaſai y Crwyn wedi eu blingo ymmaith, o achos Marchogaeth yn yr Haul, o'r Boreu hyd bedwar ar glôch yn ôl hanner dydd; eithr yr Henaduriaid, yn arferol a chyfwrdd ac ymdeithyddion tyner eu Hwynebau, a ddarparaſant ryw feddyginiaeth ar frŷs, i laeſu y Poen yr hwn a gynhyddodd yn fwy oblegid halltrwydd dwfr y Mor marw: ni gymheraſom ond ychydig o fodlonrwydd mewn Bwyta. eithr rhagor mewn cyſgu, gan na's caw ſom ond ychydig yn ein hymdaith. Yn awr yn ol i ni weled y cwbl o'r lleoedd yn y Tir bendigaid, y rhai y mae Pererinion yn arferrol i weled, darparaſom 'n hunain i ddychwelyd. *Mebefin* y 9. A ni 'n bwriadau myned ymlaen ar y Bore yr Penadur a ddaeth attom ac y rodde i Fendith i ni, ac y dannellodd ni a Dwfr bendigaid, gan ddeilyſt arnomai eſcuſo gan waeled ein croeſaw ac os bu i ni gael ar un amſer ddim ac anfodlonai ni, bydda i ni anghofio hyn-

yn

ny. eithr ni a wyddem nid oedd hyn ond gwenjaith, canys cawſom yn Llettŷa mo'r Groeſawgar ac allai un ddychymmyg; cymhell jawn rhag ein hanſodloni ni; canys nid oedd un o honynt nad oeddent yn barod, nid yn unig i ſod yn weiſion, ond yn gaeth-weiſion, ie ſy nghyſtenw yr Henadur *Tomaſo*, a ym orcheſtai o'r Bore, hyd oni byddai nôs i ddytod naill ai a Liu niaeth a'i a Diod, neu ofyn i ni a'ioedd dim yn eiſiau arnom; Ac yn awr jam ei Waſanaeth ef, tros bedwar diwrnod ar ddeg nid oedd un mewn un modd mewn gallu i ddalu 'r pwyth: canys nis derbynent ddim Arian ond am ein Bwyd, ac am ryw waſanaeth gwael arall; ni oblegid hynny a gyflwynaſom y Cwfent bob un o honom a deg ar hugain o Livers, a rhai ac oedd a Gweiſion ganddynt a roddaſant fwy. Y Dirpwywr a'i derbyniodd, ac a roddodd ein henwau i gyd mewn Llyfr a'r cyfrif a roeſont, ni gawſom olwg ar y Llyfr, yn yr hwn Yſcrifennodd henwau yn unig, ac y gymherſom gopiad allan o hono o Enwau 'r *Saeſon* acoedd ynddo, o'r Flwyddyn 1591 hyd y dydd heddyw, ac oeddent 158 o gyfri.

A ni yn cymmeryd ein cennad oddiwrth yr Henaduriaid, dangoſhaſant i gyd lawer o ſerch a chariad trwy wylo, a hyſpyſu i ni eu dymuniad i fwynhau 'n cyreillach ni yn fwy, a'n dymuniad ninneu oedd yn gymmaint i ſod yn nês at yn cartref mal y gallem gael Hanes am ein Ceraint.

Mehefin y 4 ni ymadawſom, ein Mulyddion a ddarparaſant Geffylau i ni; a'n hamcan oedd i gymmeryd *Emaus*, ar ein ffordd, eithr y nôs yn neſhau; ni wnaethom Eglwys St. *Jerom* i ſod yn lle i ni Gyſgu: buaſai gynt Henaduriaid yn anneddu yno eithr yr *Arabiaida* ddaethant arnynt ar hyd nôs, ac y dorraſant eu gwddfau hwynt i gyd: yr Eglwys hon a adeiladwyd yn dêg, a harddwyd a lluniau ar y Wal, y mae rhai yno y dydd heddyw; ynghylch dwy awr o Farchogaeth o *Gaerſalem*, ni aethom tros Nant, o'r hon y caſglodd *Dafydd* y Cerrig llyfnion a pha rai lladdodd ef *Goliab*. *Mehefin* 5 ni ddaethom i'r Cwfent yn *Ramah*, ynghylch deg ar Glôch y Bore; yno aroſaſom hyd ynghylch hanner Nôs, ar y cyfamſer hwnnw yr oedd Llongyn ymadel, a rhai o honom a amcanaſom i Longwrio, ac eraill o honom a gymmerent Leſtr bychan megis cymmaint a Barge *Graveſond*; ni oſodaſom yn cynheiliaeth, ſef Bara a

Gwîn

Gwiſt yn y Llong, ac yn y modd hynny ni oſodaſom i'r Môr a chadw ein hunain yn waſtadol yn agos i'r Tir, rhag ofn Temeſtl. Yn ôl tri Diwrnod o hwylio ni gyrhaeddaſom *Aerica* gynt a elwid *Ptolemais*, yr oeddem yn dyfod yn waſtadol i Anghorta bob Nôs, nid yw'r lle yma yn enwog am ddim ond ei charneddau; yr Anghorta yma ſydd mo'r golledig, hyd mai braidd y geill Llywydd y Llong wneuthur dim rhagor ond cadw ei Rhaffau ynghyd: Marchnadaethau y lle hwn ydyw y Gwlânbren neu Cottwm, lludw i wneud Sebon, a rhai nlettos, ym mhen dau Ddiwrnod yn ôl hynny ni ddaethom i *Dripoli*, yno buom yn hŷ ar ein hên Lettŷ; y *Conſul* an croeſhawai ni yn dra llawen, a'n hamcan oedd i ymadaw y Dydd neſaf, eithr a'r haint y nodau yn brydio yn *Aleppo*, y *Conſul* a'n cymhellodd ni i aros gyd ac ef, ddauddeg neu bedwar diwrnod ar ddeg; yn yr holl gyſamſer cawſom ein Croeſhawi mal Tywyſogion, ac yn ôl hynny trwy ei gennad ef ni a Longwriaſom mewn Lleſtr Môr o *Holand* i *Scanderoon*, ac eraill o'n mintai (rhai a adawſom yn *Aerica* er mwyn gweled Môr *Galilea*) yn dytod attom. *Mehefin* y 26 ni ddaethom i *Scanderoon*, yno rhai oedd wedi Marw, rhai eraill yn Marw, a'r naill yn ffoi rhac y llall. Ni aroſaſom ar y Bryn, ac ar Fwrdd y Llong tros ryw ſaint o amſer: a'r Ail o'r Gorphenhât ni ddaethom i *Aleppo* bu farw yno 'r amſer hwnnw ddeg a thriugain neu bedwar Ugain yn y Dydd o'r Haint y Nodau, a Llymma derfyn ein Taith.

Deſgrifiad Byrr o *Baleſtine* neu Wlâd *Canaan*, Gyda Hanes o'r hên a Phreſennol gyflwr y Gwledydd hynny.

YN yr Oeſoedd gynt, Yr oedd hon yn un o'r Taleithiau Godidoccaf yn *Syria*, hi alwyd yn gyntaf; Tir *Canaan*, oddiwrth Fâb *Cham*, Fâb *Noah* yr hwn trwy ei ſynych erlid a gymhellwyd i berchenogi a phreſwylio ynddi. (2) Fe 'i galwyd hi Tir yr Addewyd o herwydd addaw o'r Arglwydd

Arglwydd hon'r Patriarchiaid *Abraham*, *Iſaac* a *Jacob*, a'u hâd hwynt. (3) *Iſrael*, oddiwrth yr *Iſraeliaid*, a alwyd felly oddiwrth *Jacob*, yr hwn a gyfenwyd *Iſrael*. (4) *Judea*, oddiwrth yr *Juddewon*, neu 'r Bobloedd o lwyth *Judah*. (5) *Paleſtine* yn ôl *Ptolomy* ac eraill megis *Philiſtines*. Tir y *Philiſtiaid*, Pobl gadarn rhai a breſwylient. (6) Tir Sanctaidd neu Fendigaid, a gyfenwyd felly gan Grift'nogion, o herwydd yn hon y cyflawnodd Crift y Weithred o'n Hiechydwriaeth.

Y Wlâd hon a gyflewyd ynghanol y Bŷd, rhwng y drydydd a'r bedwaredd Climat, ynghylch 52 Grâdd yn y Gogledd i linyn y Cyhydedd, a'r Dydd hwyaf yn bedair Awr ar ddêg a Chwarter, rhwng y Môr Canol-dir ac *Arabia*. oddiwrth pa un a diogelwyd hi tu hwynt i'r *Jorddonen* a pharhaus Reſtr o Fynyddoedd; ar y Dwyrain y mae *Celoſyria* ac *Arabia Petrea* neu *Arabia* Gerrigog; Ar y Dehau *Jaunea*, Anialwch *Pharan* o'r *Aipht*, Ar y Gorllewyn, Darn o *Phenica*; a'r Môr Canoldir, ar y Gogledd, y mae Mynyddoedd *Libanus* a darn o *Phenica*: ei phellder oddiwrth y Llinyn y Cyhydedd ydyw un Grâdd ar ddeg ar hugain, ac yn ymyſtyn i'r trydydd ar ddêg ar hugain, ac yn ôl hynny ei hyd yw o *Dan i Beerſheba*, ynghylch 200 o Filldiroedd, a lle i mae hi lettaf, nid yw oddiar ddêg a deugain, eu holl Amgylchoedd ſydd ynghylch 400 o Filldiroedd, Y Tir enwog ymma a glodforwyd gynt tu hwynt i'r holl Wledydd tan yr Haul, yn enwedigol o herwydd ei jachuſrwydd a Hwyl-dda ei Hwybr, gan i chyfleu tan Climate tymherus, lle nad iw yr Gaiaf yn rhy Oer, na'r Hâf yn wreſog; ac am ei ffrwythlondeb, Tir yn llifeirio o Laeth a Mêl, wedi harddu a Mynyddoedd teg a Dyffrynnoedd hyfryd, y Creigie yn piſyllio Dyfroedd jachus, ac heb un ddarn o honi yn anhyfryd ac yn ddifuddiol, canys y Meiſydd a ddygent bob math ar ffrwythau yn ddigonol a helaeth lawn Gnŵd.

Y mae'r Wlad hon yn llawn o ffynonau peraidd a phorfeydd hyfryd ymha rai y Pelcant laweroedd o Ddiadellau o ddefaid, a Bugeilfa o Ddâ a Gwartheg, yr rhain a ro'nt Laeth rhagorol, yn gyfiaf a'r goreu yn y Bŷd: y mae yno helyd hela ac hebocca hyfryd, am Geirw cochion, Geifr, 'Scyfarnogod, Petriſſiaid, Soſljeir, ac Anod eraill; helyd y mae pob math ar Adar, a bagad o Lewod, Arthod a Bleiddiau. Ac

Ac er bod amryw Awdwyr yn rhoddi allan na ddylaem ni farnu 'r Tîr Sanctaidd fel y mae 'r Olwg arno 'r Dydd heddyw gan ei bod wedi ſyrthio tan Lywodraeth y *Tyrciaid* a'r *Arabiaid*, y rhai trwy Ryfel parhaus au hanrhaith, au gwnaethant agos yn Anghyfannedd ac yn Anialwch, megis lle gwrthoded-ig gan Dduw, etto amryw Ymdeithyddion yn ddiweddar ſy 'n dywedyd, na ddy lid coelio 'r cyfan, y mae rhai ſy 'n Tra-mwyo o *Joppa* ac oddiyno dros y Mynyddoedd i *Gaerſalem*, ac yn ôl drachefn at y Môr rhag ofn yr *Arabiaid*; Lle y bu eraill mo'r Galonnog ac Anturio trwy ganol y Wlâd, y rhai ſy 'n rhoddi llawer gwell hanes o honi, na'r lleill ai rhod-iodd hi ar eu Traed tros Fynyddoedd *Judea*, y rhai ni chym-merwyd un Amſer yn enwog, hyfryd nag yn ffrwythlon. Yr Ymdeithyddion hyn a ſynegant i ni, er bod Wyneb y Ddaiar yn Afluniaidd yr Olwg arni, eiſiau ei choledd a'i Llafurio, a'i gwrteithio ym myſg y rhai digrêd; Ac ſy 'n debyg yn grudd-ſan tnn drom Felltith Duw, o herwydd Pechodau ei Thri-golion gynt, etto y mapeth o ôl Traed ei hên Ardderchow-grwydd gynt, yma a thraw iw weled dan wirio ei Godidowg-rwydd yn yr hên Oeſoedd, Ac yn enwedig yngoror *Galilee*, O'r tu Gogleddig i ba un y mae Rheſir o Fynyddoedd a elwir *Lebanon* ac odditanynt y mae Dyffryn neu Waſtadedd 25 Milltir ar hugain o hyd, a deg a deugain o lêd, Yn ghanol pa un y mae Dinas *Damaſcus*, a'i hamgylch yw chwe Milltir, ſy wedi 'i Chadarnhau â Mûr â Chlawdd dau ddyblyg, y Wlâd oddiamgylch ſy ffrwythlawn ragorawl, o herwydd ei hyfrydwch ſe ai gelwir Gardd Eden hyd y Dydd heddyw, ar Gwaſtadedd hynny yw 'r Olwg hawddgara a eill Llygaid i ganſod ar y Ddaiar. A Mr. *Biddulph* Diſinydd o Sais wrth Dramwyo tros Fynydd yn agos i Fôr *Galilee*, ai cafodd hi 'n bur hyfryd, yn llawn o amryw Feillion a Llyſiau Blodeuog ym mhlith y Gwyrdd Lyſiau, ar Olwg arnynt megis yn gwenu yn eu Hwynebau; neu chwerthin a Chanu, fel y Traetha y Salmydd. A'r holl Fynyddoedd ar Gwaſtadedd y ffordd y Teithiaſant y Dwthwn hwnnw, oedd yn dra ffrwythlon yn ôl Deſcrifiad Moſes, Deut. 8. Maeſydd *Baſhan* neu *Bethſhan*, yn *Samaria* oedd felly, ac mewn lle a elwyd *Jemne*, neu *Enganim*, yn yr 'Scrythur hwy a welſant Erddi prydferth,

Perllannau

Arglwydd hon i'r Patriarchiaid *Abraham*, *Iſaac* a *Jacob*, a'u hâd hwynt. (3) *Iſrael*, oddiwrth yr *Iſraeliaid*, a alwyd felly oddiwrth *Jacob*, yr hwn a gyfenwyd *Iſrael*. (4) *Judea*, oddiwrth yr *Juddewon*, neu 'r Bobloedd o lwyth *Judah*. (5) *Paleſtine* yn ôl *Ptolomy* ac eraill megis *Philiſtines*. Tir y *Philiſtiaid*, Pobl gadarn rhai a breſwylient. (6) Tir Sanctaidd neu Fendigaid, a gyfenwyd felly gan Grift'nogion, o herwydd yn hon y cyflawnodd Criſt y Weithred o'n Hiechydwriaeth.

Y Wlâd hon a gyflewyd ynghanol y Byd, rhwng y drydydd a'r bedwaredd Climat, ynghylch 52 Grâdd yn y Gogledd i linyn y Cyhydedd, a'r Dydd hwyaf yn bedair Awr ar ddêg a Chwarter, rhwng y Môr Canol-dir ac *Arabia*. oddiwrth pa un a diogelwyd hi tu hwynt i'r *Jorddonen* a pharhaus Reſtr o Fynyddoedd; ar y Dwyrain y mae *Celoſyria* ac *Arabia Petrea* neu *Arabia* Gerrigog; Ar y Dehau *Jdumea*, Anialwch *Pharan* o'r *Aipht*, Ar y Gorllewyn, Darn o *Phenica*; a'r Môr Canoldir, ar y Gogledd, y mae Mynyddoedd *Libanus* a darn o *Phenica*: ei phellder oddiwrth y Llinyn y Cyhydedd ydyw un Grâdd ar ddeg ar hugain, ac yn ymyſtyn i'r trydydd ar ddêg ar hugain, ac yn ôl hynny ei hyd yw o *Dan i Beerſheba*, ynghylch 200 o Filldiroedd, a lle i mae hi lettaf, nid yw oddiar ddêg a deugain, eu holl Amgylchoedd ſydd ynghylch 400 o Filldiroedd, Y Tir enwog ymma a glodforwyd gynt tu hwynt i'r holl Wledydd tan yr Haul, yn enwedigol o herwydd ei jachuſrwydd a Hwyl-dda ei Hwybr, gan i chyfleu tan Climate tymherus, lle nad iw yr Gaiaf yn rhy Oer, na'r Hâf yn wreſog; ac am ei ffrwythlondeb, Tir yn lliſeirio o Laeth a Mêl, wedi harddu a Mynyddoedd teg a Dyffrynnoedd hyfryd, y Creigie yn piſcyllio Dyfroedd jachus, ac heb un ddarn o honi yn anhyfryd ac yn ddifuddiol, canys y Meiſydd a ddygent bob math ar ffrwythau yn ddigonol a helaeth lawn Gnŵd.

Y mae'r Wlad hon yn llawn o ffynonau peraidd a phorfeydd hyfryd ymha rai y Pelcant laweroedd o Ddiadellau o ddefaid, a Bugeilfa o Ddâ a Gwartheg, yr rhain a ro'nt Laeth rhagorol, yn gyflal a'r goreu yn y Byd: y mae yno helyd hela ac hebocca hyfryd, am Geirw cochion, Geifr, Scyfarnogod, Petriſſiaid, Soſljeir, ac Anod eraill; helyd y mae pob math ar Adar, a bagad o Lewod, Arthod a Bleiddiau. Ac

Ac er bod amryw Awdwyr yn rhoddi allan na ddylaem ni farnu 'r Tîr Sanctaidd fel y mae 'r Olwg arno 'r Dydd heddyw gan ei bod wedi ſyrthio tan Lywodraeth y *Tyrciaid* a'r *Arabiaid*, y rhai trwy Ryfel parhaus au hanrhaith, au gwnaethant agos yn Anghyfannedd ac yn Anialwch, megis lle gwrthoded-ig gan Dduw, etto amryw Ymdeithyddion yn ddiweddar ſy 'n dywedyd, na ddylid coelio 'r cyfan, y mae rhai ſy 'n Tra-mwyo o *Joppa* ac oddiyno dros y Mynyddoedd i *Gaerſalem*, ac yn ôl dracheſn at y Môr rhag ofn yr *Arabiaid*; Lle y bu eraill mo'r Galonnog ac Anturio trwy ganol y Wlâd, y rhai ſy 'n rhoddi llawer gwell hanes o honi, na'r lleill ai rhod-iodd hi ar eu Traed tros Fynyddoedd *Judea*, y rhai ni chym-merwyd un Amſer yn enwog, hyfryd nag yn ffrwythlon. Yr Ymdeithyddion hyn a ſynegant i ni, er bod Wyneb y Ddaiar yn Afluniaidd yr Olwg arni, eiſiau ei choledd a'i Llafurio, a'i gwrteithio ym myſg y rhai digrêd; Ac ſy 'n debyg yn grudd-ſan tnn drom Felltith Duw, o herwydd Pechodau ei Thri-golion gynt, etto y mapeth o ôl Traed ei hên Ardderchow-grwydd gynt, yma a thraw iw weled dan wirio ei Godidowg-rwydd yn yr hên Oeſoedd, Ac yn enwedig yngoror *Galilee*, O'r tu Gogleddig i ba un y mae Rheſtr o Fynyddoedd a elwir *Lebanon* ac odditanynt y mae Dyffryn neu Waſtadedd 25 Milltir ar hugain o hyd, a deg a deugain o lêd, Yn ghanol pa un y mae Dinas *Damaſcus*, a'i hamgylch yw chwe Milltir, ſy wedi 'i Chadarnhau â Mûr â Chlawdd dau ddyblyg, y Wlâd oddiamgylch ſy ffrwythlawn ragorawl, o herwydd ei hyfrydwch ſe ai gelwir Gardd Eden hyd y Dydd heddyw, ar Gwaſtadedd hynny yw 'r Olwg hawddgara a eill Llygaid i ganſod ar y Ddaiar. A Mr. *Biddulph* Diſinydd o Sais wrth Dramwyo tros Fynydd yn agos i Fôr *Galilee*, ai cafodd hi 'n bur hyfryd, yn llawn o amryw Feillion a Llyſiau Blodeuog ym mhlith y Gwyrdd Lyſiau, ar Olwg arnynt megis yn gwenu yn eu Hwynebau; neu chwerthin a Chanu, fel y Traetha y Salmydd. A'r holl Fynyddoedd ar Gwaſtadedd y ffordd y Teithiaſant y Dwthwn hwnnw, oedd yn dra ffrwythlon yn ôl Deſcrifiad Moſes, Deut. 8. Maeſydd *Baſhan* neu *Bethſhan*, yn *Samaria* oedd felly, ac mewn lle a elwyd *Jenne*, neu *Enganim*, yn yr 'Scrythur hwy a welſant Erddi prydferth,

Perllannau

Perllannau â Ffynnonau Dwfr, ac o Du Gogledd i *Lidda*, yn agos i Gaſtell *Angia* yn y Dalaith honno, hwy aethant i tewn Coedwig ragorol, yn llawn o Goed uchel a hyfryd, yn gymmyſcedig a Dyffryn Blodeuog a Thoreithiog, telly nid allai dim fod yn fwy Croeſawus, ac odid i'r holl Fŷd allu dangos golwg mo'r dirion ar fann honno.

Y mae yn *Judea* rhwng *Ramah* a *Chaerſalem* Borfeuydd breiſion a da ynghylch Chwe Milltir o hyd, mae Eſgyniad y Mynyddoedd ym mhlith Dyffrynnoedd ffrwythlon. Dyffrynnoedd *Rephaim*, *Eſhcol*, a *Jericho* ſydd dra hytryd, oddigerth y rhei'ny ſy 'n agos i Fôr *Sodom*, Ar holl Wlâd yn gyffredinol a ganmolir gan amrywo Awdwyr, Ac a Ddarlunir megis Paradwyſydd Hyfrydol. Ac er bod y Wlâd Fendigedig hon yn ſefyll mewn Ardal boeth, yn gyd râdd o Wrês a thueddo loſgedig *Barbary*, etto oblegid y Mynyddoedd, Dyffrynnoedd Ffynnonydd ac Afonydd, ar Môr Gorllewinol, etto Gwlâd Dymherus yw wrth yſtyriaid eraill o'r unrhyw Oſodiad.

Ffrwythau'r Wlâd yn enwedig yw 'rhain, Bawm, Mêl Pêr Lyſiau, Myrrh, Cnau o amryw fath, ni ddylid gollwng yn Ango na'i Gwenith; na'i Holew, â pha rai y mae'nt yn Maſnach ym Marchnad *Tyrus*, nag y chwaith eu Haiid. *Rice* Cymmyſg ŷd, Afalau Euraid, Chwerwddwr, Ffigus, Manna Per-Aroglau, Afalau Gronynog, Ffenigl, y Fedwen Chwerw Ac Winwyn dri chymmaint a dim o'n rhai ni, pur beraidd heb ddim Arogl gwrthwynebus, ac yn Archwaethus i'r Cyll A hynny oedd yr achos fod yr Iſraeliaid yn cu chwenych cymmaint. Mwſtard hefyd, yr hwn yw 'r lleia' o holl Hadau Gerddi, ac etto yn dwyn y Pren mwya' yn enwedig yn nhu edd y Dwyrain, Am ba un y Traetha Llyfr *Talmud* yr *Judi ewon* Hanes neu Ddwy; ſef fod yn *Sichem* fonyn o'r Co Mwſtard a thair Cangen arno, un o'r Canghennı hynny a dor rwyd i lawr i orchguddio neu i Doi Bŵth Crochenydd, ta ba un y byddai ef yn llunio ei Leſtri Pridd yn amſer Hâ', a ſddynt hela cymmaint o Hâd Mwſtard oddi ar y Gangen honn ac anneu mewn lle pedair ar hugain o Ffigys. Mae *Rab Simeon* yn Traethu ymhellach yn y *Talmud*, fod ganddo yn ei Ardd Bren Mwſtard, yr hwn cymmaint ac y byddai arferedig o ddringo i'w ben megis i ben Ffigyſbren. *Buckſto*

yr hwn a Draethodd yr Haneſion hyn, nad yw e'n ei rhoddi allan iw Cyflawn Gredu, eithr ei wirio fôl y Planhigion hynny yn tyfu 'n fawr jawn yn y Wlâd honno, ac felly 'n Crythau Geiriau ein Jachawdwr oblegid hynny. Ym Mynyddoedd *Juda* ac *Ephraim* i'r oedd Gwinllanoedd mawrion, yr Hanes a roddodd yr Yſpiwyr a ddantonodd *Moſes*, y rhai a ddygodd y Grawnſwp mawr Ryteddol hwnnw o *Eſhcol* ſy ddiſai tyſtiolaeth o'u Maintioli; os cyſtadlir hwy ar rhei'ny o *Spaen*, Ffraingc ac *Italy*. O amgylch *Jericho* yr oedd Palmwyddd o faint aruthrol, ai fydyn Dyfnad ar ôl eu Yſgythru neu torri i lawr, ar unig tan o'r Byd i gael Balm jawn ydyw. Mae 'r Mynyddoedd hefyd yn rhoddi allan Fwn Aur, Haiarn ac Eſydd. I ddibennu yn y Wlâd hon, (neu Ardd Duw) y mae pob peth ac ſy'n Anghenrheidiol er lleſhâd Dynol-ryw.

Ffrwythlondeb y Wlâd a'r gofal a gymmerwyd gynt iw gwrteithio a'i Diwyllio, ſy hawdd i ni gydnabod, gan yſtyried ei lleied, a'i bod hi 'n Meithrin cymiſer rhifedi o Ddynion. Canys er ein dwyn ni i well Dealltwriaeth o honi y mae Gwr Celfyddgar yn crybwyll am Bellder *Dan* oddiwrth *Beerſheba*, mae St. *Jerom* yn cyfri nad ydynt ddau Can Milltir oddiwrth eu gilydd, a Lled cyffredinol y Wlâd rhwng deng Milltir a deugain a thriugain. Y mae 'n cynnwys o Faintioli o Dîr yn gyffelyb i Ddarn neu gwrr o *Loegr*, megis ped faed yn tynnu Llinyn o *Bortſmouth* i *Yorc*, ac yn cyrraedd oddiyno i'r Dwyrain hyd Fôr *Germany*: Neu nid hwyrach nad yw 'r cwbl ddim helaethach na Thywyſogaeth *Cymru*, Gadewch dynnu Llinyn yr hwn a gynnwys yr holl Wlâd o *Friſto* i *Gaerlleon* ar *Ddyfrdwy*, yr hwn wrth y Meſur newydd a gynnwys 145 Milltir oddiwrth eu gilydd, a pha faint bynnag ſy 'n eiſiau o hŷd, y Lled a eill ei gyflawni. Hefyd nid oedd yr *Iſraeliaid* yn ymboeni eu hunain ond ag ychydig Farchnadoedd Morawl, i'w harfwyo a phethau o Wledydd dieithr, yr hyn ſy 'n Siccrhau yn fwy dilys ryteddol ddigonoldeb y Wlâd honno; Yn unig un peth ſy i ddalſulw arno, eu bod hi yn Wlâd lawn o Fynyddoedd, yr hyn ai gwna hi 'n helaethach o Lawer na Gwlâd waſtad; Canys fo ddywedir am *Scotland* ei bod hi Gan milltir yn hwy na Lloegr, a Chan Milltir yn fyrrach, yr un peth a ellir i ddywedyd am *Paleſtine*, ei bod hi wrth hyd ei Graddau yn fyrrach o Gan Milltir, Ac i'r fawl a Ym-

deithio i fynu ac i lawr tros i Brynniau ai Mynyddoedd hi, hi a gyrraedd gan Milltir yn mhellach o hyd. Mae 'r un Awdwr yn dywedyd hefyd, gan ei bod hi yn Fynyddig, a bod yr Awel weithiau yn oerllyd yno, ar Gwynt yn eglurhau 'r Wybr, o darth a chaddug, Ac od oes un Lle yn *Lloegr* a ellir i gyffelybu o Garenydd yn y Bŷd i Wlâd *Canaan*, mae 'n tybiaid mai *Defon Sir* yw 'r debycca iddi, ond bod *Caanan* yn Ffrwythlonach o lawer, a'i Mynyddoedd yn îs, oddigerth *Carmel* a *Lebanon*, Gan hynny yn gyffelybiaeth iw mân Fynyddoedd, a'i Bryniau lled isel, a Dyffrynnoedd hyfryd, a rhai Gwastadoedd, mae e'n cyffelybu yrhan Fynyddig o *Hartfford Sir* i fod yn debycca iddi, ei hamryw Neintydd hyfryd, a Llwyni, a Seiltydd ferchogaidd o'i hamgylch, A chwedi hardd wisgo a Llysoedd a Phalasau Pendefigion a Boneddigion; Eithr y mae Gwlâd *Caanan* yn rhagori ar hon mewn un peth, gan ei bod hi yn cael golwg hyfryd ar y Môr gorllewinol, gwynt pa un sy fwy buddiol, ar Trigolion gan mwya' yn jachusach, na'r sawl sydd dan Effaith y Dwyreiniol Wynt y Môr.

Gan fod Gwlâd *Israel* wedi ei chau mewn Cyffiniau a Therfynau cyn gaethed ac y sonir am deni, y mae 'n gofyn bod Gŵr a ffŷdd gre' ganddo i gredu 'r cwbl y mae 'r Ysgrythur yn i grybwyll yn ei chylch hi, Pan aeth yr Israeliaid gynta i'r Wlâd tan *Josuah*, yr oeddynt uwchlaw Chwe chan Mil yn dwyn Arfau, o Ugain hyd yn nhriugain Oed, Ac ni a ddarllenwn yn y Barnwyr, fod yn Rhyfel *Gibeah* yn unig o Lwyth *Benjamin*, y lleia o'r cwbl, fod o honynt Fyddin o Chwe Mil ar hugain o Wyr, a'u bod hwy i gyd yn bedwar Can Mil, Brenhin *Saul* a ymdeithiodd a Dau Can Mil a deng Mil o Wŷr yn erbyn yr *Amaleciaid*, pan ddadwreiddiodd ei hwynt, Brenhin *Dafydd* a gadwodd yn gyfannedd 12 Llu o Wyr Traed, o bedair Mil ar hugain bob un, y rhai oedd yn gwneud Gwasanaeth Milwrol iddo, ac oeddynt i gyd yn ddau can Mil a phedwar Ugain Mil o Wyr. Ac wrth Riso 'r Bobl, yr hyn a enynnodd Lidiawgrwydd yr Arglwydd yn ei erbyn, fe gafwyd yn y Droellen fechan honno o Ddaiar, bymtheg Cant a thriugain Mil, a deng Mil yn *Israel* a *Jude* yn tynnu Cleddyf, ac yn gymmwys i'r Rhyfel,

heblaw

heblaw Gwyr *Lefi* a *Benjamin*, a Cwragedd a Phlant, a'r hên Bobl ar rhai clwyfus, ynghyd a Dieithriaid a Chenhedloedd, gweddillion y *Philiſtiaid*, y rhai oedd heb eu dadwreiddio allan yn amſer *Dafydd*, nid oedd neb o'r rhei'ny wedi rhoi i mewn yn Rhifedi *Joab*. 1 *Chron*. 21. 1. Nid Llywydd *Jehoſaphat* y chwaith yn tyrr jawn o'r cyfri hwnnw yn ôl ei gyfran, er nad oedd ganddo et fawr gyda 'r drydedd Rann o Deyrnas *Dafydd*; etto efe a faentumiodd Luoedd mawr, y rhai y wnaent un Cant ar Ddêg Mil, a rhiwgain Mil o Wyr Ereithiol, heblaw y rhai oedd ganddo, yn yr Ymddiffynfeydd ar lleoedd cedyrn, 2. *Sam*. 24. 9.

Pa fodd bynnag nid oes dim yn hyn yn Anghredadwy, heblaw yr Awdurdod ddiamheus, a Gwirionedd yr Yſcrythur Sanctaidd, yr hyn a ddylae gael ei gredu 'n ddiammau, ni allwn naro wrth y cyfryw 'Samplau mewn Hanesion Cyffredin: Fe gollodd *Thebes* fawr yn yr *Aipht* Saith gan Mil o Filwyr grymmus o'i Thrigolion ei hunan yn unig yn *Rhuſain* ym Mlwyddyn gynta' *Seſerus Tullius*, yr honno oedd y ganfed ar wythfed a phedwar ugain Mlwyddyn ar ôl ei ſylfaenu, fe rifwyd ynn Bedwar ugain Mil o Ddinaſyddion cryfion yn gallu dwyn Arfau, a'r rhêi'ny i gyd yn gynnwyſedig yn y tîr o amgylch *Rhuſain*, lle y mae 'r rhann fwya 'r awrhon yn llwm ac yn ddi-Drigolion; Canys nid oedd i Harglwyddlaeth nepell o bedair Milltir ar hugain i 30, yna 'r oedd cyfrwyſta'r gwyr gynt yn ſefyll ac yn rhuthro am ben a Chythryblu eu Cymmydogion, hwy wnaethant eu gorau ar gynnydd y Bobl a gwrteithio eu gwlâd, pa un bynnag a'i llawer ai Yehydig; I wneud Priodaſau yn ddedwydd, au Bywyd yn eſmwyth, i gynnyrch Jechyd, a llwyddiant; ac i ddechafu eu Tiroedd yn doreithiog; Hwy a ymarferent ei Dinaſyddion i Ddiwyddrwydd, gan eu Cynhyrfu i garu eu gwlâd, i fyw mewn Undeb ym mhlith eu gilydd, i ufuddhau i'r Cyfreithiau: Y pethau hyn a gyfrifent hwy 'n gyfrwyſtra.

Nid hwyrach i rai fod y Rheſymmau hyn yn dêg, ni awn at bethau pennodol, a dangos y modd ŷ gallai gwlâd cyn lleied a *Phaleſtine* fagu a Maethu cymmaint o Rifedi o Bobl. Cyfair o dîr da, a ddug bum Ghwarter, Comb, a Meſur o Wenith, o Meſur *Llundain*, a wna Ymborth digonol i bedwar ô

Wyr tros Flwyddyn, gan roddi i bob un, ddau Bwys a chweoh Wns o Fara bob Dydd, yr hyn ydyw ynghylch tri Mesur bob Mis.. ac un mesur ar bymtheg ar hugain i bob Gwr tros Flwyddyn, Eithr gan fod ein Israeliaid ni 'n Bobl fwytteig, gadewch iddynt gael y ddau cymmaint o Luniaeth, hynny ydyw pedwar pwys a deuddeg Wns bob Dydd o Fara: Felly cyfair o Dir a rydd ymborth digonol i Ddau o Bobl, ac wrth y cyfri hwn ni a gawn Dir yngweddill etto: Canys *Leag*, neu Dair Milltir o Dir pedwar Onglog neu Scwâr a wna o gyfeiriau bum Mil chwechant a phump ar hugain Cyfair, wrth gyfri 3 Mil o *Paces* neu Gamrau Geometrical, mewn *Leag* pum Troedfedd mewn *Pace*, ugain Troedfedd mewn Gweilging neu Drostan, a chant Gweilging mewn Cyfair, Teyrnas *Judea* o'r fan lleia' oedd yn ddeg ar hugain *Leag*, o hyd, a thros ugain o lêd, wrth gyfri ei Hyd o'r Dwyrain i'r Gorllewin yr hyn fydd chwechant o *Leagau*, ac wrth hynny yn cynwys Tair Myrddiwn tri Chant a phum Mil a thriugain o gyfeiriau. Ac yn ol y Cynnulliad yma a eill Feithrin y dau cymmaint o Drigolion, hynny ydyw Chwe Myrddiwn Saith gant a Deng Mil a deugain o Bobl, Eithr nyni a adawn allan hanner y Tîr tu ac at leoedd diffrwyth a diffwys, Creigiau, traethau Tywodlyd, Anialwch i fynu ac i lawr, Gwinllannoedd a Phorfeuydd, ac hefyd y gorphwysfa y mae Tir yn ei otyn, megis Blwyddyn mewn faith, Etto y mae digon yngweddill i Feithrin Nifer o Ddynion, gogyfair a Chafgliad y Cyfeiriau, hynny ydyw, Tair Myrddiwn tri chant a phum Mil a thriugain: Gan hynny gwaith etmwyth oedd Cafglu yn y Wlad honno ddeuddeg Canmil o Wyr yn tynnu Cleddyf, lle 'r oedd pawb yn dwyn Arfau, a chanddynt Yd bob amfer iw werthu i Ddieithriad tu ag at brynu Anifeiliaid; Ac onid oedd y Diadellau o fagwraeth y Wlâd honno yn ddigonol iw Gwafanaethu a Gwlân a Chig, nid oes ammau nad oedd llawer o Anifeiliaid yn dyfod iddynt yn Deyrnged oddiwrth Ddieithriaid, Fe a dderbyniodd *Jehofophat* heblaw 'r Arian Teyrnged a ofynnodd ef gan y *Philiftiaid*, oddiwrth yr *Arabiaid* faith mil a phum cant o Hyrddod ac o Eifr hefyd yr un Nifer. Y mae hanefion eraill am y cyfryw Deyrnged, Hefyd yr Israeliaid oedd yn byw yn gynnil, ac yr oedd tu holl Diroedd

goraw

gorau hwy gwedi eu gwrteithio 'n rhagorol; Gan nad oedd fawr Goedydd na Cheodwigod i hela ynddynt na diffaethwch nag Anialwch, na dim Tir hebcor, ni welwn Ynghaniadau *Solomon*, fod eu Gerddi yn llawn o ffrwythau Coed, a Phlanhigion; A diammau yw fod yn haws Arlwyo Llettyfon na Chynheiliaeth iddynt, gan fod hanner, ie y Bedwaredd rann o Gyfair o Dir yn llawn ddigon, nid yn unig i Wafanaeth un Gŵr ac Ymborth ond Teulu cyfan.

II. *Amryw Gaethgludiadau'r Iuddewon Genedl yn ôl iddynt Berchenogi neu Feddianu Gwlad* Canaan.

Y Wlâd ddedwydd honno a Raneſid gynt yn ddeg ar hugain o Deyrnaſoedd neu Dywyſogaethau, pan ddarfu i'r *Iſraeliaid* tan Reolaeth eu Penllywydd *Joſuah* a thrwy Orchymmyn Duw oreſgyn y Wlâd, y rhan fwya o'r hên Drigolion a yrrwyd allan o'r Tir neu a ddifawyd gan Gleddyf yr *Iſraeliaid* o herwydd eu ffieidd-dra y rhai gwedi hynny a Reolodd y Wlâd gan D'wyſogion a Barnwyr hyd amſer *Samuel*, ynghylch pum Can Mhlynedd, nid oedd y Rheolwyr neu 'r Barnwyr hynny i gyd yn deilliaw o un Llwyth; eithr y rhai Heneiddia, ſynwyrola, a mwya Pwyllog a ddewiſid allan o bob Llwyth. O'r diwedd yr *Iſraeliaid* a flinodd ar y rheolaeth tan ba un y darfu i'r Hollalluog eu gofod. Ac ar eu dilrifol erfyniad ar gael o honynt eu Rheoli megis Cenhedloedd eraill. Yr Arglwydd a roddodd iddynt Frenhin, felly newidiwyd honno o ofodiad Duw, i un o Unbennaeth neu Archdeyrnaiaeth. Tan ba Reolaeth y canlynafant o Flwyddyn y Byd. 2909. hyd y flwyddyn 3416. Ym mha amſer trwy eu hamryw Ddeiw addoliaeth, Gorthrymder, a'u Beiau mawrion eraill yn llidio yr Arglwydd nes eu Caethiwo gan amryw Frenhinoedd dieithrol, y rhai oedd chwannog i gyſſylltu'r Wlâd ddedwydd honno at ei heiddo 'u hunain; o'r diwedd gan Erlid a rhoi i Farwolaeth y Seinctiau a'r Prophwydi a ddanfonafai Duw i'w plith. A Chroeſhoelio unig Fab Duw; Arglwydd y Gogoniant, ac Jachawdwr Dynol ryw, au dwylo Llofruddiol, ac yn bendifaddau erfyn ar Euogrwydd ei Waed Gwirion ef fyrthio ar eu pennau hwynt au Plant, yr hyn a ddygodd eu

Llywodraeth au Gwlâd i lwyr Ddiſtryw ac Anghyſannedd-dra.

Dengwaith y Caethgludwyd neu y dygwyd yr *Iſraeliaid* i Gaethiwed, Pedair gan *Sanherib*, neu *Senacherib*, pedair gwaith gan *Nebuchadnezzar*, unwaith gan *Titus Veſpaſian*, ac unwaith gan *Adrian* Ymerawdwr *Rhufain*, ſel y mae'r Yſcrythur yn Tyſtiolaethu, ac yn ôl cyfri *Joſephus*, a haneſion eraill.

Y Gaethglud gyntaf y wnaeth *Sanherib*, yr hwn a ruthrodd am ben y Tîr ac a Ddiblannodd y *Reubiaid*, y *Gadiaid* a hanner Llwyth *Manaſſeh*. Fe a ddygodd ymmaith hefyd y Llo Aur a wnaethai, *Jeroboam* Fâb *Nebat*, fe a ddygodd yr *Iſraeliaid* i *Hela*, *Habor* hyd Afon *Gozan*, ac i Ddinaſoedd y *Mediaid*. Y Gaethglud hon a ddigwyddodd yn amſer *Peckah* Fâb *Remaliah*, yn y Flwyddyn er Creadigaeth y Byd 3262.

Yr Ail Gaethglud a ganlynodd ar frŷs, canys *Hoſeah* Fâb *Elah* (a addawſid yn ôl a laddodd *Peckah* Fâb *Ramaliah* Frenin *Iſrael*, ac yna fe aeth yn Waſanaethwr ac yn Ddeiliad i Sanherib ſaith Mlynedd; Yna Sanherib yr Ail waith a ddygodd ymmaith Lwyth Aſer, *Iſſackar*, *Zebulon*, a *Nepthali*; eithr efe a ryddhaodd un o bob Wyth, ac a gymmerodd ymmaith hefyd Lô arall o *Bethel*.

Y Drydydd Gaethglud y fu 'n Nheyrnaſiad *Zedekiah* Fâb *Ahaz*, yn y Bedwaredd Flwyddyn o Deyrnaſiad pa un, Sanherib y ddaeth ac a fwriodd glawdd oddiamgylch *Samaria*, ac ymmhen tair Blynedd o Warchauad, efe ai cymherodd hi yn y Chweched Flwyddyn a Deyrnaſiad *Hezekiah*, felly efe a gymmerodd ymmaith yr *Iſraeliaid* oedd yn trigo yn *Samaria*, a Llwyth *Ephraim* a gweddill Llwyth *Manaſſeh*.

Y Bedwaredd Gaethglud gan *Nebuchadnezzar*, yr hwn yn ôl iddo Deyrnaſu Wyth Mlynedd, a Ryſelodd yn erbyn *Caerſalem*, gan ddwyn gydag ef *Hereticiaid Clinteon* o *Fabilon*, *Ethiopia*, *Hemates*, *Areim* a *Sephitvain*, Fe a gymmerodd Gant a deg a deugain o Ddinaſoedd *Juda*, ym mha rai yr oedd Dau o Lwyth Juda a Simeon, y rhai a ddygodd ymmaith gydag ef, ac ai danſonodd yn ddiymaros i *Halah* a *Habor*, Ne's i Frenhin *Ethiopa* Wrthryſela yn ei erbyn, Teyrnas pa un oedd o'r tu Dehau i'r *Aipht*, yna efe a gymmerodd Lwyth *Juda* a *Simeon* gyd ag e' ac a Ryſelodd yn erbyn Brenhin *Ethiopia*,

iopia, Felly Duw Fendigedig a Sanctaidd a'i gosododd hwy yn y Mynyddoedd tywyllion. Gan hynny y Deg Llwyth trwy 'r pedair Caethglud a ddygwyd ymmaith i Alltudiaeth a Deoliad gan Sanherib a Salmanasser. Fe adawyd yn ôl o *Juda*. Gant a Deng Mil, ac o *Benjamin* Gant a Deng Mil ar hugain yn Ninas *Caersalem* a *Hezekiah* yn Teyrnasu arnynt, Drachefn Sanherib neu Senacherib Frenhin *Assyria* a ddaeth o *Ethiopia* yn erbyn *Caersalem* ac un Gan Mil a deng Mil o Wyr mewn Arfau eithr yr Hollalluog Dduw a'u Gorchfygodd, Canys Angel yr Arglwydd a drawodd mewn un Noswaith Gant a phedwar ugain a phum Mil. Y Lladdfa honno a fu yn y Bedwaredd Flwyddyn ar ddeg o Deyrnasiad *Hezekiah*. Ym Mlwyddyn y Byd 3294, O'r amser hwnnw nes dyfod *Nebuchadnezzar* i ruthro am ben yr Juddewon yn Nheyrnasiad *Jehoiakim* yr oedd Cant a saith Mlynedd.

Y Bummed gaethglud a fu yn y Bedwaredd flwyddyn o Deyrnasiad *Jehoiakim*, pan ddaeth *Nebuchadnezzar* y tro cynta' ac a ddygodd ymmaith 3023 o Lwythi *Judah* a *Benjamin*, A saith Mil o'r Gwyr gwrola o Lwythi eraill a rwymasant mewn Cadwyni.

Y Chweched Gaethglud a fu ynghylch Saith Mlynedd ar ol hynny, pan ddaeth *Nebuchadnezzar* i *Daphne* Dinas o *Antioch*, o ba le fe a ddygodd ymmaith i Gaethiwed, bedair Mil a chwechant, o Lwyth *Juda a Benjamin* Ddengmil a deugain, ac o'r Llwythi eraill Saith Mil, hwy a symmudwyd i *Babilon*.

Y Seithfed Gaethglud a ddigwyddodd ynghylch naw mlynedd ar ol hynny; Canys yn y Nawfed Flwyddyn o Deyrnasiad *Zedekiah* y daeth *Nebuchadnezer* yn y ddegfed flwyddyn o'i Deyrnasiad y drydedd waith i *Gaersalem*, ac a orchfygodd *Zedeciah*, gan losgi 'r Deml, a chymmeryd ymmaith y Golofn, y môr o Brês, ar Dorrefn y wnaethai *Solomon*, a holl Lestri Tŷ 'r Arglwydd, a Thrysorau Tŷ 'r Brenhin yr hwn oedd Yng haersalem, ac a'u danfonodd oll i Babilon, hefyd efe a laddodd naw Cant ac un mil o'r Israeliaid, hebllaw y rhai a laddwyd i ddial Gwaed *Zacharias*. Y *Lefiaid* a safasant dan gamu Cerdd tra buwyd yn gwneud Lladdfa arnynt, eithr ni allasant ddiweddu cyn i'r gelynion fyned i mewn i'r Deml, a'u cael

hwy 'n ſefyll yn eu Lleoedd au Telynau yn eu dwylo, gan hynny ſe a ddygodd ymaith o'r Achos yn y Gaethglud honno 6000 o'r *Leſiaid*, y rhai oeddynt Hâd *Aaron*, y rhai pan ddygwyd gan y Cenhedloedd at Ddyſtroedd *Babilon*, gan eu cymmell i Ganu un o ganiadau Sion, Ar hynny yr Offeiriaid o'r Achos a gnôdd ymmaith bennau 'u Byſſedd au Dannedd; gan ddwedyd pa fodd y canwn ni Ganiad yr Arglwydd mewn gwlâd ddieithr? Ar Arglwydd Bendigedig medd *Joſephus*, (gan na chanant ganiad) a helaethodd arnynt ac au gofododd y tu pella i *Sambatia*. *Nebuchadnezar* a ddygodd ymaith hefyd Wyth gant a Deng mil ar hugain y rhai oedd oll o Lwyth *Juda a Benjamin*, heb adel ond Chwe mil yn unig *Yngbaerſalem*, ac a wnaeth *Gedeliah* Fâb *Abikam* yn Rheolwr arnynt yr hwn a laddwyd gan *Iſmael* Fâb *Nehemiah*, a'r Iſraeliaid a ofnaſant ac a ddiengaſant o'r achos i Wlâd yr Aipht, ym mlwyddyn y Byd 3416.

Yr Wythfed gaethglud, a ddigwyddodd yn yr Wythfed Flwyddyn ar hugain o Deyrnaſiad *Nebuchadnezzar*, eſe a gymmerodd yr *Aipht* a *Thyre*, fe foddodd yr Juddewon oedd yno; a'r Cenhedloedd oedd yn deilliaw o *Moab* ac *Ammon*, ar wlâd oedd yn terfynu ar Iſrael, ac a ddygodd *Jeremiah* a *Baruch* gyd ag eſ i'r *Aipht*, a phedair mil a chwechant o wyr yn ychwaneg. Hynny o *Iſraeliaid* a adawyd yn tyw yn yr Aipht a ymſymudodd i *Alexandria*, lle y darfu iddynt mewn ychydig amſer amlhau a chynnyddu 'n amryw filoedd lle 'r oedd ganddynt eu Cyffegr, ai Hallor, Offrymmau, Thuſſerau tai, Llyfr-gellau a llawer o Yſgolion Dyſg, ac mewn byrr amſer hwy aethant yn dra Chyfoethog a Galluog. Eithr *Troganus* Ddrygionus a Ryfelodd yn eu herbyn, ac a laddodd amryw o honynt. Dyma 'r yr wythfed Gaethiwaid a ddigwyddodd ir *Juddewon* tra y Safodd y ty Cynta' a'r Deml. ddengmlynedd a thrugain yn ôl eu Hanrheithio. Hyd oni ddarfu i *Cyrus* Brenhin *Perſia*, ddanfon at *Nehemiah*, *Zerobabel*, *Baruch*, au holl Gyfeillion. Gan orchymmyn iddynt Adailadu 'r Ail Tŷ ar Deml, yno yr aeth *Ezra* allan o *Babilon* a Deugain Mil gyd ag eſ, wedi bod yr *Iſraeliaid* dair Blynedd ar ddeg ar hugain yn Orthrymmedig, gan orfod dioddef pob math ar watworgerdd, drwg enllib a chabledd eu Gelynion, ac yn barod i gael torri

eu

eu Gyddfau ar Orchymmyn lleiaf y Brenhin Galluog hwnnw, fel ymddengus wrth yr Ordinhad greulon honno a'dderbyniodd Haman yn eu herbyn, au hymddifyniad trwy Eſther. Hwy fuant ugain Mlynedd cyn gallu gorphen Adailadu 'r Deml yn ôl eu Dychweliad cynta' hwy fuant Driugain Mhlynedd ymhellach cyn adeiladu 'n gyfan gwbl Gaerau *Caerſalem*, yr hyn i gyd y fu Bedwar ugain mlynedd yn ail ſefydlu. Tra y pharaodd Brenhiniaeth y *Perſiad* yn ôl hynny hwy fuant fyw yn Heddychol mewn math ar Reolaeth gyfredin tan yr Arch Offeiriaid a Chyngor Deg a thriugain o Henuriaid.

Alexander Brenhin *Macedonia* a Anrheithiodd Deyrnas y *Perſiaid*, ac a Deyrnaſodd Ddeuddeng Mlynedd ac a fu farw. A Phedwar Gormeſdeyrn a ganlynodd: y rhai a Orthrymodd yr *Iſraeliaid* tros gant a deunaw a deugain o Flynyddoedd, Wedi hynny daeth Meibion Aſmonani y rhai a laddodd y Gormeſwyr ac a gymeraſant y Rheolaeth oddiarnynt, gan Deyrnaſu eu hunain Gant a thair Blynedd yno Rheolodd un *Herod* Gwâs i Aſmonani, yn ôl iddo ladd ei Benllywydd ar holl Deulu ond un Perch ifangc a garai ef, yr hon a ddringodd i ben y Tŷ, Gan ddywedyd. *Nid oes un byw o Dy Fy Nhâd ondy fi'n unig.* Ar hynny hi ai taſlodd ei hunan i lawr bendramwngl ac a fu farw. *Herod* ai goſodd hi mewn Mêl, ac ai cadwodd-tros yſpaid ſaith mlynedd, ac fe ddywedir ſod iddo a wnaeth ai Chorph flynyddoedd yn ôl ei Marw. Yn ei ôl ef *Herod Agrippa* ei Fâb a *Manaſah* ei nai a Feddiannodd y Deyrnas Gant a thair Blynedd. Acfelly y bu tros bedwar Cant a thair blynedd, tra ſafodd yr ail Tŷ ar Deml hyd eu llwyr gwymp.

Y Nawfed Gaethglud yr *Juddewon* yr hwn a fu tan reolaeth y *Rhufeiniaid*, ar *Juddewon* yn ol iw Pechodau redeg troſodd yn gyflawn, trwy roddi iw Farwolaeth Arglwydd y Bywyd, Barnedigaethau Duw yn ôl eu haeddiant, a Phrophwydoliaeth ein Jachawdwr Bendigedig au gorddiweſodd yn fuan. Canys Byddin alluog y *Rhufeiniaid* a warchauodd ac a Yſglyſaethodd Ddinas *Caerſalem* trwy Dân, newyn, Cleddyf, ag Anghyttundeb yn eu myſg eu hunain &c. Un Can Mil ar ddeg a gollodd eu bywyd.

Ac er bod y Nifer yn fawr jawn, etto y mae i ni le iw Credu wrth Ystyriaid, i'r Gwarchau ddechrau, yn Nyddiau 'r Pasc, pan oedd yn agos holl Wyr *Judea* wedi 'u hamgylchu *Ynghaersalem*, Pob Eglwys neilltuol oedd yr amser hwnnw yngwasanaeth y Fam Eglwys, set y Deml, felly 'r oedd mwy o Ddieithriaid yn y Ddinas na'i Thrigolion sefydlog, felly y Pasc yn gynta' a sefydlwyd gan Dduw mewn Trugaredd i gadw 'r Israelirid rhag Marwolaeth yn yr Aipht, ac a arferwyd y tro hwn mewn Cyfiawnder i frysio eu Dinistr, ac i gasglu ynghyd yr holl Genedl, megis Dyrnaid iw taflu yn Nhân ei Ddigofaint,

Heblaw 'r rhai a Laddwyd, fe a gymmerwyd dwysil ar bymtheg a phedwar Ugain yn Gaethweision, a'r fawl a brynnodd ein Jachawdwr am ddeg dryll ar hugin o Arian, gan Suddas; a werthwyd bob yn ddeg ar hugain am un Geiniog,

Pen Llywydd y Rhufeiniaid yn y Weithred hon oedd *Titus Vespasian*, Ymerawdwr Rhufain, Tywysog o'r fath Gynneddfau rhagorol, o'r Achos fe'i galwyd ef Anwylyd Dynol Ryw; wrth y Rhinweddau yr oedd ef yn Gyfranol o honynt, fe ellid ei Haeddedigol gyfri e 'n Ogoniant yr holl Genhedloedd ac yn gywilydd i'r Rhann fwya' o Grist'nogion, a gresyn mawr oedd na chowsai 'r fath Gangen Ddaionus ei thyfiad o well Gwreiddyn, Felly Henafiaid Genedl yr Juddewon, y rhai a ellid gynt eu galw Anwyliaid yr Hollalluog a Ddifrodwyd oll, Ac Ardderchog Ddinas *Caersalem* a gowsai eu difrodi ai Hysglyfaethu bum waith o'r blaen, a Ddinistriwyd yn llwyr gwbl

Ei sylfaenydd cynta' oedd un o Dywysogion y *Canaaneaid*, fe alwyd yn ei Jaith ei hunan y Brenhin Cyfiawn, ac yn wir felly 'r oedd, canys efe oedd yr Offeiriad cynta' a Aberthodd i Dduw, ac a Gyssegrodd y Deml yno a elwyd *Solyma*, Ond Dafydd Brenhin *Israel* a yrrodd allan y *Canaaneaid*, ac a'i rhodd i'r *Juddewon* i'w Phreswylio, ac yn ôl 464 o Flynyddoedd a thri Mis, Fe ai Dinistriwyd gan y *Babiloniaid*; ynghyd a Mawredigrwydd y Brydferthaf Deml *Solomon* Frenhin, ar ba un y gweithiodd un Cant a deng Mil a deugain o Wyr yn gyfan gyfannedd nes ei gorphen; Rhwysg y lle Gogoneddus hwnnw a ellwch Ddarllain am dano yn yr Yscryth-

ur lân. *Caerſalem* wedi hynny a Yſglyfaethwyd ac a gymmerwyd gan *Aſochæus* Brenhin yr *Aipht*, wedi hynny gan *Antiochus* a *Phompey*, ac yn ddiwaetha'gan y *Rhufeiniaid*, ac er pan Deyrnaſoedd *Dafydd* Frenhin; yr hwn oedd yr Juddew Cyntaf a Deyrnaſodd yno, hyd i *Ditus* ei Difrodi, oedd 1179 o Flynyddoedd, ac er pan Adeiladwyd hi gyntaf hyd ei Hanrheithiad, oedd 2177 o Flynyddoedd, etto er hynny nid allodd Henciddrwydd, Cyfoethogrwydd, nai henwogrwydd, nag Anrhydedd eu Cretydd, leſhad yn y Byd, i attal eu Hanffortun galed, y cyfryw ddiwedd oedd Gwarchauad *Caerſalem* pan nad oedd neb ychwaneg wedi'i adel iw Lâdd, na dim yng weddill i'r Milwyr, i'w gael, ntu i Ymarfer eu Gwroldeb, y rhai oedd wedi ymroi na adawent hwy ddim ar eu hôl ac allent i Yſglyfaethu.

Titus y wnaeth ei orau ar Achub y Deml, ar rhai oedd o'r tu fewn iddi, Eithr yr Juddewon oedd mo'r fyrrbwyll gyndyniog, au gwnaethant eu hunain yn Anhaeddol o Drugaredd, ac o'r achos te orfu arno o'r diwedd ddiniſtrio y Ddinas a'r Deml ynghyd, y Deml lle 'r Offrymmaſid gymmaint o boeth Offrymmau, y wnaed yr amſer honno yn Offrwm ei hunan, ac a loſgwyd yn Ulw; ac ni adawyd Carreg ar Garreg o'r Adail uchel Arddcrchog honno a Rhyfeddod yr Apoſtolion, Pechodau 'r *Juddewon*, y rhai oedd yn Ymddiffyn y lle, ie. a figlodd, figodd; ac a Adfeiliodd fwy ar Furiau yr Ddinas, nag y wnae Offerrynau a Magnelau Hyrddod y *Rhufeiniaid* yn ei hymgyrch, fe au gwnaed yn gyd waſtad ar llawr onid tri Thŵr yn unig, y rhai oedd twy prydferth na'r lleill, ſef, *Phiſelus*, *Hippicos*, *a Mariamne*, a'r Mur o du 'r Gorllewin oedd yn ſefyll, a feddyliwyd i adel yn Ymddiffynfa, ac yn Goffadwriaeth o Gryfder a gwroldeb y *Rhufeiniaid*, y rhai â orchfygafent Gadernid y cyfryw Genedl a lle, yr holl fannau eraill oedd wedi gwneud mo'r waſtad, nad oedd argoel yn y Byd wedi 'i adel i'r fawl na adwaenent y lle o'r blaen, ſod rhai yn Preſwylio 'r cyfryw fann.

Eithr tra fu 'r holl Derfyſg hwnnw ar yr Juddewon Anghredadwy, yr oedd tawelwch ym myſc y Chriſt'nogion, y rhai a Ragrybuddiwyd trwy Eiriau, ac amryw bethau Aruthrol eraill, hwy a ddiengafant mewn pryd o *Gaerſalem* i Dref fechan

chan a elwid *Pela* tu hwynt i'r *Jorddonen*, y fan a wasanaethodd eu tro megis *Zoar* feehan i'w cadw oddiwrth Ddinystr echryslon.

Ac am Weddillion yr *Juddewon*, digotaint yr Arglwydd au canlynodd hwy 'n wastadol, ni's dila y rnan twya o honynt. a'r lleill a waigarwyd trwy 'r holl Fŷd hyd y Dydd heddyw; Canys yn gynta' Trigolion *Cæsaria* a laddodd o honynt mewn un Diwrnod ugain Mil, ar rhai a ddiengodd a ddaliwyd ac a Garcharwyd gan *Florus* Rhaglaw *Judea*; I ddial llid y Lladdta honno'r *Juddewon* a ruthrodd ar y *Syriaid* ymmha Frwydr y lladdwyd Dengmil ar hugain o'r *Juddewon*, Pobl *Alexandria* a laddodd o honynt a'r Cleddyf ddengmil a deugain, Gwyr *Damascus* a laddodd o honynt ddeng Mil. *Antonius* Tywysog *Rhufeinaidd* a laddodd ddengmil yn *Ascalon*, a *Cestius* Tywysog arall a laddodd o'r *Juddewon* oddiar Bedair Ugain Mil. *Vespasian* Tâd *Titus* yngwarchau *Apbeca*, a laddodd ac a gymmerodd yn Garcharorion ddwyfil ar bymtheg a chant a deg ar hugain o Wyr. Yn *Samaria* un mil ar ddeg a chwe chant. Yn *Josapata*, deugain Mil a dau Cant. Yn *Joppa* y lladdwyd ac y toddodd eu hunain gymmaint oni hwdodd y Môr i fynu bedair Mil a dau Cant o Gyrph Meirwon, ar gweddillion a ddartu am danynt oll, fel nad oedd un o honynt wedi 'u adel i ddwyn newydd i *Gaersalem* tod y dre' wedi ei cholli.

Fe laddwyd yn Ninas *Tarichea* ac y wnaed yn Gaethweision bum mil, a Deugain heblaw y rhai a roddwyd i Frenhin *Agrippa*: Fe drengodd yn *Gamalia*, Ddeng mil a phedair ugain, heb adel un yn fyw ond Dwy Wraig; Fe laddwyd ar Gleddyf bum Mil yn *Gascala*; Fe laddwyd yn Ninas *Gadata* Ddeng mil ar hugain a Dau Cant, heblaw aneirit au boddodd eu hunain. Yr holl anghyfanedd-dra hyn a ddigwyddodd cyn dinystr *Caersalem*, ym mha un fel y dywedais i or blaen y bu feirw or Juddewon, un cant ar ddeg o Filoedd trwy Gleddyf newyn, y gwaetha o'r ddau; Ac fe gafwyd dwyfil yn feirwon mewn Geudai, a Charthleoedd budron, pa nifer nid yw debyg o fod yn Anhygoel; Canys heblaw y Rhifedi o'r blaen, y mae 'n ddiamau pan oedd *Cestius* yn Rhaglaw *Judea*, I'r Arch Offeiriad ar ei ddymuniad ef, Rifo 'r Bobl a ddaeth i Fwyta 'r Oen Pasc, ac au casodd hwy

yn

yn ddwy Fyrddiwn a Saith gan mil o Eneidiau, eu gyd mewn Jechyd gwedi 'n Glanhau. Yr holl Laddfeuydd hyn ynghyd ag amryw a adawyd allan, Ag Aneiri ai lladdodd eu hunain yn y Maesydd a Phentrefydd, y rhai a foddasant en hunain ag eraill a wnaeth am danynt eu hunain yn ddirgel, nsy'n dynn ar ddwy fyrddiwn. o bobloedd, a ddifetnwyd mewn yspaid pedair Blynedd, fe a ddechreuodd yn y ddegfed flwyddyn o Ymerodraeth Nero ac a ddiweddodd yn yr ail Flwyddyn o Ymerodraeth *Vespasian*. Y ddegfed Gaethglud ar ddiwaetha or Juddewon a ddigwyddodd yn amser yr Emerawdwr *Ælius Adrianus* ynghylch 60 mlynedd gwedi, yr hwn a Adeiladodd *Gaersalem* gan eu Symud beth tuar Gogledd. ai Galw yn ol ei Enw ei hunan *Ælius*: Efe a Adeiladodd deml yn union uwch ben Bêdd Ein Jachawdwr heb yn waetha i'r Chriftnogion â delw *Jau* a *Gwener*, ag un arall ym *Methlem* i *Adonis* ei Chariad, ac i gythraddio 'r *Juddewon*, efe a ofodod i fynu lun Mochyn ag Iuddew tan ei Draed uwch ben Pyrth Caerfalem, yn Arwydd c'u Gwarrogaeth : An hwy wedi ennyn mewn llidiawgrwydd o herwydd mawr Lygredigaeth eu Gwlâd, hwy a wrthryfelasant yn gyhoedd, gan ymgyffyllu ag un oedd yn cymmeryd fod y *Meffiah*, gan ei alw ei hunan *Barchochab* (neu *Bencozbi*) fe dybir eu bod ill dau or un feddwl, fef *Mâb y feren*, gan ddywedyd ir 'Scrythyr ragfynegu am dano, lle y dywyd. *Fe ddaw Seren allan o Jacob, &c.* Ac athraw *Akiba* oedd wr clodfawr yn y dyddiau hynny, pan welodd ef, fe ddywedodd, *Hwn yw 'r Brenhin Meffiah*; rhai a ddywedai fod y *Barchochab* yng *Haerfalem* cyn ei goresgyn, ac *Akiba* a roddodd atto ei Ei riau'r Prophwyd *Haggai*. dymuniad yr holl genhedloedd a ddaw atto ; ac nid y Bobl gyffredin yn unig, eithr y *Doctoriaid* a Phrif athrawon yr *Juddewon*, y rhai oedd yngweddill yn ol diniftriad Caerfalem a ddarfu addef a chynorthwyo eu *Meffiah* newydd gan wneud Dinas ai galw *Eitter* megis Prif Ddinas a Gorleddfaingc ei Deyrnas, gan gyhoeddi'r gau *Grift* hwnnw 'n Frenhin arnynt; *Adrian* yr Ymerawdwr a'u gwarchauodd yn y ddinas honno, ac ai cymmerodd ef mewn amfer, ac a dorrodd Ben *Bencozbi* ; Fe laddwyd yn y Rhyfel hwnnw wrth y cyfri manyla bum mila deugain or *Juddewon*, fe wnaed y fath Halog ar yr

holl

holl genedl, nad allaiont niwyach hyd y Dydd heddyw ymgynnull yn niter mawr mewn un rhann o'r Byd. *Adrian* a Drosglwyddodd y Caethweision i *Spaen*, a'r Tir Sanctaidd wedi 'i Anrheithio, gan ymadael au Phobl a ffrwythlondeb y Tir mewn mesur mawr ar unwaith: Fe wrasunwyd iddynt tyned i Gaerſalem, nag edtych arni oddiar un lle uchel; Eithr Ymerawdwyr a ddaeth ar ei ôl a gennadodd iddynt unwaith yn y flwyddyn tyned i mewn ar y degfed dydd o *Awſt*, ſef y Diwrnod y cymmerwyd y Ddinas, i Alaru o herwydd Diniſtriad y Bobl â'r Deml, gan gyttuno a'r milwyr y rhai oedd yn diſgwyl arnynt, am ryw riſedi o Arian am eu hamſer pennedol i aros yno, ac os arosent yn Hwy, yr oedd yn rhaid iddynt roi ychwaneg o Arian, ſelly ſel y dywedodd St. *Jerom*, y Sawl a Brynodd Waed Chriſt, a fu dda ganddynt brynu eu Dagrau eu hunain.

Union Farn Digoſaint ſy arferedig o geryddu a gwialenodau, yno â ffrewyllau, ac oni waſnaethu hynny 'r tro ag yſcorpionau: Yr Juddewon a deimlodd bob un o'r tair Rhâdd hyn, ac ni wnaed Bobl yn y Byd erioed yn fwy Siamplau o Ddigllonedd yr Arglwydd na'r rhain ei Ddewiſol Etifeddiaeth ei hunan, eu neilltuol Bobl y rhai a allaſent ofyn Hawl, neu Ddeheulaw cynenid ar holl Ddynolryw: Ae o'r yſtyriwn ni 'r Achoſion o'r toſturus Aflwydd, ni allwn ddal 'Sulw, Eu Balchder, Anghydfod, Yſpryd gwrthryfelgarwch a fu waeth Tynghedſen iddynt na'u Hanheddychol Elynion. Ac er eu bod hwy yn euog o amryw feiau Drygionus, etto ym wrthod ag Arglwydd y Bywyd ar gogoniant, ai groeſhoelio ef oedd yr Achoſion penna 'ou Halltudiaeth Ofnadwy; Canys ni lwyddodd dim gyda hwy yn ôl y weithred Yſgrethrin honno: A phe na bae un achos arall i gynnhyrfu 'r *Juddewon* i droedigaeth, fe ddylai or diwedd fod (y Barnedigaethau trymion y maent yn tuchan tanynt hyd y Dydd heddyw,) yn ddigon i beru iddynt gredu mai Jeſu ydyw Chriſt; etto y mae rhai o'u Dyſcawdwyr au Hathrawon ſydd wedi ymddyryſu o'r Achos, gan ddal ſulw a chrymmu eu Hyſgwyddau, ac weithiau dorri allan y Cytryw Gyſaddefiad, *Yn ddiammau na byddai i'r Trallodion maithion hyn barhau drosgynnaint o Oeſoeddondo achos Croeſ-*

hoelio

boelio un oedd fwy na Dyn. Hyn ynghyd a pherffaith gwbl gyflawniad Prophwydoliaeth ein Jachawdwr Bendigedig, ynghylch eitha dinyſtr eu dinas, y Deml a'u Cenedl, ſy ddigon i oleuo gwybodaeth pwy bynnag, oddigerth caledrwydd Calon y Genhedlaeth gyndyniog drotaus honno, ac yn ddigon iw bodloni nad oes gyfelyb i'r *Jeſu o Nazareth* na neb arall o ddynol-ryw yn Gydrâdd ac ef, neu a cill gael y cyfryw Anrhydedd, parch, Urddas neu ſwydd y *Meſſiah* wedi 'i Phriodoli iddo; ac er bod rhai Gau *Feſſiaid*, neu rai yn cymmeryd arnynt yr Urddas hwnnw, etto 'r Juddewon eu hunain a ymwrthodaſant a'n hwy, megis Hudolion neu rai yn camdwyſo 'r Bobl, ac y fuont achoſion o drueni ac aflwydd eu Cenedl, un o'r rhei'ny oedd *Theudas* a *Judas* o *Galilee*, y rhagddyweded-ig *Bencoſbi*, ac eraill ar ôl hynny; Ac yn Nheyrnaſiad *Theodoſius* yr Ail, un *Moſes* o *Crete*, a Chwaradd allan ran Gau Jachawdwr, ar Chwaryddfa 'r Bŷd, gan roddi allan mai ef oedd yr Ail *Moeſen*, a Phrophwyd yn debyg i hwnnw a ddanfonaſai *Duw* o'r Nefoedd, ac yr arweiniau ef yr holl Juddewon yn draed ſych o Ynys *Crete* trwy 'r Môr i *Baleſtine* gan hyfed oedd Addewydion y Siomwr hwn yn porthi 'r Juddewon beunydd tros Flwyddyn gyfan, fe a weithiodd cym mhelled ar lawer o hônynt, nes iddynt ymadel o'r dinaſoedd a'r Trefydd lle 'r oeddynt yn Preſwylio, a'i ddilyn ef, gan gredu y llwybreiddiai ef hwynt i dir yr Addewid, ac ar Amſer pennodol, Lliaws o Wyr, Gwragedd a Phlant a ymgaſgl odd atto ef, y rhai a ddygodd e' i ben Craig uchel oedd yn erogi uwch ben y Môr, a llawer o honynt wrth ei Orchymyn ef au bwriaſant eu hunain i lawr, rhai o honynt a ſoddodd, eraill a Achubwyd gan Byſgodwyr o Grift'nogion; y rhai au Cynghorodd hyd eitha' eu gallu i'r gwrthwyneb rhag ameanu bod mo'r ynfyd a bod yn Euog o'i Lloſtruddio eu hunain; pan gydnabu 'r Juddewon yr Hudoliaeth, hwy a ſeddyliaſant ddal y Twyllwr; eithr y gau *Foeſen*, megis gwir Gythraul, a ddiſannodd ou myſg na wybu neb i ba le; yr hyn a fu Achoſion i amryw o'r Juddewon gofleidio 'r grefydd grift'nogol, ac ymadel ar ffordd *Juddewaidd*, yr hon oedd euog o'r fath beryglon a dichellion ſiomedig a drydion.

Yn y Flwyddyn 1135 Un *Dafydd Ettoi*, neu *Dafydd*

Dafydd

Dafydd a gyhoeddodd mai ſe oedd y *Meſſiah*, ac mai *Duw* ai dantonaſai ef i waredu Iſrael ei Bobl, A Brenhin *Perſia* ai cymmerodd et, tan Lywodraeth pa un yr oedd eſ yn byw, ac yntau yn Swyngyfareddwr cyfrwys, ſe ddiangodd oi ddwylaw, efe a wnaeth bethau a enynnodd ddigoſaint y Brenhin hwnnw yn erbyn yr Juddewon. Hwythau i ragflaenu y diniſtr oedd yn dyfod am eu pennau o'i Achos eſ, a wnaethant Wlêdd fawr i'r gau Feſſiah, a hwy a dorraſant ei Ben eſ pan oedd yn Cyſgu yn ei Fedd-dod, âc ai cyflwynaſant i'r Brenhin, yr hyn ai llaryeiddiodd ac ai cymmododd a hwynt. Fe ddarllenir hefyd am un a elwid Brenhin *Tbabor*, yr hwn a fynnai gyhoeddi ei hunain mai eſ oedd y *Meſſiah*, a *Charles* y Cynta' Ymerawdwr *Germany* a barodd ei loſgi eſ; A *Maimonides* ſy 'n rhifo pedwar oraill o gau *Griſtiau* a gododd yn *Spaen* a *Ffraingc* ym myſc yr Juddewon, yr hyn a ddygodd flinder a thrafferth yn eu myſg eu hunain a'i Canlynwyr. At ba rai ſe ellir chwanegu y Siomwr mawr hwnnw yn *Smyrna* yn y Flwyddyn 1666. am ba un y mae cyfri helaeth yn niwedd y Llyfr hwn, wrth hyn i gyd y mae 'n gwirio 'n ddiwâd, nad oes un wrth liw yn y Byd na thebygolrwydd, a ellir feddwl ei fod yn *Feſſiah*, ond ein Bendigedig Arglwydd, a'n Hiachawdwr *Jeſu Griſt*.

III. *Amcan a thebygolion, pa beth y ddaeth o'r Dêg Llwyth a Gaethgludodd yr* Aſſyriaid, *ag amryw Haneſion perthynaſol i hynny.*

YN ôl gwaſgaru a ſymmudo 'r holl genedl Iddewig allan ou gwlâd eu hunain, trwy 'r Dêg Caethgludiad a grybwyllwyd am danynt, mae 'r Juddewon yn dywedyd preſennol mai o Lwyth *Benjamine*, y mae 'r holl rai ſy wedi 'u ſefydlu yr awr hon yn *Italy*, *Poland* a *Germany*, gwlad y *Twrc* a'r holl Ddwyreiniol Rannau a pharthau 'r Môr Canoldir, Llwyth *Juda* y mae'nt yn ei feddwl ſy wedi 'u Sefydlu yn *Portugal* a *Barbary*, ac yn ſiccrhau fod Miloedd o Deuluoedd o'u Hiliogaeth yno, y rhai gan mwya' a gymeran arnynt eu hunain ddynwared Chriſtnowgrwydd, cymhelled bod yn Offeiriadau Rhuſeiniaidd; ac rhag ofn Chwiliwyr y Pal-

yddion

Pabyddion hwy a ymgyſſylltant eu hunain ar Groes, ac ar achoſion a ail dderbynnant eu Cretydd eu hunain, pan ſo'nt yn cael cyfle diberygl; un o honynt a ddywedodd mai ei gydſyniad ef, oedd yn unig o'r Crawd a'r Gewynau, ac nad oedd dim o'r Galon yn perthyn i'r peth. Hwy ddiſgwyliant eu *Meſſiah* o *Bortugal*, drwy Ymddiddan ynghylch hynny yn ſiriol Wreſog, a'i ddyſgu iw Plant, ac Eſponio 'n yr Jaith honno yn eu Synagogau.

Eithr am y Dêg Llwyth a ddygwyd ymmaith yn Gaethweiſion gan *Salmanaſer* Brenhin *Aſſyria* (ym Mlwydd yn y Byd 3280 ac ynghylch 720 cyn geni ein Jachawdwr. Tu hwynt i Afon *Euphrates*, a grybwyllir 2 *Bren.* Pen. 17, Mae 'r rhan fwya o'r Juddewon yn gyffredin yn dywedyd na wyddant beth y ddaeth o honynt. Etto amryw Griſt'nogion a fanwl chwiliodd am danynt, y rhai a chwennychent i'r Genedlaeth honno droi o'u cyndynrwydd au hanghrediniaeth, ac y mae amryw Debygoliaethau i ba Wledydd y dygodd yr *Aſſyriaid* y Dêg Llwyth; Ymhlith eraill y mae Dr. *Fletcher* yr hwn oedd Brif Gennadwr tros y Frenhines *Elizabeth* gyda Ymerawdwr *Ruſſia*, ai Dŷb ef ydyw y gellid taro wrthynt ym myſg y *Tartariaid*, o ran y Gair Tartar yn Jaith y *Syriaid* ſy 'n Arwyddocau gweddillion, ac y mae ef yn rhoddi amryw Reſymmau ynghylch hynny, oddiwrth ei Gyfarchwyliad ef yno, tra fu yn aros ym mhlith y *Ruſſiaid*.

Megis yn gynta', y lle 'r Adblanwyd hwynt oedd Dinaſoedd *Media*, y rhai ſydd o amgylch y Môr *Caſpian*, Gwlâd helaeth ſy 'n awr ym meddiant y *Tartariaid*, a thrwy gydſyniad yr holl Yſtoriawyr a Scrifennodd ynghylch Brenhiniaeth yr *Aſſyriaid* a'r *Perſiaid*, eu bod hwy yn preſwylio yno er Amſer a Theyrnaſiad *Cyrus*; yr hwn ol cyrraedd y Deyrnas, a ruthrodd yn gynta' am ben y *Scythiaid*, Bugeiliaid neu Bobl *Tartary*, ynghylch dau Can Mhlynedd ar ôl hynny y dygwyd yr *Iſraeliaid* yno, y rhai oedd wedi cynyddu yr amſer hwnnw yn Bobl gadarn Ryfelgar, hwy a lwyr ymwrthodaſant a'r *Aſſyriaid*, yn y Ddegfed Flwyddyn o *Eſharhaddon* a chwedi cyd uno mewn un gyfeillach, gan lyſu Ymgymdeith. aſu â neb rhyw Bobl eraill.

2. Eu Tretydd au Dinaſoedd oedd or un fath neu 'n agos

I'r

i'r un henw ac oedd Tretydd a Dinasoedd yr Israeliaid. En Prif Ddinas yw *Samarcha* er ei bod yn ddrwg yr olwg arni ac yn Adfeiliedig, ac mae Ymdeithyddion yn datgan fod yddi amryw bethau hynod ym myſc yr Juddewon lle i Teyrnaſodd *Tamerlain* fawr yr hwn a ddygodd o Amgylch *Bajazet* Ymerawdwr y *Twrc* mewn Carchar delit Haiarn, nid oes nemawr o Wahaniaeth rhwng yr Enw hwn a *Samaria*, gorſeddfaingc Brenhinoedd *Iſrael* nag ſydd rhwng amryw Ddinaſoedd yn y Byd; mae ganddynt heſyd Fynydd *Tabor*, Dinas a elwir *Jericho*, *Corazin* ac amryw fannau eraill a grybwyllir am danynt yn yr Yſgrythur, Fe breſwylir y Dinaſoedd Tartaraidd hyn gan gymmaint ac ſy o allu iw hamddiffyn rhag gelyniaeth y *Perſiaid*, ac eraill oi hamgylch, Eithr y rhan ſwya', y rhai a elwir yn gyffredin Bugeiliaid *Scythia*; nid ânt braidd un Amſer i fewn Dinas na Thai ſefydlog oddigerth yn amſer gaia', y rhai a drigant mewn Pebyll neu Dai a ddygir ar Olwynion, megis Certweni neu Fenni. Yr rhai'n yn Amſer Hâf pan dyſo 'r gwellt yn borfeuydd, a rodiant au Diadellau Praidd, i'r gogledd a'r gogledd Ddwyrain, or Dehau Ddwyrain Duedd lle'u Canlynant trwy 'r holl Hâ' yn Fyddinoedd ynghyd, tan Lwybreiddiad Tywyſogion a Llywiawdwyr wrth Orchymyn eu Hymerawdwr mawr *Cham*. gan bori a phorfau ar hyd y ffordd nes eu myned i le eu gorphwyſa bennodol, gan ymwerſyllu eu Tai ſymmudol a gludant ar Olwynion, un ddull a Dinas fawr, ac amryw Heolydd, au perthynaſau, gan aros yno nes i'r Anifeiliaid bori 'r cwbl ou hamgylch, felly 'rant ymlaen Deithiau byrrion, nes iddynt fyned i gwrr eitha 'r gogledd, ac yno dychwelyd tu ar Dehau a thuedd y Dwyrain ffordd arall yn ôl, au Hanifeiliaid i borfeuydd newyddion heb eu profi o hyd, nes y delont yn ol drwy Deithiau eſmwythion i Fro yr Dehau Ddwyrain, i gyffiniau 'r Môr *Caſpian* cyn gaia' i Wlâd mwy Tymherus a chlaearach, lle y Preſwyliant trwy 'r holl Aia' o tu fewn iw Dineſydd neu 'n Certwyn Dai wedi eu Cyflyltu ynghyd ar ddull Tre' fawr jawn, nes i Wyneb blwyddyn eu cymmell allan i w hunrhyw Daith.

3. Y maent wedi 'u rhannu yn Amryw Fin teioedd neu Lwythau, wedi eu cyd-uno tan yr un Llywodraeth a Chym-

mundeb ymmhob peth oddigerth Priodaſau Cymmyſgedig-rhag anrheſn mewn Carrennyd oni byddai 'n rhaid gwneud hynny er mwyn ymddiffyniad a diogelwch yn Gyffredin, ſod yn Anghenrheidiol eu Cyſſyllu 'nghyd megis un Bobl. Ac ni arferodd Cenedl arall yn y Byd ond yr *Juddewon*, eu Doſparthu eu hunain yn llwythi yn ddi gymmyſgiad, yr hyn a gynhalir yn Greſyddol hyd heddyw ymyſg y Tartariaid.

4. Niter eu Llwythi yw 'r unfaint, ſef deg, dim mwy na llai na 'r *Iſraeliaid*, oddiwrth un o'r rheiny ſe debygir i'r *Tyrciaid* gael eu dechreuad.

5. Y mae Traddodiad gan y Tartariaid oddiwrth eu Henafiaid, ſod eu Hachau hwy yn Deilliaw or *Iſraeliaid*, y rhai a Adblanwyd yn ſagos i'r môr Caſpian neu 'r Hircânian; O ba Draddodiad Fe ddywedir i Tamerlain fawr ymſtroſtio i ſod ef yn Deilliaw o Lwyth Dan.

6. Er na wyddis etto beth yw Jaith y Tartariaid, o herwydd eu bod yn byw megis Pobl Anifeiliaidd, heb Gyfeillach na Maſnach â Chenedloedd eraill, na chynnwys neb i ddyfod i'w myſg; etto y mae 'r Ruſſiaid yn dwedyd ſod amryw Eiriau Arabaeg yn eu Hiaith. Ac nad oes fawr Ragoriaeth rhyngddynt ag Jaith y Tyrciaid, ac y mae amryw ymdeithyddion yn dal Sulw, ſod crynn Gyfathrach rhyngddi a Hebreaeg.

Yn ddiweddaf, mae 'r Tartariaid yn ei Henwaedu eu hunnain megis yr oedd yr *Iſraeliaid* a chenedl *Juddewon*, eithr am y Ddau Lwyth eraill ſef *Judah* a *Benjamin*, y rhai o Achos eu hynod Anffyddlondeb, au dirmyg ar Fâb Duw; a Labuddiwyd, y waſgarwyd, ag a Gaethgludwyd gan y Rhufeiniaid; Fe wyddir yn dda ddigon ym mha le y maent, a pha ſodd y maent yn byw, nid yn wahanol wrth ei Lwythi nag y chwaith eu wedi huno yn un Llywodraeth a Chymmundeb, eithr wedi ymwaſgaru 'n rhiſedi bychan, a chwedi colli 'r cwbl oddigerth yr Enw, yr hwn a gynhaliant yn ſwy er eu gwarth nau anrhydedd, a Chenedloedd yn dal Sulw arnynt, mai hwy yw 'r rhai a wrthododd Duw o herwydd eu Hanffyddlondeb.

Os ymaliw rhai megis i ſod yn beth annheilwg ac Anwêddus Rhwng Duw mawr Trugarog ai Bobl y rhai a deilyng-

odd ef eu hethol o flaen holl Genhedlaethau 'r Byd, eu dewis yn bobl iddo ei hun, oddef eu dirywio 'n *Dartariaid*, y rhai o ddal Sulw arnynt, ydynt y Genedl fwya' gwaeledd, a llygrediceaf yn yr holl Fyd. Fe ellir atteb, fod yn gythwys i hynny, y Sanctciddiaf a pherpheithrwydd Barnedigaeth i ddaroſtwng y Cyfryw Bobl ddrygionus a Gwrthryfelgar yn erbyn eu Duw ag oedd yr *Iſraeliaid*, au bwrw i lawr o'r Nefoedd ucha, i eitha' gwarth a gwradwydd.

Mae eraill yn meddwl mai Trigolion cynta' *America* oedd yr *Iſraeliaid*, y rhai a yrrodd, y Tartariaid ymaith gan eu Goreſgyn. a chwedi hynny a ymgyddiaſant trwy Ragluniaeth Duw y Tu ôl i Fynyddoedd *Cordillera*. A chan na Chaethgludwyd hwy oll ar unwaith, eithr yn Nheyrnaſiad amryw o'i Brenhinoedd, fel y clywſoch yn barod, felly hwy a waſgarwyd i amryw Daleithiau, fel, *America*, *Tartaria*, *China Media*,: Tu hwnt i'r Afon Sabothaidd, ac i *Ethiopia*; Dyma Debygoliaeth *Manaſſeh* ben *Iſrael*, yr hwn oedd Ben Diſinydd *Hebreaeg* â *Philoſophydd*, yr hwn a fu 'n ares yn *Lloegr* yn y Flwyddyn 1650, a oedd Ben Erfyniwr ar gael o'r *Iuddewon* eu cynnwys i'r Deyrnas hon, gan y rhai oedd yn Rheoli y pryd hwnnw. Fe a rôdd allan Lyfr a alwodd ef *Gobaith Iſrael*; ym mha un y mae ef yn rhoddi amryw Manegion i gryfhau 'i Debygoliaeth, yn Enwedig hwnnw o *Aaron Levi* yn y Flwyddyn 1644.

Ebr ef yr *Aaron Levi* hwn a rodd i mi 'r Hanes ganlynol; ac i amryw Wyr enwog o *Portugal* yn *Amſterdam* yr Amſer rhag-ddywededig, Ynghylch dwy Flynedd o'r blaen i fod e 'n myned oddiwrth Borth *Honda* yn *Spaen* Ogleddig *India* yn *America* i Lwybreiddio rhai Aſſynnod i Wr o'r *India* a elwyd *Caſtellan*, i Dalaith *Quity*, Ynghymdeithas *Indiaid* eraill; ym mhlith pa rai 'r oedd un a elwyd *Francis Cazicus*. Hi a ddigwyddodd yn Demeſtl fawr pan oeddym yn myned tros Fynyddoedd *Cordillera*, yr hon a daflodd yr Aſſynod llwythog i lawr, ar *Indiaid* yn achwyn o herwydd eu mawr golledion yn y Demeſtl, etto gan addef eu bod yn haeddu mwy Coſpedigaeth na hynny am eu hamryw feiau Dryglonus. *Francis* a ddymunodd arnynt fod yn Ammynedd gar ac y cae'nt dawelwch cyn pen hir; Hwy Attebaſant, gan ddweyd eu bod yn anhaeddol

anhaeddol o honò, a bod echryſlon greulondeb y *Spaniaid* tu ag attynt gwedi 'u ddanfon gan Duuw, o herwydd iddynt eu hymddwyn eu hunain yn ddrygionus tu ag at eu Bobl Sanctaidd ef, y rhai oedd gwbl ddieuog. yno hwy ymroſlant i aros ar ben y Mynydd trwy 'r Nôs, ac *Aaron Leſi* a gymmerodd Fara a Chaws a rhyw amheuthyn arall allan o Fwrch oedd ganddo ac ai rhoddodd i *Francis*, gan liwiaid iddo ſiarad mo'r Wradwyddus yn erbyn y *Spaenwyr*, yntau a attebodd na tynegaſai mo hanner y blinder a'r Trallod a ddioddefaſant oddiwrth y Geuedl greulon honno, eithr hwy a ddielid trwy gynnorthwy Pobl oedd Anghydnabyddus iddynt.

Ar ôl hynny *Aaron Leui* aeth i *Carthagena*, lle'i Carcharwyd ef tros dro, ac o'r diwedd a ollyngwyd yn rhydd; ac yntau wedi hoffi 'r Ymmadrodd a glywſai ef gan *Francis*, gan ſeddwl wrth hynny mai 'r *Hebreaid* neu 'r *Iuddewon* oedd y Bobl Ddiniwaid hynny a ſoniaſai 'r Gwr o *India* am danynt: ele a ymrodd i ddychwelyd i *Honda*, i edrych am hwnaw, a phan drawodd wrtho, ac a ofynnodd iddo a oedd ef yn cofio y peth a ddywedaſai wrtho ar y Mynydd? yntau a ddywedodd ei fod yn berffaith ddigon, Ar hynny *Aaron* ai Cyflogodd i gymmeryd Taith gydag ef, gan roddi iddo ef dri Darn o Wythau ei brynu 'i Angenrheidiau. Pan aethont allan o'r Ddinas, *Aaron* a ddefodd mai *Hebread* o Lwyth *Leſi* oedd ef, ac mai 'r Argiwydd oedd ei Dduw ef, ac nad oedd yr holl Dduwiau eraill ond ynfydrwydd, y Gwr o *India* a Ryfeddodd gan ofyn iddo Enw ei Rieni, ynteu a Attebodd mai *Abrahau*, *Iſaac*, *a Jacob*, Ebr *Francis* oes gênnych un Tâd arall; Oes ebr yntau, Henw 'Nhâd oedd *Ludovicus Montezinus* Mae 'n dda geni hynny ebr *Indian*, canys anhawdd oedd geni 'ch coelio tra fydda 'ch Rhieni yn anghydnabyddus i chwi. fe ofynodd y Gwr o *India* iddo, a oedd e' yn Fâb *Iſrael*? yntau a wiriodd ei fôd, gan ddymuno ei eglurhau ei hunan iddo 'n fwy cyflawnach,, yn ol iddynt eiſtedd i lawr a bwrw eu lludded, *Francis* a ddywedodd fel hyn.

Od oes gennych ewyllys i'm dilyn eich Blaenor, chwi a gewch wybod beth bynnag a ddymunoch, yn unig beth bynag yw 'r Daith, mae 'n rhaid el cherdded hi ar Draed, nid oes dim iw fwyta ond *Maiz* wedi graſu ac yd *India*, ac na

adewch ddim heb wneud a barwy i chwi. *Aaron* a ſodlonodd i bob peth a geiſiodd, ar ail Diwrnod oedd Ddŷdd Llun, *Francis* a baroddiddofwrw ymmaith beth bynnag oedd ganddo yn ei Yſcrepan, a rhoddi am ei draed Eſgidiau a wnaethpwyd o Edau Bynnau, a chymeryd Ffonn ai ddilyn ef, ar hynny *Aaron* a ſwriodd ymmaith ei Gochl, ei Gleddyf a phethau eraill oi amgylch, ac a gychwynaſant eu Taith. *Francis* a gymmerodd ar ei Gefn dri Meſur o Faiz a dwy Râff, un yn llawn clymmau a Fforch fachog i ddringo'r Mynyddoedd, ar llall i fyned tros Gorſydd ac Aſonydd a Bwyall fechan, ag Eſgidiau y wnaed o Edeu Bynnau. A chwedi eu harlwyo eu hunain fel hyn, hwy a deithiaſant trwy 'r Wythnos, hyd y Dydd Sabbath, a gorphwyſo arno, ar Dydd neſa' hwy aethant ymlaen, ac ynghylch 8 ar y Gloch y borau Ddydd *Mawrth* hwy ddaethant i lann Afon fawr, Ebr *Francis* yma y cewch chwi olwg ar eich Brodyr. Ac fe a wnaeth Arwydd a Lliain côch yr hwn a wiſgai yn lle Gwregys, ar hynny hwy a welent Fŵg mawr or tu arall i'r Afon, ac yn ſydyn ar ôl hynny, wedi gwneud Arwydd dracheſn megis o'r blaen, fe ddaeth tri o Wyr ag un Wraig mewn Cafn bychan tan Rwyto tu ag attynt, a phan ddaethont yn agos, y Wraig a ddaeth i'r lann, (ar Gwyr a aroſodd yn y Cafn,) ac a ſiaradodd yn hir a *Francis* Jaith nad oedd *Aaron* yn ei ddeall: yno hi a ddychwelodd i'r Cafn, ac a ddywedodd i'r trywyr beth a ddeallodd hi oddiwrth *Francis*, ar Gwyr gan ddal craft ſulw ar *Aaron* a ddaethant yn ſydyn allan or Cafn, ac ai Coſleidiaſant ef, ar Wraig a wnaeth yr un modd, wedi hynny un o honynt aeth yn ôl i'r Cafn, a *Francis* a ymgrymmodd wrth draed y Ddau Wr ar Wraig, Hwy au cymmeraſant i fynu ac ai coſleidiaſant yn garedig, gan ſiarad yn hir jawn ag ef. Yn ôl hynny *Francis* a erchodd i *Aaron* fod yn gefnog, ac na thybiai ef y doent atto dracheſn nes iddynt gyflawn wybod y pethau y rhai a draethent iddo y tro cyntaf. Yno'r Ddau Wr a ſafaſant un o bob tu i *Aaron*, ac a Draethaſant yn *Hebreaeg* y Bedwaredd Adnod o *Deuteronomi. 6. Gwrando O Iſrael, yr Arglwydd ein Duw ni, yw un Duw.* Gan chwanegu 'r peth ſy 'n canlyn, gan wneud attaliad byrr rhwng pob pwngc.

1. Ein Tadau yw *Abraham*, *Iſaac*, *Jacob* ac *Iſrael*, y pedwar hyn a arwyddocaent wrth ddal i fynu Dri Bŷs, ac yno

Reuben

Reuben wrth ddal i fynu Fŷs arall. 2. Ni a roddwn amryw leoedd i'r fawl a ddelo i fyw gyda ni. 3. *Joſeph* fy 'n Freſwyliо Ynghanol y Môr, gan wneud Arwydd â dau ou Byſedd ynghyd, ac yno eu gwahanu hwy. 4. Hwy a ddywedaſant yn yn gyflym mae 'n rhaid i rai o honom fyned ymaith i weled ag i ſangu au Draed. wrth ba Feiriau hwy amneidiaſant gan i dathru tan Traed. 5 Ni gawn ryw Ddydd Ymddiddan oll ynghyd ac a ddeuwn ymaith allan o'r Ddaiar ein Mam. 6 rhyw Gennadwr a ymmaith. 7. *Francis* a gaiff ddweyd i i chwi 'chwaneg o'r cyfryw bethau. gan wneud Arwyddion au Byſedd na ddylid Siarad Gormodedd. 8 Caniadha i ni ein ymddarparu 'n hunain, yno gan droi ou Hwynebau i bob ffordd, hwy weddient, o Dduw na hir aros. 9. Anfon ddeuddeg Gwr, ac Arwyddoccau mai Gwyr Barfog â fynnent i ddyfod attynt, y rhai y fyddau Yſgrifenyddion Celfyddgar.

Pan ddarfu 'r Ymddiddanion hyn, yr unrhyw wyr a ddychwelodd Ddŷdd *Merchet* a Dŷdd *Jau*, ac a Ail-adroddaſant yr un rhyw bethau heb ymchwanegu Gair, *Aaron* o'r diwedd oedd yn fawr ganddo na Attebent ddim o'r *Holiadau* a'ſotynai e' iddynt, na'i gynnwys ei y chwaith i fyned tros yr Afon; eſe a neidiodd i'r Cafn, a hwy ai gyrraſant allan, ac a Syfthiodd ir Dwfr lle bu agos iddo a boddi, eiſiau medru Noſio, a phan aeth e allan hwy a ymddangoſent yn ddigoſus wrtho, o achos ei Amcanion hurt, a bod yn rhyfanwl i wybod mwy o bethau nag oeddynt hwy 'n eu heglurhau iddo. yr hyn a ddangoſſaſant trwy Arwyddon a Geiriau, fel y Deongiodd. *Francis* hwy i *Aaron*, Pan ymadawodd y pedwar hynny fe ddaeth yn ôl bedwar ychwaneg yn yr un Cafn y rhai a ail Adroddodd air yngair y rhagddywedig naw peth; heb chwanegu un Gair, ac yn y Tri Diwrnod y buant yno, fe ddaeth ynghylch trichant yno ac a ddychwelaſant yn ôl Drachefn. Y Gwyr hynny oedd wedi lloſgi peth gan yr Hauſ, rhai au Gwallt yn crogi i lawr hyd at eu Gliniau, eraill yn gwttoctach, a Chyrph hardd, yn drwſiadus or amgylch eu Traed au Coefau a math ar Liain wedi rwymo o amgylch eu Pennau.

Pan amcanodd *Aaron* ymadel brydnhawn Ddŷdd *Jau* hwy fuant dra Charedig, gan Arlwyo a rhoddi iddo eſ Lob Angenrheidiau i Ddychwelyd yn ol i'w Taith drachefn; gan ddwyn

ar ddeall iddynt, fod, ganddynt ddigon o Fwyd, Dillad, Aniteilliaid, a phob peth Angenrheidiol. Yn ôl cymmeryd ei cennad ar Dieithriaid Creſowgar nyuny, *Aaron* a *Francis* a ddaethant i'r Ile y Gorphwyſaſant y noſwaith o flaen eu mynedad at yr Alon; Yr ydych chwi yn coſio *Francis* ebr *Aaron*, i'm Brodyr ddweyd i mi, y Dadguddiech i mi ryw beth, Gan hynny mi a ddymunat arnoch fod cyn fwyned ar Adrodd i mi Fôr *Francis* mi a ddywedat i chwi 'r Gwir am y wypwy, fel ac y Derbyniais inau ef gan ty Hên Dadau, Gan hynny gwrandewch beth fydd genni' iw ddweyd.

Dy Frodyr yw Meibion *Iſrael*, y rhai a ddygwyd yma trwy Raglunaeth Duw, ac y wnaeth lawer o Wyrthiau er eu mwyn, a braidd y gellwch gredu y cyrri a getais i oddiwrth fy Nheidiau, nyni 'r *Indiaid* a Rytelaſom a'n hwy, ac au trinaſom yn fwy cledd nag y mae 'r *Spaeniad* yn ein Teimlo ninau 'r Awrhon, a thrwy Annogaeth Dewiniaid y rhai a alwn ni *Mohanes*, ni aethom mewn Arfau i'r lle y gweiſoch eich Brodyr ar hyder eu Digalonni hwy, ond ni ddaeth un o'r rhei'ny yn ôl drachefn; Gan hynny ni a gynnullaſom Lu mawr, ac a oſodaſom arnynt yr Ail waith, either yn ddilwydd ac ni ddiangodd un, a'r trydydd tro a ddigwyddodd yr un môdd felly 'r *India* oedd agos wedi'i Difuddio oi holl Drigolion, oddigerth Hên Wyr a Gwragedd, gan hynny 'r Hên Wyr a'r gweddillion oedd yn fyw, a fyddyliodd fod y Dewiniaid yn gwneud twyll trwy ymddiried iddynt, ymroeſant ac a gyttunaſant ar eu llwyr Ddifetha, a lladdwyd llaweroedd o honynt, y lleill a Addawſant ddadguddio iddynt ryw beth na's gwyddent ddim oddiwrtho; ar hynny yr hen wyr a attaliodd eu Dwylo o lâdd y Dewiniaid a Adroddaſant fel y canlyn.

Mai 'r Gwir Dduw yw Duw meibion *Iſrael*, y rhai a fuoch chwi Achoſion o'u Diſtrywiad. Mai Gwir yw cwbl fy wedi Argraphu ar eu Llechau hwy, ac y byddant hwy yng-hylch diwedd y Byd yn Arglwyddi ar yr holl Ddaiar, fod rhai a ddygai iddynt leſhad mawr, ac yn ôl cyfoethogi 'r Ddaiar â phethau Rhagorol, Plant *Iſrael* ant allan ou Gwlâd, hwy ddygant yr holl Genhedloedd tanynt, fel ag y gorchfygodd eu Henafiaid eu gelynion, a dedwydd yw 'r fawl a allo ammodi a hwy.

Felly

Felly Pump o Benaethiaid yr *Indiaid* y rhai a elwid *Cazici*, ar rhai oedd fy Henafiaid i, [pan ddeallafant Brophwydoliaeth y Dewiniaid, yr hyn a ddyfcafent hwy gan Ddoethion yr *Hebreaid*,)a aethant yno, ac yn ôl hir ymbil y gawfant eu Dymuniad, wedi gwneud yn gynta' e'u bwriad yn gydnabyddus i'r Wraig a welfoch chwi yn deongli s mi, Canys ni fynn eich Brodyr chwi ddim cydfafnach ar Indiaid, ac os a neb o honom ni drofodd i'w Gwlâd hwy, hwy au lladdant yn ebrwydd, ni ddaw neb o honynt hwythau trofodd attôm ninnau. Yn awr trwy Gynnorthwy 'r Wraig honno, nyni a gyttunafom a hwynt.

1. Fod ein pum *Cazics* ni fyned attynt heb neb ond eu hunain unwaith ym mhen pob Deng Mis a thriugain.

2. I bwy bynnag y Dadcuddid y dirgelion, fod yn rhaid i hwnnw fod tros Oedran tri Chan Lleuad neu Fifoedd, yr hyn fydd ynghylch 30 Oed.

3. Na Ddadguddient ddim ond o flaen *Cazicus* yn unig, ac yn y Diffaethwch, y Birgelwch hwnnw meddai e' a gadwent yn eu plith eu hunain, gan obeithio dderbyn Caredigrwydd mawr, oddiwrthynt, a thaledigaeth am dyrne da a wnaethant i lawer o'i Pobl, eithr nid yw Gyfreithlon i ni ymwneled a'u hwy hyd ôl deng Mis a thriugain, oddigerth i ryw beth newydd a dieithr jawn ddigwydd. Yr hyn a ddigwyddodd Dair gwaith yn fy amfer i.

Yn Gynta' pan ddaeth y *Spaeniaid* i'w Tîr hwy.

Yn Ail, Pan ganfyddwyd rhai Llongau ym Môr y Dehau, ac yn Ddiwaethaf, Eich Dyfodiad chwi, yr hyn a bir Ddifgwyliafon am dano.

Y maent yn llawenychu 'n fawr o herwydd y tri Phethau newyddion hyn, o herwydd hwy a ddywedant od hynny yn gyflawniad o amryw Brophwydoliaethau, ac felly diweddodd Ymadrodd y Gŵr o'r *Indie*.

Aaron Lefi a ddywedodd hefyd i *Francis* ddanfon tri erail, o'r *Cazics* atto ef i *Honda*, y rhai a'i Cofleidiodd ef yn Grefowgar, ond ni's addefent eu Henwau; Eithr hwy a olynafant i *Aaron* o ba Genedl yr oedd ef yn Deilliaw? Yntau a attebodd mai *Hebread* o Lwyth *Lefi*, ar Duw hwnnw fef Duw Ifrael oedd ei Dduw ef: Ar hynny ai Cofleidiafant ef drachefn

gan ddywedyd, fe ddaw amſer y ceweh ein gwaled a'n cydnabod; Ni oll ydym eich Brodyr trwy Ragluniaeth Duw? yno canaſant yn Jâch iddo gan ymadel, a dweyd eu bod yn myned ynghylch eu Gorchwylion; a *Francis* a adawyd ar ol, yntau yn ôl eyfarch gwell i *Aaron* a gymmerodd ei gennad, gan ddywedyd, ffarwel fy Mrawd, mae geni bethau eraill iw gwneud, mi âf i ymweled am Brodyr, ac eraill o'r *Hebreaid Cazici*, y rhai ſy'n ddiogel yn y Wlâd hon, canys ni a reolwn yr holl *India*, a phan ddibenom ni ein gwaith ar *Spaenwyr* drygionus, nyni a'ch rhyddhawn chwi o'ch Caethiwaid trwy Gynnorthwy Duw; Heb ammau na bydd i'r Duw geirwir i'n Cymmorth ni yn ôl ei Air ai Addewyd.

Yr *Aaron Lefi* hwn medd *Manaſſeh Ben Iſrael*, yr hwn a rodd yr Hanes o'r blaen, oedd *Juddew* o'r un Dreſn ag ef, fe a Anwyd yn *Villefleur* ym *Mhortugal* o Rieni cywir, ei Oedran oedd ynghylch deugain, gwr geirwir diryſtygus, ac e haeddau gael ei gredu o flaen amryw eraill: Ete a aeth i'r *India* ac a gymmerwyd i fynu yno gan y chwiliwr neu 'r *Inquiſition* o herwydd i ddyfod yn lle neu 'n Etifedd i Juddew ym *Mhortugal*. Yr hwn y gwnaeth *Don Manuel* y Brenhin, ac fe orfu arno o'i anfodd heb na Chyfraith na Chreiydd droi yn griſtion, etto ete a ddilyn *Grefydd* yr *Juddewon* yn ddirgel, a phan ollyngwyd e 'n rhydd o'i Drallod, fe a chwiliodd allan yn ddyfal y pethau hyn, Ac ni bu ef Ilmwyth nes dyfod i *Amſterdam*, i fynegu i ni yr Newyddion da hyn, Mi ſum yn gydnabyddus ac ef ſy hunan dros chwe Mîſtra ſu ef yn Preſwylio yno, Ac ymbell waith mi wnaethym iddo gymmeryd ei Lŵ o'r peth o flaen gwyr goneſt, tod y peth a ddywedaſai 'n wir, Ac ete a gymmerodd yr unrhyw Lŵ, a Flynedd ar ôl hynny ar ei glâf Welŷ.

Y mae 'r un Awdr yn rhoddi allan amryw Haneſion eraill i broſi ei Debygoliaeth mai 'r Juddewon a ſu yn gwladychu yn gynta' yn *America*, wedi eu gyrru ymaith drwy gynddaredd eu gelynion.

Eſdras ſy 'n dywedyd am y Dêg Llwyth a Gaethgludodd *Salamanſer*, (yn Nheyrnaſſad y Brenhin *Hoſhea*) tu hwynt *Euphrates*, feddwl myned i Wledydd anghyſbell, lle na bydd ai neb yn byw. Lle y gallent hwy Yſtyriaid eu Cyfraith yn well

well, ac fel yr oedd yn myned tros ryw Goingcian o'r Afon *Euphrates*, Duw trwy ei wrthiau a attaliodd ffrŵd y Llif hyd onid aethant trofodd, wrth hynny mae 'n debyg eu myned i Feddiannu dwy Deyrnas, fef *Spaen* newydd a *Pheru* y rhai oedd yn ddi Drigolion yr Amſer hwnnw, a hwy a allent fyned yno trwy *Tartary* a *Greenland*, a trwy gyfyngfôr *Darian* neu *Arrian* i *America*, nid yw hi bafio deg Miltir a deugain o ffordd. A *La. Vega*, Awdwr Enwog o *Spaen* fy 'n 'Scrifennu fod yn *Collai* Talaith Ardderchog yn y Gorllewinol *India*, yn agos i Lynn a elwir *Chuta*, ym myſg hên bethau hynodol ac Adeiladoedd mawrion, fod yno iwweled Adeilad tawrwych urddafol, fy a Llys o bymthog Gwrl yd o lêd, a Mûr yn ei hamgylchu ddwy *Ffurlong* neu 'r bedwaredd ran i Filltir o uchder; Mae Yſtafell o'r naill du iddi fy 'n bum Troedfedd a deugain o hyd, ac yn ddwy ar hugain o lêd, a bod y Llys, y Mur, y Llechlawr, yr Yſtafell, y Nenn, y Cyntedd, Pilerau dau Borth yr Yſtafell, ar Mynediad i mewn, wedi wneuthur i gyd o un Garreg yn unig; y mae tri yſtlys y Mûr o gyfelin o drŵch, Yr *Indiaid* a ddywaid, gyſſegru 'r Ty hwnnw i Wneuthurwr y Byd, ac a fernir ei Adeiladu ef yn Synagog gan yr *Iſraeliaid*, o herwydd na wyddai 'r *Indiaid* ddim oddi-wrth Hacarn, a'r hwn y Cyſſylltir yr Adail ynghyd, Rhai eraill o'r *Indiaid*, pan oſynnir iddynt ynghylch hynny, a ddywedant iddynt glywed gan eu Teidiau, Adeiladu 'r Ty hwnnw gan Bobl Wynion a Barfau ar eu Hwynebau megis yr *Yſpaeniaid* a faſai 'n byw yno yn hîr o flaen i'r *Indiaid* ddyfod i Breſwylio yno, ac a drigaſent yno dro ar ôl hynny, nes eu hymlid hwy ym mhellach i'r *Gogledd*, i'r Byd newydd.

Y mae 'r *Indiaid* yn dal amryw Ddefodau 'r *Hebreaid*, a dybir iddynt eu dyſgu gan yr *Iſraeliaid*, canys hwy a enwaedant ar eu Plant mewn amryw fannau, Hwy rwygant eu Dillad o achos rhyw fydyn Aflwyddiant, neu neb rhyw Farwolaeth; Hwy loſgant Dân yn gyfan gyfannedd ar eu Halloraau a gyſſegrwyd i'r Haul, gan waraſyn i Wragedd fyned i mewn nes ei glanhau, Hwy a gynhaliant *Jubilee* ym *Monico* bob Deng Mlynedd a deugain, Prif Ddinas *Peru*, yngbyd a Gorfoledd mawr, mae pawb yn rhwymedig ar y Seithfed Dydd, neu 'r Dydd Sabbath, i fod yn breſennol yn y Deml,

eu

eu Offrymmu eu Haberthau defodawl; Hwy a yſgarir oddiwrth eu gwragedd ar achoſion aniweirdeb, ac a Briodant Wragedd gweddwon eu Brodyr a fo feirw, Mae ganddynt hefyd ryw Wybodaeth o greadigaeth y Byd, a'r dwfr diluw, yr holl bethau hyn ſy 'n daugos i'r Cenhedloedd hynny Ddyfgu 'r Defodau hyn oddiwrth yr *Iuddewon* a fu yno yn byw gynt.

Ym mhellach y mae'r *Indiaid* yn Wineuon, ac heb Farfau eithr fe gafwyd rhai Pobl wynion a Barfau ar eu hwynebau yn y Byd newydd, y rhai na fu ddim Maſnach rhyngddynt erioed ar *Spaeniaid*. Yr Ymerawdwr *Charles* y pummed a ddanfonodd *Philippus Utro*, i chwilio allan y Parthau gogleddig o *America*, ac i blannu 'r 'Spaeniaid yno, a chwedi cael gwybodaeth gan eu Cymmydogion o fawredd y Bobl hŷnny oedd yn Preiwylio yno; eu Synwyr au Rhyfeloedd, fe a ymrodd i'w goreſcyn.

Yn ôl iddo Ymdeithio Cantoedd o Filltiroedd, o'r diwedd fe ddaeth yn agos at Ddinas gyfoethog yn llawn o Drigolion, ac Adeiladaeth dêg, fe a ganfu yn o hirbell ddau o Wyr yn llaturio 'r Ddaiar, y rhai a feddyliodd y Milwyr eu cymmeryd yn garcharorion, fel y gallent ddangos y ffordd iddynt i'r Ddinas; y Ddau Wr a redaſant yn gyflym, tua 'r Ddinas; *Philip Utro* au Wyr Meirch a'u Herlidiaſant yn galed a phan oeddynt yn barod iw cymmeryd, ar hynny y Ddau wr a drôdd attynt, ac au gwayw-ffyn a archollaſant *Philip* yn ei frwyſged trwy eu Ddwyfronneg Wlân a wnaethyd i attal Saethau; Fe a ryſeddodd eu gweled mo'r hylaw, gan farnu nai gwell oedd iddo roi heibio, a pheidio a myned ddim pellach i'r Dalaith honno, yn erbyn Cenedl mo'r geltydde ar mewn Rhyfel, y rhai a feiddient yn unig a gwayw ffyn wrthſefyll gwyr Arfog; Ac ar y Diwrnod fe a ddychwelodd yr un ffordd ac y daethau; Ac ni feiddiodd neb fyned at y Bobl hynny hyd y dydd heddyw, na gwybod y chwaith pa ffordd ſ fynd yno.

Drachefn un *Pizarro* yr hwn oedd un o Gapteiniaid y *Spaniaid* wedi cilio oddiwrthynt a aeth i chwilio allan Wledydd Newydd yr *India*, y rhai ſy 'n byw yn y Gogledd Ddwyrain, niter pa rai ni wybuwyd erioed, O herwydd mai 'r Gair fod y Wlad yn cyrrhaedd tros Ddwyfil o Filltiroedd o hyd. Captain

tain arall a elwyd *Peter Oſua* aeth a rhyw Rifedi o Filwyr gydag ef mewn *Canoes* neu Gafnau i fynu ar hyd rhyw Afon fawr, o'r diwedd daethant gyferbyn a Gwaſtadedd helaeth, lle 'r oedd amryw dai wedi 'u Hadeiladu gan yr *Indiaid*, ar lann yr Afon, Hwy aethant ymlaen tros Wythawr a deugain yng-hyd, lle 'u gwelſont lawer o Dai gwynion ac uche, y rhai hwy ofnent fyned i mewn iddynt o herwydda mled y Trigolion, a hwy glywent ſôn Morthylion megis Gofaint Aur, Yr *Indiaid* a ddywed fod y Trigolion yn dal, ac yn deg yr olwg arnynt, a Barfau mawrion, ac yn Rhyfelwyr Nerthol megis y *Spaeniaid*.

Wyth eraill o'r *Spaeniaid* a ymdeithiaſant naw Mls, i Ogledd-Orllewinol barthau *America*, hwy y ddaethantat Fynydd, a thrwy lwyr boen ac enbydrwydd hwy aethant ıw ben, o ba fann hwy a ganfyddent Waſtadedd yn Amgylch Afon hyfryd, Ar lann pa un yr oedd Pobl wynion yn gwladychu, a Barfau iddynt; Ac yn Nheyrnaſiad y diweddar *Philip* y Trydydd Frenhin *Spaen*, fe ddanfonwyd pum Llong o *Panama* i chwilio allan Diroed na adwaenwyd yn *America*. Braidd yr aeth y Cadpen i Fôr y Deheu, nes iddo ef daro wrth Dîr, yr hwn a alwodd e' Ynyſoedd *Solomon* a Chaerſalem.

Yn Nhreſn ei Fordwyad fe ddaliodd yn agos i Dir yr Ynyſoedd, lle y gwelai y Brodorion neu Drigolion y Wlad, y rhai oedd Bobl Wineuon, efe a gymmerodd lawer o honynt; eraill oedd yn trigo mewn Ynyſoedd oedd ſwy a ſtrwythlonach, y rhai oedd Wyr gwynnion, ac yn gwiſgo Dillad llaeſion o Sidan: Y Pen Llongwr a ddygodd un o'r Llongau yn rhy agos i'r Lann, yr hon a ddrylliodd ar graig. A Phobl yr Ynys yn rhedeg yn ſtrawychus i weled hynny. Y Cadpen a ymadawodd ar Ynys, ac aeth ymmhellach i chwilio am Dir Cyfaneddol; A chwedi Mordwyo ynghylch tri Chan Milltir yngolwg y Lann, fe a gydnabu wrth y Mŵg ſod Trigolion yno, gan hynny efe a aeth i mewn i Borthlâdd, lle daeth amryw Wyr gwynion, Wallt felynion at Yſtlyſau 'r Llongau, y rhai oedd cyſuwch a Chowri, mewn gwiſgoedd gwychion, a Barfau hirion. Un arall o'i Longau ef a ddrylliodd yn yr Aber, O'r achos fe orfu arno droi yn ôl i'r Môr. Ar hynny gwyr y Wlad a ddanfonodd atto ddau ou Penaethiaid, y rhai oedd Wineu-

ddu

ddu megis y rhei'ny o'r Ynys gynta, aca ddaethont a Defaid a ffrwythydd ac Ymborth iddynt, y rhai a roddasant iddynt yn rhâd ac yn rhwydd, gan orchymmyn iddynt ymadel yn ddi-meiriach au tuedd hwynt tan boen bywyd. Y Cadpen a gymmerodd y ddau Bennaeth hynny gydag ef i *Spaen*, etto ni-allent gael gwybodaeth yn y Byd ganddynt, ond trwy Arwyddion, ac yn lle rhoddi Atreb (pan ofynid iddynt) hwy a ddangosent eu Barfau, megis tod yr Arglwyddi au danfonasai yn gyfryw Wyr. ac os gofynnid iddynt ddim ynghylch Crefydd, hwy a dderchasent eu Byledd tu a'r Nêf, gan arwyddoccau nad oeddynt yn Addoli ond un Duw. Hwy fuant feirw yn *Spaen* cyn pen hir, acfell y y bu 'r Cadpen; Yr hwn trwy Orchymmyn y Brenhin oedd yn bwriadu mynêd yno 'r Ail waith a Llu mawr, i ddaroftwng y Genedl Alluog honno.

Yn Ddiweddaf, Llongwr o *Ddwits* a hwyliodd yn ddiwed lar yn agos i'r Wlâd honno, ac aeth i fewn Porthladd mewn Afon dêg, lle y trawodd ef wrth *Indiaid* y rhai oedd yn deall *Hifpaeneg*, fe a brynnodd ganddynt Ymborth a Choed Llwyddion, y rhai ai Llwybreiddiodd ef i Hwylio i lynu 'r Afon fawr, yr hyn y wnaeth ef tros Yfpaid Dau Fis, ym mha le efe a darrawodd wrth Wyr gwynion a Bartau iddynt, mewn Gwifgoedd gwychion, y rhai oedd yn llawn o Aur ac Arian, ac amryw Feini Gwerthfawr, y rhai ni buafai Fafnach rhyngddynt ar *Spaeniaid*, wrth y cytri hwn fe debygid mai *Ifraeliaid* oeddynt, a rhai o'r *Juddewon* oeddynt yn bwriadu ei ddanfon ef yno dracheſn i'r un lle, i ymofyn ychwaneg ynghylch y peth, eithr ei Farwolaeth ef yr hyn a ddigwyddodd yn fydyn ar ôl hynny; a ataliodd Ddadguddiad y Wlad rhagllaw.

Trwy 'r yfpyfiad rhagflaenol, mae 'r Athraw *Manaſſeh* yn ymegnio i wneud allan Debygolrwydd fod rhann o'r Dêg Llwyth wedi 'u fefydlu yn *America*; Dyma fyw faint ychwaneg tu ag at gadarnhau 'r Debygoliaeth; allan o'r Hanes a roddodd Mr. *William Penn*, ynghylch Trigolion *Penſylvania*, yr hon yw Rhann o *America*, a Breiwylir yn Ddiweddar gan Saefon a Chymru tan ei Lywodraeth ef.

Yr wy 'n credu (medd ef) fod eu dechreuad o Genedl yr Juddewon

Juddewon, a Miliogaeth y dêg Llwyth. canys.

Yn gynta' yr oeddynt i fyned i Wlâd ddiblaniad, ac Anghydnabyddus, yn ddiammau fod *Asia* ac *Affrica* yn gydnabyddus onid oedd *Europ* hefyd; ai amcanion ef yn y Farnedigaeth anfeidrol hono arnynt, f' alle wneud eu mynediad yn haws iddynt o Ddwyrain Barchoedd *Asia* i *Orllewin America*.

Yn Ail; Y mae'nt o'r cyfryw wêdd neu Wynebpryd, a'u Plant mo'r fywiol yr olwg arnynt, fel y tebygai Wr ei hunan yn Nhŷ Dug yn *Llundain*, p'le bynnag y mae 'r Juddewon yn trigo.

Yn Drydydd, y mae'nt yn Cyttuno yn eu Cyneddfau au Ceremoniau, y mae'nt yn bwrw eu cyfri wrth Nifer y Lleuadau, Offrymmant eu Blaen ffrwyth, Hwy gadwent fath ar Wyl y Pobill, Fe ddwedir eu bod yn Adeilaou eu Hallorau a Deuddeg Carreg, ar ba rai yr Offrymmant y Carw tewa a fo ganddynt, Hwy alarant ar ôl y Marw, fliwyddyn, eu harferion ynghylch Gwragedd ag amryw bethau eraill, fy 'n gyttunol jawn ar Gyfraith Juddewaidd. Mae 'n dywedyd hefyd fod eu Hiaith yn uchel jawn, ac yn debyg i'r *Hebreaeg*, eu bod hwy yn credu fod Duw ag Anfarwol'eb yr Enaid, Canys dywedant mai Brenhin mawr au gwnaeth hwynt, ai fod ef yn Preſwylio mewn Gwlâd Ogoneddus ar duedd y Dehau oddiwrthynt, ac y caiff Eneidiau 'r Cyfiawn fyned yno, lle'u bydd ant byw drachefn.

Ym mhellach *Manaſſeh Ben Iſrael* fy 'n dwedyd, gan oreſgyn y Dêg Llwyth cyn fynyched, ni allwn feddwl eu dwyn hwy i amryw Barthoedd o'r Bŷd, megis y credau e' fyned rhai o *Greenland* i'r *Gorllewin India*, trwy Rŷd *Annian*, felly i eraill fyned i *Tartary* yn *China*, wrth y Mûr enwog fy Nghyffiniau 'r Ddwy wlâd, mae un Rheſwm wedi gymmeryd allan o Hanes Dau Offeiriad Pabaidd y rhai a godafant i fynu Golegau yn y Wlâd honno, y rhai a Draethafant iddynt daro wrth yr Juddewon a ddaeth gynt i'r Gwledydd hynny. A rhyw Juddew a ddaeth at un o'r ddau Offeiriald a elwyd Dr. *P. Riccius* ym *Pequin*, a chwedi darllen mewn Llyfr a 'Scrifennafai rhyw Ddoctor o *Chinea* mai nad *Tyrciaid* oedd yr Offeiriaid Pabaidd, ac na adwaenent hwy neb rhyw Dduw, ond Arglwydd Dduw 'r Nêf oedd ar Ddaiar, Fe fynai ei ber-

ſwadio efei fod yn Addef ac yn proffeſu Cyfraith *Moeſen*; gan fyned i'r Eglwys Babaidd, fe ganfu Ddelw *Mair* Forwyn, a'r Plentyn yn ei Breichiau, a St *Joan Fedyddiwr*, yn ei Addoli; Ar hynny yr Juddew a feddyliodd mai Delw *Rachel* a'i Dau Feibion *Jacob* ac *Eſau* oedd hi; Ffe hefyd a ymgrymmodd i'r Ddelw, gyda'r Eſgus hwn, er nad oedd ef Addoli dim Delwau, etto ni fedrai ef lai nag Anrhydeddu y rhai a fuaſai gynt Hên Deidiau 'r Genedl Juddewig, a chan weled y pedwar Efangylwr wedi 'u Darlunio o ddeutu 'r Aſor, fe ofynnodd ai pedwar o Feibion *Jacob* oedd y rhei'ny. Fe ddeallodd *P. Riccius* wrtho ef, fod Dêg neu ddeuddeg Teulu o'r Iſraeliaid yn *Penquin*, lle y darfu iddynt Adeiladu Synagog dêg, ym mha un hwy au Teidiau o'i blaen a gadwaſant bum Llyfr *Moeſen* yn dra pharchedig tros y chwe chan mhlynedd aeth heibio. Yr oedd e yn Sicrhau hefyd fod mewn Talaith arall o *China* a elwir *Chequin* Riſedi mawr o'r *Juddewon* a Synagog ganddynt, y rhai na wyddai ddim oddiwrth Ddyfodiad a Dioddefaint ein Hargiwydd Jeſu Grift, gan hynny fe dybir mai rhai o'r Dêg Llwyth ydynt, y rhai fy 'n cynnal amryw o Ddefodau 'r Juddewon.

Mae iw weled yn Haneſion *Perſia*, yn Nheyrnaſiad yr Ymerawdwr *Zeno*. I *Firuz* Ryfela ddwy waith yn erbyn Llwyth *Nephthali*, ym mha un yr Anrheithiwyd ef o'r diwedd, wedi yned i le Anghydnabyddus mewn rhyw fann cyfyng. heb wybod pa ffordd i'w ddad ddyryſu ei hunan o'r fann; efe a derbyniodd Heddweh, ar Ammodau iddo ef dyngu, na chynnygiai ef fyth rhagllaw ddim cynddrygen yn erbyn, a bod iddo ef Ymddaroſtwng i Ortodogaeth a Rheolaeth *Naphthali*, tan Arwydd Uſudd dod neu Warrogaeth; Fe ortu ar Ben Llywydd y *Perſiaid* i ymddaroſtwng ei hunain tan yr Ammodau hynny, Eithr trwy Gyngor y Dewiniaid, ete a gyflawnodd ei Ymddaroſtyngiad yn gyfrwys, Canys efe a ymgrymmodd tu ar Haul Ddwyreiniol, yr hwn y mae 'r *Perſiaid* yn ei Addoli, fel y gallai ei Bobl ei hunan feddwl i fod e' yn gwneuthur hynny mewn ffordd o Addoliad, Ac nid er Anrhydedd i'w Elyn, ac ni ddarfu iddo gyflawni y rhann arall o'r Cyttundeb er eu ſicrhau trwy Lythyrau Awdurdodawl, eithr heb fod yn fodlongar or Gwradwydd o Ymgrymmu i'w Elyn, efe a gya-

gynnullodd Fyddin o Newydd, ac a aeth yn eu herbyn yr ail waith, eithr y tro hwnnw hefyd fe taglwyd trwy ddyryſni 'r Wlâd, ac efe ynghyd ac amryw eraill a gollaſant eu Bywyd mewn Llyngclynn a ddarfaſai yw Elynion, y *Napbthaliaid* i ddarparu ar ei ffordd ef, wedi ei Orchguddio a Chorſenau a Thywyrch ar ei Wyneb. Ar Ammodau o Heddwch oedd wedi grogi ar flaen Gwaywffon gyferbyn ag ef. Fel y gallai 'r Tywyſog antfyddlon ei weled, ac wrth hynny gofio am ei Lŵ, ac Edifarhau a throi heibio oddiwrth y cyfryw Orchwyl ffromwyllt, eithr ac efe yn llwyr ddiyſtyru ei Lŵ, fe aeth ym mlaen mo'r Danbaid, nes iddo ef ar rhann fwya o'i Fyddin, o'r diwedd ſyrthio i'r ffôs Ddwfn, o ba le nid oedd le i gael ymwared. Pan gydnabu wrth y Cwymp diſymmwth hwnnw, ſod yn darfod am dano, efe a dynnodd o'i Gluſt ddehau Beri Gwynn mawr jawn, ac ai taflodd ym mhell oddiwrtho, naill ai i rwyſtro Adnabod ei Gorph ef, neu i attal neb ar ei ôl ef ſod yn berchennog o'r cyfryw Dlŵs Gwerthfawr. Mae 'r Awdwr yn ſicrhau mai Juddewon oedd y rhain, a Gweddillion Llwyth *Napbthali*, y rhai a ddygodd *Tiglab Pileſar* yr *Aſſyriaid* i'r lleoedd hynny. 2. Bren. 15. 29. Eu hwynebpryd ſydd Wynn eu Llywodraeth; Moeſau, au hamryw amgylchiadau eraill ſy 'n gwirio 'r peth.

Ortelius y *Geographer* mawr, ſy 'n 'Scrifennu, ſod yngwlâd *Tabor* yr hon ſy ar Gyffiniau *Perſia*, y Bobl yn byw, er iddynt golli eu Sanctaidd 'Scrifennadau, etto yn ufuddhau un Brenhin, Brawd pa un a elwyd *Dafydd* y *Rheubiaid*, a ddaeth i *Portugal* yn y Flwyddyn 1530. Yr hwn a gâdd Olwg ar yr *India* yn ei Daith, yr hwn a wrthdrôdd Gytrinachwr y Brenhin i'r Greſydd Juddewaidd; ac a ddiengodd o *Liſbon* gydag ef ai alw ei hunân *Selomab*, *Mo*, *bo*; Ac mewn ychydig amſer ſ' aeth mo'r Golſyddgar yn y Gyfraith Juddewaidd, *i. e.* Yn yr holl *Gabala*. ſef eu Dirgelwch gyfrinachol, hyd onid oedd holl *Italy* yn ei ryfeddu Y Cyfrinachwr gyda'r *Rheubiaid*, a ymegniaſant i dynnu 'r Pâp *Charles* y V. Ymerawdwr *Germania*, a *Francis* y Gynta' o *Ffraingc*, i'r Greſydd Juddewaidd, *Mo*, *bo*, a gymmerwyd ym *Mantua*, a loſgwyd yn fyw yn 1540 Ffto ſe gynnygiwyd ei fywyd os troe ef drachefn yn Griſtion. Y *Rheubiad* a ddygwyd yn Garcharor gan *Charles* y

Pum-

Pummed i'*Spaen*. Lle y bu ef Farw cyn pen hir. Y Dafydd hwnnw oedd yn haeru 'n Wastadol, fod Dau o Lwythi 'r Israeliaid yno, a Llwythi eraill ychydig ymmhellach, tan eu Brenhinoedd au Tywysogion eu hunain, au bod hwy yn Bobl o Nifer Anfeidrol. Nid hwyrach mai 'r un Dalaith ydyw, *Tabor* ar *Habor*, a sonir am deni yn yr 2. Bren. 17. lle y dywedir fod y Dêg Llwyth wedi 'u dwyn gan *Salmanasser* i *Habor* a *Hala*.

Y mae hefyd rann o'r Dêg Llwyth yn byw yn *Ethiopa* yn Nheyrnas yr *Abyssiniaid* megis y Traethodd llawer o'r Wlâd honno yn *Rhufain*. a *Boterus* sy 'n mynegu fod Dwy Genedl Alluog yn trigo yn agos i flaen yr Afon *Nilus* un o'r rhei'ny ynt Israeliaid, y rhai sy dan Lywodraeth Brenhin Nerthol. Oddiwrth ba rai y tybir ir *Abyssiniaid* ddysgu 'u Henwaedu eu hunain, Cadw 'r Sabbath, a Chyneddfau Juddewig eraill, Ac yn ddiammau mêdd fy Awdwr, y mae'nt yn Preswylio ym *Media*, Canys *Josephus* sy 'n 'Scrifennu fod holl *Israel* yn Preswylio ym *Media*, Ac mai Dau Lwyth yn unig au sefydlodd eu hunain yn *Asia* ac *Europ*, ac yn Ddeiliaid i'r *Rhufeiniaid*, ar dêg eraill sy 'n byw yr tu arall i *Euphrates*, lle y mae'nt yn Rhifedi mawr tros ben, Brenhin *Agrippa* oedd yn credu hyn yn ddiammau, pan areithiodd ef wrth Bobl Caersalem iw Cynghori hwy i beidio a Gwrthryfela yn erbyn y *Rhufeiniaid*. fe ddwedai fal hyn, *pwy Gynnorthwy 'r ydych yn ei ddisgwyl i gyd ymgyfeillachu a chwi yn eich Gwrthryfelgarwch ? Onid yw 'r holl Fyd cydnabyddus yn talu Teyrnged i'r* Rhufeiniaid, *Fe allai eich bod chwi yn disgwyl cymmorth y rhai sydd tu hwynt i* Euphrates.

Yn Ddiweddaf, mae fy Awdwr yn dywedyd fod pawb yn tybiaid fod y Dêg Llwyth yn Preswylio tu hwynt i'r Afon Sabbothaidd, hynny ydyw ynghylch y Môr *Caspian*. Y mae Tystiolaeth *Josephus* yn hynod am y peth hyn. (medd ef) Yr Ymerawdwr *Titus* yn myned rhwng *Area* a *Raphanes*, Dinaloedd yn perthyn i'r Brenhin *Agrippa*, efe a welodd yr Afon Ryfeddol honno, er ei bod yn wyllt, etto y mae 'n sych bob seithfed Dydd, a phan elo 'r Dydd hwnnw heibio, y mae 'n ail gymmeryd ei Thaith arferedig fel na bae ddim cyfnewid ynddi, ac y mae bob amser yn dilyn eu harfer, Fe ai gefwir Sab

both

bathaidd, o herwydd ei bod yn dynwared eu Gorphwyſſa ar y Seithfed Dydd, ar ba un y Gorphwyſodd Duw ei hunan yn ôl Creadigaeth y Byd. Yr Afon honno a rêd trwy 'r holl Wythnos cyn wyllfed a hylled, gan ddwyn i lawr gyda hi y Tywod ar Cerrig, yr hyn yw 'r achoſion o fod y Llwythi gwedi 'u cau i fynu tu hwnt i'r Afon, ac nis gallant eu gwneud eu hunain yn gydnabyddus; Canys er bod yr Afon ar y Seithfed Dydd yn llonydd ac yn gorphwys, etto y mae 'n Waharddedig i'r Juddewon ymdeithio ar y Diwrnod hwnnw, a dyna 'r achos ſy 'n peri iddynt yno mo'r guddiedig Ryteddoł tros amryw Oeſydd. Ac nid yw hynny cyn rhyfedded ychw aith, gan fod llawer o bethau a adwaenom ni, ac etto ni fedrwn nî roddi cyfri ou Dechreuad. Onid ydym ni hyd y dydd hwn yn angnydnabyddus a blaenau neu godiad y Fedair Prif afonydd, ſef, *Nilus*, *Ganges*, *Euphrates*, a *Thygris*, a llawer o Wledydd helaeth, ſy heb ei Datguddio etto, i, e, Rhai lle'oedd ſy anghydnabyddusſy 'n ſefyll tu hwnt i rai Mynyddoedd. Felly y digwyddodd yn Nheyrnaſiad *Ferdinando* ac *Iſabela*, ynghylch y Flwyddyn 1400. daro wrth rai o Wyr o *Spaen* ar ddamwain yn *Barneca*, ynghylch deng Milltir oddiwrth *Salamanca* yn *Spaen*, y rhai a ddiengaſai yno pan oedd y *Moors* neu 'r Bobl Dduon yn meddiannu *Spaen*, a hwy a breſwyliâſant yno Wyth gan mhlynedd cyn taro wrthynt. Mae *Manaſſeh Ben Iſrael* yn dywedyd ymmhellach ynghylch yr Afon Sabbathaidd, ildo ef glywaid gan eu Dâd, (ac nad yw Tadau arferedig o ſiomi eu Plant,) fod un o *Arabia* yn *Liſbon* ym *Mhortugal*, yr hwn oedd awr Wydr yn llawn o Dywod a gymmeraſid allan o Waelod yr Afon honno, yr hon ſy 'n rhedeg drwy 'r Wythnos hyd y Sabbath, ac yn gorphwys y Diwrnod hwnnw, a bod yr *Arabiaid* hwnnw yn rhodio oddiamgylch yr Heolydd bob Dydd Gwener Brydnhawn, gan ddangos yr awr-Wydr i'r Juddewon y rhai oedd yn cymmeryd arnynt fod yn Criſt'nogion, gan ddywedyd, Chwy chwi *Juddewon* ceuwch i fynu eich Maſnachdai, canys y mae 'r Sabbath yn dyfod. Ni baſwn i yn ſôn am y Gwydr hwnnw medd ef, ni baſai fod awdurdod yn Rheoli yn fawr, ac nad allai i lai na chredu fod y Cwrthiau hynny yn deilliaw oddiwrth Dduw.

Bydded i'r Darllennydd gredu yr faint a welo ef yn gym mesur o'r Hanesion hyn a roddais i ar lawr, mi a feddyliais eu bod hwy yn addas ac yn ddifyrr iw cyfleu i mewn, o herwydd eu rhytedded, mysi a Ddibennaf, gyda 'r Dilyniad y mae 'r Awdwr Juddewaidd yn ei gasclu oddiwrth y cyfan, yn enwedig, 1. Fod *America* neu Orllewin *India* gynt yn ei Phreswylio. gan rann o'r Dêg Llwyth, y rhai aeth yno o *Dartari* drwy gyfyng rydiau *Annian*. 2. Nad yw 'r Dêg Llwyth mewn un lle 'n unig, eithr mewn amryw Leoedd, o herwydd Rhagfynegu o'r Prophwydi y byddai 'u Dychweliad yn ôl i *Balestine* allan o amryw leoedd; 3. Na ddychwelodd y Dêg Llwyth hynny, pan Adailadwyd yr ail Deml. 4. Eu bod hwy hyd y Dŷdd heddyw yn dal y Gretydd Juddewaidd. 5. Fod yn Angenrhaid cyflawni 'r Prophwydoliaethau ynghylch eu Dychweliad i'w Gwlâd. 6. Y Dychwelant o bob Parth o'r Bŷd, ac a ymgyfarfyddent yn *Assyria* a'r *Aipht*, Duw a ddarpara iddynt ffordd hawdd ac Esmwyth yn llawn o bob peth, fel ydywaid *Isaiah*, Pen 40. Oddiyno hwy a'nt ar frys i *Gaersalem* megis adar i'w Nythod. Yn Ddiwaetha', Na rennir mo'i Teyrnas mwyach, eithr y Deuddeg Llwyth a fydd tan Lywodraeth un Tywysog, yr hwn a fydd tan y *Messiah* Fâb *Dafydd*; ac na yrrir mwyach hwy allan ou Gwlâd.

IV.

Cyflwr yr Juddewon yn ôl eu Halltudiaeth, a helynt Bresennol Palestine.

YN anghyfanedd dra *Caersalem* yr *Juddewon* a wasgarwyd ar lêd y Bŷd, yn enwedig i *Spaen*, lle y Gorchymmynodd yr Ymerawdwr *Adrian* iddynt Breswylio, etto ni chawsant ond Croesaw bychan mewn lle 'n y byd, gan orfod talu Trethi a Phridwerthi llwyr drymion yn aml, nes eu taflu ordiwedd i gyd allan o *Europe*.

Y Brenhin Cristionogawl cynta' a ymlidiodd yr Juddewon allan oi Lywodraeth. oedd yr ardderchog Frenhin *Edward* y Cynta', yr hwn y fu hefyd Fflangell dôst i'r *Scotiaid*, ac fe debygir i amryw Deuluoedd o'r Juddewon alltud hynny ddiange i *Scotland*, lle 'r amlhasant yn Lluoedd mawrion, fe Dystiolaetha hynny ffiridd dra 'r Genedl honno i Gîg Môch, ynanad neb arall.

Ni bu 'r alltudiaeth honno o herwydd eu Crefydd, eithr am eu Beiau drygionus; megis Gwenwyno Ffynhonnau, camfathu Arian, ffugio Sêlau, Croeshoelio Plant Christ'nogion, a phethau creulon eraill. Hyn a ddigwyddodd yn y Flwyddyn 1292. Ac ymhen 12 Mlynedd ar ôl hynny, *Ffraingc* a ddilynodd ein Esampl ni; ynghylch dau can mlynedd ar ôl hynny *Ferdinand* au gyrrodd hwy y maith o *Spaen*; A phum mlynedd ar ôl hyn *Emanuel* o *Portugal* a wnaeth yr un modd.

Eithr y Gwledydd y gyrrwyd hwy allan o honynt ddiwaetha' oedd *Naples* a *Sicily*, yn y Flwyddyn 1539. Y mae llawer jawn o honynt etto yn preswylio mewn amryw fannau Ynghrêd, sef yn *Germany* 'r uchaf ar isa' *Bohemia*, *Lithuania Polanda*, *Russia*; ac yn *Italy* hefyd, eithr nid oes un o honynt mewn Gwlâd yn y Byd tan Lywodraeth Brenhin *Spaen*.

Y mae'nt yn trigo yn llonyddol ddigon yn *Rhufain* tan Drwyn y *Pâp* yno, ac nid oesbetrusder ar St. *Marc* er eu croesawi hwy yn *Venice*. Y mae llaweroedd o honynt tan Lywodraeth y *Twrc*, yr ydys yn tybiaid fod *Yng-Honstantinopl* a *Thessalonica*, yn unig, yn agos i Ugain Mil.

Mae *Asia* yn llawn o honynt, megis *Aleppo*, *Tripoli*, *Damascus*, *Rhodes*, ie ym mhob Lleoedd y bo Masnach; Marchnaddiaeth; Y mae llawer hefyd ym *Mhersia*, *Arabia*, ac ym mhob lle hyd yn *Cranganor* yn yr *India*.

Yn *Affrica* y mae ganddynt eu Synagogau, sef, yn *Alexandria*, *Grand Cairo*, *Fesse*, *Tremesen*, ac amryw fannau yn Nheyrnas *Morocco*: Y mae ynghylch Can Teulu o honynt *Ynghaersalem*, eithr y lle y mae'nt yn fwya digymmysg yw *Tiberias*, y lle hwnnw a roddodd y *Tyrciaid* i *Mendes* yr *Iuddew* am ryw Wasanaeth Rhagorol y wnaeth erddynt, y maent yn fynych yn danfon neu 'n dwyn Ffgyrn eu Caredigion yn ol eu Marwolaeth, y rhai fy wedi gadael rhoddion helaeth, am gael eu Claddu yno.

Dinas *Caersalem* a Ail Adeiladwyd gan *Elius Adrianus*, ac ai rhoddodd i'r Crist'nogion, oddiwrth ba rai fe ai cymmerodd *Cofroes* ar *Perfiaid* yn y Flwyddyn, 615, Hi a ddygwyd o Drais oddiarnynt gan *Haumar* ar *Saraciniaid* yn y Flwyddyn 637. Ac yn nesa' hi a fyrthiodd i Ddwylo *Cutlu Mosis* ar *Tyrciaid* yn y Flwyddyn 1009. Yn ol hir ruddfan tan y

Gorthrymderau hynny. *Petr* y Meudwy a Gynhyrfodd Dywyſogion y Gorllewin i ryddhau 'r Chriſt'nogion o'u Trallodion, amcan pa rai a ddaeth i ben yn ôl eu Dymuniadau, tan Fanner y Tywyſog Buddugoliaethus hwnnw, ſef *Godffri* o *Bullen*. yn y Flwyddyn 1093. Yr oedd y *Godffri* hwnnw o rann ei Haeddedigaeth i gael ei Addurno a Brenhinol Goron blêth mawrhydi, yr hyn a wrthododd, gan ei dybiaid ei hunan yn anaddas i wiſgo Coron Aur, lle'i darſuaſai i'n Jachawdwr wiſgo Coron o Ddrain; etto er llêſhâd Cyffredinol, efe a fodlonodd i gymmeryd yr Enw arno; Yn ôl pa un ſe Lywodraethodd y Tywyſogion Criſtnogawl hyn, ſef *Baldwin* y cynta', *Baldwin* yr Ail, *Fulk* Jarll *Anieu*. *Baldwin* y trydydd *Baldwin* y pedwerydd. *Baldwin* y Pummed, *Guy* o *Luſignan* Brenhin diwaetha' *Caerſalem*, yn amſer pa un *Saladine* Brenhin neu *Sultan* yr *Aipht* a ynnillodd y Deyrnas, yr hon a ymddiffynnodd i Etifeddion ar ei ôl yn erbyn pob rhuthrau hyd y Flwyddyn 1317. Pan ddarfu i *Selinus* Ymerawdr cynta' Gwlâd y *Twrc* gymmeryd y Tîr Sanctaidd ynghyd a'r *Aipht* tan ei Ymerodraeth; ac felly hôll Wlâd *Paleſtine*, a Dinas *Caerſalem* ſydd dan Lywodraeth y *Tyrciaid*, hyd y Dydd heddyw; etto y mae Criſtnogion yn trigo ynddi, y ſawl ſy 'n cael mawr ſudd oddiwrth ddangos Bêdd Chriſt; ac yn ddiweddar gan y Bobl dduon, *Arabiaid Groegiaid*, *Ladingiaid*, *Tyrciaid*, *Juddewon*, i. e. mi alla' ddywedyd gan Bobl o bob Gwlâd.

Yr holl Wlâd ſy 'n Cynwys pedair Ardal, ſef, *Idumea*, *Iudea*, *Samaria*, a *Galilee*, *Idumea* ſy 'n dechreu ym mynydd *Caſſius*, neuſel y mynn rhai ym mhwll *Sirion*, gan gyrraedd i hyd Ddwyrain *Judea*; Y Prif Ddinaſoedd yw *Mareſa*, *Rhinocerura*, *Rapha*, *Antedon*, *Aſcalon*, *Azotus*, a *Gaza* ym *Maerſa* y ganwyd y Prophwyd *Micah*. Yn agos i'r Dref ym y Gorchtygodd *Judas Machabeus Gorgias*, nid yw *Rhinocorura*, *Raphæ*, ac *Antedon* ond Treſydd go wael. Y mae Sr. *George Sandis* yn ei ymdaith yn Yſgrifennu fel hyn, nad yw hi Dref o Enw mawr moni, ond bod y *yrciaid* yn cadw ymddiffynſa yno. Hi ſu gynt yn Barchedig ym myſg y Cenhedloedd, o achos Teml *Dagon*, a Ganedigaeth *Semiramis* a Genhedloedd y Dduwies *Decreta* yr hon trwy wreſſowgrwydd Cariad

riad ar wr Ifangc oedd yn *Aberthu* iddo, a ymddygodd iddo Ferch, a a chwedi cywilyddo o achos ei haniweirdeb, hi ai gyrrodd ef ymaith, ac a fwriodd y Plentyn ir Anialwch, a chan lwyr Driftweh hi a'i taflodd ei hunan i Lynn llawn o Byfgod yn ymyl y Ddinas. Y *Decreta* yma a ddywedir oedd Dagon Delw 'r *Agrotonitiaid* a Sonir am danynt yn yr 'Scrythur, yr hyn fy 'n arwyddoccau blaen ffrwyth Trallod ; yr oedd ei Themi hi yn agos i'r Llynn, a'i Delw ar Lun Pyfcodyn, oddigerth yr Wyneb, oedd Debyg i Wyneb Merch; Y Plentyn y Faethwyd gan Glome.nod, y rhai a ddygafant Laeth iddi o'r Porfeuydd, yr hon wedi a fu yn Wraig i *Ninus* a Brenhines *Aſſyria*, Gan hynny efe ai Galwyd hi *Semiramis*, yr hyn fy 'n Arwyddoccau Colomen yn y *Syriaeg*, Y mae 'r *Babiloniaid* er Coffadwriaeth o honi yn dwyn Clommen yneu Bannerau, yr hyn a gyflawnir ym Mhrophwydoliaeth *Jeremiah* yr hwn fy 'n rhagfynegu Anghyfannedd-dra *Judah* gan eu Cynghori 'i Ddiaingc rhag cleddyf y Glommen.

Azotus, Lle 'r adailadodd Rhaglaw *Demetrius* Deml Arddcrchog, Wyth Milltir tu hwynt i hynny y mae *Atcheton* neu *Ekron* yn fefyll, lle 'r Addolid *Beelzebub*, at ba un y danfonodd *Ahaziah* i ymofyn am ei jechyd.

Yn ddiweddaf, *Gaza* neu *Aza*, un o'r Pum Dinas bennaf fy 'n perthyn i'r *Paleſtiniaid*, (y rhai elwyd *Philiſtiaid* yn yr 'Scrythur:) *Gaza* fy 'n arwyddoccau crŷf, ac yn Jaith y *Perſiaid* Tryfor, felly y dywedir ei Galw gan *Gambyſes* yr hwn a ddanfonodd yno yr holl Gyfoethogrwydd a Ynnillafai ef wrth Yfclyfaethu 'r Aipht, mewn Rhyfel yno; Fe ai Galwyd hi *Conſtantia*, gan yr Ymerawdr *Conſtantine* yr hwn oedd ein Cydwladwr ac a elwyd yn Gymraeg *Caſtenyn* fawr, yr hon a fu Gynta' 'n enwog o herwydd Gweithredoedd *Sampſon* yno, yr hwn oedd yn byw ynghylch amfer Rhyfel *Caerdroia*, yr hwn trwy ei Nerth ai Dynghedfen Lwyddianus a ddywedir fod yn Achofion i'r Prydyddion Ddyfeifio *Hercules*, yr hwn oedd yn byw ychydig o flaen hynny, Ar lle a fu 'n hynod ar ôl hynny o herwydd dau Archoll a dderbyniodd *Alexander* fawr yno, hi a gyfriftwyd wedi hynny yn Brif Ddinas Syria.

Yno hefyd y mae *Joppa*, yn awr *Jafta*, Tre' Farchnad enwog, a Phorthladd têg; lle y cymmerodd *Jonah* Long i ddiaingc

aingc i *Tarsus*, lle'i codedd *Petr Dorcas* o farw yn fyw, a phan oedd ef yn aros yn Nhŷ *Simon* y Barcer mewn Gweledigaeth a ddysgwyd i weithio Troedigaeth y Cenhedloedd. Fe ddywedir a deiladu 'r Ddinas honno cyn y Diluw. Yno y Rheolodd *Cepheus* Fâb *Phenix*, Ai Ferch *Andromeda* a ryddhaoud *Perseus* oddiwrth Anghenfil Morawl, Esgyrn pa un a fyddid arferedig ou dangos i Ddieithriaid, nes i'r *Rhufeiniaid* ddyfod iw Rhwysg. Yno y maè *Gath* hefyd, Gwlâd y Cawr mawr *Goliah*.

Judea ydyw y rhan bena o *Balestine* ac yw yr un faint yr awrhon a phan oedd hi yn Deyrnas *Judea*, ac a fu 'n Gynheiliaeth ir ddau Lwyth fawrion hynny, sef, *Juda* a *Benjamin*. y mae hi yn sefyll rhwng y môr Canoldir ar môr marw a rhwng *Samaria* ac *Idumea*; Hi a gasodd yr Enw hwn oddiwrth Lwyth *Juda*; ŷ ymmha un a mae 'n sefyll Dinas *Caersalem* yr hon a fu gynt yn Ardderchog.

Heblaw *Caersalem* y mae hefyd amryw Dresydd a Dinasoedd enwog yn y Wlâd honno. sef, *Jericho*, *Turris Stratonis*, a alwyd gwedi *Cæsaria*, *Hebron* gynt yn awr *Arbea*; *Mambre* a *Charinth* hefyd, hynny Tre 'r pedwar Gwr lle'i ganwyd *Judas Iscariot*, yr hwn a fradychodd ein Hiachawdwr Jesu Grist, *Emaus* ac eraill; hefyd tu hwnt i'r *Jorddonen* y mae *Martrebeaus*, tref ac ymddiffynfa gadarn iddi. Yno y bu Trefydd *Sodom* a *Gomorrah*, y rhai oblegid eu ffieidd-dra au hadgasrwydd a lwyr Ddinistrwyd ac a ddifeithwyd gan dan o'r Nêfoedd, ac yr awrhon yn gorwedd yn gladdedig yn y Llynn Meltigedig hwnnw, *Asphlaltites*, a alwyd felly o herwydd y Pŷg y mae yn i chwydu allan, Fê alwyd hefyd y Môr marw, ond odid am na fâg ef un Creadur byw, neu ei Ddyfroedd trymllyd yrin eu Syflir gan un math ar wynt, môr halit, a pheth bynnag a deflir iddo ni fudda 'n hawdd. *Vespasian* i brofi hynny y wnaeth rwymo bagad, au Traed a'u Dwylaw, au taflu iddo, eithr hwy a lynasant ar Wyneb y Dwfr fel ped falai rhyw Yspryd yn eu cynnal i fynu, fe ddywedir, am Adar a hedant uwch ei ben, a syrthiant, fel ped fae'nt trwy swyn Gyfaredd wedi 'u tagu neu Gwenwyno gan y Tarth a'r Caddug sy 'n derchafu oddiwrtho. *Samaria* sydd yn y Canol rhwng *Judea* a *Galilea*, Y Wlâd a elwir felly,

oddiwrth

oddiwrth *Samaria* y Brif Ddinas, a Adeiladwyd gan *Omri* Frenhin *Iſrael*, ac a elwir yr awrhon *Sebaſti*; Y Trefydd ſy ynddi a elwyd *Sichem* yn awr *Necapolis*, *Capernaum*, *Bethſaida*, *a Chorazin*.

Galilee ſydd rhwng Mynydd *Libanus* a *Samaria*, ac a rennir yn *Galilee* uchaf ac iſaf, Y *Galilee* uchaf ſy ai Chyffiniau ar *Tyrus*, ac a elwir mewn modd arall *Galilea Gentium* neu *Galilea*'r Cenhedloedd, *Galilee* iſaf ſydd yn agos i Lynn *Tiberias*, ac i *Nazareth*; a *Gadara*. Y Wlâd Fendigaid a gyſleuwyd rhwng dau Fôr, ac Afon yr *Jorddonen*. Y mae ynddi amryw Ddyfroedd Mordwyawl, A Llynnoedd yn llawn Pyſgod, Afon yr Jorddonen ſy 'n rhedeg trwy ganol y Wlâd yma, gan ei Rhannu yn ddwy Ran. Mae St. *Jerom* yn 'Scrifennu, fod yr Afon honno yn tarddu allan o ddwy Ffynnon nad ynt nepell oddiwrth ei gilydd, un a elwir *Jôr*, ar llall a elwir *Dan*, gan ſaethu allan megis dau Gorn, y rhai ſy 'n ymgyfarfod ynghyd, y wnant Afon fawr yr *Jorddonen*, y Mynyddoedd pennaf yn y Wlâd Fendigaid yw Mynydd *Hermon* ſy 'n ſefyll yn y Dwyrain, a Mynydd *Tabor* yn y Gorllewin, ar ddau hynny ſydd fawrion ac uchel, ac nid yw 'r Mynyddoedd eraill ſy o'i hamgylch ond megis Breichiau a Changhenau o honynt hwy: Canys Mynyddoedd *Ebal*, *Bethorſon*, *Miſpa*, neu *Moſpoa*, a *Bethel* a gyfrifir eu bod tan Fynydd *Hermon*, *Gilboa*, *Gerazin*, *Saron*, a Mynydd *Carmel* wrth Yſtlys y Môr a rifir tan Fynydd *Tabor*.

Y mae hefyd o amgylch *Caerſalem*, Fynydd *Sion*, *Moriah* Mynydd yr *Oleowydd*, Mynydd *Calfari*, ag eraill. A choedydd têg a Choedwigoedd yn llawn o bob math o Eiſr a Cheirw, ac Anifeiliaid gwylltion eraill.

Yn y Wlâd yma, yn enwedig o amgylch *Caerſalem*, yr oedd Adeiladoedd Mawr-wych ac uchel, megis, *Dons Morius*, a Chaſtell y *Jebuſitiaid*, i ba un y dygodd *Dafydd* Arch yr Arglwydd, lle 'r Arhoſodd nes gorphen adeiladu Teml *Solomon*, gweddillion o Fagwyrau 'r Adeiladoedd hynny ſydd yw gweled hyd y Dydd heddyw, i. e. lle ddywedir mai yn y lle hwnnw y darfu i Grift Ein Hargiwydd fwyta 'r Oen Paſc gyda 'u Ddiſgyblion: Mae yno hefyd Feddrod y Brenhin *Dafydd*. ac eraill o Frenhinoedd *Judah*; A Thŷ *Dafydd*

yr hwn fy 'n cynnal Enw Tŵr *Dafydd*, Ar Fynydd *Moriah* mae peth o Weddillion *Milo* iw weled ac o flaen y cwbl ni a ddylaem Adgofio, yr Ardderchoccaf Brydferthaf Demi y Brenhin *Solomon*, ar ba un y bu Gan mil, a dengmil a deugain o Wyr yn Gweithio dros Saith Mlynedd yn gyfan g yfannedd nes ei gorphen. Ni adawn ddiarllain yn yr Yſgrythur am Odidowgrwydd a mawrhydi 'r lle. Anrhydeddir y Deml a Bêdd Chriſt yn ddirfawr pan adailadwyd gynta gan Griſt-nogion o'r Parthoedd hynny; Ac a fynych gyrchir hyd y Dydd heddyw gan Bererinion o bob lleoedd tan Lywodraeth Eglwys *Rhufain*, ac amryw Fonedigion or Eglwyſydd adgweiriedig, Rhai o ran Rhodres a Manylrwydd eraill er mwyn Heneidiarwydd y lle. Y mae Creaduriaid y *Pâp* yn talu Ardreth neu Deyrnged i'r *Tyrciaid* am y lle, a phwy bynnag a Gynhwyſir i gael Golwg ar y Bêdd a gaiff dalu Naw Coron i Swyddogion y *Tyrciaid*; Felly fe dal y Deyrnged i'r *Grand Seignior* wyth Mil o *Ddwcatau* bob Blwyddyn.

Am y Dêg a thriugain Deongl-wr Cyfraith Moeſen.

YN ôl i *Alexander* Fawr, Brenhin *Macedonia* a Gwlâd y Groeg Oreſgyn y rhann twya' ac oedd o'r Byd yn gydnabyddus yn ei amſer ef. Fe fu farw yn jeuaingc, ond braidd Dêg ar hugain Oed; Yn ôl ei Farwolaeth ei Deyrnas a ranwyd yn bedair rhann yhwng Pedwar o Brif Benaethiaid eu Lu. Megis y mae 'n 'Scrifennedig yn *Dan.* 8. *Ei Frenbiniaeth ef a dorrir, a phedair Brenbiniaeth a gyfodant o'r un genedl.* Efe a adawodd ar ei ôl Fab yn ei Febyd a elwyd *Archelaus*, ac e 'n deilyg i fod yn ddoeth ac yn Rymmus, eiſ Geidwad a roddodd iddo Ddiod Wenwynig ai lladdodd ef; a chwedi hynny a Lywodraethodd yn Ormeſdeyrn ar ei holl Dywyſogaethau. Y Pedwar Penciwdod hynny a Ryfelodd y naill yn erbyn y llall. Un o honynt a elwyd *Ptolomeus Philadelphus* a ymrodd gael Cyfraith *Moeſen* wedi 'u Chyfieithu i'r Groeg, trwy fyriadu wrth hynny gael lle i ennyn Cynnen neu i Ymrafaelio ar *Juddewon*, ac iw dwyn Ymmaith oddiwrth eu Cyfraith a'i Crefydd; Can hynny efe a Bennododd Dêg a thriugain o Hên Athrawon Juddewaidd, i gyflawni 'r gwaith

gwaith, y rhai a gaeodd ef i fynu mewn yſtafelloedd or naillu, bob un ar ei ben ei hun, fel na fyddai iddynt ddim Cymdeithas y naill ar lall; a phan orphenaſant y Gwaith; er iddynt newid tri ar ddêg o leoedd yn yr Scrythur, etto hwy a gyttunaſant cyn gyflawned yn Synwyr ac Yſtyriaeth y Geiriau, yn gymmaint a phed fuaſai wedi i Gyfieithu gan un gŵr, yn unig; Yr hyn a ellir ei gyfri yn Wrthiau mwy na digwyddiad arall yn y Byd. Y Trydydd lle ar Ddêg yw 'r rhain.

I. *Gen.* 1. Hwy Gyfieithaſant, Duw a Greawdd yn y Dechreuad, &c. Heb roddi na Gair na dim yn y Byd o flaen Enw Duw, yr hyn fydd Gyffredin yn yr Jaith Groeg, yr hyn a allai rwyſtro 'r Brenhin rhag cymmeryd y Gair *Beriſheth*, neu 'r Dechreuad i fod yn Greawdwr, ac *Elohim* neu Dduw am y Creadur.

II. *Gen.* 1 26. Yn lle Gwnawn, Hwy gyfieithaſant, mi wnâf Ddŷn ar fy Nelw fy hun, mi, yn lle nyni, fel na byddai i neb dybiaid fod mwy o Dduwiau nag un, neu fod yr Hollalluog yn ymgynghori a neb arall ynghylch hynny.

III. Gen. 2. 1. Hwy Gyfieithaſant, a Duw a orphenodd ar y Chweched Dydd, ac a Orphwyſodd ar y Seithfed, yn lle, ac ar y Seithfedd Dydd, y gorphennodd Duw ei waith yr hwn a wnaethai efe, y Chweched yn lle 'r Seithfed, rhag bod tebygoliaeth yn y Byd ar iddo ef wneud dim ar y Seithfed Dydd, na gorphen ei Waith ar y Diwrnod hwnnw.

IV. Gen. 11. 7. Hwy Gyfieithaſant, Mi af i lawr, ac a gymmyſgaf yno ei Hiaith hwynt, yn lle. deuwch diſgynnwn, rhac tybiaid ei fod e 'n llawer.

V. Gen. 18. 12. Hwy Gyfieithaſant, A *Sarah*, a chwarddodd, gan ddywedyd wrth y rhai oedd yn ei hymyl; yn lle *Sarah* a Chwarddodd rhyngddi a hi ei hun; gan ddywedyd rhag i *Ptolomy* ein gwawdio ni, a dywedyd pa fodd y gwyddoch chwi pa beth a ddywedodd hi wrth ei hunan.

VI. Gen. 49. 6. Ynghylch Geiriau *Jacob* wrth *Simeon* a *Lefi*, Hwy Gyfieithiaſant, Canys yn eu dig y lladdaſant Wr, ac o'i gwirfodd diwreiddiaſant *Gaer*, Yn lle Llâdd Ych fel y mae Ynghwrr Dalennau rhai o'n Biblau ni, fel na byddai i'r Brenhin eu gwatwor o herwydd i *Simeon* a *Lefi* ddial eu llîd ar Anifail.

VII

VII. *Exod.* 4. 20. A *Moſes* a gymmerodd ei Wraig ai Feibion, ac ai rhoddodd i Farchogaeth ar beth a allai gynnal Gŵr, yn lle Aſyn, rhag i'r Brenhin chwerthin am ben y Tywyſog mawr, a rhoddwr y Gyfraith ſef *Moeſen*, o herwydd iddo Farchogaeth ar Aſyn: yr hyn oedd beth dirmygus ym mhlith y Groegiaid, a rhag iddo wrthreſymmu, pa fodd y gallai Aſyn ddwyn Gwraig a Dau o Blant? Ac na fuaſai raid iddo fyth wneuthur hynny oddigerth i fod ei yn Gardotyn.

VIII. A Phreſwyliad Meibion *Iſrael* tra y trigaſant yn yr *Aipht*, oedd ddengmlynedd ar hugain a phedwar Can Mlynedd, *Exod.* 12. 40. Er hynny i gyd ni thrigaſant yn yr *Aipht* ond Dau Cant a deng mlynedd, ſel y Rhagfynegodd eu Tâd *Jacob* iddynt, na oſtyngwch (arwyddoccâd y Cyfryw Lythyren au yn yr *Hebreaeg* ſy 'n arwyddoccau 210) chwi chwaith; telly y Cyfri o 430 Mlynedd ſy 'n dechrau Ynganedigaeth *Iſaac* yr hwn oedd Sanctaidd Hâd *Abraham*; Gan hynny hwy a'i Cyfeithaſant a Phreſwylia Plant *Iſrael* yn yr *Aipht* (a lleoedd eraill) oedd 430 o Flynyddoedd.

IX. Ac i'r rhai bychain o Blant *Iſrael* efe a eſtynodd allan ei Law, *Exod.* Hwy roeſant rai bychain yn Dywyſogion, rhag i'r Brenhin ddywedyd y Gwyr mawr a waredwyd, eithr y Plant a Meibion Iſrael a goſpwyd.

X, *Num.* 16. 15. A *Moſes* a ddywedodd, ni chymmerais un Aſyn oddiarnynt, Hwy a Gyfeithiaſant, Ni chymmerais o'u Heiddo werth dim, ſel na ddywedai *Ptolomy*, er na chymmerodd ef Aſyn, etto ſ allai iddo ef gymmeryd yn wobr oddiarnynt bethau mwy gwerthfawr a dymunol.

XI. *Deut.* 4, 19. Hefyd rhag derchatu o honot dy Lygaid tu a'r Neſoedd, a gweled yr Haul, a'r Lleuad, ar Sêr, holl Lu y Neſoedd, yr rhai a rannodd yr Arglwydd dy Dduw, (neu a Gyfrannodd) i'r holl Bobloedd, dan yr holl Neſoedd; Hwy chwanegaſant, yr Arglwydd dy Dduw a Gyfrannodd (i lewyrchu) ar yr holl Genedloedd; rhag iddo ef ddywedyd i'r Sanctaidd Fendigedig *Arglwydd* rannu'r Haul, Lleuad, a'r Sêr i'r holl Bobloedd, a rhoddi iddynt Gennad i'w Haddoli hwynt.

XII. *Deut* 17. 3. ac a aeth ac a Waſanaethodd Dduwiau dieithr,

dieithr, yr hyn ni Orchymmynais, (Hwy chwanegasant iw Haddoli) rhag i'r Brenhin ddywedyd i'r Arglwydd Orchymyn iddynt Wasanaethu rhai Duwiau eraill, heblaw ese ei hun.

XIII. Hwy Gyfeithasant Ysgyfarnog, Traed bychain, o achos mai felly y gelwid y Frenhines, fel na chae 'r Brenhin Achlyssur i feddwl eu bod yn gwawdio am i ben.

Pan ddarfu i'r Dêg a thriugain Honuriaid Gyfeithu 'r Cytraith Juddewaidd i'r Groeg Jaith, *Ptolomy* yn lle anfodd. hau wrthynt, a lawenychodd yn fawr o herwydd eu Doethineb au hunaeb, gan eu Hanrhydeddu hwy a Gwisgoedd Tywysogawl ac a rhoddion, Gan eu danfon adre' yn llawen ac ynhoenus, Ynghyd ac Aberthau ac Offrymmau helaeth i Dduw *Israel*.

Adroddiad Cywir o ymddiddan y Cynghorfa fawr yr

JUDDEWON,

Ymgynnulledig yngwastadedd *Adjady* yn *Hungaria*, ynghylch 30 o Legau oddiwrth *Buda*, er mwyn chwilio 'r Scrythrau ynghylch Crist, ar y 12 o Fis *Hydref* yn y Flwyddyn 1650.

Gan *Samuel Brett* (Sais) yno yn bresennol.

Ê a ddymunodd llawer o Gristnogion da a chyfrifol, ar i mi wneuthur yn gyhoedd adroddiad o Gymanfa 'r *Juddewon*, yr hon a amcanais i gyfrannu yn unig i'm Ceraint yn neillduol; eu prif reswm, trwy 'r hon am heiriolant i wneuthur hwn yn gyffredin, oedd oherwydd tybiaid o honynt y byddai hi yn barattôad, ac Arwydd obeithiol o dröead yr Juddewon, Ar hyn o fyddai yn newyddion da i Eglwys Crist: Ac oblegid hynny, mi a ganiathâais i fodloni eu dymuniadau hwynt. Ac fel hyn yr oedd.

Ym-

Ymgynullafant i'r lle rhagddywededig ynghylch 300 o *Rabbiaid* neu Juddewon o amryw Barthau 'r Byd i chwilio 'r Scrythyrau ynghylch Crift. Y mae 'n debygol fwriadau o honynt y lle hwnnw yn twyaf cyfleus, o herwydd nad oes nemawr o Drigolion yn preſwylio yn y parth hynny o'r Wlad ; oblegid y rhyfeloedd gwaſtadol rhwng y *Twrc* a Brenin *Hungaria*. Yno (mal y clywſom) ymladdafant gynt dawy Frwydr waedlyd. Etto y Tywyſogion ymma ill deuwedd er bod amrafel rhyngddynt a ganiateafant i'r Juddewon i gynnal eu Hymgynghorfa yno er mwyn eu cyfleuſ dra eu hunain, a wnâent amryw Bebill i orphwyſo ynddynt, ac amldero gynheiliaeth a ddygid attynt o fannau eraill o'r Wlâd, cyhyd ac y byddent yn eiſtedd yno. A'r Juddewon yn gwneuthur (mal y dywedaſom) amryw babelloedd, cyfodafant un fawr helaeth ir ymgynghorfa yn unig i eiſtedd ynddi, ir oedd ef yn agos yn bedrongl, nid oedd y parth Gogleddig ar Deheuol mor helaeth, ar Dwyreiniol a'r gorllewinol. Nid oedd onid ûn Drŵs iddo, a hwnnw agorai tu ar Dwyrain. Ynghanol y Babell i'r oedd Bwrdd yn ſefyll a chadaîr i'r ymholwr i eiſtedd arni, ai wyneb tu ac at Ddrŵs y Babell. Ar ymholwr oedd o Lwyth *Levi*, ai Enw *Zacharias*. Ac oddi fewn i'r Babell ymma i'r oedd Meinciau ou hamgylch wedi goſod, i'r holl rai eraill i eiſtedd arnynt. Argauwyd hwynt i gyd oddi fewn i Gafell yr hon oedd yn ſefyll ennyd oddiwrthynt er attal yr Eſtroniaid, a'r cyfryw nad allent eu profi eu hunain yn Juddewon, a gwneuthur allan eu bod yn Juddewon trwy Dyſtiolaeth coſ lyfrau neu y rhai ni's gallent ymddadleu yn 'r Jaith *Hebredeg*, yr hona a nghofiodd llaweroedd o honynt y rhai a drigent yn y Cyfryw Wledydd, ple' ni's Ganatthaid iddynt i harferu hi yn eu Synagogau ; megis ac yn *Ffrainc*, *Hiſpain*, a'r parthau hynny a'r *Italy*, ac ydd yn perthyn i Frenin *Hiſpain*, a Brenin *Naples* ; gyd ac Ardaloedd *Apulia*, *Scicilia*, *Calabria*, â *Sardinia* : Yn y lleoedd hynny, o byddai i gael Juddew, yn gwadu'r Grefydd y Babuaid Euog farnid ef i Farwolaeth, a dihenyddid am hynny : Ac er hynny, am elw a bûdd eu deuant hwy ei fyw yn yr Ardalodd hynny er eymmaint a ſo eu braw au perygl ; Ac y maent yn ewyllyſgar eu hunain i eſceuluſſo dyſcu Jaith

eu

eu Mammau iw Plant, ynghyſtraith nac y collont gyſte ynnill elw. Ac eilwaith, Rhai o honynt a loſgaſſant, yr hên Gôſ Lyſtrau eu llwythau au Teuluoedd, mal nas Daeguddid hwynt trwy chwilio, neu ryw todd arall. Ac o herwydd, y Diffyg hwn, ſef, nas gallent brofi eu Llwythau au Teuluoedd, ni chaniattaid iddynt ddyfod tu fewn ir Gatell, yn amſer eu ymgynghorfa hwynt; Eithr Gorchymmynyd iddynt aros gyd a'r Eſtroniaid, y rhai a ymwylient yno i weled diben y ddae or Gymanfa hon. Yr ydwyf yn tybied, fôd cyfrif y bobl rhai a ymwylient yno i weled diben ou hamcanion, ynghylch tair Mil, a *Germaniaid* oedd y rhan fwyaf o honynt, ac *Almaniaid*, *Dalmatiaid* a *Groegiaid* rai, a nifer bychan o *Italiaid*, Eithr nid oedd un Sais yno ond myfi hun; Canys hyſpyſſwyd i mi am Frenin *Hungaria* yr hwn ni ymgeleddai y Grefydd Proteſtanaidd na roddai ddim annogaeth i Eglwyſydd Proteſtanaidd, i ddanfon eu Difinyddion yno. Eithr caniathau o hono, ar ddanfon rhai o *Rufain* i fôd yn blaid yno, au dyfodiad hwynt yno a fu yn anffawd fawr i'r Gymanfa Obeithiol hon.

Y Dydd cyntaf, pan ymgyfarfyddodd y Gymanfa gyntaf. treuliaſant rywfaint o'r amſer i Gyfarch gwell iw gilydd, a (fel y mae eu harfer hwynt cuſanaſant fochau eu gilydd;) gan, ddangos llawenydd mawr au dedwyddol ymgyfarfod. Ac yn awr a phob beth yn barod tu ac at eu cyfleuſdra hwynt, yſtyriaſſant pwy Juddewon a ganiataid i fod yn aelodau o'r ymgyngorfa yma; Canys y hwynthwy yn unig a genhadid i fôd yn Aelodau y rhai a allent trwy Gof-ſcrifen brofi eu bôd yn *Juddewon* cynhwynol. Ac mi a ddalais fulw ar iddynt wrthodfa throi ymmaith ynghylch pum Cant. Er, yn ddiamau eu bod hwy yn *Juddewon* Cywir, etto, ni's gallent trwy cof-ſcrifen profi eu hunain felly. Ac oblegid hyn ni dderbynid hwynt i fod yn Aelodau o'u Cynghor hwy, eithr Gorchmynnid hwynt i aros oddiallan i'r Cynghor ymmhlith yr Eſtroniaid, rhai a wylient yno, cyfrif y rhai a allan brofi eu hunain yn Juddewon trwy Gof-ſcrifen oeddent dri Chant; y rhai a oddefwyd i eiſtedd yn y Cynghor; dyna wnaed y dydd Cyntaf.

Yr ail dydd, a'r Gymanfa yn llawn, yr Ymholwr (ai Enw ef oedd *Zacharias*, o Lwyth *Lefi*) a ſafodd i fynnu ac y

wnaeth

wnaeth Araith, ynghylch amcan eu cyfarfod hwynt. Ac hwn (meddai ef) ydyw, i chwilio 'r Scrythyrau ynghylch Crift, pa un ai wedi dyfod y mae efe, neu, ai ydym ni i ddifgwyl ei ddyfodiad ef. Wrth drin yr ymholiad ymma, chwiliafant y fcrythyrau gyda gofal a phoen mawr y rhan fwyaf o'r dydd hwnnw, mal y bodlonid hwynt yn y Gwirionedd, Hwy chwiliafant yr hen Deftament, trwy ofal a diwydrwydd mawr y rhan fwya o'r Dydd hwnnw, gan fod ganddynt fagad o Fiblau i'r perwyl hwn ynghylch y pwngc yma dechreuodd ymddadl fawr, yr hon o barhârdd laweroedd o Oriau: yr hon or diwedd a ogwyddodd tu a'r diben hyn, ar fôd yr rhan fwya or Gymanfa ymma o'r dŷb, fod Crift heb ddyfod. Eithr eraill or Gymanfa, yn ol chwilio o honynt yn fanol yr fcrythyrau, a gweled yn eglur ynddynt i fod efi ddyfod a ogwyddid i debyg fod Crift wedi dyfod. Gan gyffroi o honynt yn hytrach i dybiaid hynny trwy yftyried y Farnedigaeth a ddaethai arnynt er ys 1600 o flynyddoedd. O herwydd y Rhefwm hwn, gadewyd hwynt megis gwrthodedigion a Phobl crwydraidd: yn gymmaint ac i yftyriaeth y farn hon arnynt: Ynnill môr belled ar laweroedd o honynt, hyd onis gyrrwyd hwynt nid yn unig i debygu eithr hefyd gyfaddef fôd Crift wedi dyfod yr ydwy 'n cofio yn dda, ar fod un o honynt mewn ymddiddan ac eraill yno yn fyniol jawn o'r mawr a hîr ddifrawd eu cenedl hwy oddiar amfer eu Hanrheithiad hwynt gan Ymherodraeth *Rhufain*, a Chyfrifai efe eu holl orthrymderau au Hanediseirwch hwynt, am y mawr ddrwg a wnaethant o Lâdd o honynt yr Arglwydd o'r Nêf. A chyffelybu o hono eu Barnedigaeth prefennol, a Barnedigaethau eraill, y rhai a oddefafai eu Cenedl hwynt, cyfaddefod, d yn oneft jawn, mal am ryw ddrygioni y credai efe yr hwn i r oedd eu Cenedl hwy yn Euog o hono, Ac un ou pechodau mwyaf, tebygai efe, oedd tywallt gwaed y Prophwyd a ddanfonaffid gan Duw at 'n cenedl ni: a chynifer o Lofruddiaethau a wnaethid gan amryw obleidiau a therfyfgodd yn eu plith hwynt. Canys medd efe, nid ydym eulyn addolwyr, nac ydym ni hefyd yn euog o Eulun Addoliaeth: Ac oblegid hynny, mi debygwn nas cawfom y Farnedigaeth drom hon am hynny; eithr yn ddiammau i ni am dywyllt Gwaed Je-

fu

ſu Prophwyd Duw; Ac am ddwyn o honom fywyd amryw ai caraſant ef; A llymma yn fyrr y peth yr ymddadleuwyd yr ail ddwirnod ou cyfarfod, ac yn y modd yma yr oeddyd yr ymddadl y bore neſſaf.

Y Trydydd dydd, an hwy wedi ym gynnull ynghyd drachefn, y pwnge yr ymddadleuwyd bennaf oedd ynghylch y wedd o ddyfodiad Criſt. A hwnnw a ddylaſai (meddant hwy fôd mal Tywyſog galluog mewn cadernid ac awdurdod Brenin. *i. e.* mewn mwy o Alluowgrwydd nac y fu gan un Brenin erioed. Ac y byddai iddo waredu ei Cenedl rhag holl Orthrymder eu Gelynion a'i hedryd hwynt iw Teyrnas drachefn. Ac y byddai i'r holl Genhedloedd fôd ou cretydd hwy, ac Addoli o honynt yr Argiwydd yn yr un wedd a hwy canys hwy ddalient nas newidiai 'r *Meſſiah* mo'u cretydd hwynt pa bryd bynnag y delai. Ac o herwydd hynny dechreuſant bennodi a chyngloi, na ddaethai Criſt. Canys, Jeſu 'r prophwyd mawr (meddant hwy) pan y daethai, a ddechreuodd gyfnewid eu Cretydd: Ac o blegid hynny, nid y gwîr *Meſſiah* ydoedd. A dywedant ymmhellach; pan y daethai 'r Jeſu, yr hwn y mae rhai yn ei alw r gwîr *Feſſiah*, efe a ddechreuodd yn y man dynnu i lawr ein Cretydd ni a derchafu un o'r Eiddo ei hûn: Ac am hynny nid y Gwir *Feſſiah* ydoedd Felly yr ymddibynai rhai o honynt, eithr eraill a wrthnebent hyn. Eithr hwy a aethant o'r ymddadl hon i un arall ynghylch ei Rieni: cyd gordiaſant i gyd yn hyn, ſet mai o wyryf ferch y genid efe, yn ôl Prophwydoliaethau y Prophwydi yn yr hên Deſtament, ac yn hyn hefyd, y genid o'r fath wyryf-ferch ac a fyddai gwael ei bri, ai Rhieini, ymmhlith eu cenedl hwy, megis ac i'r oedd *Mair Forwyn* yr hon a Eſgorodd ar Jeſu Prophwyd mawr o Dduw, Ac o herwydd hyn, bagad o honynt a ogwyddaſſant i debygu fôd Criſt wedi dyfod eithr nis terfynnaſſant ddim ar hynny, eithr gadel o honynt hynny hyd y dydd neſſaf, pan ymgynullent ynghyd drachefn.

Y pedwaredd Dydd ar Cymanfa wedi ymgynnull ynghyd yr ymholwr a ymofynodd pa beth a dybygent hwy ai oedd Criſt wedi dyfod, ai nid oedd: dywedaſſant, eu bôd hwy a'r dŷb i fod efe wedi dyfod. Eithr attebaſant yn llyn, os da-

ethai

ethai ef, nid oedd ef neb arall onid *Elias*, o herwydd dyfod o *Elias* gynt mewn Cadernid ac Awdurdod mawr y datganodd, ef hyn gan Lâdd o hono Offeiriaid *Baal* ac o ran gwplâu o hono y Scrythyrau, ymofododdd yn ei erbyn ef *Ahâb* a *Jezabel*. Ac yn y modd hynny, cyfrifent y dyn yma yr hwn yr ydys yn alw 'r Jefu, mai 'r un ac *Elias* oedd ef, heb law hyn, dywedai rhai eraill eu bod hwy o'r dyb ei fôd efe yn rhagor na Dŷn marwol, o herwydd ffgyn o honaw i'r Nefoedd môr rhyfeddol, y peth y welodd rhai o'n Henafiaid, a hyn oedd y cwbl ac y wnaed y pedwaredd dydd.

Y Pummed dydd, A'r Gymanfa ynghyd, aethant ynghylch yr un ymddadl a ymrefymaffant oi blegid y dydd o'r blaen. Felly cymeraffant yr un ymofyniad drachefn, mal attebent rhai a ddywedaffant mai nid *Elias* oedd y *Meffiah*, y cyfryw ac oedd wrthnebol o dŷb ymhonnaffant y cariad ar gofal oedd gan *Elias* er lleffiant eu Cenedl hwy; efe a adawodd ei ddifcybl *Elifha* ar ei ôl i ddyfcu ac Athrawiaethu 'r bobol: A hyn a gyfrifent i fod yn fwydd y *Meffiah*. A rhai ymma oedd y rheflymmau pennaf i gynnal eu tŷb. yn yr un dydd Brydnhawn daeth ymofyniad yn eu plith hwynt, pa beth oedd efe yr hwn a lefarodd mai Mâb Duw oedd efe 'r hwn a groefhoeliaffid gan eu Henafiaid hwynt eithr o herwydd mai ymofyniad mawr oedd hwn yn eu plith, oedi affant yr yfyriaeth am dano hyd y dŷdd neffaf.

ſu iw ganlyn ef ac i hynny wneud ei Daith ef yn enbyd gerbron y *Twrc*, yr hwn oedd yn barod yn dechreu Sarhau wrth yr Haneſion ar Prophwydoliaeth oedd yn ei gylch ef. Ac er na Chymmerodd *Sabatai* ond ychydig mwy gydag e i'r Lleſtr etto Lluoedd or Juddewon a ymdeithiaſant ar hyd y Tir fel y gallent ei Gyfarfod ef drachefn *Yng Honſtantinopl*, Ar ba un yr oedd eu llygaid a'i hoff obaith yn diſgwyl, Ar Gwynt yn dal o'r tueud Gogleddig fel y mae 'n amla yn yr *Helleſpont* a *Thropontus*, *Sabatai* a ſu nam yn un Deugain Diwrnod yn ei Fôr ymdaith, ar Lleſtr heb gyrraedd iw Borthladd y chwaith, nid oedd ddim Rheolaeth gan y *Meſſiah* hwnnw ar y Môr ar Gwyntoedd, yn y cyfamſer ſe ddaeth y newydd i *Gonſtantinopl* fod *Meſſiah* yr Juddewon yn agos, a bôd y Bobl hynny wedi ymdda paru iw dderbyn ef ar cyfryw lawenydd diball, ac a wnaethen mewn lleoedd eraill lle y bafai ef ar *Grand Vizier* (y pryd hwnnw *Yng-Honſtantinopl* ac heb ymadel etto iw Gyrch i Gandia) yr hwn a glywodd Sôn a ſi mawr ynghylch y Dŷn hwnnw, ar Atreol ar Cynddeirogrwyad a godaſai oi herwydd ym mhlith yr Juddewon, tra yr oedd y Llong yn methu dyfod i Dir gan wyntoedd Gwrthwynebus, efe a ddanfonodd ddwy yſgraff gan Orchymmyn iddynt ddwyn *Sabatai Sevi* yn Garcharwr gyda 'n hwy ir Porthladd, a hwy wnaethant yn ol hynny a *Sabatai* wedi dyfod a Orchymmynwyd i'r Carchar tywyllaa ffeildia yn yr hoff Dre', ac i'r os yno ymmhellach i ddiſgwyl Barnedigaeth y *Vizier*. Ni dwigalonodd hyn Môr Juddewon y chwaith er cynddrwg croeſaw yr oedd eu Prophwyd yn i dderbyn, Eithrymgrythau ymmhellach yn eu Cred am dano fod hynny tuag at berffeithio y Prophwydoliaethau o'r cyfryw lethau ag oedd i Ddeiliaw oddiwrth ei anrhydedd a'i Argwyddiaeth ef; yr yſtyriaeth o hynny a wnaeth i'r rhai penna' ymmhlith yr Juddewon ymweled ag ef ai Hareithiau, ar un rhyw Gynneddfau a Pharch iddo yn y Carchar a phedſaſai ei wedd 'n Dderchafu ar Orſedd faingc *Iſrael*; Un *Amacago* wrth ei Enw, Gwr o Barch a bri ymmyſg yr *Juddewon* ac amryw eraill, a ſafaſant ddiwrnod cyfan oi flaen ef au Llygaid tuag i lawr, a'i Cyrph yn gogwyddo ymlaen, au Dwylo (a grochon ger ei fron ef, (y rhain iw ymddygiad Goſtyngedig

ig a Gwaſanaethgar yn y Gwledydd Dwyreiniol,) ni wna anweddusdra 'r lle na 'r Preſennol Warrogaeth, leihau dim ar eu huchel Feddyliau a'u Parchedigaeth tuag at ei Berſon ef. Yr Juddewon *Yng Nonſtantinopl*, oedd wedi myned mor gynddeiriog a gwallgofus ac oeddent mewn lleoedd eraill, Pob Maſnach a Marchnatta wedi 'i Wahardd; Ar ſawl oedd yn Dyled Arian i eraill, nid oeddynt yn gofalu am wneud Foddlondeb yn y Byd am danynt Ym mhlith y cyfryw yr oedd rhai yn nyled eu Marſiandwyr ni yn *Galatia*, y rhai na wyddent pa fodd ei gael eu Harian, nailla'i o ran eu budd, ai ran eu Manyldra, Hwy a feddyllaſant yn Addas i ymweld a Sabatai, Gan wneud eu Hachwyniaeth i amryw o'r Juddewon ar ei Ddyſodiad ef, iddynt fod cyn hefyd au twyllo a'i Colledu am eu heiddo, a dymuned arno ef wneud y peth yn gydnabyddus iw Ddeiliaid, a bod yn wiw ganddo eirioli amryw fodlondeb iddynt; Ar ba Ertyniad *Sabatai* yn gyflawn o ſerchowgrwydd a gymmerodd ei Bin mewn Llaw ac a ſcrifennodd i'r yſtyr Canlynol.

I bob Genedl yr Juddewon, y rhai ſy 'n diſgwyl ymddangoſiad y Meſſiah, *ac Jechydwriaeth* Iſrael, *Llangnheddyf byth heb ddiwedd. Fe ddarfu ſyngwneud i yn gydnabyddus fod amryw o honoch chwi yn Nyled y* Saeſon *Genedl*; *Ni a welwn yn Gyflawn ac yn uniawn i chwi wneuthur iddynt gyflawn fodlonrwydd am ddim ac yr ydychwi yn ddyledus iddynt: Os y chwi a ommedd ufuddhau i ni 'n hyn o beth, Gwybyddwch na bydd i chwi ddyfod i mewn gyda ni i Lawenydd ein Harglwyddiaeth.*

Sabatai Sevi, yn y modd hyn a arhoſodd yn Carcharor *Yng Gonſtantinopl* tros yſpaid dau Fis, ac yn Niwedd hynny o amſer Ar *Vizier* yn Arwyddoccau ei Daith i *Candia*, wrth yſtyriaid y Swn ar Anghydfod a wnaethai preſenoldeb *Sabatai* yn barod *Yng Nonſtantinopl*, fe a feddyliodd na byddai diogel i adel ef yn y Brif Ddinas, tra y byddai 'r Senior mawr ac yntai ei hunan oddiyno: Can hynny efe a newydiodd Gorchar ir *Dardanelli* neu Gaſtell *Abdos*, yr hwn ſydd o Du *Europia Helleſpont*, gyferbyn a *Seſtos* lleoedd Arddechog. Mewn Prydyddiaeth *Groeg*, ar ſymudiad hwnnw ar Sabbatai Sevi o waeth Carchar i fann lle 'r oedd yr Awel

ei Jachuſach, yr hyn a gryſhaodd yr Juddewon yn ei goglud o'r *Meſſiah*, gan dybiaid nad oedd yngallu 'r *Vizier*, na neb o Rwyddogion y *Twrc* wneud niwaid yn y Bŷd iw Gorph ef, ac o de na baſent hwy byth yn gadael iddo fyw cyhyd o amſer yn gymmaint a bod eu Prif ymadrodd hwy i roddi heibio bob math a r wan obaith ynghylch eu Hadfeiliad yn eu cyſiwr, drwy Farwolaeth rhyw un yr oeddyd yn ei ofni, yr hwn a ddylaſant hwy 'n amgenach i gyſlawni ar *Sabatai*, yr hwn a ddarfuaſai iddo nid yn unig ddatgan ei hunan yn Frenin *Iſrael*, Eithr efe a Gyhoeddoedd hefyd Brophwydoliaethau Tynghedfennol yn erbyn y *Grand Seignior* a'i Deyrnaſoedd yr yſtyriaethau hyn ac eraill oedd yn Deilliaw, ar Juddewon yn heidio 'n niferoedd mawrion at y Caſtell, lle 'r oedd efyn Garcharor, nid yn unig o Parthoedd y Gymmydogaeth, eithr hefyd o *Poland*, *Germani*, *Leghorn*, *Venice*, *Amſterdam*, a mannau eraill lle i'r oedd yr Juddewon yn preſwylio; Ac yntau a gyfrannodd arnynt oll, megis am eu Traul au Llafur yn eu Hymdaith, *Sabatai* meddaſ ai llwythodd hwy â helaethlawn Fendithion, gan addo iddynt Gynnyddiad o'i Heiniar, a meddiannau helaeth yn y Tir Sanctaidd. A chymmaint oedd ymgyrchiadau 'r Juddewon i'r lle hwnnw, hyd oni teddyliodd y *Tyrciaid* wneud elw o honynt, nid yn unig codi ymmhris yr ymborth, eu Llettyau, ac Angenrheidiau eraill; Ond ni adawent i neb gael golwg ar *Sabatai*, heb roddi iddynt Arian, gan ddal y pris weithiau 'n bump Dollar, ar amſeroedd eraill yn ddeg, mwy neu Lai, gan farnu 'n ol eu gallu, neu gynneſrwydd tuag at y Gwr, ac er mwyn yr ynnill ar hudd a ddae ir *Tyrciaid*, oddiwrth y peth, ni ddanfonent ddim achwynion na newyddion ynghylch hynny i *Adrianapol* am niferoedd y Bobl a ddeuent i ymweled ag ef, neu beth oedd Rheſymmau 'r Juddewon o herwydd y peth yn y lle hwnnw, eithr hwy a ymddygent eu hunain yn gymwynaſgar tuag attynt, gan gyd-ddwyn a'n hwy, yr hyn a wasanaethodd er Profedigaeth ymmhellach i rwydo 'r Bobl druain hynny 'n eu Crêd am y *Meſſiah*.

Sabatai yn y cyſamſer a gâdd odſa i Gaſglu a Phennodi ſtordd newydd o Addoliant i'r Juddewon, ac yn enwedigol pa fôdd i gadw a chynnal Dŷdd er Anedigaeth ei a roddei ef iddynt fel hyn.

Fy

Fy Mrodyr am Mhobl Gretyddol Trigolion Dinas Smyrna Arddrchog lle mae 'n byw wyr Gwragedd a Theuluoedd, Tanghneddyf y tyddo i chwi oddiwrth Arglwydd y Tangnheddyf, ac oddiwrthwyi, ei Anwyl Fab *Solomon* Frenhin yr wy 'n Gorchymmyn i chwi ar y Nawfed Dydd o Fis Ab (yr hwn yn ôl ein cyfri ni y flwyddyn honno oedd yn Atteb Mîs *Mehefin*) nefa fy 'n dytod Gwnewch hynnw 'n ddydd Gwahoddedigaeth o Lawenydd mawr, Ai Gyffegru, ynghyd a Gwleddau ar bob Danteith twyd a Diodydd hyfryd, amryw Ganhwyllau a Lufernau, A Pheroriaeth à Chaniadau, o herwydd mai Diwrnod Ganedigaeth *Sabatai Sevi* ydyw, uchel Frenhin goruwch holl Frenhinoedd y Ddaiar. Ac am achofion llafurio ach Cyftredinol orchwilion eraill, gwnewch fel y bae gweddus i chwi ar ryw wyl arall, ai bod hi yn anghyfreithlon i ymgyteillachu ar Chriftnogion y Diwrnod hwnnw, bod eich ymddiddanion ynghylch pethau difaiw; Pôb Gwaith fydd waharddedig, eithr dadleinio Offerynnau Peroriaeth fy Gyfreithlon, hyn agaiff fôd yn fytweddeich Gwed diau ar y Ddŷdd Gwyl hwnnw. Yn ôl i chwi ddywedyd, Bendigedig y fych di o Dduw Sanctaidd! Yno ewch rhagoch gan ddywedyd, Di an dewifaift ni o flaen yr holl Bobloedd, an Ceraift ni, ac ymhyfrydaift ynom, ac an Daroftyngaift yn fwy nag an Genedl, ac an fanctteiddiaift ni a'th Ordinhadau, ac a'n dygaift yn ages i'th wafanaeth a Gwafanaeth Ein Brenhin, Dy Sanctaidd Enw mawr ac Ofnadwy a Gyhoeddaift yn ein plith; Ac a roddaift i ni o Arglwydd yn ôl dy Garedigrwydd, amfer o Lawenydd, a Gwyliau, ag amfer Gorfoledd, ar Diwrnod hwn o Gyffur, er Cyhoedd ymgynnull Sanctteiddrwydd, am Anedigaeth y Brenhin *Meffiah Sabatai Sevi*; dy wafanaethwr a'th gyntaf Anedig mewn Cariad, trwy ba un yr ŷm yn Coffau ein Dytodiad o'r *Aipht* ac yno bydded i chwi Ddarllain am eich gwers yn yr ail, ar Drydydd Rennod o *Deuteronomy* hyd y 17 Adnod gan appwyntio 5 o wyr iw Ddarllain mewn Bibl perffaith ac anllygredig; Gan roddi at hynny Foreuol Fendithion, megis y mae'nt wedi 'u gofod am Ddyddiau Gwylion, ac am y wers o'r Prophwydi a Ddarllennir yn y Synagog bob Dydd, chwi gewch Ddarllain y 31 Rennod o *Jeremiah* at eich Gweddi a elwir

muftaff

Muſtaff a arferir bob Dydd Sabbath, yn y Synagog ar bob Gwyl bennodol, chwi a gewch gyſſylltu yr Wyl breſennol ynghyd ar rhei'ny yn lle Chwanegiad yr Aberth, wrth ddychwelyd yw le'n ol, rhaid i chwi ddarllain a lleferydd uchel, a Llaiseglur. y 95 Pſalm. Ac i'r moliadau cynta'n y Bore, yn canu Pſalm 91. A chyn Canu y Pſalm 98, ail Adroddwch y Pſalm 132, Ond yr Adnod ddiwaetha' lle y dywedir am ei Flynion, mi ai Dillada hwy a gwradwydd; eithr ei Goron a flodeua arno ef, yn lle arno ef [ei hunan] darllennwch ar y Goruchai; Yn ol hynny y canlyn y 126 Pſalm, ac hefyd y 113 hyd 119.

Ar Gyſſegriad y Gwin ar y Noſwyl, rhaid i chwi grybwyll y Cyſſur, yr hwn yw Dydd ganedigaeth ein Brenhin y Meſſiah, *Sabatai Sefi* dy Waſanaethwr, a'th Fâb Cyntaf anedig, gan roddi 'r Fendith fel y canlyn: Bendigedig wyt ti ein Duw ni, Brenhin y Byd, yr hwn a wnaeth i ni fyw: ac wyt yn ein amddiffyn ni, ac a'n cynhaliaiſt yn fyw hyd yn hyn. Ar y Noſwyl rhaid i chwi ddarllain hefyd yr 81 Pſalm, hefyd y 132 ar 126 Pſalm, y rhai fydd wedi Appwyntio i'r mawl Boreuol. Ar Dydd hwn a fydd i chwi er Coffadwriaeth a fydd yn Ddydd Cyſſegredig gyhoedd trwy 'r holl Oeloedd, ac yn Dyſtiolaeth Dragywyddol rhyngwy i a Meibion Iſrael.

Andite Audiendo & Manducate bonum.
Gan wrando gwrandewch, a mwynhewch ddajoni.

Heblaw 'r gorchymmyn hwn, ar Drefn o Weddiau er Cyſſegr gyhoeddiad ei Anedigaeth, eſe a roddodd i lawr hefyd Reolau eraill er gwaſanaeth beunyddiol, ac yn enwedig eſe a gyhoeddodd Faddeuant a Rhagorfraint i bob un ag y Weddiau wrth Fedd ei Fam, megis ped faſai e 'n cymmeryd arno 'i hunan fyned yn Bererin i Weddio, ac i Aberthu i *Gaerſalem.*

Ymddygiad a Duwiol-fwyddau 'r Juddewon oedd yn cynnyddu fwy fwy tuag at y gau Feſſiah hwn, Ac nid Penaethiaid y Ddinas yn unig a aeth i ymweled ag ef, ac i gynnyg eu gwaſanaeth iddo ef yn ei gaethiwaid, Eithr hwy a drwſiaſant hefyd eu Synagog mewn Llythrennau Aur S. S. Gan wneuthur

thur iddo ef Goron ar y mur, wedi i amgylchu, ar 91 *Pſalm* o hyd yn Llythrennau têg, Gan Briodoli 'r Graddau hynny ar *Sabatai*, ac Eſponio 'r ſcrythyrau yn y cyſtryw foddion er ffaffrio i ymddangoſiad, fel ac y gwnawn ninnau am ein Jachawdwr: Pa fodd bynnag, yr oedd rhai o'r Juddewon heb fynd i gyd o'i Co, ymmyſg pa rai yr oedd un Chocham yn *Smyrna* yr hwn oedd wreſog am 'y Gyſraith, ac er mwyn Dajoni a Diogelwch ei genedl: A chan ddal ſulw pa wyllineb yr oedd yr holl Bobl Juddewaidd wedi rhedeg yngwyſg eu pennau ar y fath ſyſtaen a chred wael ynghylch ei *Meſſiah*, gan roi heibio'u Gorchwylion au Marchnadoedd, a'u ffordd o fywiolaeth, gan Cyhoeddi allan Brophwydoliaethau am eu Teyrnas ar ddyfod; am eu diangfa allan o greulondeb y *Tyrciaid*, Ac Arwain y *Grand Signior* ei hunan i Gaethiwaid mewn Cadwynau; Y cyſtryw bethau oedd enbydus o Euogrwydd a'r Cyflwr yr oeddynt ynddo 'n byw fel y gallid eu hunion goſpi hwy am Fradwriaeth a gwrthryfelgarwch, a'u gadael hwy i Drugaredd a Barnedigaeth; yr hyn a'r y drwg dyb lleia 'nghylch matterion o'r Natur yma hwy 'fyddent arferedig o ddadwreiddio Teuluoedd, a Dymchwelyd trigfae'u Pobl eu hunain; chwaethach Cenedl yr Juddewon; Ar ba rai y byddai dda gan y *Tyrciaid* gael rhyw Achlyſſur iw yſpeilio o'i meddiannau a'i Golud, ac euog farnu eu holl Genedl i Gaethiwaid tragwyddol. Ac yn wir Rhyfeddod mwy oedd na baſent o achos ymddangoſiad *Sabatai* yn Annog y *Tyrciaid* i gymmeryd mantais oddiwrth yr holl Afradlondeb a wnaethant, ac wrth hynny eu dinyſtrio eu hunain, ac i gymmeryd nifer o Arian oddiarnynt, a rhoi eu holl Genedl dan Bridwerth i'r *Tyrciaid*, oni baſai i'r pethau hyn ſyrthio yn y ffordd, a throi pob peth yn wawd ac yn watwor gerdd ac na fae gwiw ganddynt ddal ſulw ar bethau mor wael ac iſel, y Chocham hwnnw wrth yſtyriaid y pethau hynny, ac i gael o hono ef ei lanhau 'u hunan oddiwrth euogrwydd Gwaed eu Gydwladwyr, ac na byddai iddo ef a wnelai na dim llaw yn eu Deſtrywiad, ef aeth o flaen y Cadi ac a Gyhoeddodd ei feddwl yn erbyn yr Athrawiaeth newyddgan ddatgan nad oedd ganddo ef Law yn y Bŷd yn golod i ſynnu y *Sabatai* hwnnw, ai fod o'n elyn a'i holl Ddilynwyr,

y

y rhydd did hyn a gymmerodd y Chocham, a lidiodd yr Juddewon yn greulon o herwydd y Sarhâd, ac ni thybient Goſpedigaeth yn y Bŷd yn ddigon iddo, yn rhy doſt yn erbyn y tath Droſeddwr a Chablwr eu Cyfraith, a Sancteiddrwydd y *Meſſiah*, gan hynny trwy Arian a Rhoddion a roeſant ir *Cadi*, gan achwyn ar y Chocham o herwydd eu Anufuddod o'r Natur ucha yn erbyn eu Llywodraeth, felly hwy gawſant Farnedigaeth yn ei erbyn gael Eillio ei Fart ef, a chael e farnu i'r Liongau, neu 'r *Gallies*. Erbyn hyn nid oedd o'm yn eiſiau mwy at ymddangoſiad y *Meſſiah* ai gyhoeddus dyfodiad, ond eiſiau Preſennoldeb *Elias*, Dyfodiad pa un yr oedd yr Juddewon yn ei Ddiſgwyl beunydd *i. e.* bob awr eu mytyrdodau au bwriadau gwreſowglyd, a phôb Breuddwyd neu Goelcerdd, au Pennau yn meddwl tod *Elias* yn dyfod, yr oeddynt yn taeru ac yn rhoddi allan i weled ef mewn rhai mannau mewn amryw ddull a moddion nad ellid ei Adnabod yn hawdd, nes dyfod y *Meſſiah*, Canys y Goelgrefydd oedd wedi rhedeg cymmhelled au ſiccrhau'n eu myſg, eu bod hwy 'n eu Teuluoedd cyftredin yn goſod Bwrdd i *Elias* y Prophwyd, hwy wahoddent hefyd Bobl dlodion iw gwlêdd gan adael y penna 'i *Elias* yr hwn a feddylient hwy tod yn Anweledig ymyſg y Gynnulleidfa, ai tod e'n Bwytta ac yn yfed yn ddidorr or Dyſclau ar Cwppannau, Rhyw wr ymmyſg yr Juddewon a orchymmynodd iw Wraig yn ol Swpper fel hyn, i adel Cwppanaid o win yn llawn, ar Bwyd i fetyll tros nos fel y cae *Elias* wlêdda, ac i lawenychu ei hunan; A chan godi yn forau dranoeth; efe a ſiccrhaodd i *Elias* ymborthi 'n ddanteithiol, ac er Arwyddoccâd oi Ddiolchgarwch Cymmeradwy ef am dano, efe a adawſai 'r Cwppan yn llawn o Olew yn lle 'r Gwîn. Y mae arfer Bennodol ym mhlith yr Juddewon brydnhawn ddydd Sabbath, i adrodd amryw foliadau i Dduw, (a elwyd Havalia) yr hyn ſy 'n Arwyddoccau, Doſparth a Gwahaniaeth ar y Sabbath oddiwrth y Diwrnodau llygredig (fel y galwant hwy) ar moliadau hynny a gyflawnant hwy yn y mŏdd hyn, un a gymmer Gwpan ac ai lleinw yn llawn o wîn ai dywallt hyd yr holl Dŷ. Gan ddywedyd, *Elias* y prophwyd, *Elias* y Prophwyd, *Elias* y Prophwyd tyred ar frys attom ni ar *Meſſiah*, Mâb Duw, a *Daf-*

ydd;

ydd; gan haeru fod hynny 'n gymmeradwy gan *Elias*, Ac nad oes arno ef ffael un amſer o Amddiffyn y Teulu hwnnw, y ſawl ſydd wedi 'u Haddunedu eu hunain ſelly, a'u bod hwy 'n cynnyddu mewn Bendithion rhagllaw. A llawer o bethau eraill y mae 'r Juddewon yn haeru yn wradwyddus ar Elias nad ym gymheſſur i'w traethu allan, ym mhlith pa rai y mae un peth nad yw bell oddiwrth em pwrpas ni; Canys pan ſo'nt yn Enwaedu i'r ydys yn goſod Cadair mewn trefn i Elias, a Sebatai Sevi y wahaddaſid unwaith i Smyrna i Enwaediad Mâb Cyntafanedig un Abraham Culliere Câr i Sabatai Sevi a phob peth wedi 'u wneud yn barod i'r Enwaediad, *Sabatai Sevi* a gynghorodd Rieni 'r Plentyn î Attal ychydig hyd oni roddai ef iddynt Orchymmyn, ac ynghylch pen hanner awr, ſe barodd iddynt fyned ym mlaen yn eu gorchwyl, a thorri blaen-groen y Plentyn, yr hyn a gyflawnwyd yn ddiattreg, er llawenydd a bodlondeb eu Rieni: Hwy a ofynnaſant iddo wedi hynny beth oedd yr achos a wnaeth iddo ef beri attal y peth tros hynny o amſer? Ei Atteb oedd, na ddarfuaſai i *Elias* hyd hynny gymmeryd ei Eiſteddle, eithr cyn gynted ac i'r oedd ef wedi 'i ſefydlu 'i hunan, ſe a roeſai iddynt Orchymmyn i fynd rhag eu blaen, ac yr awrhon *Elias* a ymddangoſai 'i hunan cyn pen hîr, gan gyhoeddi newydd o Jechydwriaeth Cyffredinol.

Hyn oedd y Dyb gyffredinol ym mhlith yr Juddewon, ac maî *Sabatai Sevi* oedd y *Meſſiah*, a chwedi dyfod yn un o Erthyglau 'u Creſydd, nid oedd anhawdd eu perſwadio, fod *Elias* wedi dyfod yn barod, au bod hwy 'n ei Gyfarfod yn eu Dyſclau, yn y tywyllwch, ac yn eu hyſtafellydd, neu ym mhale bynnag arall yn anweledig, yr un modd ac y mae 'n Pobl Gyffredin ninnau Ym Mrydain am wâg Yſprydion; Ellyllon neu 'r Tylwyth teg. Canys ſelly y digwyddodd pan wnaeth un *Solomon Cremona* Wledd fawr, efe oedd yn byw yn *Smyrna*. Ac a wahoddodd Benaethiaid *Smyrna*, ac yn ôl iddynt fwyta eu gwala, un a neidiodd i fynu, ac a haerodd iddo ef weled *Elias* ar y Fagwyr, ac ar hynny efe a ymoſtyngodd ac a ymgrymmodd iddo gyda 'r Ooſtyngeiddrwydd ar Uſudd-dod mwya: Rhai eraill yr un ffunyd a daeraſant iddynt weled rhyw beth, au pennau wedi Yſcafnhau gan bwys gormodedd o

Wîn

Wîn, mewn moddion go ſalw i gydnabod gwahaniaeth rhwng trummedd Cyigodion a phethau o amgyffred; Hwy a gyttunaſon yn ddiyngwrth ar y Gwrthrych, ac nid oedd un o'u Cymdeithas a wadai na welſent hwy ef, âc yr oedd pob un o honynt ar y drummedd ddiſymmwth honno, au trawodd hwy yn y fath Ofn a dychryn arſwydus; nes i'r rhai ffraetha 'n eu myſg ollwng eu Taſodau trwy Lawenydd a Gwîn, gan lwybreiddio eu Hareithiau au Cerddau moliant, au Gweithredoedd o Ddiolchgarwch i *Elias*, Ymddwyn yn garedigol dan Ymgyfarch ac ef; fel y gwnae Gwyr Itaingc mewn rhyw fath o Fyfyr dodau Haerllug tu ag at eu Carſiadon, Juddew arall *Yngbonſtantinopl*, a roddodd allan iddo ef gyfartod *Elias* yn yr Heol yno ryw Ddiwrnod, yr un wiſgiad a *Thwrc*, ac iddynt gyd ymddiddan dros dro ynghyd, ac ynghwanegu eu Cyfarchwyliad o amryw Ceremoniau oedd wedi 'u heſgeuluſo ac yn enwedig y *Zezit. Num.* 15, Adnod 38. *Llefara wrth Feibion Iſrael, a dywed wrthynt am wneuthur iddynt Eddi ar Odre eu dillad, trwy eu Cenedlaethau; a rhoddant bleth o ſidan glâs ar Eddi y godre.* Hefyd yn *Leſiticus* 19. 27, *Na thalgrynwch odre ei b pen, ac na thorr gyrrau dy Farf.* Yr ymddangoſiad hwn o'r *Elias*, a gredwyd gynta ac y Cyhoeddwyd a phob un yn ufuddhau i'r Weledigaeth, gan roddi Eddi ar odre eu dillad; ac am eu pennau er eu bod hwy 'n arferedig bob amſer o'i Heillio, yn ôl Arfer y *Tyrciaid* a Phobl y Dwyrain, a hwy a adawſant iw gwallt dyfu, y peth oedd drwm ac Anhawdd eu ddiod lef i rai oedd anferedig ou wiſgo felly, etto hwy a ddechreuſant adnewyddu 'u hen Ceremoniau eym mhelled ac y bae boſſibl iddynt, a phawb yn gadael Cidyn o bob tu iw ben megis harddwch iw weled, îs law eu Capiau, Yr hyn y ſu yn ſuan ar ôl hynny yn Arwydd o neillduaeth rhwng y Credadwy ar *Rophim*, Enw gwael yn Arwyddocau 'n gymmaint Anghredadwy ar digrêd, yr hwn a roddwyd i'r rhai nad oeddynt yn Cyffeſu Sabatai i fod yn *Feſſiah*; Ar ſawl ni ddilynai 'r Arfer honno a gyhoeddyd a bygythion *Elias*, Plant yr Juddewon y rhai oedd i ddyfod oddiwrth yr Afon *Sabothaidd*, fel y crybwyllir yn yr Ail o *Eſdras*. Pen 13. Y bydd llidiawgrwydd yn erbyn y rhai a fyddo Euog o Eſceuluſtra.

Eithr i Ddychwelyd trachefn at *Sabatai Sevi* ei hunan yr hwn

hwn oedd trwy 'r holl amſer yn Garcharor Ynghaſtell *Abydos*, ar yr *Helleſpont* gan ei Ryfeddu a'i Fawrygu gan ei Frodyr, a mwy o Anrhydedd nac or blaen, a Phererinion o bob parth yn ymweled ag Ef, cymmhelled ag yr Aethae sôn am y *Meſſiah*, ymyſg erail un *Nehemiah Cohen* o *Poland*, yr hwn oedd o Enw anrhydeddus, am ei yſgolheictod mawr yn yr *Hebreag*, *Syriaeg* ac Iaith y *Caldeaid*, a chwedi ei athrawiaethu ei hunan yn hylithr ynghabaliau'r *Rabbiaid*, ac oni basaî i *Sabatai* ei Ragflaenu yn ei ſwriadau, *ei* fod e'n ei dybiaid ei hunan mor addas i chwareu rhan y *Meſſiah* ar llaſ. Pa fodd bynnag hi aethai 'n rhy ddiweddar i ymmhel ar peth, Sabatai oedd yn barod yn berchennog o un rhan ar ddeg o'r gyfraith, trwy fod yn Feddiannol o'r ſwydd, a chyda hynny gâlonnau a Chrêd yr *Juddewon*, *Nehemiah* a Ymfodlonai ac ychydig Ymddibyniad a Charennydd ar *Meſſiah*, gan hynny i ddangos ei ſwriadau 'n well gael o hono Ymddidda ag ef yn ddirgel, ar ddau Athraw, neu Rabbiaid mawr ynghyd, hi a dyfodd yn Ddadl wreſog cyd rhyngddynt. Canys *Cohen* a haerodd mai 'n ôl yr Yſgrythr, ag Elponiad y Dyſgedigion arnynt, yr oedd dau *Feſſiah* i fod, ſef un ai Enw *Ephraim* a'r llall Ben *Dafydd*. Y cynta' a ddylaſai fod yn Bregethwr y Gyfraith, yn dlawd ac yn ddiyſtyr, ac yn Waſanaethwr i'r Ail, a'i Ragflaenawr; A'r llall oedd i fod yn fawr ac yn gyfoethog, ac i Ddychwelyd yr Iuddewon i *Gaerſalem*, ar Orſeddfaingc *Dafydd*, ac i weithredu a Chyflawni pob gorfoledd a Buddugoliaeth, yr hyn a ddiſgwyliir oddiwrth Sabatai. *Nehemiah* oedd fodlon i fod yn Ben *Ephraim*, y *Meſſiah* tlodaidd a thrallodus, a Sabatai [am ddim ar a glywais i,] oedd yn ddigon bodlongar i'r peth fod felly: Eithr *Nehemiah* a achwynodd arno am fod yn rhy flaenllaw iw gyhoeddi y *Meſſiah* blaena' cyn bod gwybodaeth i'r Byd y gynta' am Ben *Ephraim*; Sabatai a gymmerodd y ſarhâd hwnnw cynddrwg, naill a'i o Falchder, neu feddwl am ei Anallu ei hunan, neu dybio am *Nehemiah*, os cennadid ef unwaith am *Ben Ephraim* y byddai iddo ef yn ſydyn gan ei fod ef yn un Môr Ddyſgedig, y perſwadiau e 'r Byd mai efe oedd *Ben Dafydd*, ni fynnai ef mewn modd yn y Byd, gydnabod na derbyn yr Athrawiaeth; *Ben Ephraim* am ſwyddwr Angenrheidiol: Ac ar hynny 'r

Ddadl aeth cyn boethed, ar ymryſon môr Anghymmodlon nes ir Juddewon ddal ſulw o'r peth. Y rhai a ddechreuodd ymbleidio ynghylch hynny yn eu myſg eu hunain, eithr Sabatai oedd ar Awdurdod mwys iddo, ai Farnedigaeth et a Orchſygodd, a *Nehemiah* a lyſwyd megys rhwygwr, a Gelyn i'r *Meſſiah*, yr hyn yn ôl hynny a briſiodd yn ddihenydd a Chwymp y Twyllwr hwnnw.

Nehemiah wedi ei ſiomi felly, ac yn Wr mewn Awdurdod, ac o Yſpryd ſtyfnig, ni ymroddodd ei hunan ddim ond ymddial, ac i gyflawni'r peth yn llawn ese a gymmerodd Daith i *Adrianopl*, gan wneud y Penaethiaid mewn Awdurdod yno yn gydnabyddus o'r peth a Swyddogion y Llŷs; Y rhai (o herwydd y Budd yr oedd y *Tyrciaid* yn ei wneud oddiwrth y Carcharor yn y Caſtell ar *Helleſpont* na chlywſai ddim ynghylch yr holl Luoedd o Bobl, ar Prophwydoliaeth ynghylch gwrthgiliad yr Judddwon oddiwrth eu hufudddod ir *Grand Signior*, a chaen gymmeryd iw Gyngor amryw or *Chochams* y ſawl oedd anfodlongar ac anghredadwy yn hynny o beth, ac oeddynt hefyd bur wreſog tros eu Cenedl, ac yn ofni drwg ddibennion yr hir gynnyddiad gwallgofus oedd wedi Cynhyrfu yn eu myſg. Hwy a fuont cyn hyſed a dwyn ar ddeall ir *Chocham*, (yr hwn oedd yn amſer hwnnw yn Rhaglaw tan y *Vizier* neu Benſwyddog y *Twrc* yn *Candia*,) fod yr Juddew yr hwn oedd garcharor yn y Caſtell, a elwyd Sabatai Sevi, yn Ddŷn drygionus, ac a ſwriadodd hyd eitha' allu i lygru meddyliau 'r *Juddewon*, au troi oddiwrth ffordd eu Cyffredin tywiolaeth, au Hufudd-dod i'r Senior mawr; A chan hynny fod yn Angenrheidiol eglurhau i'r Bŷd y fath ddyn o Yſpryd Cynnenus a Therfyſglyd: Pan glybu 'r *Chocham* hynny, nid allai ef lai nag yſpyſu 'r peth i'r Senior mawr, aî holl gyflwr, Ymarweddiad Buchedd ac Athrawiaeth y gwr hwnnw yn gwbl. A chyn gynted ac y Deallwyd hyn, fe a ddanfonwyd Cennad yn ddiatreg i gyrchu Sabatai Sevi i *Adrianapol*. Y Cennadwr y gwnaeth i neges ar frys yn ôl arfer y *Tyrciaid* ac a ddygodd *Sabatai* mewn ychydig Ddyddiau i *Adrianopl*, heb ddim eſgufodion ymmhellach na chaniattai iddo Awr o amſer i gymmeryd ei Gennad a'i ffarwel ai Gyteillion, ai Ddilynwyr, ai Addolwyr,

y

y rhai erbyn hyn oedd wedi dyfod i eitha Anwadalwch eu Gobaith au Diſgwyliad.

Y *Senior* mawr yn y Cyfamſer wedi derbyn ychwaneg o Haneſion ynghylch gwallgof yr Juddewon, ac ymgymmyraeth *Sabatai* oedd yn hir ganddo am gael ei weled : a chyn gynted ac y daeth ef i *Adrianopl*, fe ai dygwyd ef yr awr honno ger bron y *Senior Mawr*, *Sabatai* a ac ymddangoſodd yn driſtjawn, ar Gwroldeb a ddangoſaſai yn y Synagôg oedd wedi cilio oddiwrtho, a chwedi gofyn iddo ef amryw ymholiadau 'n Jaith y *Twrc* gan y *Senior* mawr ; Ni ymddiriedai ef ddim cymmhelled ei Rinwedd ei *Feſſiah*, i ddatcan ei hunan yn Jaith y *Tyrciaid*, eithr efe a ddymmunodd gael Athraw Phyſygwriaeth i fod yn Ddeonglwr (yr hwn a droeſai o fod yn Juddew yn *Dwrc*,) yr hyn a gynhwyſwyd iddo, eithr nid heb watwargerdd rhai oedd yn ſefyll yn ymyl, o achos iddo ef gymmeryd arno i fod yn *Feſſiah* ac yn Fâb Duw, fel y gwnaethai e or blaen, hwy dybient y dylaſai ei Dafod ef fod yn llithrig mewn amryw yn gyſtal a pherffeithrwydd mewn Jeithoedd, Eithr y Seinior mawr ni fynai roi heibio nes dangos rhyw Wrthiau ger ei fronn, ac un o'i ddewiſiad eu hunan ; yr hyn oedd ar iddo ef ſefyll yn noethlymyn, ai ofod yn nodyn neu *Farco* ſlaen ei laethyddion hylaw, ac oni fennai 'r ſaethau ar ei Gorph, Eithr y byddai iw Gnawd ai Groen dderbyn y ſaethau megys Llurug heb wneud niwaid yn y Byd iddo, y *Senior* a gredai mae 'r *Meſſiah* oedd ef, ac mai ef oedd yr y yr oedd Duw yn ei ſwriadau i'r Arglwyddiaethau a'r mawredigrwydd yr oedd ef yn i gymmeryd arno. Eithr nid oedd gan Sabatai Ffydd hanner digon cref i ſefyll y Praw llymd doſt hwnnw, Gan hynny efe a wadodd ac a ymwrthododd Hawl i'r Teyrnaſoedd a Llywodraethau, gan addef nad oeddi ef ond Chocham cyffredinol, ac Juddew Tlawd, fel eraill, ac nad oedd dim Rhagorſaint na Rhinwedd yn perthyn iddo mwy nag i eraill. Y *Senior* mawr er hynny i gyd ni fodlonodd y Gvffes wael honno monno ef ; Gan Ddatgan, o herwydd iddo ef roddi Cyhoedd ſarhâd i Grefydd a Phroffeſwyr *Mahomet*, a dianrhydeddu Awdurdod ei Fawrhydi gan gymmeryd arno dynu oddiwrtho ef Randir fawr megis Gwlad *Paleſtine* ; Nis dihuddid y *Senior* mawr felly am y cyfryw feiau Brad-

wrus mewn ffordd yn y Byd oddigerth iddo ef wadu ei Gre-fydd Juddewaidd a throi 'n *Fahometan*, ac os gommeddai ef wneud hynny yr oedd Pawl yn ſefyll yn barod wrth Ddrws y *Seraglio* (neu lle cadwo 'r *Senior* mawr eu Ordderchwragedd) iw Ddihenyddio ef, *Sabatai* erbyn hyn oedd wedi 'm-ddaroſtwng hyd yr eitha, a chwedi ei yru at y Ddichell ddiwaetha, heb amau or lleia pa beth y wnae, ei gymmeryd ei Farwolaeth am y peth a wyddai fe fod ar gam, oedd yn erbyn natur, a Marwolaeth Dyn Gwallgofus, Efe a attebodd yn dra ſiriol, ei fod e'n fodloni droi i Grefydd y *Tyrciaid*, ac nid heb yn waetha, Eithr oi fodd ei hunan; gan ddwedyd fod ei Ddymuniad i gofleidio Proffes mo'r Ogoneddus; gan gydnabod i bod yn barch mawr iddo, gael y cyfryw odfa iw Addef ei hunan gynta 'n y Grefydd honno gerbron y *Senior* mawr. A dyma eitha ergyd yr holl Drwſt ar tertyſg oedd y wnaeth y ſiomwr gwael hwnnw a'i ganlynwr. Bellach Ddarllennydd, bydded wiw genit ymattal ychydig, a dyfal yſtyriaid y ſath ddychryn Ofnadwy, cywilydd a diſtawrwydd oedd tynghdefen yr Juddewon wedi 'u dwyn eu hunain iddo; a phan ddeallaſant yn ddiſymwth fod eu Gobaith gwedi myned heibio, ac mo'r Diodaidd, â ſalw oedd eu Tebygoliaethau au Haddewydion am Deyrnaſoedd newyddion, eu Gwleddoedd, eu ſwyddau Defoſiwnol, aeth heibio megys Hen Chwedl, neu Freuddwyd ynghanol y Nôs, ar cwbl wedi darfod, yr Juddewon a fyrthiodd ar frŷs, au Gobaith a ddiflannodd ymaith, heb gymmaint ag un Gair er eu Cyſſur, nag Eſgus oddiwrth *Sabatai*, Eithr yn Gyffredinol at ei holl Frodyr: Mai gorau oedd i bawb o honynt ymroi at eu Gorchwylion ai Marchnadoedd, ac eu wafanaethu eu Duw fel cynt, fod pob peth wedi i orphen ac oedd yn perthyn iddo ef, a bod Barn wedi i phaſio arno. Newyddion ei fod ef yn *Dwrc*, ar *Meſſiah* yn *Fahometan*, yn ſydyn aeth trwy holl Wlâd y *Twrc*, yr Juddewon a ſu ryfedd aruthrol ganddynt or peth, ac yn gywilydd arnynt iddynt goelio 'r fath reſymmau a pha rai y darfu iddynt en perſwadio eu hunain ac eraill, ac am y Diſcyblion a droeſant yn eu Teuluodd eu hunain. Hwy aethant yn warth ac yn Wradwydd yn yr Holl Dretydd oddiamgylch lle i'r oeddynt yn Preſwylio; Y Plant oedd yn gwawdio

ac

ac yn chwerthin am eu pennau, Gan fathu gair newydd yn Smyrna yn eu herbyn, *Poſtai*, a phawb a ddangoſai Juddew ai fŷs draw gyterbyn Pan ddae'n ei olwg, gan eu dirmygu au diyſtyru. Felly rhei'ny a hudwyd a thros hir amſer wedi hynny a fuant mewn anrhefn, yn ddiſtaw, ac yn alarus yn eu hyſprydoedd; ac etto llaweroedd o honynt a ſiccraent na throdd *Sabatai* yn *Dwrc*, ac nad oedd ond eu Gyſgod yn unig ar y Ddaiar, ac yn rhodio a phen Gwynn, ac mewn Gwiſg *Mahometan* Eithr bod ei Gorph a'i Enaid naturiol wedi gymmeryd i'r Neſoedd, yno i breſwylio hyd amſer Appwyntiedig cyflawniad y Rhyfeddodau hynny; ar dyb honno a dlechreuodd yn Cyffredin gymmeryd gwraidd, ar Bobl hynny gwedi ymroi na byddai i neb byth eu dwyn i jawn wybodaeth, gan arſer yr ffurfiau ar Rheolau Deſoſionawl a adawſai eu *Meſſiah Mahomedaidd* yn eu myſg: yn gymmaint oni orfu ar y Chochams o *Gonſtantinopl* rhag ofn i enbydrwydd y bai hwnnw, ymluſcu ar i fynu, a bod cynddrwg ar cynta', Hwy Fuog farnaſant greduniaeth o *Sabatai* fod yn *Feſſiah*, yn golledig, gan eu Gorchymmyn hwy i Ddychwelyd iw hên ffordd o wafanaethu Duw tan boen Eſcymundod, Cynnwyſiad yr 'ſcrifen awdurdodawl fy fel y Canlyn.

I chwi ſy a gallu Offeiriadaeth, a ſydd wybodol a Dyſgedig, a mawrfrydig Lywodraethwyr, a Th wyſogeon, y rhai ſy'n byw yn Ninas Smyrna, Bydded i'r Hollalluog Ddaw eich amddiffyn chwi Amen; *Felly y mae ewyllys.*

'YR rhain yw'n Llythyrau ni yr ym yn eu danfon i ganol eich Preſwylwyr, o achos rhyw chwedlau Ter-
'tyſglyd a glywſom ni oddiwrth Ddinas eich ſanct-
'eiddrwydd. Canys y mae rhyw fath o wyr yn eich myſg
'chwi, y rhai ſy n eu cadarnhau 'u hunain yn y bai hwn, gan
'Ddywedyd, Bydded tyw 'r cyfryw un, bydd tyw 'n Bren-
'hin, gan ei fendithio et yn eu Synagogau cyhoeddus bob Dydd
'Sabbath. Ac hefyd yn cyffyllttu Pſalmau a Hymnau a
'ddychmygodd y gwr hwnnw am rai Dyddiau, a rheolau
'llwybreiddiaidd i weddio, y peth ni ddyiae mor bod, ac

'etto y maent hwy 'n dal yn gyndyniog yn hynny ; Ac wele
'n awr yn gydnabyddus i chwi. pa ddyfroedd chwyddedig a
'Lifeiriodd tros ein Eneidiau ni o'i blegid ef ; Oni basai
'Drugareddau 'r Arglwydd Dduw, y rhai sydd heb ddiben,
'a haeddedigaethau ein Cynteidiau ein Cynnorthwyo ni, Tro-
'ed *Israel* a fasai wedi ddadwreiddio gan eu Gelynion, A
'chwithau etto 'n dal yn gyndynniog mewn pethau nad oes
'Gynnorthwy, eithr yn hyttrach niwaid, yr hyn Duw ai tro-
'tho heibio ymchwelwch chwithai gan hynny, Canys nid
'dyna 'r jawn ffordd, eithr rhôddwch y goron yn ol ei hên
'Ddefod ac Arfer eich Tadau och blaen, ar Gyfraith, ac na
'syflwch oddiyno . Mae gennym ni Awdurdod i orchym-
'myn i chwi, na byddo i chwi tan boen Escymmundod a
'Chospedigaethau eraill ar i chwi Ddiddymmu 'r holl ordin-
'hadau a'r Gweddiau, yn gyital y rhai a roddwyd i chwi o
'Enau 'r Gwr hwnnw, a'r rhai a gyssylltwyd attynt gan
'eraill, dirymmwch Hwy, fel na Choffaer monynt mwyach,
'nac unwaith fyned i mewn i'ch calonnau, Eithr Bernwch yn
'ol Hên Orchymmynion eich Teidiau, gan ail Adrodd yr
'unrhyw wersi a Gweddiau bob Sabbath, fel y bu Ddefoded-
'ig, ac hefyd weddiau tros Frenhinoedd a Rheolwyr Eneini-
'og, &c. A Bendithwch y Brenhin *Sultan Mahomet*, ca-
'nys yn ei Ddyddiau ef y bu Jechydwriaeth mawr yn *Israel*,
'ac na wrthryfelwch yn erbyn ei Deyrnas ef, natto Duw
'iwch wneud hynny, Canys er myned y cwbl heibio etto 'r
'cynnwrf lleia eill fod yn Achosion o Eiddigedd, a eill dyn-
'nu difrawd a dinystr ar eich pennau'ch hunain, ac ar eich holl
'garedigion a'ch cyfneseifiaid. Gan hynny, rhowch heibio
'feddwl am y Gwr hwnnw, ac na ddeillied cymmaint ai
'Enw allan och genenau. Gwybyddwch oni ufuddhewch
'i ni yn hyn, fe geir Gwybodaeth pwy a'pheth yw 'r gwyr
'hynny, y rhai a ommeddo gyd-uno a ni, ac mae'n ymroad
'ni iw herlid hwy, megis y mae 'n Dyledswydd, y sawl a'n
'Gwrandawo ac a ufuddhao i ni, bydded ei Fendithion yr
'Arglwydd ddisgyn arno ef. Dyma Eiriau 'r sawl sydd yn
'deusyf eich Tangnhefedd a'ch dajoni, y rhai ar Ddydd Sul y
'pummed o Fis *Sevat* sy'n 'scrifennu ein Henwau *Yng-Hhon-*
'*stantinopl*,

Joam

Joam Tob, Fab *Cananiah Ben Jacar*.
Iſaac Alnatagna. *Eliezer Caſtile*,
Joſeph Kezib, *Eliezer Greiſon*,
Manaſſeh Barnardo, *Joſeph Accoben*,
Kaleb Fab *Samuel* *Eliezer Aluff*,

Tra y parhaodd yr holl Ddamweiniau ar Tramgwyddiadau hynny *Yng Honſtantinopl*, *Smyrna*, *Abydos* ar yr *Helleſpont*, ac *Adrianopl*, ar Juddewon wedi rhoi heibio eu Marſiandiaeth, ac ymofyn pa bris yr oedd Mainach yn ei ddwyn, a Marchnadoedd bethau eraill, eithr llenwi eu Llythyrau i *Itali*, a mannau eraill, heb ddim ynddynt onid Rhyfeddodau, a Gwrthiau a wnaethau r Gau *Feſſiah*, megis pen ddarfu ir *Seignior* mawr ddanfon iw gymmeryd ei, ete a wnaeth i'r holl Gennadon farw yn ddiſymwyth, ar hynny fe ddantonwyd C nnadon eraill, hwythau hefyd a ſyrthiaſont yn feirw on wrth un gair o'i Enau, ac ar ddiſyfiad eraill, ete au hadfywiodd hwynt, drachefn, eithr yn unig y rhai oedd wir *Dyrciaid*, ac nid yr rhe'iny a wadent y ffydd ymmha un y gannefid hwynt, a coeddynt feddiannol o honi. Wedi hyn hwy ddywedent ymmhellach iddo ef fyned ei hunan o'i wir fôdd i'r Carchar, ac er bod y pyrth wedi a Cau a Chloiau cryfion o Heyrn arnynt, etto *Sabatai* a welſai rai (meddent) yn rhodio ar hyd yr Heolydd a Lliaws yn ei ddilyn. A phan roeſant, Hualau ar ei wddf ai Draed, hwy ſyrthiaſant oddiwrtho, a droent hefyd yn Aur, Ar Cymmwynaſau hynny ete 'dalodd y pwyth iw ddiſcyblion Ffyddlon ai wir Greaduriaid. Yr oedd rhai Gwrthiau a ſonid am danynt o eiddo *Nathan* hefyd, a hynny 'n unig pan Enwid Gwr neu Wraig efe a ddywedai 'n ddiatteg Haneseu holl Fuchedd ai Hymarweddiad, eu Pechodau au Camweddau, ac a roddai union Benyd yn ôl eu Haeddedigaeth arnynt. Pan ddaeth yr Haneſion hyn i'r *Idal* a lleoedd eraill. Yr Juddewon o *Caſel* yn *Monſerato* a ymrodd i ddanfon tri o wyr Ymmherthynas eu Cymdeithas mewn natur Negeſſeuwyr Rhagorol i *Smyrna* i ymofyn allan y Gwirionedd amyr holl bethau a glywſent, y rhai 'n ôl hynny a ddaethant i *Smyrna* yn llawn o ddiſgwyliad a Gobaith, ar fedr eu cyflwyno 'u hunain trwy ufudd dod a Goſiryeiddrwydd mawr ger bron eu *Meſſiah* a *Nathan* ei Brophwyd, Hwy

gawsant y newyddion o sôd *Sabatai* y *Messiah* wedi troi 'n *Dwrc*, ac or achos eu Negesseuon oedd ar ben, a phob un a rodd heibio ddull ei swydd, ac a geisiasant lyttyton cysaddas a mwya cymmhesur iddynt eu hunain. Fel y gallent hwy pan Ddychwelent yn ôl at eu Brodyr roddi cyflawn Hanes o Lwyddiant eu Taith; Hwy aethant i ymweled a Brawd *Sabatai*, yr hwn a fynnai 'u perswadio hwy o hyd, mai *Sabatai* er hynny i gyd oedd y gwir *Fessiah* ac mai nid efe oedd hwnnw a gymmerasai ddull a Gwêdd *Twrc* arno 'i hunan, Eithr ei Angel a ysprydi, a bod ei Gorph ef wedi ei dderchafu ir Nefoedd, hyd oni welai Duw 'n dda drachefn ei edfryd yn ôl mewn amser cysaddas, gan ddywedyd ymmhellach y caent hwy weled mwy siccrhad or peth gan y Prophwyd *Nathan*, yr hwn a ddisgwylient hwy bôb Dydd, yr hwn a wnaethai wrthiau mewn amryw Leoedd, y wnai (meddent) hesyd er eu Cyssur hwythau Ddatcuddio pethau dirgel iddynt, bodlondeb yn y cyfryw bethau a fyddai chwith ei weled, Fe arhosodd y negesseuwyr au holl obaith y byddai i *Nathan* eu cyssuro hwy ychydig hwy ymroesant i aros ei Ddyfodiad, gan fod ganddynt Lythyr iw gyflwyno iw Ddwylo, yn ôl yr Hyfforddiad a gawsent, ir oeddynt iw Holi ef am wybodaeth o'r sylfaen oedd ganddo ef am ei Prophwydoliaeth, a pha siccrhâd oedd ganddo ef ei fod ef gwedi 'i ysprydoliaethu yn Ddisinyddiol, a pha fodd yr oedd y cyfryw bethau wedi 'n Datcuddio iddo yr hyn a roddasai ef âllau mewn yscrifen, ai danu ar led y Bŷd ôll. Or diwedd *Nathan* a ddaeth yn agos i *Smyrna*, ar Ddydd Gwener y trydydd o *Fawrth*, tua 'r hwyr; A thranoeth Ddydd Sul, y negeseuwyr aeth i ymweled ag ef. *Nathan* pan glybu 'r newydd o aflwyddiant ei garedigol *Fessiah*, fe a ddechreuodd fyned yn dywedwst ac yn afrywiog, ac yn ddisflaw braidd y cynnwysai ef i'r negesseuwyr gennâd i ddyfod ger ei fron cymmaint ag oedd genddynt iw ddwyn ar ddeall iddo, oedd fod ganddynt hwy Lythyr iddo oddiwrth y Brodyr o'r *Eidal* ag Awdurdod i ymddiddan ag ef ynghylch sylfaen Awdurdod ei Brophwydoliaeth; Eithr *Nathan* a ommeddodd dderbyn y Llythyr, gan beri i un *Kain Abolasio* Chocham o'r Ddinas ei Dderbyn ef, Felly 'r Negesseuwyr a Ddychwels'ant yn

Anfod-

Anſodlongar, etto gan obeithio pan ddae *Nathan* i *Smyrna* y caent hwy well bodlonrwydd.

Ond tra fu *Nathan* yn bwriadu myned i mewn i *Smyrna*, y *Chochamiaid* o *Conſtantinopl*, a glybu ei fod ef wedi ymroi i gymmeryd ei Daith i'r Parthoedd hynny, heb wybod pa ffordd a gymmerai ef i fyned yno, hwy a ddanfonaſant eu Llythyrau ac eraill i *Smyrna*; A phob ffordd oddiamgylch i rwyſtro ei fynediad trwodd, ac i attal ei Daith; gan ofni, a phethau erbyn hyn yn dechreu llaryeiddio, ar *Tyrciaid*, heb anghofio 'r Anrhefn o'r blaen, a meddyliau 'r Juddewon wedi gwaſtadtau mewn peth Meſur, rhag o'r ſiomwr hwn eu hail gynnhyrfu, ac i'r hen Archollion dorri allan o newydd; Gan hynny hwy a ddanfonaſant y Llythyr canlynol.

I Chwi Fugeiliaid a Rheolwyr Iſrael, *y rhai ſy 'n ymddiriaid yn Nuw mawr yr holl Fyd, yn Ninas* Smyrna, *yr hon ſydd Fam yn* Iſrael; *iw Thywyſogion ai Hoffeiriadau ai Barnwyr, ac yn Enwedig i'r rhai ſydd mewn perffaith Ddoethineb, a mawr ſynwyr. Bid ir Arglwydd Dduw wneud i chwi fyw ger ei fron. ac ymhoffi yn lioſowgrwydd ei Dangnheddyf*, Amen. *Felly bydded Ewyllys yr Arglwydd.*

‘ EIn Llythyrau yr ym yn eu gyrru attoch, i ddwyn ar
‘ ddeall i chwi, fod yn lle 'ch Sancteiddrwydd chwi,
‘ ni glywſom am y Gwr Dyſgedig a fu yn *Gaza*, a
‘ Elwyd *Nathan Benjamin*, yr hwn a Gyhoeddodd Athrawi-
‘ aethau ofer ac y wnaeth i'r Byd grynu o herwydd ei Eiriau
‘ ai Ddychmygion; Ac ni a gywſom y pryd hyn Rybudd,
‘ ir Gwr hwnnw rai Dyddiau aeth heibio ymadael o *Gaza* ac
‘ a gymmerodd ei daith i *Scanderoon* ar twriad myned i *Smyr-*
‘ *na*, ac oddiyno i *Gonſtantinopl* neu *Adrianopl*; Ac er i
‘ fod yn ymddangos yn Rhyfedd i ni fod neb mor ynfyd ai daſ-
‘ lu ei hunan i ffaglau Tân, ag i wreichion Uffern, er hynny i
‘ gyd ni allwn ni lai nag arſwyd• ac ofni 'r peth; Canys
‘ Traed Gwr bob amſer ſy barodol iw arwain ef i'r ffordd wa-
‘ etha; Gan hynny y ſcrifenaſom attoch chwi o herwydd fod
‘ y Gwr hwn yn dyfod oddi tu ſewn i'ch Arglwyddiaeth, ar
‘ i chwi attal ei Daith, ac na chennadoch iddo ef fyned ymla-
‘ en ddim ymhellach, eithr ei rwyſtro ai droi 'n ôl yn ddiat-

‘ treg

'treg ; Canys ni fynnwn i chwi wybod mai ar ei Ddyfodiad,
'efe a ddechreu adnewyddu 'r Terfyſg, yr hwn a feddyliwyd
'trwy fwriadu cael Teyrnas newydd, ac nad yw Gwrthiau
'iw gwneud bob Dydd.

'Natto Duw iw Ddyfodiad ef fod yn Achoſion o Ddiſtry-
'wiad Pobl Dduw ym mhob man ple bymag y bo'nt, o ba
'raiefe a fydd y cynta, Gwaed pa un bydded ar ei ben ei hun ;
'Canys or cyfryw Amcanion ychydig fai neu gyflafan a wneir
'yn fawr, chwi a ellwch gofio enbydrwydd y cythryfwl
'cyntaf : Ac y mae 'n rhy debyg y bydd e yn achoſion o fwy,
'nag all Tafod i Ddatgan ar Eiriau. Gan hynny trwy rym
'ein Gorchymmyn ni, a'ch Awdurdod eich hunain, yr yd-
'ych iw attal ef rhag myned ymmhellach ymmlaen yn ei
'daithtros boen yr Eſcymundod a allein Cyfraith i rhoddi ar-
'noch, a gwnewch iddo ddychwelyd yn ol ynghyd a'i Gyfei-
'llion; Eithr os eich gwrthſefyll y fwa a Gwrthryfela ich er-
'byn chwi ach Gair, Y Gyfraith ach Awdurdod fydd ddi-
'fai iw hattal ; Canys fe fydd hynny da iddo ef a holl *Iſrael*.

'Er Cariad Duw bydded i'r Geiriau hyn dreiddio i'ch Clu-
'ſtiau, gan nad ydynt bethau gwael ; Canys bywyd yr holl
'Juddewon ai un yntau hefyd, fy 'n ſefyll yn hynny, Ar Ar-
'glwydd Dduw a edrycho i lawr ôr Nefoedd, ac a gymme-
'ro Drugaredd ar eu Bobl Iſrael. *Amen.* Bydded felly ei
'Ewyllys Sanctaidd. Yſgrifenwyd gan y ſawl fy 'n chwen-
'nych eich Tangnhefedd.

Joam Tob, Fâb *Chanania Jacar.*

Moiſe Benveniſtie,
Iſacc Alcernacagne,
Joſeph Kazabi,
Samuel Acazſine,
Caleb Fâb *Chocham,*
Samuel,
Moiſe Brando,
Eliezer Aluff.
Jehoſhuah Raphael,
Benveniſte.

Trwy 'r moddion hyn *Nathan* a fwriwyd heibio iw Daith wibiog, gan frith gywilyddio o herwydd y pethau oedd yn dig-

digwydd yn wrthwynebol iw Ewyllys ai Brophwydoliaethau, a ymrodd i droi 'n ôl dracheſn cyn myned i *Smyrna*: Pa fodd bynnag ſe gafodd Gennad i'mweled Bêdd ei Fam, ac yno i dderbyn maddeuant am ei Bechodau (yn ôl trefniad y rhagddywededig *Sabatai*) Eithr yn gynta' efe a ymolchodd ei hunan yn y môr, yn ol dull Puredigaeth, ac y ddwedodd ei *Tephilla*. neu ei weddiau wrth y Ffynnon, a elwyd gennym ni Ffynnon *Sancta Veranda*, yr hon ſy 'n agos i fonwent yr Juddewon, ac a ymadawodd i *Scio*, ynghyd a dau Gytaill, a Gwas, a thri or *Tyrciaid* iw Lwybreiddio, heb ganiadhau i'r negeſſwyr gael Gwrandawiad nag atteb o'r Llythyr a ddanfonaſid iddo oddiwrth y Gymdeithas Iddewaidd yn yr *Eidal*, Ac felly dibennwyd Cennadwri y Negeſſwyr hynny, a hwy a ddychwelaſant i'r lle y Daethent o hono, Ar Juddewon iw Cof a'i ſynwyr dracheſn; i ddilyn eu Marchnadyddiaeth megis cynt, â mwy o lonyddwch a Mantais, ar moddion o ail ynnill eu meddiannu 'n Nhir yr Addewid. Ac fel hyn y diweddodd y Cynddeiriogrwydd ym myſg yr Juddewon, yr hyn a allaſai fod yn ddrud iddynt, oni baſai i *Sabatai*, wadu ſwydd *Meſſiah* wrth Draed *Mahomet*.

Y pethau aeth ymlaen fel hyn yn y Flwyddyn 1665. er y Flwyddyn 1666. yn y Cyfamſer *Sabatai* a fwriodd ei amſer yn Crefyddol yn Llys y *Twrc*, gan gymeryd ei Addyſgeidiaeth wrth Draed Gamaliei yng-Hyſtraith y *Tyrciaid*, hwnnw oedd *Vanni Effendi*, Pregrethwr i'r *Seraglio* neu *Siaplan* i'r *Sultan*, un mo'r Ddyſcedig mewn cymmeriad megys yn Oracl mawr o'i Crefydd ac yn ei dyb yn gywraint ac yn Gyfrdo o'i Sanctteiddrwydd ei hunan megys *Phariſead* mor Ofergoel, nad oedd dim awnai fwy llygredigaeth yn ei Addoliant, na chyffwrdd neu ddyfod o Griſtion yn agos atto. Ir perwyl hwnnw *Sabatai* oedd bur Addfed Yſgolhaig, ac a ddaeth ym mlaen, fel y gallwn ni feddwl tu hwnt i fefur yn yr Athrawiaeth / *wrciaidd*; Felly yn ffair newid i'r cyfryw Argraph, ni thybiodd Vanni yn ogan yn y Byd iddo oddiwrth y cyfryw Athraw mawr ai Ddiſcybl newydd, i ddyſgu rhyw faint o Ddefodau 'r Juddewon, ac i wellhau peth o'r wybodaeth lymrig a dderbyniaſai et oddiwrth Gyfraith *Moeſen*; Fel hyn y bwriodd Sebatai heibio ei amſer yn Llys y *Twrc*, fel ac y bu *Moſes*

gynt

Gynt yn Llys yr *Aipht*, ac nid hwyrach iw ddynwaredd ef yn hynny o beth; ie fwriodd olwg yn ami ar Drallod ei Frodyr, i ba rai efe a gymmerodd arno ei fod yn waredwr hyd ei Ddydd Marwolaeth, eithr trwy 'r fath ofal gochelgar, rhag rhoddi dim anair i'r *Tyrciaid*, ac a Gyhoeddodd oni ddae eu Meddyliau 'n debyg iddo ef hynny ydyw ymwrthod ar Cyfgodion, ac ammherffeithrwydd Eſtennau Cyfraith *Moeſen*, yr hon y wnaed yn berffaith drwy ymgyſſylltu ar Gretydd *Mahometaidd*, a chynnulliadau eraill a debygai ei yſprydol Ddoethineb yn gymmheſſur. Ond nid oedd ef o allu i foddhau Duw, troſtynt hwy, neu eu Llwybreiddio i Dir Sanctaidd eu hên Deidiau: Ar hynny llawer o'r Juddewon a ddaeth yn finteioedd atto, rhai cymmhelled a *Babylon*, *Caerſalem* a lleoedd Anghysbell eraill; a Gwerſyllu ar hyd y Ddaiar gerbron y *Senior* mawr. y rhai ou gwir fodd a Addefent eu hunain yn *Fahometanaid*: Sabatai 'i hunan a ynnilodd Dir yngolwg y *Tyrciaid* o herwydd eu Ddiſcyblion newyddion, Efe a gafodd y Rhagorfraint a chaniattad i ymweled yn garedig ai Frodyr, ac efe a ymroddodd ei hunain enwaedu eu Plant yn wyth Ddiwrnod oed, yn ol Defod *Moeſen*, gan Bregethu ei Hathrawiaeth newydd, trwy ba un efe a ficcrahaodd amryw yn y Ffydd mai ef oedd y *Meſſiah*, a rhyfeddu y wnaethant gan ddiſgwiliaid y pethau Dieithr hynny a phaeth y ddae o honynt, Eithr ni feiddiai neb yn gyhoeddus i Addef, rhag iddynt anfodloni y *Tyrciaid* ar Juddewon, rhag tynnu am y pennau Eſcymmundod oddiwrth un, a Chrogpren gan y llall.

Pa fodd bynnag yn *Jonawr* 1672. Fe 'mddangoſodd ſiommwr hyf arall ymmhlith yr Juddewon yn *Smyrna*, o *Morea* meddent hwy, neu ni wyddid yn dda o bale, yr hwn heb yn waetha i *Sabatai* ai Lywodraethwyr, efe a gymmerodd arno mai ef oedd y *Meſſiah*; Eithr am y cyfryw ſiomwr gwael a Thylodaidd a hwnnw yr Juddewon a fwriadodd wneud ei waith e'n fydyn; Gan fod arnynt gywilydd ar y Cynta o ddyfod *Meſſiah* i ſiomi Pobl, Eithr trwy Arian hwy ai cyhuddaſant ef am Odineb; Ac a fynnaſant Farnedigaeth yn ei erbyn oddiwrth y *Cadi*, Fe ai Barnwyd i Carchar Llongau, a thra y bu ef yn aros myned yno, ac am ei ymarweddiad da

yno

yno, ac a fu dro yn y Carchar; Yn y cyfamſer ſe gadd odi'w glirio ei hunan, or bai hwnnw trwy Dyſtion i'r gwrthwyneb, ac'a tafai 'n diaingc allan o allu 'r Synagôg, oni baſai ſod eu Hawdurdodau au Harian yn tyccio 'n twy 'n ei erbyn, nal chyfeillion a Diſgyblion y ſiommwr hwnnw; Er hynny ſe ai Cadwyd ef yn Gyfannedd yn Garcharor. A *Sabatai Sevi*, a arhoſodd yn Nhŷ *Pharoah*, neu'r *Senior* Mawr, ac yno ei canſynodd hyd y Flwyddyn 1676. Ac a fu farw.

Y Dynghedfennol a therfynol ddiwreiddiad, a llwyr ddifroad yr Juddewon, o Ymerodraeth Perſia, *yr hwn a ddechreuodd yn y Flwyddyn* 1663, *ac y barhawyd hyd y flwyddyn* 1666, *ar Achos yn peri hynny.*

CHWI a glywſoch yn yr Hanes uchod, o ba Ogoneddus obeithion, gwthiwyd yr holl Genedl Iuddewaidd, trwy ei Swyn-gyfareddol, etto anllwyddiannus ddrygioni eu diweddar Gau Feſſiah, chwy chwi trwy 'r Hanes ymma a gewch ddeall ymhellach, mo'r hynod yr yſtynnaſid Llaw 'r Hollalluog Dduw (ynghylch yr un amſer) er rhagor eu Cywilydd au Diſtryw. O byddai dim yn annog i ymchwelyd a dwyn yn ol y bobl druenus ſiomedigol hyn. Yn ddiau tebygai un ar ei gwaſtadol lidiawgrwydd hyn, ac Arwyddion o'i ddigofaint ef yn erbyn eu holl amcanion hwynt, megis ac y gweddiai i gadarnhau y Greſydd Griſt'nogol, tefly y dylid eu cymhell hwynt hwy i fryſio atti; *canys digofaint a ſyrthiodd arnynt hyd yr eithaf.*

Yn Nheyrnaſiad y Clodfawr *Abas*, *Sophy Perſia*, a Thaid y Preſennol Ymherodwr, a'r Deyrnas yn iſel, ac yn agoswedi diſpyddu ô'i Thrigolion, ê ddigwyddodd i teddwl y Tywyſog yma, (Gwr ſynhwyrol a Doeth, ac un a oedd yn bwriadu yn rhagorol leſiant, e i Ddeiliaid, i chwilio allan ryw gymmwyſder i adfywio ac i amlhau y Marſiandiaeth, ac Annog Cenbedloedd eraill cyfagos i Negeſeua ac i Farchnatta yn eu plith hwy, trwy bob math o rydd-did; a thrwydded ddidreth. Ai amcan hyn a ddiogelodd trwy gynnifer o drwyedau Didrethol, ac y driniai rhai a ddelent mo'r Gariadus,

nes

nes ymgynnull a Bobl yno o bob Parthau 'r Byd i'w wlâd ef, a llanwoddei holl Deyrnas mewn amser bychan, ac amlder o bobl a Dieithriaid dysal, y rhai a gyffiniant o un tuedd o'i amgylch.

Fe ddigwyddodd frysio yno ym mhlith yr rhai a ddaethent Liaws anneirif or Juddewon ou holl wascarfaoedd yn y *Dwyrain*, rhai a lithiwyd trwy 'r Elw a wnaent ymhob mann trwy 'r byd yn ei wneuthur lle y cant ossod eu Traed unwaith; trwy eu cynhwynol gyfrwysedd, au melldigedig Gybydd dod a thrachwant, au Hoccreth gorthrymmus yr hyn y maent yn ymarfer yn wastadol. Nid aeth llawer o Flynyddoedd heibio, nes trwy 'r moddion hyn dlodi o honynt eraill, yn enwedig genedigol ddeiliaid *Persia*, nes dysod o'u cwynfan i glustiau 'r Ymherawdwr. Ac yn ddiau i'r oedd hyn yn annoddefadwy, canys ei dryssordŷ ef ei hun a ddechreuodd fod yn synniol o hono, yn gystal a Chodau, a meddiannau ei bobl rhai agos a lwyr ormeswyd ganddynt.

Pa'r todd i attal yr afreolaeth ymma, a diwygio 'r anghymwysder heb roddi cynwrf i'r Estroniaid llesol eraill yn preswylio yn ei diroedd ef, trwy syrthio yn ddisymmwth yn greulon ar yr Juddewon, ymgynghorodd yn fynych. Ac i'r perwyl hynny galwodd i ymgynghori ei Weinidogion Penaf, ei Lŷs, y *Muffti*, a'r Esponwyr y Gyfraith: Ynôl hir ymddadl, yn eglur o'r diwedd ê gafwyd hyspysrwydd, golli o'r Juddewon er ys llawer o amser fraint eu Fywyd wrth Eiriau yr *Alcoran*; yno 'r amlygir y destrywid hwynt, oni ddaent yn gyffredinol, oddifewn chwe chant o flynyddoedd yn ol cyhoeddiad y Grefydd honno, i mewn iddi, a chyfaddef ffŷdd y *Mahomet*. Yr ymheradwr eiddigus a fynnai yn ddiatreg gwplau 'r Ordinhâd hon; Eithr trwy gyfryngiad y *Muffti*, ac eraill o'r Athrawon, hwy a welsant yn gymmwys oedi tros y cyfamser: Eithr mal y gallai y cynyddol ddrygioni yma mewn amser derfynu; Ei Fawrhydi a Orchmynnoddi'r holl *Chochami*, *Rabiniaid* a Phenaethiaid yr Juddewon, i ymddangos ei hunain yn ddiattreg ger bron ei Orseddfaingc, ac arteb o honynt y gwrthddadleuon a osodid attynt.

Ar Juddewon yn gynlynol wedi ymgynull, y *Sophi* au holodd hwynt ynghylch amryw a Byngciau ou Cyfraith, ac yn neill-

neilltuol ynghylch Moysen ei Prophwyd, a'r Deddfau a Orchymynodd ete, y rhai ymddengys megis ped tuassent wedi eu dirymmu er ys llawer o amser, yn eu plith hwy yn ôl dyfod o *Isai*, (canys telly galwant Jesu) yn ol yr hwn ymhonnent gymmeryd ou *Mahomet* hwy y lle, a thertynu o holl Brophwydoliaethau eraill y gyd.

Brawychwyd yr Juddewon yn ddirfawr a dull yr Holiadau hyn, ac yn ammheûs pa beth a allai eu bwriadau hefyd hwn arwyddoccâu attebasant yr ymherawdwr; O herwydd Crist, ni chredent hwy ynddo, eithr disgwyl o honynt am *Fessiah* ou heiddo eu hunain i ddyfod, yr hwn trwy ei ryfeddol allu au gwaredai hwynt rhag eu gorthrymwyr, a daroftwng yr holl Fŷd i ufuddhau iddo.

Ar yr atteb yma y *Sophi* ymddangosodd ei hun yn llidiog jawn; Pa beth? ebr ete, ai nid ydych yn credu Crist, am yr hwn i mae'r *Alcoran* ei hun y gwneuthur coffadwriaeth anrhydeddus. Mal i'r oedd ete yn yspryd Duw a ddanfonwyd attom oddiwrtho ef, ac a ddychwelodd yn ôl atto et. Os credwn ni ef, pam nas credech chwi pa'r beth a ddywedweh eich hunain, gresynolion digred? A'r ymsynnedig Juddewon yn deall fod yr ymherawdwr yn llidio yn ddiattreg syrthiasant i lawr ar eu hwynebai, gan ymbil arno yn ostyngedig trugarhau ar eu gaeth weision, rhai a gyfaddefant eu hunain yn llwyr anheilwng i ymddaddan ai Fawrhydi ef, ac o herwydd y Cristnogion, i'r oeddent yn eu tŷb hwy yn llwyr Eulyn addolwyr; Pobl nas addolent Dduw, ond drygddyn croesioeliedig, a thwyllwr: Yr hyn ymhellach a ansodlonodd y *Sophi* yn fwy; gan nas gallai ymmhellach oddeu iddynt gablu Dŷn, yr hwn yr oedd gan eu *Alcoran* Anrhydedd mawr: Pa fodd bynnag tros yr amser hwnnw ete a ddirgelodd ei lîd, o'r goreu, ebr ef, os nid ydych yn Credu Duw 'r Cristnogion: Eithr lletarwch, pa beth yw 'ch tŷb chwi am ein Prophwyd mawr *Mahomet*? Yr ymotyniad hwn ai synnodd hwy et, heb roddi dim eiddigedd na dryg dyb ir Estroniaid eraill y rhai a tarchnattent yn ei wlâd ef, o amryw Cretydd, Eithr y rhai ar nad oeddent yn y lleia yn Euog oi ansodlonrwydd ef.

Yn ôl hir ennyd, ac ymddiddan dirgel ymhlith eu gilydd, honyn-

ſe gydgordiwyd o'r diwedd rhyngddynt. Er ymwadu o honynt Griſt, etto nis dywedent ddim yn bennodol yn erbyn *Mahomet*: O herwydd hynny, lletaraſant wrth yr Ymherawdwr, er gwahardd eu Crefydd hwy i gredu un Brophwyd ond *Moyſen*, Etto nis cyfrifent *Mahomet* yn gau Prophwyd, O herwydd i fôd efe yn dyfod o *Iſmael* Fâb *Abraham*. Ac eu bod hwy yn dymuno fôd yn weiſion goſtyngedig iw Fawr hydi ef, Ac yn erfyn ei Drugaredd ef arnynt.

A'r *Sophi* yn deall yn hawdd eu cyfrwyſdra au hyſtrywiau ymocholiad hwy, a ddywedodd wrthynt; na wafanaethai hyn mo'u tro hwynt: A'i bôd hwy yn Bobl o Afreolus amcanion, a than liw o ddiſgwyl, eu hir ymaros *Feſſiah*, yn parhâu yn eu gau Grefydd, ac yn ymattal eu hunain rhag troi i'r wîr Grefydd; Ac o herwydd hynny ymgeiſiodd ganddynt oſſod amſer pennodol, pa bryd yr ymddangoſai eu *Meſſiah*; Cánys ni achlefai efe mo honynt yn hwy, y rhai a dwyllaſant y Bŷd, ac a ſiommaſant ei Bobl ef er ys cŷd o amſer; Eithr hefyd gan ficcrhau iddynt, maddeu o hono iddynt, ac yr ymddyſfynnai hwynt, tros yr amſer a bennodent hwy, os hwy ni ymegnient i fiommi ef ai annilus oediad, eithr pennodi o honynt yn ddilys y ſwyddyn oi ddyfodiad ef: Ac os yn ol hynny ni ymddengys yn y ſwyddyn a bennodaſent, Meibion Marwolaeth a fyddent, ac ycaent naill au gwadu 'u Ffŷdd, neu yn ddiau gael eu difethu, au meddiant yn ffor ſet.

Er fynnu o'r Juddewon yn anfeidrol a'i anniſgwyledig erfyniad yma, a meddylſtryd y *Sophi*: Yn ôl ail ymgynghori ymhlith eu gilydd, (yr hyd a ganiattâodd yr Ymherawdwr) bwriadaſant, roddi 'r Attebkwn, yn ôl eu Llyfrau au Prophwydoliaethau, byddai i'r *Meſſiah* ymddangos yn ddiſiom, tu fewn i drigain a deng mlynedd; Yn ddoeth jawn yn credu, mal y tybygent i gyd yn feirw cyn 'r amſer hynny; A byddai yn y cyfamſer amryw gyfnewidiadau i ddamweinio, nes Anghofio hyn i gyd, neu ddihyſtyrid; Ac ar y gwaethaf gwrthdroir y farn o Swm fawr o Arian: Eithr ir oeld yn anghenrhaid addaw rhyw beth er bodloni ei ymchwant perſonnol ef.

Yr Ymherawdwr a dderbynnodd, eu hatteb hwynt, ac ai fynnodd ei ſcrifennu lawr ar frys, mewn dull Cyfammod

rhyng

rhyngddynt; Ac os ni byddai hanes am eu *Meſſiah* tu fewn i'r deng mlynedd a thrigain pennodedig, (ar yr hyn, trwy ei Ras ef chawanegold bum mlynedd yno byddai iddynt naill a throi yn *Fahometiaid*, neu eu holl genedl gael eu llwyr ddifetha trwy holl *Berſia*, au meddiant i gyd yn Anrhaith: Enhr a'r geiriau hyn heryd yn y Cyſammod ſcrifenaſau od ymddengys eu *Meſſiah*, tu fewn yr amſer pennodedig, yno 'r ymherawdwr ei hun a ymrwymid i droi 'n Juddew, a gwneuthur o hono ei holl Dueiliaid droi gydag ef: A hyn yn 'ſcrifennedig (mal y dywedſom) mewn dull Rhwym weithred, a nodwyd ac y ſeliwyd ar bob ochor ganddynt, a'r Juddewon a ollyngwyd ymaith tros y tro hynny; er hynny, cawſant tafu or ſann lleia ddwy Fyrddiwn o Aur, (mal y gwiriai ſ' Awdwr) am y Gymmwynas oi hir ymodoef.

Er amſer yr Amherawdwr hwn *Abas*, i'r preſennol *Sopby* yn awr yn Teyrnaſu, nid yn unig deng mlynedd a thrigain aeth heibio, Eithr pum ugain a phymtheg mlynedd a ddarfuaſt, yn yr holl amſer hynny gormeſid y *Perſiad* gan y *Twrciaid* ſelly, a Rhyfel gwaſtadol yn y ddwyrain *India* mal nas meddyliau 'r Tywyſogion canlynol am y cyttundeb a'r Cyſammod a wnaethai eu Henafiaid, hyd oni trwy ryfeddol ddamwain yn Nheyrnaſiad yr ail *Abas*, tôd yr hwn ſydd yn Rheol i' yr wân, Gwr manol hyd yr eithaf am Henadwriaethau. Ac efe yn chwilio un diwrnod ymmyſg ſcrifennadau ei Lŷs, cafodd afel yn hon ynghôl Lyfr ei Dâd a Phenaethiaid yr Juddewon, yn Enw eu holl Genedl.

Ar hyn gwſiodd y *Sopby* ar frŷs Gymmanſa i ymgynghori, ac oſo iodd y Rhwym ſcriten ger eu bron, gan ddymuned eu Cynghor, pa 'r beth a wneid, Ac yn hytrach, canys dechreuwyd yr amſer ymma ſibrwdo yn aml, a llythyrau rai a ſcrifennaſid attynt o ldiwrth Farſiandwyr o *Twrci*, ynghylch cynnwrf a wnaethai rhyw Ddyn yr hwn oedd yn cymmeryd arno mai 'r *Meſſiah* oedd efe, A *Sabatai* enwog oedd hwnnw. A hyn a bwyſodd ſelly gyda 'r Ymherawdwr ai Gynghor, mal yn un lais, ac heb hamdden ymhellach, bwriadaſant ar frŷs ar ddiniſtrio yr Juddewon, ac nas gellid goddeu y cyfryw ddrygionus Genedl o Hudolyddion a Gorthrymwyr ei Bobl yn hwy ar Ddaiar.

Mewn goddeu i'r ymroad ymma Cyhoeddiad a roddwyd allan i'r Bobl, ac i'r holl Eſtroniaid a Thrigolion yn eu plith hwy, gan roddi Awdurdod iddynt i oſod ar frys ar yr holl Juddewon yn Nheyrnas *Perſia* a ſladd a min y Cleddyf, Wŷr, Gwragedd a Phlant, ond y cyfryw ac y droent ar frŷs i Grefydd *Mahomet*: Ac a dalid eu cyfoeth au meddiant yn anrhaith heb drueni na thoſturi.

Y Gwaedlyd a'r creulon Ruthr hwn a wnaed yn ganlynol, yn gyntaf yn *Iſpahan*, ac ar frŷs yn ol hynny yn yr holl Ddinaſoedd a Threfydd *Perſia*. Dedwydd oedd y Dŷn a ddiangai rhag cynddeiriogrwydd y Bobl ynfydiog, y rhai trwy rym y Farn gyhoeddus ſeliedig ar y cyttundeb a hyſpyſwyd uchod, ac ynawr au hannogafid yn fwy trwy ddiſaniad eu gau *Feſſiah*, ni ddangoſant ddim toſturi iddynt. Ond eu llâdd au Hanrheithio, pa le bynnag ac y caent afel mewn Juddew trwy eu holl wledydd helaeth; Gan fyrthio ar yr Anrhaith a pharhau y lladdfa, hyd oni lwyr ddiniſtrwyd hwynt; Ac nis attaliwyd yr ymlid tros amryw o flynyddoedd, gan ddechreu o hono yn y flwyddyn, 63. a pharhau hyd. 66. Yn *Iſpahan*; y Dinaſoedd ar Addaloedd *Seira*, *Chelan*, *Humadan*, *Ardom*, *Tauris*, ac yn fyrr, trwy 'r holl ymherodreth heb arbed na rhyw nac oedran; Ond yn unig y cyfryw (mal y dywedwyd) ac y drôent yn Fahumediaid neu ddiangent trwy 'r Anialwch i *Dwrci*, *India*, ac Ardaloedd pêll eraill, a hynny heb obaith yn y bŷd o adſefydlu eu hunan byth yn ol llaw ym *Mhorſia*. O herwydd digaſedd y Bobl hynny oedd greulon ac anheddychol yn eu herbyn. Ac yn wir y weithred ddiweddar a'r Erthyliad eu gau *Feſſiah* oi gwnaeth hwynt yn llwyr ddibris trwy 'r Bŷd, fal nid oes dim ond cyndynrwydd dynghedfol, ac amlwg a barnol felldith o'r Nêf a allai eu ſefydlu hwynt yn y rhyfeddol ddallineb, o'r hwn etto, bydded i r Arglwydd ryw ddiwrnod oi anfeidrol Drugaredd eu gwared hwynt, mal y gallent o'r diwedd, gan fod a chredu ynddo ef, rhwn y a wnaſſant; Fal y byddo i'r Juddewon yn gyftal a'r cenedloedd wneuthur un Ddiadell tan un Bugail ac Eſcob ein Henaidiau Jeſu Grift, y gwir *Feſſiah*. *Amen.*

Epiſtol

Helynt yr Juddewon yn Lloegr *yn y Flwyddyn* 1655.

YN y Flwyddyn 1655. yn amſer y Gwrthryfelwr *Oliver Cromwell*, pan oedd ef yn Gwrthreoli 'r Tair Teyrnas, *Manaſſeh Ben Iſrael*, yr athraw Ardderchog ymmhlith yr *Juddewon* a Soniwyd am dano o'r blaen, a ddaeth yn Gennadwr o *Holand* i wneud ei orau ar gael Cennad i Adblanu'r *Judaewon* yn *Lloegr*, ac a wnaeth y cynnygion canlynol i'r Gwrthryfelwr, am ba un [ſe ddywedyd yr amſer hwnnw] iddynt gynnyg Dau Canmil o Bunnau.

1. Gael o Genedl yr Juddewon eu derbyn yma, au hymddiffyn rhag pob cam yn gyſtal a'r Saeſon eu hunain. 2. Cael o honynt Synagogau Cyhoeddus yn Lloegr, i gynnal eu Crefydd fel y dylaent. 3. Gael o honynt Le Claddu allan o'r Dre, heb neb rhyw rwyſtr iddynt ynghylch eu Claddedigaethau. 4. Fod iddynt gael yr un rhydd did yr eu maſnach au Marchnadyddiaeth ym mhob math fel Dieithriaid Eraill. 5. Fely gallo eu Dyfodiad troſodd fod er Budd i'r Deyrnas, ac heb anfoddhau nêb. Fod ir Gwrthryfelwr Raddio rhyw wr enwog i dderbyn eu Llythyrau Diogelwch i fyned a dyfod, ac i Gymmeryd eu Llw o ufudd-dod iddo ef, 6. I attal Trallod na Rhwyſtr i'n Barnwyr ac eraill, fod i Fatterion o ymrafael ac anghydfod ymmhlith yr Juddewon gael eu Barnu, au Terfynu gan Bendod eu Synagogau ac eraill o honynt yn ei plith eu hunain. 7. I Ddiddymmu Gyfreithiau a wnaethyd yn erbyn yr Juddewon (os oedd dim or fath) er mwyn cadarnhau eu Diogelwch.

Pan ddarllenwyd y Cynnygion hyn, y Gwrthryfelwr a ddywedodd, od oedd fwy wedi 'i gymmell yn y Cynnygion nag oedd gymmheſſur iw Ganiattau ; Mai dyna 'r amſer iw yſtyriaid. 1. Pa un y wnae ai bod yn Gyfreithlon ai peidio dderbyn yr Juddewon. 2 Od oedd yn Gyfreithlon, ar ba Ammodau oedd gyfaddas eu cynwys au derbyn : Ar hynny eſe a ddeſynnodd neu a wyſiodd amryw Ddiffinydion, Cyf-

reithwyr a Marſiandwyr; I ddiſgwyl arno ef ai Ddirgel Gyngor ac i Gyhoeldi eu Tyb a'i meddwl yn y peth.

Y Pregethwyr a ddarſu i'r Swyddogion Anſon Llythyrau attynt i ymgyfarfod, oedd Dr. *Tuckney*, Dr. Whitcoot, Mr. *Newcomen*, Dr. *Wilkiſon*, Mr. *Row*, Mr. *Phil. Nye*. Mr. *Carter*, Mr, *Caryl*, Mr *Cudworth*, Mr. *Bridge*. Mr. *Ben.* o *Dorcheſter*, Mr *T. Goodwin*, Mr. *Jeſſey*, Mr. *Dyke* o *Eſſex*, Y Cyfreithwyr oedd Arglwydd Brif ynad *Glynn*. ar Arglwydd Prif Farwn *Steel*. Marſiandwyr *Llundain* Henadur *Bethick*, Arglwydd a Phen Llywodraethwyr *Llundain*, Henadur *Pack* Y Ddau Uchelfaer, Henadur, *Tickburn* Mr. *Creſſet* a Mr. *Kaffin* neu *Kyffin*.

Rhai or rheiny a haerodd i fod o yn beth iw arſwydo, os Dychwelent, y camdywyſyd ac yr Ludyd llawer ganddynt, ac er eu bod hwy 'n difrifol ddymuned Troedigaeth yr Juddewon, etto 'r oedd mawr Achoſion i ofni y gallai ei ddigwydd yn dramgwydd i llawer yma, O herwydd fod Pobl yn y Ddyddiau hynny yn rhy hawdd eu droi o'r naill dui gau Opiniwnau newyddion.

I hyn yr Arglwydd *Lawrence*, ar Penllywydd *Lambert*, a wrthattebaſant fod Pobl yn y Ddyddiau hyn, yn cael eu harwain i Amgenach Gwybodaeth, tueddiadau eglurach o Grift a'r Efengyl. Ond o'r tu arall nad oeddynt debygol i gymmeryd i fynu 'r Greſydd Juddewaidd a gwadu Chriſt ar Efengyl, a hwythau heb ddim yn eu Cwaſanaeth cyffredin ac oedd lithiedig i'w gwahodd hwy i'w Haddoliaeth, eithr yn fwy tebyccach ei warth neu wradwydd.

Mr. *Mat. Newcomen*, o *Eſſecs* a ymreſymmodd, fod Offrymmu Aberthu plant i *Moloch*, ac Eulunaddoliaeth, a debygid na byddai i neb i hoffi etto yn hyn i gyd, ni allwn Ddarllain pa fodd yr ymgofleidiodd yr Juddewon y Pechod hwnnw. A rhyw debygoliaethau naill yn ddiweddar a hyrddwyd i mewn, er bod Chriſtnogion pwyllig yn ei barnu 'n beth annuwiol Anghenfiliaidd; ac er hynny i gyd ſe gafwyd Commoledd o Ddilynwyr a Derbynwyr y rhei'ny.

Rhai a Farnodd gan fod yr Juddewon ai ſwydd Rendantym Marſiandiaeth, ac nid mewn Hwſmonaeth, neu Brynu Tai a Thiroedd, y Paſnach fawr y ddae ganddynt i mewn a allai fod yn Achoſion i oftwng y Farchnad ar bob Cyffiriau ach-

elfi a ddae oddi tros y Moroeld, a chodi i fynu brifiau 'n Marchnadyddiaeth ninnau a ddanfonem trofodd i wledydd Dieithr, a hefyd a allai fod yn foddion Effeithiol iw troi hwy i'r Grefydd Griftnogol.

Yr Arglwydd Prif Farwn *Steel*, a roddodd gyfri helaeth o Hen Hanefion a Choffadwriaethau am Gyflwr yr Juddewon gynt yn *Lloegr*, au toft Ddioddefaint yma yn amfer *Cwftenyn Fawr*, a rhai Brenhinoedd o flaen y Gorefgynniad, Hefyd i *William* Orefgynwr ddyfod a rhai o honynt o *Roan* yn *Normandi* i *Loegr*, au Hiliogaeth yn Prefwylio 'n *Llundaim* â Phrif Ddinafoedd eraill, a gyhuddwyd ar Gam arnynt (meddant Hwy) eu bod yn Arferedig o Ladratta Plant Gwryfaid Chriftnogion oddiar eu Rhieni au Cymmydogion, y rhai a Enwaedant arnynt, eu Coroni a Drain Fflangellu, Cyfuddio, au Croefhoelio er gwarth. A Gwradwydd i'n Harglwydd ni Jefu Grift, y cyfryw Hanefion a fu 'n aml Achofion o fawr niwaid a thrallod i fyrthio arnynt, fel y mae 'r byrr Hanes Canlynol yn gwirio 'r peth.

William Rufus a Ragderfynodd neu Appwyntiodd Ddadlwriaeth neu Gynnadl iw chadw yn *Llundain*, rhwng y Chriftnogionar Juddewon; Eithr cyn dyfod o'r Dydd Cyfarfod, yr Juddewon a Anrhegafant y Brenhin a rhyw berhau Gwerthfawr, i'r diben y bddai iddynt gael eu Gwrando yn ddiduedd. Y Brenhin a dderbyniodd eu Hanrheg, gan eu cefnogi hwy a pheri iddynt eu hymddwyn eu hunain fel Gwyr, Gan Dyngu mynn Wyneb St. *Luc.* (yr hwn oedd ei gynefin Lw) os hwyntwy a Orchfygai yn y Ddadlwriaeth, y troe efei hunan i fod yn uddew, o'r un Grefydd a 'n hwythau, yn y cyfamfer hwnnw yr Gwr Jeuaingc newydd droi i'r Grefydd Griftnogol, ai Dâd oedd yn antodlonus jawn i'r peth, a Anrhegodd y Brenhin â 60 *Morc*, Gan ddeifyfu arno annog ac eiriol ei Fâb i Ddychwedyd i'r Grefydd Judd ewaidd, ar hynny y Brenhin a Ddanfonodd am ei Fâb ac a Orchymmynod iddo ei Ddychwelyd yn ddinag i Grefydd eu Wlâd a'i Genedl. Eithr y Gwr Jeuangc a attebodd, fod yn rhyfedd ganddo ef iw Fawrhydi roi 'r cyfryw Eiriau atto, ef, Y Dylafai e'n amgenach i Annog ef i Griftianowgrwydd. A cyfryw atteb y wnaeth y Brenhin yn y fath An-

rhefn, ac a Orchymmynodd y Gwr Jeuaingc o'i wydd. A phan gydnabu Tâd y Llangc nad allai 'r Brenhin wneud dim dajoniuag at Ddychweliad ei Fâb, fe ddymunodd gael ei Arian yn ôl Drachefn; Nage (ebr y Brenhin) mi a gymmerais ddigon o boen oddiwrtho, ac etto di a gei weled fy mod i yn deg wrthiti, chwi a gewch y naill hanner, ac nid-eilwch chwi'n gydwyLodol tyngommedd i o'r hanner arall, ac felly ymadawfant.

Yn y Flwyddyn 1235 y 19 o *Harri* y Trydydd, Saith o Juddewon a ddyged gerbron y Brenhin i *Weſtminiſter*, y rhai a brofwyd arnynt Ladratta Bachgen, ac ai cadwafant Flwyddyn yn ddirgel heb wybod i neb ônd eu Cenedl eu hunain, ac a Enwaedafant arno, gan Amcanu ei Groefhoelio ef hefyd ar wyl y Pafc; ac or achos eu eyrph a'i holl Eiddo, oedd at Ewyllys y Brenhin. Yn y 39 Flwyddyn o Deyrnafiad y Brenhin hwnnw, *Tachwedd* 22 Dydd. Fe ddygwyd 102 o'r Juddewon o *Lincoln* i *Weſtminiſter* ac au cyhuddwyd yno am Groefhoelio Bachgen wyth Mlwydd Oed a ewyd *Hugh*, Yr Juddewon hynny yn ôl eu Holi, a ddanfonwyd i Dŵr *Llundain*, 18 a Grogwyd o honynt, ar lleill a drigodd yn hir yn y Carchar.

Yn Nheyrnafiad *Harri* yr ail, yr oedd nifer mawr o'r Juddewon trwy holl Wlâd *Lloegr*; Etto ymmha le bynnag y trigent yr oeddent yn rhwymedig i ddwyn yr holl Gyrph meirw iw Claddu i *Lundain*, yr hyn oedd anghyfleuſtra mawr weithiau i rai oedd yn byw ymmhell iawn oddiyno. Y Brenhin a ganiattaodd iddynt gladdu eu meirw yn y lleoedd lle ir oeddynt yn byw. Yn y Flwyddyn 1189. Ar Goroniad Brenhin *Richard* y Cyntaf yn *Weſtminiſter*, yn y Cyfamſer y digwyddodd Trychineb mawr ar yr Juddewon, nid oedd y Brenhin yn eu Caru hwy fel y gwnaethai ei Dâd, efe a roddodd allan Orchymmyn Sarrug, na byddai i neb o'r Juddewon fod yn gydrychiol na Lod yn Breſſennol yn edrych ar ei Goroni ef; er hynny llawer o'r Juddewon a ymhyrddodd i mewn. ar Swyddogion gan ufuddhau i Orchymyn y Brenhin yn eu rhwyſtro, ac or achos efe a gododd Cythryfwl rhwng y ddwyblaid, o Eiriau i Ddyrnodiau, hyd oni Anafwyd llawer or Juddewon, ac eraill a laddwyd o honynt, ar

Gair

Gair aeth allan o amgylch mo'r ſydyn i'r Brenhin Orchymmyn Diſtrywio 'r holl Juddewon; Ar ba un y mae 'n Anhygoel ganlyn y fath Anrheithio yn ddiymarbed ar Dai 'r Juddewon, gan dori gwythi eu Gwaed: Ac er ir Brenin Arwyddoccau trwy amryw yſpyſol Gyhoeddiadau, ei fod ef yn Anfodlonus dros ben i'r peth y wnaethpwyd; Etto nid allent lonyddu 'r lliaws hyd y Dydd dranoeth; Ac amryw o'r Terfyſg wyr a dderbyniodd eu haeddedigol Goſpedigaeth Cyſtreithlon yn ôl hynny.

Yn Nhernaſiad y Brenhin *John* 1202. Caſgliadau mawr o Arian a ofynned gan yr Juddewon, ymmhlith pa rai yr oedd un yngommedd Talu 'rhyn yr oeddid yn i geiſio ganddo, hyd oni wnaeth y Brenhin dynnu un o'i Gliddannedd ef bob Dydd tros ſaith niwrnod ynghyd; O'r diwedd gorfu iddo ymadael a Deng mil o Forciau yn Arian i'r Brenhin, ſel na thynnid dim amgenach o'i Ddannedd ef, ac yntau heb fod ganddo ond un wedi Adael yn ei ben.

Brenhin *Harri* 'r Trydydd wrth fod yn waſtraffus a ddygaſid yn dra iſel eiſiau Arian, hyd oni orfu arno fenthyccio, *i. e.* agos Gardotta ymmyſg ei Ddeiliaid, Eithr yr Juddewon yr rhai oedd bob amſer yn rhwymedig i ymoſtwng iw Ewyllys, a deimlodd bwys ei Angenrheidiau. Ac un *Abraham* Juddew yn Llundain yr hwn a gaſwyd yn Droſeddwr a orfu iddo roddi 730 Morc am eiryddhad ei hun. Ac *Aaron* Juddew arall a Dyſtioliaethodd i'r Brenhin gymmeryd oddiarno ef wedi dyfod adre o *Ffraingc* ar amryw weithiau 30000 Morc yn Heblyw 100 Morc i'r Frenhines. Ar amſer arall y Brenhin *Harri* hwnnw a waſgodd rifedi Bridwerth mawr o Arian o'r Juddewon, ese au Gwyſtlodd hwy hefyd iw Frawd *Richard* am Rifedi mawr o Arian, yr hwn adalodd ei Frawd iddo, ac yr oedd ynteu i fynnu yr maint a wele fe 'n dda yn ychwaneg oddiarnynt. Eſe a Adailadodd Eglwys ir Juddewon a ddychwelai yn *Llundain*, fe a ddigwyddodd ynghylch yr amſer hwnnw, i Juddew Syrthio i fewn Cachdy ar Ddŷdd *Sadwrn*, ac ni fynnai ei neb i gymmeryd ollan y diwrnod hwnnw oherwydd ei fod yn Ddŷdd Sabbath yr *Juddewon*, Ar hynny Duwc *Caerloyw* a roddodd Orchymmyn na chymmeryd mono ef allan ar Ddŷdd Sul, o

herwydd mai 'r Dydd Sabbath *Christnogol* oedd, ac ar Ddydd *Llun* y Bore, fe ai cymmerwyd et allan yn farw.

Yn seithfed Flwyddyn o Deyrnasiad *Edward* y Cynta', yr Juddewon yn *Northampton*, a achwynwyd arnynt am Groeshoelio Bachgen o Gristion ar Ddydd Gwener y Croglith, ac heb ei ladd e'n gwbl, am ba weithred llawer or Juddewon yn *Llundain*. Ac ol y Pasc a lusgwyd wrth Glorennau Ceffylau ac a Grogwyd Yn yr un Flwyddyn, y Brenhin *Edward* a alwodd i mewn yr holl hên Arian, iw Bathu o newydd, o herwydd eu bod wedi 'u toccio a'i gwrthuno 'n Anafus gan yr Juddewon, am ba achos fe Ddihenyddiwyd 297 o honynt ar unwaith yn *Llundain*. Ac yn y Ddeunawfed Flwyddyn o'i Deyrnasiad, yr holl Juddewon a Ddeolwyd allan o *Llundain* a *Loegr*, yr oedd yr amser hwnnw yn y Deyrnas, o Juddewon swy na 15000. I u holl Eiddo a gymmerwyd yn rhaid y Brenhin, ond yn unig cymmaint ac a ddygai eu Côst i fynd o'r Deyrnas, A chyn hynny efe a Orchymmynasai i'r Juddewon wisgo rhyw nodyn hynodol o'r tu allan iw Dillad, wrth ba un yr Adwaenyd hwy ac iw hattal hwy i gymmeryd Llog Anghymmedrol, fe Ddihenyddiwyd amryw o honynt yn *Stamfford* a Lleoedd eraill yn *Lloegr*.

Y ddau Ynad *Glynn* a *Steel* a ddywedodd, nad oedd un Gyfraith i attal yr Juddewon rhag Dychwelyd i *Lloegr*; Ac am hynny yn sefyll arnynt y gallent hwy ddyfod trwy Ammodau a Chyttundeb, ac a allid ar y cynta' eu cynnwys heb fawr ddal sulw arnynt, yr hyn a ellid drachefn i luddias os digwyddai dim Anghym messur, ac y dylid cymmeryd gofal arbennig rhag iddynt Gablu ein Harglwydd Jesu Grist, Addoli 'r Gyfraith, a chamdywys eraill o'r Ffydd.

Mr. *Nye*, a Mr. *T. Goodwin* oedd o'r meddwl hwn, fod, Achoston tra sicer o'r Serythyr Lân wrth ddal sulw arnynt fod yn ddyledus arnom ymroi iw Dymuniad, wrth ystyriaid 1. Fod Ewyllys Duw ar i ni ymddwyn ei hunain yn Garedig tuag at Ddieithriaid ac eraill mewn Adlyd. 2. Y Dylae fod gofal Arbennigam yr Juddewon, o herwydd ein bod ni yn Ddedwyr iddynt. *Rhuf.* 14. 27. Ac yn gyfrannogion o'r *Messiah* a'r Addewydion, ac Jechydwriaeth, yr hyn oedd yn perthyn i'r Juddewon, megis Cangau naturiol o'r

Ol-

Oliwydden. 3. O herwydd ein bod ni 'n Frodyr o'r un Tad *Araham*, hwy 'n naturiol yn ôl y Cnawd, A ninnau 'n Gredadwy yn ôl yr Yspryd. 4. Ond o herwydd ein bod ni yn Credu y bydd i'r Cangennau Naturiol Dychwelyd, ac y bydd hynny er Gogoniant i'r Cenhedloedd, lle i bont yn Preswylio i fod yn garedig wrthynt. 5. Mae llawer o'r Juddewon y pryd hyn mewn caledfyd ym *Mholand*, *Lithuania*, *Prussia*. &c. O achos y Rhyfeloedd yn y Gwledydd hynny; wedi 'u Difeddiannu ou Preswylfeuydd; Gan hynny y mae 'r Blusen Blynyddawl wedi eu attal a fyddent arferedig o'r ddanfon i'r Brodyr, yr Juddewon Tlodion, yn Synagog yr *Ellmyn*, yng *Nghaersalem*; Ac o 700 or *Juddewon* Tlodion a Gweddwon, fe newynodd uwchlaw 400 o honynt; ar *Tyrciaid* au herlidiodd hwy 'n greulon. Fel y mae Llythyr o *Gaersalem* at rai ou Caredigion yn gwirio. 6. Yr Juddewon sy 'n byw yn *Ffraingc*, *Spaen*, *Portugal*, *Itali*, a Spaen Orllewinol *India*; Os Juddewon y fyddant wrth ei Profles, rhaid iddynt wisgo nod o Arwyddoccad o hynny, or achos y maent yn barod i bob Rhuthr, Gwatworgerdd, a chreulondeb. I geisio eu cadw eu hunain rhag hynny, mae llawer yn gorfod cymmeryd arnynt fod yn Babyddion, ac os ymddangosant byth ar ôl hynny fod yn proffessu 'r Grefydd Juddewaidd, mae'nt yn *Fforffetio* eu holl Eiddo; ac ondodid eu Bywyd hefyd. A rhai o'r rhei'ny a ddarfu attolygu Athraw *Manasseh* i fod yn Gennadwr trostynt, i ddymuned cael cennad iddynt i Ddyfod trossodd i *Loegr* i fyw a masnach yno; Ac fe allai fod yn gymmeradwy gan Dduw, os dangosid Ewyllys iddynt, cymmhelled ac yr oedd yn Gyfreithlon yn hynny o beth.

Mr. *Joseph Caryl* a ddywedodd i'r ddiben hyn, er bod yr Juddewon y pryd hynny tan Galon galedrwydd, ac yn haeddu o Gospedigaeth etto nyni a ddylem gymmeryd gofal rhag bod yn Achosion ou Calon Galedrwydd ymmhellach neu fod yn Offerynnau i hynny wrth eu Cospi hwy. Fod Bobl orau 'n *Lloegr* yn credu yn gyffredin yn yr Addewydion a Galwad yr Juddewon. Ac yn Gweddio 'n fwy ditrifol am hynny na neb arall. I amryw or Protestaniaid y rhai a Erlidwyd yn Nheyrnasiad y Frenhines *Mari*, a chwedi a gadd eu derbyn yn garedig gan Ddieithriaid mewn Gwledydd eraill; Gan

hynny

hynny ni ddylaem mnnau doſturio ac Achleſu y Dieithriaid Alltud, yn Enwedig. yr Juddewon Erlidiedig. Fod y creulon ddirdra a'r Annaturioiwch a ddangoſwyd tuag at y Genedl honno; (y rhai ni ymwthiaſant eu hunain eu mewn,) eithr a wahoddwyd gan ein Brenhinoedd a'n Llywodraethwyr; lle y lladdwyd ac y Boddwyd lliaws o honynt, yn y Thames ac ar y Mor, &c. hyn a eill orwedd yn bechod ar y Teyrnaſoedd hyn, Eithr ein Caredigrwydd iw Dilynwyr au Heppil, a eill wneud rhyw ſath ar gyflawniad a diwygiad am Elceuluſtra ein Rhieni.

Eithr y Marſiandwyr y ſafodd yn eu herbyn hyd eitha'u Hawdurdod, Gan ddal os yr Juddewon a gae'nt eu Cynhwyſiad telly, Hwy a Gyfoethogent Drigolion Gwledydd dieithr, ac a Dylodent Frodorion y wlâd yr hyn oedd un achos o rwyſtr eu Dyfodiad

A chwedi clywaid o *Gromwel* y Gwrthryfelwr eu holl ymmadroddion ar yr Achoſion hyny, efe gyhoeddodd, *Nad oedd ar no ef ddim Rhwymedigaeth i'r Juddewon yn ei ddal; A chan fod Addewyddion o'u Troedigaeth, rhaid oedd arfer y modion i'r dyben hwnnw, ſef Pregethiad yr Efengyl; Ac nid oedd hynny iw gael, oddigerth iddynt hwy gael eu Cynnwys a Wladychu lle 'r oedd Pregethiad yr Efengyl. Fod eu Obaith trwy'r cyfryw Bregethwyr gael mwy eglurhâad ar yr Achoſion, ymmuberthynas Cyn[illegible]bod; Gan weled na Chyttunodd y rhain ddim, au bod o Amrafael Nâb, ſe adawyd y peth yn fwy Amnheus iddo ef ai [illegible]yger, nag o'r blaen: Ac yr oedd e'n Gobeithio na wnae e' ddim yn fyrrbwyll nag yn ddigyngor. Ac yr oeddyn Anerchheidiol gael eu Gweddiau at yr Arglwydd, ar iddo ef eu Hyfforddio hwy ir peth a fyddai iw Ogoniant ef, a Dajoni 'r Deyrnas.*

Felly 'r Gymmanſa techan honno yn ôl iddynt gydymgyſarfôd tros 14 Diwrnod ynghyd, a ollyngwyd ymaith; ac amryw o'r Marſiandwyr Juddewig a ddaeth o Wledydd pell mewn Gobaith au ſefydlu eu hunain yma, pan gydnabuant eu bod gwedi eu ſiommi y rhai a ddychwelaſant yn alaethus yn ol dracheſn, ac ni adfywiwyd byth dracheſn amcanion yr Juddewon yn hynny o beth.

Epiſt-

Epiſtol y Brenbin Agbarus *at ein Jachawdwr Jeſu Griſt, gydag Atteb ein Jachawdwr.*

NI ŵn i pa fôdd i gyflawni y gwâg ddail canlynol yn wêll na chan ychwanegu o honot ymadrodd hynod hyſpyſedig gan yr enwog Haneſydd *Euſebius*, yn ei Lyfr cyntaf o' Eglwyſol Hiſtori, yr hon a ganlyn yn y Geiriau yma.

Yn ôl gwneuthur o Dduwdod ein Harglwydd a'n Jachawdwr *Jeſu Griſt* yn amlwg i bôb Dŷn, trwy weithredu gwrthiau tynnodd atto Liaws aneiriſt o Eſtroniaid y rhai a breſwylient ymhell oddiwrth *Iudea*, ac y ſlinwyd gan amryw o Gleſydon a doluriau, mewn gobaith adnewyddu o honynt eu Jechyd trwyddo ef: Ymhlith y niſer yma y Brenin *Agbarus* llywydd y Cenedloedd enwog yn preſwylio tu hwnt i'r Afon *Euphrates*, yn ſlinedig an hwylus yn ei Gorph, ac y tarnid yn aniachol trwy gelfyddyd dynion, ac yn clywed Ogoneddus glôd Jeſu, a'r Gweithredodd Rhyfeddol a wnaeth efe ymhob lle, efe erfyniodd trwy Lythyrau gan ymbil arno yn oſtyngedig ymwared oddiwrth ei Glefyd. Ar Jeſu (nid ar frŷs) yn ufuddhau iw erfyniad ef, a Ddilyngodd iw Atteb ef trwy Epiſtol, y byddai iddo ef ar fyrr amſer yrry un oi Deiſgyblion yr hwn ai jachau ef oi Glefyd, ac nid yn unig ei glefyd ef, Eithr pob un o i heiddo yr hyn a gyflawnodd efe mewn byrr amſer. Canys yn ol ei Adgyfodiad oddiwrth y Meirw, ai Eſcyniad i'r Nefoedd, *Thomas* un o'r dauddeg Apoſtol a yrrodd ei frawd *Thaddeus*, yr hwn a gyfriſid ymhlith y deng Niſcybl a thrigain trwy yſprydoliaeth, i Ddinas *Edeſſa*, i fod yn Bregethwr ac Efangylwr o Athrawiaeth Criſt, trwy 'r hwn y cyflawnwyd pob beth a berthynent i Addewid ein Jachawdwr, ac a ſiecrhau hyn ymmhellach y Llythyrau eu hunain a ſcrifenwyd ynghoſ Lyfrau Tywyſogol Ddinas *Edeſſa*, a yn rholiedig ymmhyſg Gof Lyfrau yno gyda ac Henadwriaethau eraill, a weith-

weithredwyd yn amſer Brenin *Agbarus*, ac ddiogelwyd byd y dydd heddyw; Ac ni wn ni Reſwm yn y byd, pa ham nas rhoddem i chwi y Llythyrau eu hunain, megis ac y ſcrifennwyd hwy allan o'r Cof Lyfrau au Cyfieithu genin o'r Jaith *Syriaeg*.

Llythyr Brenhin Agbarus *at ein* Jachawdwr.

AGbarus Llywydd *Edeſſa* at Jeſu ein Jachawdwr dâ yn ymddangos ei hûn *Yng-Haerſalem* yn danfon Annerch. clywais am danat ac am y ymwared ar Jachâad a wnaethoſt, heb Feddeginiaethau a llyſieuau, Canys y Gair ſydd allan, gwnaethoſt ir deillion weled, i'r cloffion gerdded glanhae y Gahangiwyſus, bwraiſt allan yſprydion drwg a'r diawlaid, i'r hir anwyfus adferaiſt eu cyflawn jechyd, ac adgyfodaiſt y meirw i fywyd. pan y clywſwn yr hanes ryfeddol hwn am danat, bwriadais yn fy Meddwl, un o'r ddau beth yma, ar Dy fod ti naill ai yn Dduw yn Dyfod o'r Nefoedd, i gyflawni y pethau hyn, neu yn Fab Duw, yr hwn tydd yn peri y pethau, ddigwyddo. O herwydd pa ham, yr ydwyf yn ymbil trwy 'r Llythyrau hyn ar i ti gymmeryd y blinder arnat i ddyfod allaf, ac im jachau am cletyd poenus, yr hwn ſydd yn i'm gofidio yn dôſt iawn. Clywais hefyd gwrygnach o'r Iddewon yn dy erfyn di; gan chwenychu dy ladd, y mab yma gennit Ddinas fechan, ac Oneſt, yr hon a'n bodlona ni ein diwedd.

Atteb ein Jachawdwr i Agbarus.

BEndigedig wyt ti *Agbarus*, o herwydd credu o honot yno fi, pan ni welaiſt mo honof, canys ſcrifennwyd am danafi, na chred rhai a'm gwelant ynnofi, a rhai na'n gwelant. allant gredu â bod yn gadwedig; Herwydd y peth a ſcrifenaiſt at a fi, ar ini neges iw cael eu cyflawn

cyflawni yma, ac yn ôl cyflawni o honynt, bydd i mi ddymchwelyd yn ôl drachefn at yr hwn am danfonodd; eithr yn ôl fy Nerchafiad danfonaf un o'm Disgyblion attat, yr hwn a'th ymweryd di o'th glefyd, ac a edfryd fywyd i ti, a'r rheiny a fydd gyd a thi.

Eusebius a sicerhâ gyfieithu o hono y Llythyrau hyn o Gof-Lyfrau *Edessa* scrifennedig yn Jaith *Syriaeg*, yn y rhain yn canlyn, Ar i *Judas* yr hwn a elwir. Hefyd yn *Thomas*, yn ol derchafn o'n Jachawdwr, ddanfon *Thaddeus* yr Apostol un o'r dêg a thrigain atto ef, yr hwn pan y daethai yno, a ymarosodd gyd ac un *Tobias* Fab *Tobias*; pan aeth y Gair allan ar lêd am dano, a gwneuthur o hono ei hun yn gyhoedd trwy 'r Gwrthiau a wnaethai efe, er hyspysrwydd i *Agbarus*, ddyfod o *Thaddeus* Apostol yr Jesu, am yr hwn scrifennasai ef yn ei Lythyr. A dechreu o *Thaddeus* hwn trwy allu Duw Jachau pôb Clefyd ac anhwyl, nes synnu yn ddirfawr ar bawb: *Ac Agbarus* yn clywed y Galluog a rhyfeddol Weithredodd a wnaeth efe, a iachau o hono yn Enw a Gallu, yr Jesu a sicerhawyd mai hwn oedd ef, am ba un a scrifenasai 'r Jesu. Gan ddywedyd; yn ôl fy Nesgyniad, danfonaf un o'm disgyblon attat ti, yr hwn a jachâa dy Glefyd. yno danfonodd am *Tobias* gydair hwn i'r oedd *Thaddeus* yn llettŷa, gan ddywedyd ymdeithiodd o rhyw wr galluog gyd a thi yr hwn a ddaethai o *Gaersalem*, ac yn jachau llawercedd yn Enw'r Jesu. Attebodd *Tobias*, ie fy Arglwydd, fe ddaeth rhyw wr dieithr ac y lettyodd yn fy Nhŷ, yr hwn a wnaeth lawer o bethau Rhyfeddol: A'r Brenin a Lefarodd, duawch ef yma atta fi. A *Thobias* yn dychwelyd yn ôl at *Thaddeus*, a ddyweddodd wrtho, *Agbarus* y Llywydd a ddanfonodd am danaf ac orchmynodd i mi dŷ ddwyn di atto ef, mal yr iacheit ei glefyd ef, Attebodd *Thaddeus* mi â canys er ei fwyn ef danfonwyd fi yn y modd yma i weithredu yn Alluog, a *Thobias* yn cytodi yn fore y dydd nessaf aeth gyd ac ef at *Agbarus*; Mal i'r oedd efe yn dyfod i mewn ar y cyntedd, wynebpryd *Thaddeus* ymddangosodd yn Ogoneddus iawn i *Agbarus* yngwydd ei Benaethiaid, Ar hyn rhoddes y Brenhin gymmaint a barch iddo, nes rhyfeddu or holl rai oedd yno canys nis gwelodd neb o honynt yr Ogoniant ond *Agbarus* ei hun yn unig, yr hwn a

ym-

ymddadleuodd a *Thaddeus*, gan ddywedyd, ai ydwyt ti mewn gwirionedd Ddiſgybl Jeſu Mâb Duw, yr hwn a wnaeth yr addewyd yma i myfi, Danfonaf un o'm Diſgyblon, attat ti yr hwn a'th jachâa di o'th glefyd, ac y ddengys fywyd i'ti a'th holl eiddo? Attebodd *Thaddeus*, a herwydd credu o honot yn fawr yn yr Arglwydd Jeſu, yr hwn a'm danfonodd, oblegid hynny i danfonwyd i attai ti, ac od wyt ti yn parhâu i gredu ynddo, mwynhêi dy ddymunol Ddefyfiad yn ôl dy ffydd; *Attebodd*, credais ynddo ef môr ddiogel, nes ewyllyſio o honof a chlywn ar f' nghalon lwyr diſtrywio 'r Juddewon, am i Groeſhoelio ef, oni buaſſai i ymherodraeth *Rhufain* fod yn rhwyſtyr i'm hancanion, eithr *Thaddeus* a ddywedodd, cyflawnodd ein Harglwydd Ddu'w Jeſu Grift ewyllys ei Dâd, yn ol terfynu o hono hynny, derchafodd atto ef; Attebodd *Agbarus*, credais ynddo ef ai Dâd; O herwydd hynny ebr *Thaddeus*, yn Enw 'r un rhyw Arglwydd Jeſu, gofodaf f' nwylaw arnat: Yn ôl gwneuthur o hono hyn, jachâodd efe yn ddidorr o'i glefyd ac ai gwaredodd ef oi holl flinder y rhai ai gofudiai ef yn dôſt. Oblegid hyn fynodd ar *Agbarus*, ac megis ac y mynegwyd am Jeſu; felly efe a welodd fôd y peth yn wîr, trwy ei ddiſgybl ai Apoſtol *Thaddeus*. Ar gael o hono ei jachâu heb rinwedd Llyſſieuau a meddyginiaethau, ac nid yn unig efe, eithr hefyd *Abdus* Fâb *Abdus* yn flinderus gan y Gymalwft, yr hwn gan fyrthio wrth draed *Thaddeus*, yr un wedd jachâwyd llaweroedd oi gyd Ddinafyddion, ac y wnaeth bagad o Ryfeddodau, gan Bregethu Gair Duw.

Yno yr aeth *Agbarus* rhagddo yn ei ymddadleu ac ef, gan ddywedyd tydi *Thaddeus* trwy allu Duw a wnaethoft y pethau hyn, ac yr ydym ni yn dy fawrygu di, yr ydwyt yn erfyn arnat ti oblegid hynny egluro o hynot i ni Ddyfodiad Jeſu; pa 'r fôdd a gwnaed efe yn Ddŷn, a thrwy ba allu a nerth y daeth efe a'r cyfryw bethau, y rhai a glywſom ni, i ddigwyddo; ar y cyfamſer yma, ebr *Thaddeus*, tawaf Sôn, er fy Nanfon i Bregethu 'r Gair, eithr y foru, ymgynull dy bobl ath' Ddinafyddion eu gŷd ynghŷd, ac yno Pregethaf âc y ddangoſaf iddynt Air Duw, ac a heuaf Air y bywyd, ac y ddyſgaf iddynt y wedd o'i Ddyfodiad, pa fodd gwnaed efe yn ddŷn,

ac

ac am ei gennadwri ef, ac i ba oddeu y danfonwyd ef oddiwrth y Tad, ac am ei Wrthiau ai Ddirgeledigaethau hyſpyſedig i'r Bŷd, ai allu i beri llawer o bethau i ddigwyddo; hefyd ei Bregethad newydd, ac môr iſel, gwael a gyſtyngedig yr ymddangoſai ei hun oddiallan, mal yr ymoſtyngodd efe ei hun, bu farw ac a orchguddiodd ei dduwdod, pa bethau trymion a addefodd gan'r Juddewon, mal y croeſhoeliwyd ef, ac y Ddeſcynodd i Uffern, ac y rwygodd y clawdd a'r canol fur, yr hon ni wahanwyd erioed o'r blaen, ac yr adgyfododd y Meirw, rhai a hunaſant yn hir o'r blaen, mal y deſgynodd ef ynſunig, eithr derchafodd ei hun at y Tâd yn gyfeilleddiga llawer oedd eraill, mal y mae efe yn Eiſtedd ar ddeheulaw Dduw Tâd yn y Nefoedd, ac yn ddiweddaf, mal y daw efe drachefn gyd a gogoniant a gallu i farnu'r byw a'r Meirw.

Pan ddaeth y Boreu, gorchymynnodd *Aebarus* iw Ddinaſyddion ymgynnull i glywed Pregeth *Thaddeus*, yn ol terſynu o honi, Gorchymmynodd roddi iddo Aur bathedig ac anfathedig, eithr efe ni dderbyniodd ddim ohonynt, gan ddywedyd, yn gymaint ac ymwrthod o hŏnom a'n heiddo'n hunain, pa ſodd y gallwn dderbyn eiddo rhai eraill.

Y pethau hyn a ddigwyddaſant medd *Euſebius*. yn y drydydd flynedd a deugain, yn ôl Crîſt, y rhai a gyfeithwyd Air yngair o'r Jaith *Syriaeg*, ac welodd a yn lleſol eu cyhoeddi.

Epiſtol St PAUL *yr Apoſtol at y Laodiceaid*

1. PAUL Apoſtol, nid o Ddŷn, na thrwy Ddŷn, eithr trwy *Ieſu Criſt*

2. At y Brodyr y rhai Sy'n *Laodicea* Gras a thangnheddyf a fyddo i chwi oddiwrth Dduw 'r Tad, ar Arglwydd *Ieſu Criſt*,

3. Yr wy'n diolch iti fy Nuw yn fy holl Weddiau, ar i chwi ymgadw yn ddiyſgog yndde ei ai holl weithredoedd; gan hyderu ar ei Addewydion ef hyd Ddydd y Farn.

4. Na chymmerwch eich cam dwyſo gan rai Annheilwng Siaradus, y rhai Sy'n rho

dio

dio oddiamgylch i geisio 'ch llithio oddiwrh yr Efengyl a Pregethais i ichwi.

5 Oh na bae i'r rhai a Athrawiaethwyd geni fod yn wasanaethgar er lleshâd Efengyl y Gwirionedd, a bod yn ddiwyd mewn Gweithredoedd da i Fywyd tragywyddol.

6 O hyn allan, y mae fy rhwymau gwedi 'u amlygu, y rhai a ddioddfais er mwyn *Christ*

7. Gan hynny yrwy 'n llawennychu'n ynghalon, ac yn ei gyfri' ef yn Jechydwriaeth.

8. Fod y oyfryw wedi i wneud trwy 'ch Gweddiau, trwy weithrediad yr Yspryd glân, pa un bynnag ai trwy Fywyd ai Angau.

9. Canys y mae geni ewyllys, a llawen yw geni Farw Yng Hrist, yr hwn trwy 'r un Drugaredd a roddo i chwi 'r unrhyw Gariad, ac i fod o'r un meddwl,

10. Gan hynny syngharedigol Frodyr, fel y clywsoch chwi yn fyngwydd, cedwch hyd y diben yn ofn Duw, felly chwi a gewch Fywyd Tragywyddol, Canys Duw a'i gweithia, ac ai perffeithia ynoch ynddi ymaros.

11. Fyngharedigon Llawenychwch yn yr Arglwydd; gochelwch y rhai sydd au deisyfiadau yn ol budr Elw.

12. Bydded eich Gweddiau yn ddiogel ar Dduw, ac ymgedwch mewn disigl wybodaeth o Grist.

13. Gwnewch y peth sydd addas, Cymmedrol, uniawn a rhesymmol, a'r peth y gl[illegible]soch ac a dderbyniasoch, cedwch hynny yn eichcalonnau, a chwi a gewch glôd.

14. Grâs ein Harglwydd Jeiu Grist, a fyddo gyda chwi.

Pernwch Darllenwch yr Epistol hwn i'r Colossiad, *a darllenwch hwnnw sy wedi'i 'scrifennu at y* Colosiad.

Yr Epistol hwn o Eiddo *Paul* a gafwyd yn y a Bibl hyna a Argraphwyd yn *NinasWorms* Ardderchog yn *Germania*, Darllen. *Col.* 4. 16. Ac wedi Darllain yr Epistol hwn gyda â chwi, perwch ei Ddarllen hefyd yn Eglwys y *Laodiceaid*: A Darllen o honoch chwithai yr un o *Laodicea*.

Yng-

Ynghylch Marwolaeth Paul *yr Apostol.*

A RApostol *Paul* wedi ei ddanfon yn Rhwymedig gan *Nero* at *Longinus*, a *Magistus* y Penswyddogion ac Acestus y Canwriad, gan ei a wain ef or [illegible] allan i'r Ddinas, i dorri ei Ben; a Phaul yn llawn o'r Ysprydd [illegible], a Lefarodd eiriau Bywyd Tragwyddol, fel y [illegible] *Nero* a phawb eraill gredu yn Jesu Grist, yr hwn [illegible] Brenhin Nêt a Daiar, yr hwn a Anrheithia Ogoniant y Byd, a phan ddygasant hwy ef allan, *Longinus*, *Magistus* ac *Acestus* a ddechreuodd ddywedyd wrtho, Dywed i ni a *Paul*, ym mhale y mae y Brenhin hwnnw. ac ym mhale'r ymddengys ef i ni? A pha fodd yr Adwaenoch ef? A phech a rydd ef i chwi? Pa fuddneu Ddajoni a wna ef chwi Gristnogion, a chwithai yn ei garu ef cymmaint, ac na chydsyniwch chwi mewn ffordd yn y Byd a'n Crefydd ni, fel y galloch chwi fyw, a meddiannu lleshad y Bywyd hwn, Eithr yn amgenach na holl lawenydd a hyfrydwch, y dewiswch gael eich arwain i Farwolaeth o'i achos ef, Arteithiau a Thrallodion; Y peth sy 'n ymddangos i ni yn Fai mawr, i gashau Llawenydd y Bywyd hwn, ac ymgôfleidio a'ch holl Ddymuniant, Cospedigaeth, a Marwolaeth? *Paul* gan hynny a ddywedodd, o chwi wyr Doethion, ac sy 'n blodeuo mewn Gwybodaeth, Ewch allan o Dywyllwch a chamsyniad, lle y mae holl Ardderchowgrwydd eich Gwybodaeth tan Gwmmylau mewn tywyllwch, rhag i chwi ganfod y Gwirionedd, yr hyn sy 'n llechu 'n guddiedig yn eich Meddyliau, i'r Tragwyddol ar gwir oleuni, fel y galloch chwi'n gynta gydnabod a chwi 'ch hunain, a felly Ddyfod i wybodaeth or Brenhin hwnnw mewn hyfrydwch, a chael eich achub oddiwrth y Tân sy ddyfod i oresgyn y Byd, ac i fod yn ddifriw; Canys nid ym ni 'n Rhyfela fel yr ydych chwi yn tybiaid tros Frenhin Daiarol, eithr y bywiol Dduw, y Deyrnasa heb drangc, na gorphen; yr hwn o herwydd y Drygioni y wneler yn y Bŷd, efe a ddaw ir Farn, ac a Farna trwy Dan; Dedwydd a fŷdd y Dŷn hwnnw a gredo ynddo ef, efe a gaiff Fywyd Tragwyddol, ac â fydd byw byth; A dedwyddol y fŷdd. Eithr pwy bynnag a ddirmygo Gyfoethogrwydd ei Haelioni, ai Hir ymaros, ac na thry atto ef, Fe a dderfydd am dano yn Dragwyddol.

Cofreſtr or Scrythyrau a grybwyllir am danynt, eithr heb eu cyflen yn y Bibl.

PRophwydoliaeth *Enoch* a grybwyllir yn *Jude* 14. Llyfr *Jehu*. a ſonir am dano yn 2 *Chron.* 20. 34. Llyfr Rhyfeloedd yr Arglwydd a ſonir am dano yn *Num.* 21. 14. Llyfr *Nathan* y Prophwyd, Llyfr Iddo, Prophwydoliaeth *Abijah*, a ſonir am danynt yn 2 *Chron.* 9. 19. Llyfr *Shemaiah* y Prophwyd grybwyllir yn 2 *Chron.* 12. 15. Llyfr *Jaſer*, a Grybwyllid yn 2 *Sam.* 1. 8. Llyfr Gâd, 1 *Chron.* 19. 9. Un Epiſtol at y *Corinthiaid* a grybwyllir yn 1 *Cor.* 5. 9. Yr Epiſtol cynta' at yr *Epheſiaid*. *Eph.* 3. 3. Epiſtol at y *Laodiceaid* a grybwyllir yn Col. 4. 16. Llyfr *Henoch* a grybwyllir am dano yn Mhiſtol *Thaddeus*, Origen, a Thertulian, Llyfrau *Solomon* a Thair Mil o Ddiharebion, ai Fil o Ganiadau, Ai Lyfrau ynghylch Coed, Planhigion, Aniſeiliaid a Phyſgod, a grybwyllir am danynt yn y 1. *Bren.* 4. 32. 33. Epiſtol a Dadwyd ar *Barnabas*, Datcuddiad *Pedr*, Athrawiaeth dau Ecw'r Apoſtolion a grybwyllir am danynt yn Nhrydydd Llyfr *Euſebius* L. 3. *Ch.* 22.

Anwyl Gydwladwyr,

Fe Ddarfu i mi gymmeryd peth poen i lyfnhau'r Jaith ac i gyfleu ymbell Air yn nes i Dafodiaith Gwynedd nag y gwnaethai'r Cyfieithydd, ac hefyd efe a adawodd amryw fannau o'r Llyfr hebei Gyfieithu, ſef, y rhann fwya' or Gwiwgoſ Amlygol. Haneſion byrr ynghylch yr Juddewon. *Holl Hanes Gau* Feſſiah *yr* Juddewon *yn* Smyrna, *Helynt yr* Juddewon *yn* Lloegr *yn y Flwyddyn* 1655. *Epiſtol* Paul *at y* Laodiceaid, *ac o hynny i ddiwedd y Llyfr. Beth bynnag oedd meddwl y Cyfieithydd wrth i adel y mannau hynny allan, i'm tyb i ni byddai'r Llyfr ond Cloffac anorphen hebddynt; ac or Achos mi ate Cyfieithiais ac a'i cyfleuais yn eu lleoedd Priodol yn y Llyfr. gan Eich ufudd Waſanaethwr,*

John Rhydderch.

DIWEDD.